

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 14/05/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)  
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)  
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Sigaréts Electronig](#)  
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Electronic Cigarettes](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adfywio](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Regeneration](#)

[Dadl Plaid Cymru: HS2 a Chymru](#)  
[Plaid Cymru Debate: HS2 and Wales](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Parciau Cenedlaethol Cymru: Dychwelyd i'w Gwreiddiau i Gynllunio ar gyfer Dyfodol Cryfach](#)  
[Short Debate: Wales's National Parks: Returning to their Roots to Plan for a Stronger Future](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Questions to the Minister for Finance

### Cyllido Prosiectau Cyfalaf

### Financing Capital Projects

13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido prosiectau cyfalaf yng Nghymru? OAQ(4)0395(FIN)

1. Will the Minister make a statement on financing capital projects in Wales? OAQ(4)0395(FIN)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Last week, I announced a £1 billion programme of innovative investment to finance capital projects. So, this Government has boosted investment in infrastructure by around £2.7 billion since the publication of the Wales infrastructure investment plan in 2012.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais raglen gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad arloesol i ariannu prosiectau cyfalaf. Felly mae'r Llywodraeth hon wedi rhoi hwb o tua £2.7 biliwn i fuddsoddiadau yn y seilwaith ers cyhoeddi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn 2012.

13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that response, Minister. In your statement last week, you committed to reporting on value for money delivered from these particular schemes. Can you tell us what specific mechanisms you have introduced to monitor value for money from any spending proposals, and how is the Welsh Government ensuring that real outcomes are being delivered as a result of these infrastructure investments?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, ymrwymasoch i adrodd ar werth am arian y cynlluniau penodol hyn. A allwch ddweud wrthym pa drefniadau penodol rydych wedi'u cyflwyno i fonitro gwerth am arian y cynigion gwariant a sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canlyniadau gwirioneddol yn deillio o'r buddsoddiadau hyn yn y seilwaith?

- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Clearly, in terms of my announcement last week, it was £500 million through the new non-dividend investment model route. Clearly, we have been working towards the point where I could make that announcement, where we were confident about value for money. I am confident, of course, about the model that we are progressing, and, of course, this links very closely to our programme for government, not only in terms of strategic objectives and the Wales infrastructure investment plan, but also in terms of the outcomes. Of course, the outcomes, in terms of the cancer centre, and, indeed, the A465 completion of the Heads of the Valleys road, are clear.
- Yn amlwg, o ran fy nghyhoeddiad yr wythnos diwethaf, roedd yn £500 miliwn drwy fodel newydd buddsoddiad nad yw'n ddfidend. Yn amlwg, rydym wedi bod yn gweithio tuag at y pwynt lle gallwn wneud y cyhoeddiad pan fyddem yn hyderus ynglŷn â gwerth am arian. Rwy'n hyderus, wrth gwrs, ynglŷn â'r model rydym yn ei ddatblygu ac wrth gwrs, mae hyn yn cysylltu'n agos iawn at ein rhaglen lywodraethu, nid yn unig o ran amcanion strategol a'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ond hefyd o ran y canlyniadau. Wrth gwrs, mae'r canlyniadau, o ran y ganolfan ganser, ac yn wir, cwblhau'r A465 (Ffordd Blaenau'r Cymoedd), yn glir.
- 13:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.
- 13:32 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi hawl i fenthg hyd at £500 miliwn i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud yn benodol bod yn rhaid gwario'r arian hwn ar yr M4—neu fersiwn newydd o'r M4. A ydy hi'n rhesymol ac yn deg i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn dweud wrth Lywodraeth Cymru ar beth i wario ei harian cyfalaf?
- The UK Government has given the Welsh Government the right to borrow up to £500 million. However, the UK Government has stated specifically that that money has to be spent on the M4—or a new version of the M4. Is it fair and reasonable for the UK Government to be telling the Welsh Government what to spend its capital moneys on?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Clearly, as I said in my statement last week, in terms of the access to the £500 million, we are awaiting the results of the consultation on the major enhancement of the M4 around Newport. Clearly, once that decision is made, it would feature as an early priority for the deployment of those direct borrowing powers that the UK Government has enabled us to access, through the Wales Bill. Clearly, that is a high priority, but, of course, subject to that all-important consultation.
- Yn amlwg, fel y dywedais yn fy natganiad yr wythnos diwethaf, o ran defnyddio'r £500 miliwn, rydym yn disgwyl canlyniadau'r ymgynghoriad ar y gwelliannau sylweddol i'r M4 o amgylch Casnewydd. Yn amlwg, wedi i'r penderfyniad gael ei wneud, byddai'n un o'r blaenoriaethau cynnar ar gyfer defnyddio'r pwerau benthyca uniongyrchol y mae Llywodraeth y DU wedi ein galluogi i'w cael drwy Fil Cymru. Mae hynny'n flaenoriaeth uchel ond wrth gwrs, byddai'n amodol ar yr ymgynghoriad hollbwysig hwnnw.
- 13:33 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Ond y cwestiwn ydy: ai lle Llywodraeth y Deyrnas Unedig ydy dweud wrth Lywodraeth Cymru, 'Fe gewch chi fenthg arian, ond dim ond ar gyfer y prosiect yma'? Dyna oedd yr amod a oedd ynghlwm—a fedrwch chi gadarnhau hynny?
- However, the question is: is it the place of the UK Government to tell the Welsh Government, 'Yes, you can borrow money, but only for this particular project'? That was the condition attached—can you confirm that?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- This was in the command paper—as you know, Alun Ffred Jones—that was accompanying the Wales Bill. However, there are no surprises that we were seeking early access to borrowing—that was very clearly part of my intergovernmental discussions and negotiations that led to our statement, where the UK Government did indicate that it would be prepared to look at early access to specific infrastructure projects. Of course, that specific infrastructure project was identified as an M4 enhancement project in the command paper.
- Roedd hyn yn y papur gorchymyn—fel y gwyddoch, Alun Ffred Jones—a oedd yn dod gyda Bil Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yn annisgwyl yn y ffaith ein bod yn ceisio gwneud defnydd cynnar o fenthg—roedd hynny'n rhan eglur iawn o fy nhrafodaethau rhynglywodraethol a arweiniodd at ein datganiad, pan awgrymodd Llywodraeth y DU y byddai'n barod i edrych ar ddefnydd cynnar o brosiectau seilwaith penodol. Wrth gwrs, clustnodwyd y cyfryw brosiect seilwaith penodol fel prosiect gwella'r M4 yn y papur gorchymyn.

## Cynllunio Ariannol Tymor Canolig

## Medium-term Financial Planning

13:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig ym mhortffolio cyllid Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0407(FIN)</p>	<p>2. Will the Minister make a statement on medium-term financial planning arrangements within the Welsh Government finance portfolio? OAQ(4)0407(FIN)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Through our financial planning and budget-setting process, we continually assess the potential impact of a range of factors on the Welsh Government's spending plans, including the likelihood of further cuts to our budget.</p>	<p>Drwy ein proses gynllunio ariannol a gosod cyllideb, rydym yn asesu'n barhaus beth fydd effaith bosibl ystod o ffactorau ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru gan gynnwys y tebygolrwydd o doriadau pellach i'n cyllideb.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. Originating from a local authority where we were able to scrutinise the budget process in terms of mid-term financial planning on a regular basis, I do find it somewhat unusual that all Assembly Members are not involved in this particular part of the scrutiny process. As we celebrate 15 years of devolution, is not now the time to ensure that this institution, and all Assembly Members, are empowered to scrutinise the financial workings of the Welsh Government, in a more regular and transparent manner?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. A minnau'n dod o awdurdod lleol lle galleff graffu ar broses y gyllideb o ran cynllunio ariannol tymor canolig ar sail reolaidd, rwy'n ei chael yn anarferol braidd nad yw pob Aelod Cynulliad yn cyfrannu at y rhan benodol hon o'r broses graffu. Wrth i ni ddathlu 15 mlynedd o ddatganioli, oni ddylid sicrhau yn awr fod y sefydliad hwn a holl Aelodau'r Cynulliad yn cael eu grymuso i graffu ar waith ariannol Llywodraeth Cymru mewn modd mwy cyson a thryloyw?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I certainly look forward to the outcome and the recommendations of the Finance Committee's very important inquiry into our budget-setting processes, which we indeed discussed this morning.</p>	<p>Rwy'n sicr yn edrych ymlaen at ganlyniad ac argymhellion ymchwiliad pwysig iawn y Pwyllgor Cyllid i'n prosesau pennu cyllideb, a drafodwyd gennym y bore yma yn wir.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Invest-to-save Funding</b>		<b>Invest-to-save Funding</b>	
13:35	<p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>3. Will the Minister make a statement on the use of Invest-to-Save funding to improve efficiency in public services? OAQ(4)0411(FIN)</p>	<p>3. Will the Minister make a statement on the use of Invest-to-Save funding to improve efficiency in public services? OAQ(4)0411(FIN)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Invest-to-save funding is an integral part of the Welsh Government's strategy to enable a programme of continuous improvement in the efficiency of Welsh public services. I provided a written statement on round 8 of invest-to-save last month.</p>	<p>Mae buddsoddi i arbed yn rhan annatod o strategaeth Llywodraeth Cymru i alluogi rhaglen o welliant parhaus mewn perthynas ag effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Rhoddais ddatganiad ysgrifenedig ar round 8 buddsoddi i arbed y mis diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. I know that you are aware that in the final evaluation report it shows that significant savings can be made from efficiencies in invest-to-save projects—some £3 for every £1 spent. Minister, will you agree with me that this is an interesting contrast to the privatisation of services such as probation and the land registry, when no such analysis was done and the early results from the probation service show an increase in both bureaucracy and inefficiency?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Gwn eich bod yn ymwybodol fod yr adroddiad gwerthuso terfynol yn dangos y gellir sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol mewn prosiectau buddsoddi i arbed—tua £3 am bob £1 a werir. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod hyn yn cyferbynnu'n ddiddorol â phreifeiteiddio gwasanaethau fel y gwasanaeth prawf a'r gofrestrfa tir, pan na wnaed dadansoddiad o'r fath ac mae'r canlyniadau cynnar o'r gwasanaeth prawf yn dangos cynnydd mewn biwrocratiaeth ac aneffeithlonrwydd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There is great concern about the direction of travel in the probation service. Of course, responsibility lies with the UK Government. We can state the case in terms of the impact of those arrangements and services in the Welsh context, particularly in terms of continuity if there are potential new private providers, and how we can sustain and build upon current effective practice. Of course, we know that that market model that is being imposed can lead to disruption and uncertainty.
- Mae pryder mawr ynghylch y cyfeiriad teithio yn y gwasanaeth prawf. Wrth gwrs, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn. Gallwn gyflwyno achos o ran effaith y trefniadau a'r gwasanaethau hyn yn y cyd-destun Cymreig yn enwedig o ran dilyniant os oes darparwyr preifat newydd posibl, a sut y gallwn gynnal ac adeiladu ar arfer effeithiol cyfredol. Wrth gwrs, gwyddom y gall y model marchnad sy'n cael ei osod arwain at aflonyddwch ac ansicrwydd.
- 13:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, Natural Resources Wales was in receipt of invest-to-save funding to reduce its ICT costs. This was a matter that was highlighted as a potential cost area to the merger prior to the formation of NRW, but the target to meet the savings benefits has been pushed back. Will you reassure me that funding supplied through invest-to-save will be fully accounted for and that guarantees will be sought from NRW that the targets will now be met having been pushed back once already and will not become a moveable feast costing the public purse more and more money?
- Weinidog, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyllid buddsoddi i arbed i leihau ei gostau TGCh. Roedd hwn yn fater a amlygwyd fel maes cost posibl i'r uno cyn ffurfio CNC ond mae'r targed ar gyfer cyflawni'r arbedion wedi'i wthio yn ôl. A allwch fy sicrhau y rhoddir cyfrif llawn am y cyllid a ddarperir drwy'r cynllun buddsoddi i arbed ac y gofynnir i CNC warantu y bydd y targedau'n cael eu cyrraedd yn awr ar ôl cael eu gwthio yn ôl unwaith yn barod ac na fyddant yn dod yn wledd symudol sy'n costio mwy a mwy o arian i'r pwrs cyhoeddus?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I can give you assurances because, clearly, in accepting the invest-to-save bid for this all-important merger, we had to ensure that it was going to be able to deliver on the expectations in terms of its profile. I believe that the independent evaluation of our invest-to-save fund, which is very valuable and I know that Members will be aware of my written statement on this, does recognise that we have delivered in terms of the underpinning rationale for the fund and that it is sound. Indeed, it is progressing improvement projects such as that for NRW.
- Gallaf roi sicrwydd i chi oherwydd, yn amlwg, wrth dderbyn y cais buddsoddi i arbed ar gyfer yr uno hollbwysig, roedd yn rhaid inni sicrhau ei fod yn mynd i allu cyflawni disgwyliadau o ran ei broffil. Rwy'n credu bod y gwerthusiad annibynnol o'n cronfa fuddsoddi i arbed, sy'n werthfawr iawn ac rwy'n gwybod y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o fy natganiad ysgrifenedig ar hyn, yn cydnabod ein bod wedi cyflawni o ran y rhesymeg sydd wrth wraidd y gronfa a'i bod yn gadarn. Yn wir, mae'n datblygu prosiectau gwella megis yr un ar gyfer CNC.
- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 13:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, when you carry out an evaluation of an invest-to-save project, can I ask you what other issues you look at apart from the return on the investment? Do you, for example, look at the policy implications and the other impacts that those savings might have on the wider area?
- Weinidog, pan fyddwch yn cynnal gwerthusiad o brosiect buddsoddi i arbed, a gaf fi ofyn i chi pa faterion eraill rydych yn eu harchwilio ar wahân i'r adenillion ar y buddsoddiad? A ydych yn edrych ar y goblygiadau polisi, er enghraifft, ac effeithiau eraill posibl y gallai'r arbedion fod yn eu cael ar yr ardal ehangach?
- 13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for that question from Peter Black because you will be aware that that independent evaluation had a number of purposes, namely, of course, to estimate the savings generated by projects, to provide an estimate of aggregate savings, to assess the impact of the fund and to establish the degree of additionality provided by it.
- Rwy'n ddiolchgar am y cwestiwn gan Peter Black oherwydd byddwch yn ymwybodol fod nifer o ddibenion i'r gwerthusiad annibynnol sef, wrth gwrs, amcangyfrif yr arbedion a gynhyrchir gan brosiectau, darparu amcangyfrif o arbedion crynswth, asesu effaith y gronfa a sefydlu faint o ychwaneged y mae'n ei ddarparu.

13:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. You will be aware, of course, that £3 million of the invest-to-save fund is going to the call centre proposals in South Wales Police, South Wales Fire and Rescue Service and the Mid and West Wales Fire and Rescue Service. That is controversial because there are concerns about the impact on the Welsh language and on back-up. Were those issues taken into account when that money was granted?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod £3 miliwn o'r gronfa buddsoddi i arbed yn mynd at y cynigion sy'n ymwneud â chanolfan alwadau Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru. Mae hynny'n ddadleuol oherwydd bod pryderon am yr effaith ar yr iaith Gymraeg a chymorth wrth gefn. A oedd y materion hynny'n cael eu hystyried pan gafodd yr arian ei roi?

13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

It is very important. Indeed, the Minister for Local Government and Government Business has responded to questions raised on that front because it is very clear that we have to ensure that not only are we taking on board the assurances on Welsh-language provision, but also that the staff and trade unions are fully engaged and that is the expectation for that invest-to-save project.

Mae'n bwysig iawn. Yn wir, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi ymateb i gwestiynau a godwyd ynglŷn â'r mater hwnnw am fod yn rhaid inni sicrhau, nid yn unig ein bod yn ystyried y sicrwydd ynghylch y ddarpariaeth iaith Gymraeg, ond hefyd bod y staff a'r undebau llafur yn cymryd rhan yn llawn a dyna yw'r disgwyl ar gyfer y prosiect buddsoddi i arbed hwn.

13:39 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, as you know I am an enthusiastic supporter of invest-to-save. Have any other public bodies, apart from councils, used their own reserves to support invest-to-save projects, rather than using the Welsh Government scheme?

Weinidog, fel y gwyrddoch rwy'n cefnogi buddsoddi i arbed yn frwd. A oes unrhyw gyrff cyhoeddus eraill, ar wahân i gynghorau, wedi defnyddio eu cronfeydd wrth gefn eu hunain i gefnogi prosiectau buddsoddi i arbed, yn hytrach na defnyddio cynllun Llywodraeth Cymru?

13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I am not aware of reserves being used in that way. In fact there may be risks in that in terms of the important uses of reserves for other organisations and public bodies outside local authorities.

Nid wyf yn ymwybodol fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn y ffordd honno. Yn wir, gall fod risgiau yn hynny o ran y defnydd pwysig o gronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau eraill a chyrrff cyhoeddus y tu allan i awdurdodau lleol.

## Cyllid yr UE 2014-20

## EU Funding 2014-20

13:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gyda swyddogion yr UE ynglŷn â chyllid yr UE 2014-20? OAQ(4)0399(FIN)*

*4. Will the Minister provide an update on her discussions with EU officials regarding EU funding 2014-20? OAQ(4)0399(FIN)*

13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Our discussions with the European Commission on the draft operational programmes for the structural funds in Wales 2014-20, which we have formally submitted for approval, are progressing well.

Mae ein trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar y rhaglenni gweithredol drafft ar gyfer y cronfeydd strwythurol yng Nghymru 2014-20, a gyflwynwyd gennym yn ffurfiol i'w cymeradwyo, yn mynd rhagddynt yn dda.

13:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

As I am sure that you are aware, we all know that it is going to be much more difficult in the future to access structural funds, certainly where the next round of EU funding is concerned. Programmes such as Horizon 2020 have put far greater emphasis on links between funding and research and development and innovation, and rightly so. Programmes like Genesis Cymru Wales 2 clearly fell well short of any standard of official spending. What measures have you put in place to make sure that future EU funding is not wasted in the same way?

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, rydym i gyd yn gwybod ei bod hi'n mynd i fod yn llawer anos cael gafael ar gronfeydd strwythurol yn y dyfodol, yn sicr mewn perthynas â chylch cyllido nesaf yr UE. Mae rhaglenni fel Horizon 2020 wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar gysylltiadau rhwng arian ac ymchwil, datblygu ac arloesi, ac mae hynny'n briodol. Yn amlwg, methodd rhaglenni fel Genesis Cymru 2 â chyrraedd yn agos at unrhyw safon o wariant swyddogol. Pa gamau rydych wedi'u rhoi ar waith i sicrhau nad yw cyllid yr UE yn y dyfodol yn cael ei wastraffu yn yr un ffordd?

13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I know that the Member will have welcomed the report from the Wales Audit Office on the management by the Welsh European Funding Office of our funds, and it is clear that that will help us. Indeed, all the preparations for the planning for the next round will, of course, learn the lessons as well as reflect on the positive lessons learnt from the first and second rounds. However, let me also say that we are working hard with the special unit for Horizon 2020 to ensure that our universities and businesses and research and innovation promoters are working together to secure some of that €79 billion.

Gwn y bydd yr Aelod wedi croesawu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reolaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o'n cronfeydd ac mae'n amlwg y bydd hynny'n ein helpu. Yn wir, bydd yr holl baratoadau cynllunio ar gyfer y cylch nesaf, yn dysgu'r gwersi yn ogystal â myfyrio ar y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o'r cylch cyntaf a'r ail. Fodd bynnag, gadewch i mi ddweud hefyd ein bod yn gweithio'n galed gyda'r uned arbennig ar gyfer Horizon 2020 er mwyn sicrhau bod ein prifysgolion, ein busnesau a'n hyrwyddwyr ymchwil ac arloesi yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau rhywfaint o'r €79 biliwn hwnnw.

13:41 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You mentioned Horizon 2020. Are you able to tell us how many small and medium-sized businesses in particular are able to participate in the bids for innovation and research funding, and are you able to provide any actual expenditure figures for that particular scheme?

Soniasoch am Horizon 2020. A allwch ddweud wrthym faint o fusnesau bach a chanolig eu maint yn benodol sy'n gallu cymryd rhan yn y ceisiadau am gyllid arloesedd ac ymchwil ac a allwch roi ffigurau gwariant gwirioneddol ar gyfer y cynllun penodol hwnnw?

13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am certainly happy to come back and report on progress so far with Horizon 2020, particularly in terms of engagement with SMEs. Also, we have a fund to support SMEs, not only to get bids together, but to enable them to form partnerships. That is a key part of the transnational partnership approach.

Rwy'n sicr yn hapus i ddod yn ôl ac adrodd ar gynnydd hyd yn hyn ar Horizon 2020 yn enwedig o ran ymgysylltiad â busnesau bach a chanolig. Hefyd, mae gennym gronfa i gefnogi busnesau bach a chanolig, nid yn unig i lunio ceisiadau, ond er mwyn eu galluogi i ffurfio partneriaethau. Mae hynny'n rhan allweddol o'r dull partneriaeth trawswladol.

## Buddsoddiad Cyfalaf

## Capital Investment

13:42 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad cyfalaf yn ardal Môn a Menai? OAQ(4)0409(FIN)*

*5. Will the Minister make a statement on capital investment in the Môn and Menai area? OAQ(4)0409(FIN)*

13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Wales infrastructure investment plan sets out our priorities for capital investment across Wales, including the Môn a Menai area.

Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf ar draws Cymru, gan gynnwys ardal Môn a Menai.

13:42 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Fe fues i'n ddigon ffodus i fod yn bresennol yn ddiweddar yn agoriad swyddogol adeilad Pier y Tywysog ym Mhorthaethwy a fydd yn datblygu maes o law i fod yn amgueddfa yn dweud hanes rhyfeddol y pontydd ar draws y Fenai. Mae diolch i'r Llywodraeth am sicrhau'r cyllid cyfalaf o gronfeydd adfywio Môn a Menai tuag at gwblhau'r prosiect hwnnw. A all y Gweinidog rhoi sicrwydd y bydd rhagor o gyfleoedd am fuddsoddiadau cyfalaf o'r math hwn mewn adnoddau twristaidd fel hyn, gan gynnwys arian cyfalaf i gwblhau'r prosiect penodol hwn a fydd yn goron ar ddatblygiad diweddar Porthaethwy?

I was fortunate to be present recently at the official opening of the Prince's Pier building in Menai Bridge, which will develop in due course to be a museum telling the incredible stories of the bridges across the Menai. I thank the Government for securing the capital funding from Môn a Menai regeneration funds for the completion of that project. Can the Minister give us an assurance that there will be further opportunities for capital investments of that kind in tourism resources such as this, including capital funds to complete this specific project, which will be the crowning glory of the recent developments at Menai Bridge?

13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly the Welsh Government has demonstrated its commitment, as you say, in terms of that all-important development. Clearly, we need to ensure that that is continued in terms of Môn a Menai's economic needs. May I also say how pleased I was to visit Amlwch last week to see the £1.1 million redevelopment of the former slaughterhouse site, to provide much-needed high-quality affordable homes for local residents? It is, across the board, a holistic approach to infrastructure and investment.

Yn amlwg mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad, fel y dywedwch, o ran y datblygiad hollbwysig hwn. Yn amlwg, mae angen inni sicrhau bod hynny'n parhau o ran anghenion economaidd Môn a Menai. A gaf fi ddweud hefyd pa mor falch yr oeddwn o gael ymweld ag Amlwch yr wythnos diwethaf i weld aiddatblygiad gwerth £1.1 miliwn hen safle'r lladd-dy a fydd yn darparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel a mawr eu hangen i drigolion lleol? Drwyddi draw, mae'n ymagwedd gyfannol tuag at seilwaith a buddsoddiad.

13:43 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The north Wales ambition board has appointed a connectivity project manager, based in Denbighshire county, but working across the six north Wales counties, looking primarily at rail modernisation across north Wales from Crewe to Holyhead, but also very much at capital investment in Môn a Menai. How will you ensure that the task force appointed by the Welsh Government, looking at north Wales transport and chaired by a colleague who is sitting to your right at the moment, will liaise with the north Wales ambition board in order to maximise the potential for that capital investment in that rail connectivity across north Wales to Anglesey?

Mae bwrdd uchelgais gogledd Cymru wedi penodi rheolwr prosiect cysylltedd sydd wedi'i leoli yn Sir Ddinbych, ond mae'n gweithio ar draws chwe sir gogledd Cymru, gan edrych yn bennaf ar foderneiddio rheilffyrdd ar draws gogledd Cymru o Crewe i Gaerdybi, ond mae'n mynd i fod yn rhoi cryn ystyriaeth i fuddsoddi cyfalaf ym Môn a Menai. Sut y byddwch yn sicrhau bod y tasglu a benodwyd gan Llywodraeth Cymru i edrych ar drafnidiaeth gogledd Cymru ac sy'n cael ei gadeirio gan y cydweithwr sy'n eistedd ar eich llaw dde ar hyn o bryd, yn cysylltu â bwrdd uchelgais gogledd Cymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y buddsoddiad cyfalaf yn y cysylltedd rheilffyrdd ar draws Gogledd Cymru i Ynys Môn?

13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that question because I have also met with the north Wales ambition board and have liaised closely, not only with my colleague the Minister for Local Government and Government Business, but also with my colleague the Minister for Economy, Science and Transport. It is critical that this is a joined-up Government approach to the north Wales ambition board, particularly in relation to transport links.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw gan fy mod hefyd wedi cyfarfod â bwrdd uchelgais gogledd Cymru ac wedi cysylltu'n agos, nid yn unig gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ond hefyd gyda fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae'n hanfodol fod hon yn ymagwedd gydgyssylltiedig ar ran y Llywodraeth tuag at fwrdd uchelgais gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chysylltiadau trafnidiaeth.

## Prosiectau Seilwaith Mawr

13:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*6. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid ar gyfer prosiectau seilwaith mawr? OAQ(0406)(FIN)*

*6. What discussions has the Minister held with the UK Government regarding funding for major infrastructure projects? OAQ(4)0406(FIN)*

13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have regular discussions with UK Government Ministers about support for major Welsh infrastructure schemes.

Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â chymorth i gynlluniau seilwaith mawr Cymru.

13:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n dod yn fwyfwy clir bod mynediad cynnar at fenthycia ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, yn enwedig ar gyfer prosiect yr M4 newydd, yn mynd i fod yn ddibynnol ar benderfyniadau yn San Steffan ynghylch a fydd prosiect yn dderbyniol ai peidio. A wnewch chi gadarnhau mai Llywodraeth Cymru a fydd yn penderfynu a fydd benthycia ar gyfer M4 newydd, os mai dyna yw'r bwriad, ac nid oes a wnelo San Steffan o gwbl â'r broses hon?

It is becoming more and more clear that early access to borrowing for major infrastructure projects, particularly for the new M4 project, is going to be dependent upon decisions taken in Westminster as to whether that project is acceptable or not. Will you confirm that it is the Welsh Government that will decide whether borrowing for a new M4 will take place, if that is the intention, and that there is no involvement by Westminster at all in that process?

13:45

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I would like to assure the Member, and other Members, in relation to this point, that this early access to borrowing is confined in the command paper to an M4 project, should it go ahead. It is in the command paper, but I think that it is again very important that I refer back to my statement of last week, in which I said very clearly that the results of a consultation on the major enhancement of the M4 are currently being considered, and a decision is being expected this summer. It will feature as an early priority for deployment of our direct borrowing powers. I made that point last week. We did, as I said, call for early access to borrowing; we waited a long time for the response from the UK Government to the Silk commission, if you recall, and we were impatient to get on with getting access to borrowing powers. The agreement was that it would be linked by the UK Government, just for early access—not for our borrowing powers. It is quite clear that the borrowing powers that we will get through the Wales Bill will be for the Welsh Government in terms of our Wales infrastructure investment plan.

Unwaith eto, hoffwn roi sicrwydd i'r Aelod, ac Aelodau eraill, mewn perthynas â'r pwynt hwn, fod mynediad cynnar at fenthycia yn cael ei gyfyngu yn y papur gorchymyn i brosiect yr M4 os yw'n digwydd. Mae hynny yn y papur gorchymyn ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn unwaith eto i mi gyfeirio'n ôl at fy natganiad yr wythnos diwethaf lle'r oeddwn yn dweud yn glir iawn fod canlyniadau'r ymgynghoriad ar y gwelliannau sylweddol i'r M4 dan ystyriaeth ar hyn o bryd a disgwylir penderfyniad yn yr haf. Bydd yn flaenoriaeth gynnar ar gyfer defnyddio ein pwerau benthycia uniongyrchol. Gwneuthum y pwynt hwnnw yr wythnos diwethaf. Fel y dywedais, galwasom am fynediad cynnar at fenthycia; disgwylasom yn hir am ymateb gan Lywodraeth y DU i'r comisiwn Silk, os cofiwch, ac roeddem yn awyddus iawn i fynd ati i gael mynediad at bwerau benthycia. Yr hyn a gytunwyd oedd y byddai'n cael ei gysylltu gan Lywodraeth y DU ar gyfer mynediad cynnar yn unig—nid ar gyfer ein pwerau benthycia. Mae'n eithaf amlwg y bydd y pwerau benthycia y byddwn yn eu cael drwy Fil Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the opposition spokesperson, Paul Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In her recent statement on capital projects, the Minister outlined how borrowing powers would be partially used. Given that the Welsh Government will have a borrowing limit, can the Minister tell us how she is forward planning to ensure that there is adequate flexibility in the Welsh Government's future capital budgets?

Yn ei datganiad diweddar ar brosiectau cyfalaf, amlinellodd y Gweinidog sut y byddai pwerau benthycia'n cael eu defnyddio'n rhannol. O ystyried y bydd gan Lywodraeth Cymru derfyn benthycia, a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae'n cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd digonol yng nghyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, we have direct capital funding. We now have borrowing powers, and we also have, as I announced last week, opportunities to access a non-dividend investment model. So, it is a package, and we must look at capital as a whole in terms of the way in which we are going to fund our Wales infrastructure investment plan. That is the key strategic vehicle, with the priorities laid out in it, and the pipeline for taking forward our opportunities for the use of borrowing powers.

Yn amlwg, mae gennym arian cyfalaf uniongyrchol. Erbyn hyn, mae gennym bwerau benthycia ac fel y cyhoeddais yr wythnos diwethaf, mae gennym gyfleoedd hefyd i gael mynediad at fodel buddsoddi nad yw'n ddfidend. Felly mae'n becyn, a rhaid inni edrych ar gyfalaf yn ei gyfanrwydd o ran y ffordd rydym yn mynd i gyllido ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Dyna'r cyfrwng allweddol strategol sydd â'r blaenoriaethau wedi'u nodi ynddo a'r dull o ddatblygu ein cyfleoedd ar gyfer defnyddio pwerau benthycia.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In last week's infrastructure investment statement, the Minister confirmed that one of the goals of the infrastructure investment plan was to supplement traditional funding with innovative approaches. Given the Welsh Government's commitment to deliver innovative finance schemes, can the Minister now confirm how much private money the Welsh Government has already levered in in total to fund some of the plan's projects?

Yn ei datganiad yr wythnos diwethaf ar fuddsoddi yn y seilwaith, cadarnhaodd y Gweinidog mai un o amcanion y cynllun buddsoddi yn y seilwaith oedd ychwanegu dulliau arloesol i ategu cyllid traddodiadol. O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynlluniau cyllid arloesol, a all y Gweinidog gadarnhau yn awr faint o arian preifat y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i ddenu i ariannu rhai o brosiectau'r cynllun?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the projects that I announced last week, namely the £500 million for the cancer centre and, indeed, completion of the Heads of the Valleys road, the estimate of the costs of that are the result of business planning. I will certainly want to be informing and advising colleagues on how we will access that, through the finances and through the sources. However, we know, as I said last week, that, in terms of the debt repayment, that will form part of our revenue costs for those projects.

O ran y prosiectau a gyhoeddais yr wythnos diwethaf, sef £500 miliwn ar gyfer y ganolfan ganser ac yn wir, ar gyfer cwblhau ffordd Blaenau'r Cymoedd, mae'r amcangyfrif o gostau'r gwaith hwnnw yn deillio o gynllunio busnes. Byddaf yn sicr yn awyddus i hysbysu a chynghori cydweithwyr ynglŷn â sut y byddwn yn cael mynediad at yr arian hwn, drwy'r trefniadau ariannol a thrwy'r ffynonellau. Fodd bynnag, fel y dywedais yr wythnos diwethaf, o ran ad-dalu dyledion, gwyddom y bydd hynny'n rhan o'n costau reffeniw ar gyfer y prosiectau hynny.

13:49 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod cwtdogi ar y cynllun gwreiddiol i ddyblu'r rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam. Mae pwysau ychwanegol ar y rheilffordd yno oherwydd un o'r prosiectau mwyaf yn y gogledd ar gyfer seilwaith carchar Wrecsam. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y pwysau ychwanegol a fydd ar y gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal, gan gynnwys y rheilffordd?

Minister, the Welsh Government had cut to back on the original scheme to double the railway between Wrexham and Chester. There is additional pressure on that line because of one of the biggest projects in north Wales, namely the Wrexham prison infrastructure. Have you had any discussions with the UK Government about the additional pressure on public services in the area, including the rail line?

13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have not, but I am sure that my colleague the Minister for Economy, Science and Transport will have done so.

Nac ydw, ond rwy'n siŵr y bydd fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, wedi cael trafodaethau o'r fath.

## Y Portffolio Tai ac Adfywio

## The Housing and Regeneration Portfolio

13:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllideb i'r portffolio Tai ac Adfywio? OAQ(4)0408(FIN)*

*7. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the Housing and Regeneration portfolio? OAQ(4)0408(FIN)*

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei phrif ystyriaethau wrth ddyrannu'r gyllideb i'r portffolio Tai ac Adfywio? OAQ(4)0396(FIN)*

*10. Will the Minister outline her main considerations when allocating the budget to the Housing and Regeneration portfolio? OAQ(4)0396(FIN)*

13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Presiding Officer, I understand that you have given permission for questions 7 and 10 to be grouped.

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 7 a 10 gael eu grwpio.

As set out in the final budget approved by the National Assembly in December, the budget allocation for housing and regeneration stands at nearly £465 million.

Fel y nodwyd yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr, dyraniad y gyllideb ar gyfer tai ac adfywio yw bron i £465 miliwn.

13:50 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There has been much financial support given to bring back the many thousands of our empty homes in Wales, and this is working in some areas, but my question is in relation to the number of empty shops across our high streets and town centres, and whether you have any plans at all to look at ways to regenerate our town centres in the same way. If these shops are brought back, the receipt of some business rates makes it a win-win process. Minister, would you consider looking at setting aside some funding for our communities and local authorities in order to bring these shops back to life?

Rhoddwyd llawer o gefnogaeth ariannol tuag at ddoed â'r miloedd lawer o gartrefi gwag yng Nghymru yn ôl i ddefnydd ac mae hyn yn gweithio mewn rhai ardaloedd, ond mae fy nghwestiwn yn ymwneud â nifer y siopau gwag ar y stryd fawr ac ynghanol ein trefi ac a oes gennyh gynlluniau o gwbl i edrych ar ffyrdd o adfywio canol ein trefi yn yr un ffordd. Pe bai'r siopau hyn yn dod yn ôl i ddefnydd, byddai derbyn ardrethi busnes yn ei gwneud yn broses lle byddai pawb ar eu hennill. Weinidog, a fydddech yn ystyried neilltuo rhywfaint o arian ar gyfer ein cymunedau ac awdurdodau lleol er mwyn adfywio'r siopau hyn?

13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I am very glad that you welcome the investment that we have made as a Welsh Labour Government in bringing empty homes back into occupation to meet housing need. You will be fully aware of the 'Vibrant and Viable Places' funding, which, indeed, Conwy County Borough Council has benefitted from. A key part of that will be about regeneration of town centres and ensuring that not only empty shops but also residential use in those areas can be regenerated.

Wel, rwy'n falch iawn eich bod yn croesawu'r buddsoddiad a wnaethom fel Llywodraeth Lafur Cymru i ddoed â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd er mwyn diwallu anghenion tai. Byddwch yn ymwybodol o'r cyllid 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi elwa ohono. Bydd rhan allweddol o hynny'n ymwneud ag adfywio canol trefi a sicrhau y gellir adfywio, nid yn unig siopau gwag, ond adeiladau at ddefnydd preswyl yn yr ardaloedd hynny hefyd.

13:51 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you will be aware that Help to Buy-Wales currently only applies to new-build properties, and the construction of new-build properties in rural areas is rare; they are in very short supply. What discussions did you have with the Minister for Housing and Regeneration about extending the scheme to existing properties in rural areas in Wales to help homebuyers in those areas, when setting the budget of the housing and regeneration department?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol fod Cymorth i Brynu Cymru ar hyn o bryd ond yn gymwys ar gyfer eiddo sy'n cael ei adeiladu o'r newydd ac mae gwaith adeiladu eiddo o'r newydd mewn ardaloedd gwledig yn brin; ychydig iawn o eiddo o'r fath sydd ar gael. Wrth osod cyllideb yr adran tai ac adfywio, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio ynghylch ymestyn y cynllun i eiddo sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru er mwyn helpu prynwyr tai yn yr ardaloedd hynny?

13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

This is a question for the Minister for Housing and Regeneration, but I will say that we have put £174.5 million into the Help to Buy-Wales shared equity scheme, and those financial transactions that we have enabled for this scheme will help qualifying homebuyers to purchase those new-build homes with low loan-to-value mortgages.

Cwestiwn i'r Gweinidog Tai ac Adfywio yw hwn ond rwyf am ddweud ein bod wedi rhoi £174.5 miliwn i mewn i gynllun ecwiti a rennir Cymorth i Brynu Cymru a bydd y trafodion ariannol rydym wedi'u galluogi ar gyfer y cynllun hwn yn helpu prynwyr tai cymwys i brynu'r cartrefi hynny sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd gyda morgaeisi benthyciad isel.

## Datganoli Pwerau Ariannol

## The Devolution of Financial Powers

13:52 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*8. Pa gyfarfodydd diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Trysorlys y DU i drafod datganoli pwerau ariannol i Gymru? OAQ(4)0404(FIN)*

*8. What recent meetings has the Minister had with the UK Government Treasury Ministers to discuss the devolution of financial powers to Wales? OAQ(4)0404(FIN)*

13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have regular discussions with the Chief Secretary to the Treasury regarding all financial matters affecting Wales, including the proposed new financial powers in the Wales Bill.

Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch yr holl faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru gan gynnwys y pwerau ariannol newydd a gynigir ym Mil Cymru.

- 13:52 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response. The issue about borrowing powers for the M4, whichever route is chosen, has already been raised in this question time. Is she also having discussions with the Department for Transport about the devolution of the Severn bridge tolls? Is there any progress to report on that?
- 13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I remain in discussions and am answering questions on the detail around the borrowing powers, particularly in relation to options and opportunities, including the M4. Indeed, the Minister for Economy, Science and Transport is engaged in terms of the Severn crossings, and, of course, I am fully informed of those discussions.
- 13:53 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there seems to be some confusion with the messages coming out from the Labour Party about the devolution of income tax powers to Wales. Will you join with me and welcome the Wales Bill, which is bringing that opportunity to Wales for the first time for the devolution of income tax powers? Will you also welcome the steps that have been taken by the UK Government to support borrowing powers here for Wales?
- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have welcomed the Wales Bill. It promises to deliver many of the key financial reforms that have been identified by the Silk commission. I made the point this morning in the Finance Committee how important it is that we have this cross-party consensus, and I hope that we can take this forward. Indeed, as we acquire those powers through the Wales Bill, we will have new capital and revenue borrowing powers, devolved stamp duty, land tax and landfill tax, and it includes provision for a referendum to enable the people of Wales to decide whether they wish to have a Welsh rate of income tax. So, I am pleased that the Wales Bill is progressing, and what is quite clear in terms of the confusion is that there is much confusion, I believe, on your side of the house in terms of many of the aspects of these issues. I would say that the importance, which has been made very clear by the First Minister this week, of securing a fair funding base is something that, across the whole Chamber, we recognise in terms of progressing with those powers.
- 13:55 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn eich datganiad diweddaraf yr wythnos diwethaf, Weinidog, dywedoch eich bod yn bwriadu benthg y cyfan o'r £500 miliwn y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn caniatáu i chi gael mynediad cynnar ato. Sonioch, ac rydym wedi clywed yn barod, am yr M4. Hefyd, rydych yn dweud yn eich datganiad y byddwch yn edrych ar anghenion trafndiaeth gogledd Cymru. A allwch amlinellu, os gwelwch yn dda, pa gynlluniau yr ydych yn eu hystyried yn y gogledd?

13:55

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This goes back to ensuring that our transport needs are steered by not just the views of, for example, the north Wales economic ambition board, but also our transport plan and the Wales infrastructure investment plan. Indeed, in my statement last week, I did say that we were particularly looking at transport projects in north Wales as candidates for a combination not just of borrowing powers, but of innovative finance and direct capital funding.

Mae hyn yn mynd yn ôl i sicrhau bod ein hanghenion trafnidiaeth yn cael eu llywio nid yn unig gan farn bwrdd uchelgais economaidd y gogledd, er enghraifft, ond hefyd gan ein cynllun trafnidiaeth a chynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Yn wir, yn fy natganiad yr wythnos diwethaf, dywedais ein bod yn edrych yn benodol ar brosiectau trafnidiaeth yn y gogledd fel ymgeiswyr ar gyfer cyfuniad o bwerau benthyca a chyllid arloesol a chyllid cyfalaf uniongyrchol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Prosiectau Cyfalaf yn GIG Cymru

## Capital Projects in the Welsh NHS

13:56

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â chyllido prosiectau cyfalaf yn GIG Cymru? OAQ(4)0405(FIN)*

*9. What discussions has the Minister had with the Minister for Health and Social Services regarding the funding of capital projects in the Welsh NHS? OAQ(4)0405(FIN)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meet regularly with the Minister for Health and Social Services to discuss a range of financial matters, including the funding of capital projects in the Welsh NHS.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod ystod o faterion ariannol, gan gynnwys ariannu prosiectau cyfalaf yn y GIG yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Well, I would be kind of worried if you did not. You will be well aware that I have been campaigning for a £5 million capital investment in Llandrindod Wells community hospital to improve facilities for people living in north Breconshire and Radnorshire. If such a capital bid proved to be successful, many more local people could receive their treatment at Llandrindod Wells without the necessary journeys to Hereford and further afield for treatment. Can you update us on whether you have had any specific discussions with the Minister for Health and Social Services regarding the £5 million capital bid for Llandrindod Wells?

Wel, byddwn yn poeni braidd pe na baech yn gwneud hynny. Gwyddoch fy mod wedi bod yn ymgyrchu am fuddsoddiad cyfalaf o £5 miliwn i ysbty cymuned Llandrindod i wella cyfleusterau ar gyfer pobl sy'n byw yng ngogledd Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed. Pe bai cais cyfalaf o'r fath yn llwyddiannus, gallai llawer mwy o bobl leol gael triniaeth yn Llandrindod heb fod angen teithio i Henffordd ac ymhellach i gael triniaeth. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn ag a ydych wedi cael trafodaethau penodol â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cais cyfalaf £5 miliwn ar gyfer Llandrindod?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have not had any specific discussions on the Llandrindod Wells community hospital bid and proposal. I will also draw the Member's attention to the pipeline of investment laid out in the Wales infrastructure investment plan, which, of course, does relate to health capital spend, and also draw attention to the most recent capital announcements, which include the health technology and telemedicine fund, which came about as a result of our agreement with you. It is important, of course, that these business plans are progressed by the health board through to the Welsh Government.

Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ynghylch cais a chynnig ysbty cymunedol Llandrindod. Tynnaf sylw'r Aelodau hefyd at y buddsoddiadau arfaethedig a nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf iechyd, wrth gwrs, a hefyd at y cyhoeddiadau cyfalaf mwyaf diweddar sy'n cynnwys y gronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth a ddaeth yn sgil ein cytundeb gyda chi. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod pawb o'r bwrdd iechyd i Lywodraeth Cymru yn symud y cynlluniau busnes hyn yn eu blaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, many people in my constituency were delighted yesterday with the First Minister's announcement that a sub-regional neonatal intensive care centre would be located at Glan Clwyd Hospital in Bodelwyddan. Obviously, it is now important that that decision is implemented. It will require some capital investment at Glan Clwyd Hospital in the region, as I understand from the First Minister's statement yesterday, of around £10 million. Can you assure Members today, and those in my constituency who are concerned about the implementation of this decision, that the Welsh Government does have the resources to be able to meet the required investment that will be necessary at Glan Clwyd to establish that centre, once a business plan is forthcoming, including whether that business plan is forthcoming within this current financial year?

Weinidog, roedd llawer o bobl yn fy etholaeth wrth eu bodd ddoe gyda chyhoeddiad y Prif Weinidog y byddai canolfan gofal dwys newyddenedigol isranbarthol yn cael ei lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan. Yn amlwg, mae'n bwysig nawr i'r penderfyniad gael ei weithredu. Bydd angen tua £10 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf yn Ysbyty Glan Clwyd yn y rhanbarth yn ôl a ddeallaf o ddatganiad y Prif Weinidog ddoe. A allwch sicrhau'r Aelodau heddiw, a'r bobl yn fy etholaeth sy'n pryderu am y penderfyniad hwn, bod gan Lywodraeth Cymru adnoddau i allu gwneud y buddsoddiad angenrheidiol y bydd ei angen yng Nglan Clwyd i sefydlu'r ganolfan ar ôl cyflwyno cynllun busnes, gan gynnwys a allwn ddisgwyl i'r cynllun busnes gael ei gyflwyno o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think that the First Minister taking a lead on this demonstrates the commitment of this Welsh Government to progress with his announcement. I was in the Chamber to hear that, and it is quite clear that we now have to progress to deliver on that. However, I would also say, again referring to our Wales infrastructure investment plan, that I have made £12.5 million available for Ysbyty Glan Clwyd, as you are aware, for the redesign and relocation of a number of departments and services, allowing the hospital to improve the quality of care.

Wel, credaf fod arweiniad y Prif Weinidog ar hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symud ymlaen gyda'i gyhoeddiad. Roeddwn i yn y Siambr i glywed hynny ac mae'n eithaf amlwg fod yn rhaid i ni symud ymlaen i gyflawni hyn yn awr. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn dweud, gan gyfeirio unwaith eto at y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, fy mod wedi rhyddhau £12.5 i Ysbyty Glan Clwyd, fel y gwyddoch, ar gyfer ail-ddylunio ac adleoli nifer o adrannau a gwasanaethau, er mwyn galluogi'r ysbyty i wella ansawdd y gofal.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 10, OAQ(4)0396(FIN), was grouped with question 7, so we move to question 11. I call Bethan Jenkins.

Cafodd cwestiwn 10, OAQ (4) 0396 (FIN), ei grwpio gyda chwestiwn 7, felly rydym yn symud i gwestiwn 11. Galwaf ar Bethan Jenkins.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Trefniadau Llywodraethu Cyrff sy'n cael Grantiau**

**Governance Arrangements for Grant-receiving Bodies**

13:59

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau llywodraethu i gyrff sy'n cael grantiau yng Nghymru? OAQ(4)0397(FIN)*

*11. Will the Minister make a statement on governance arrangements for grant-receiving bodies in Wales? OAQ(4)0397(FIN)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good governance is vital to how organisations operate and are held accountable. It is imperative that the financial management and governance arrangements that they have in place are fit for purpose.

Mae llywodraethu da yn hanfodol i'r modd y mae sefydliadau'n gweithredu ac yn cael eu gwneud yn atebol. Mae'n hanfodol fod y trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu sydd ganddynt ar waith yn addas i'r diben.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may know that the National Dance Company Wales last year underwent a sustained period of challenging situations, including a series of cancelled board meetings—the normal way of effective governance. The company is continuing with two board members, since five members resigned last September in protest at the ineffective way that the company was being chaired. What inquiries have you made with National Dance Company Wales and the Arts Council of Wales regarding these troubles? Have you considered calling in the Auditor General for Wales to reassure yourself that public money is being spent effectively?

Weinidog, efallai y gwyddoch fod Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wedi wynebu cyfnod parhaus o sefyllfaoedd heriol y llynedd, gan gynnwys canslo cyfres o gyfarfodydd y bwrdd-sef y ffordd arferol o lywodraethu'n effeithiol. Mae'r cwmni'n parhau gyda dau aelod o'r bwrdd, gan fod pum aelod wedi ymddiswyddo fis Medi diwethaf mewn protest yn erbyn y ffordd aneffeithiol roedd y cwmni'n cael ei gadeirio. Pa ymholiadau a wnaethoch gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ynghylch y trafferthion hyn? A ydych wedi ystyried gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sicrwydd i chi fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is not a matter for me, as Minister for Finance. Of course, there are those who will be held responsible for this, including the management and the grant givers—you have mentioned one of them. I think that it is important that we look to the ways that we are ensuring that, through our grants centre for excellence, we provide advice, support and guidance on all aspects of grants administration to those bodies that, directly or indirectly, receive funding from the Welsh Government.

Nid mater i mi, fel y Gweinidog Cyllid, yw hwn. Wrth gwrs, bydd rhai'n cael eu dal yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys y rheolwyr a'r rhai sy'n rhoi grantiau-rydych wedi crybwyll un ohonynt. Credaf ei bod hi'n bwysig inni edrych ar y modd rydym yn sicrhau cymorth ac arweiniad drwy ein canolfan ragoriaeth grantiau ar bob agwedd o weinyddu grantiau i'r cyrff hynny sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael arian gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the code of practice for funding the third sector was published in January this year, and defines your Government's commitment to establishing, among other criteria, setting clear objectives, successfully delivering proposals and ensuring the efficient and effective use of public money. Sadly, there are many examples of where the Welsh Government has failed to adhere to these criteria. What assurance can you give the house that you will be more diligent in future?

Weinidog, cyhoeddwyd y cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector ym mis Ionawr eleni ac mae'n diffinio ymrwymiad eich Llywodraeth i sefydlu proses o osod amcanion clir, cyflawni argymhellion yn llwyddiannus a sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus, ymhlith meini prawf eraill. Yn anffodus, ceir llawer o enghreifftiau lle mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chadw at y meini prawf hyn. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r tŷ y byddwch yn fwy dygn yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I met with third sector representatives earlier this year to talk about the code of practice and the important work of the grants centre for excellence. I would say that the recommendation of the Public Accounts Committee in terms of the good governance group, which has now been established, is extremely helpful. Also, we have face-to-face training modules on due diligence; they are under development and are being rolled out, not just in terms of the Welsh Government—because it has to manage these funds—but to ensure that we enable this to be shared with those who deliver and receive our funding.

Cyfarfûm â chynrychiolwyr y trydydd sector yn gynharach eleni i siarad am y cod ymarfer a gwaith pwysig y ganolfan ragoriaeth grantiau. Byddwn yn dweud bod argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch y grŵp llywodraethu da sydd bellach wedi'i sefydlu, yn hynod o ddefnyddiol. Hefyd, mae gennym fodiwlau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar ddiwydrwydd dyladwy; maent wrthi'n cael eu datblygu a chânt eu cyflwyno fesul cam, nid yn unig o ran y Llywodraeth Cymru—oherwydd ei bod yn gorfod rheoli'r cronfeydd hyn—ond er mwyn sicrhau ein bod yn galluogi hyn i gael ei rannu gyda'r rhai sy'n cyflwyno ac yn derbyn ein cyllid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have just outlined to William Graham what you are doing in terms of making sure that the third sector grant-receiving bodies are better managed. In response to the Public Accounts Committee report, particularly around the All Wales Ethnic Minority Association, what changes have you introduced to the way that the Government manages grants to make that management process more robust and reliable?

Weinidog, rydych newydd amlinellu i William Graham yr hyn rydych yn ei wneud o ran sicrhau bod y cyrff trydydd sector sy'n derbyn grantiau yn cael eu rheoli'n well. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn enwedig ynghylch Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, pa newidiadau rydych wedi'u cyflwyno i'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn rheoli grantiau er mwyn gwneud y broses reoli yn fwy cadarn a dibynadwy?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> This goes back, of course, to the importance of the grants centre for excellence, and we have a range of improvement measures that are being undertaken and implemented. That includes not just due diligence, in terms of checks and precautions before you issue awards, but checks and monitoring in terms of governance arrangements. Certainly, this is something that I wish to report back on as openly and transparently to the Assembly as is appropriate.	Mae hyn yn deillio, wrth gwrs, o bwysigrwydd y ganolfan ragoriaeth grantiau ac mae gennym ystod o fesurau gwella sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae hynny'n cynnwys nid yn unig diwydrwydd dyladwy o ran gwiriadau a rhagofalon cyn dyfarnu, ond gwiriadau a monitro trefniadau llywodraethu. Yn sicr, mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn adrodd yn ôl yn ei gylch i'r Cynulliad mor agored a thryloyw ag y bo'n briodol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Dangosyddion Economaidd</b>		<b>Economic Indicators</b>	
14:03	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei hadolygiad o ddangosyddion economaidd? OAQ(4)0398(FIN)</i>	<i>12. Will the Minister make a statement on her review of economic indicators? OAQ(4)0398(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I have asked the chief economist and chief statistician to review the economic data that are currently available for Wales, and to consider what information might be produced in future to enhance our understanding of the Welsh economy.	Rwyf wedi gofyn i'r prif economegydd a'r prif ystadegydd adolygu'r data economaidd sydd ar gael ar gyfer Cymru ar hyn o bryd ac i ystyried pa wybodaeth y gellid ei chynhyrchu yn y dyfodol i wella ein dealltwriaeth o economi Cymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am grateful for that answer. The Minister will, I think, be aware that some of the ways in which gross value added is captured—for example, on a geographic basis—do not reflect where work is actually done; indeed, people commuting from, say, the Valleys to Cardiff may count in terms of Cardiff's GVA rather than, in practice, the GVA of the Valleys. Will that be taken into account in the context of your review?	Diolch am eich ateb. Bydd y Gweinidog, rwy'n credu, yn gwybod nad yw rhai o'r ffyrdd y mae gwerth ychwanegol crynswth yn cael ei sicrhau-er enghraifft, ar sail ddaearyddol-yn adlewyrchu lle y caiff gwaith ei wneud mewn gwirionedd; yn wir, yn ymarferol, gellid cyfrif pobl sy'n cymudo o'r Cymoedd i Gaerdydd, dyweder, yn rhan o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) Caerdydd yn hytrach na GYC y Cymoedd. A fydd hynny'n cael ei ystyried yng nghyd-destun eich adolygiad?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes; I thank the Member for the Rhondda for that point. Quite clearly, GVA per capita can underestimate economic performance at that sub-regional level. Of course, that particularly applies to the south Wales Valleys, where people are often earning incomes from jobs that they have outside the area in which they live; this is reflected in other parts of Wales and the UK. So, it is very important and we will be taking it into account and looking at a basket of economic indicators, with measures of employment and income alongside GVA.	Bydd; diolch i'r Aelod dros y Rhondda am y pwynt hwnnw. Yn amlwg, gall GYC y pen danamcangyfrif perfformiad economaidd ar y lefel isranbarthol. Wrth gwrs, mae hynny'n arbennig o berthnasol i Gymoedd de Cymru lle mae pobl yn aml yn ennill incwm o swyddi sydd ganddynt y tu allan i'r ardal lle maent yn byw; adlewyrchir hyn mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU. Felly, mae'n bwysig iawn a byddwn yn ei ystyried ac yn edrych ar y casgliad o ddangosyddion economaidd, gyda mesurau cyflogaeth ac incwm ochr yn ochr â gwerth ychwanegol crynswth.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:04 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, enterprise zones are a key part of the Welsh Government's economic development programme. It is very difficult to find out exactly how many jobs have been created. Given that you, as Minister for Finance, have allocated specific funding for enterprise zones, are you content with the creation of new jobs versus the value for money that the Welsh Government is getting from the money that it is making available to those enterprise zones? If you have that information, will you make it available, so that we can see how much money is actually being spent in those zones and how many new jobs are being created by their development?

Weinidog, mae ardaloedd menter yn rhan allweddol o raglen datblygu economaidd Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd iawn darganfod faint yn union o swyddi a grëwyd. O gofio eich bod chi, fel y Gweinidog Cyllid, wedi dyrannu cyllid penodol ar gyfer ardaloedd menter, a ydych yn fodlon ar y swyddi newydd a grëwyd yn erbyn y gwerth am arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael o'r arian y mae'n ei ryddhau i'r ardaloedd menter hynny? Os yw'r wybodaeth honno gennych, a wneuch chi ei rhyddhau er mwyn i ni allu gweld faint o arian sy'n cael ei wario mewn gwirionedd yn yr ardaloedd hynny a faint o swyddi newydd sy'n cael eu creu yn sgîl eu datblygiad?

14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

On the progress that is being made with the enterprise zones, there are reports from the Minister and there are opportunities created through enterprise zones. It is very important that we publish performance indicators for enterprise zones and reporting on progress. That will include total figures on the jobs supported across the enterprise zones. I am sure that the leader of the opposition will welcome the latest figures published today on labour market statistics, which show that the labour market in Wales is continuing to improve. These figures show that this Welsh Labour Government is working and creating the right conditions for businesses to grow in Wales, including in our enterprise zones.

Ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn yr ardaloedd menter, ceir adroddiadau gan y Gweinidog a chaiff cyfleoedd eu creu drwy ardaloedd menter. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad ar gyfer ardaloedd menter ac yn adrodd ar gynnydd. Bydd hynny'n cynnwys nifer y swyddi a gefnogir ar draws yr ardaloedd menter. Rwy'n siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn croesawu'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd heddiw ar ystadegau'r farchnad lafur sy'n dangos bod y farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i wella. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio ac yn creu'r amodau iawn i fusnesau dyfu yng Nghymru, gan gynnwys yn ein hardaloedd menter.

### Cyllid Buddsoddi i Arbed yn Islwyn

### Invest-to-Save Funding in Islwyn

14:05 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid buddsoddi i arbed yn Islwyn? OAQ(4)0400(FIN)*

*13. Will the Minister make a statement on invest-to-save funding in Islwyn? OAQ(4)0400(FIN)*

14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Since the invest-to-save fund has been operating, £11.8 million has been allocated to public sector organisations, including services that benefit Islwyn. My written statement published on 15 April provided the details of round 8 of invest-to-save.

Ers i'r gronfa buddsoddi i arbed fod yn weithredol, dyrannwyd £11.8 miliwn i sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau sydd o fudd i Islwyn. Roedd fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 15 Ebrill yn rhoi manylion ynghylch rownd 8 buddsoddi i arbed.

14:06 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer. Does the Minister agree that given the cuts inflicted on Wales by the UK Government, there is a need for public services now to collaborate locally?

Diolch i chi am eich ateb. O ystyried toriadau Llywodraeth y DU yng Nghymru, a yw'r Gweinidog yn cytuno fod angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio'n lleol yn awr?

14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

My experience of the budget tour that I am undertaking and from meeting front-line staff from health, local government and the third sector indicates the will and determination of front-line staff in the public sector to collaborate and deliver best practice. That has been taken forward not just through invest-to-save but through the regional collaboration fund.

Mae fy mhrofiad o daith y gyllideb rwy'n ymgymryd â hi, ac o gyfarfod â staff rheng flaen ym maes iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector, yn dangos ewyllys a phenderfyniad staff rheng flaen yn y sector cyhoeddus i gydweithio a chyflawni ymarfer gorau. Datblygwyd hynny, nid drwy fuddsoddi i arbed yn unig, ond drwy'r gronfa gydweithio ranbarthol.



14:06 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Finance Committee report on invest-to-save recommended that the Welsh Government makes greater efforts to encourage educational institutions and other institutions outside the core NHS and local government sectors to access the funding. What plans does the Welsh Government have to encourage such applications to benefit Islwyn and other parts of Wales?

Weinidog, argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar fuddsoddi i arbed y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o ymdrech i annog sefydliadau addysgol a sefydliadau eraill y tu allan i sectorau craidd y GIG a llywodraeth leol i ddefnyddio'r arian. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog ceisiadau o'r fath er budd i Islwyn a rhannau eraill o Gymru?

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Islwyn has benefited from invest-to-save, particularly in relation to health and social care projects. As the Finance Committee inquiry and the independent evaluation have shown, we are making great progress in terms of the impact of this fund. That means going out to engage with other public sector bodies, such as higher education and further education institutions, to encourage them to take part in invest-to-save.

Mae Islwyn wedi elwa o fuddsoddi i arbed, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid a'r gwerthusiad annibynnol wedi dangos, rydym yn gwneud cynnydd mawr o ran effaith y gronfa hon. Mae hynny'n golygu mynd allan i ymgysylltu â chyrff sector cyhoeddus eraill, megis addysg uwch a sefydliadau addysg bellach, i'w hannog i gymryd rhan mewn cynlluniau buddsoddi i arbed.

## Canol De Cymru

## South Wales Central

14:07 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Canol De Cymru a gynhwysir yn y Rhaglen Lywodraethu? OAQ(4)0410(FIN)*

*14. Will the Minister make a statement on the funding of the Welsh Government's priorities for South Wales Central contained within the Programme for Government? OAQ(4)0410(FIN)*

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

The programme for government annual report and the draft budget narrative for 2014-15 show that we are focusing our budgets to deliver better outcomes for all parts of Wales, including South Wales Central.

Mae adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu a naratif y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15 yn dangos ein bod yn canolbwyntio ein cyllidebau ar gyflawni gwell canlyniadau i bob rhan o Gymru, gan gynnwys Canol De Cymru.

14:08 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that answer. One of the key economic indicators in the programme for government is about creating better trade links, externally and internally. South Wales Central is host to Cardiff Airport. Have you had any requests for, or will you be making available to the airport, any additional funding to attract new carriers or to increase the capacity of that airport during the current financial year?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae un o'r dangosyddion economaidd allweddol yn y rhaglen lywodraethu yn ymwneud â chreu cysylltiadau masnach gwell, yn allanol ac yn fewnol. Mae Canol De Cymru yn gartref i Faes Awyr Caerdydd. A ydych wedi cael unrhyw geisiadau am gyllid ychwanegol, neu a fyddwch yn rhyddhau cyllid o'r fath, er mwyn denu cludwyr newydd i'r maes awyr neu i gynyddu capasiti'r maes awyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol?

14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I am glad to hear that the leader of the opposition is positive now about the opportunities provided by Cardiff Airport in terms of South Wales Central and the whole of Wales. Of course, the airport assists in terms of connectivity and in ensuring better trade links. You will know that we have already provided a loan to Cardiff Airport, which it is investing appropriately and which will support this.

Rwy'n falch o glywed bod arweinydd yr wrthblaid yn gadarnhaol yn awr ynglŷn â'r cyfleoedd y mae Maes Awyr Caerdydd yn eu cynnig i Ganol De Cymru a Chymru gyfan. Wrth gwrs, mae'r maes awyr yn cynorthwyo o ran cysylltedd a sicrhau cysylltiadau masnach gwell. Gwyddoch ein bod eisoes wedi darparu benthyciad i Faes Awyr Caerdydd; mae'n ei fuddsoddi'n briodol a bydd yn cefnogi hyn.

## Y Portffolio Addysg a Sgiliau

## The Education and Skills Portfolio

14:08	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyraniad cyllid cyffredinol i'r portffolio Addysg a Sgiliau? OAQ(4)0403(FIN)</i>	<i>15. Will the Minister provide an update on the overall funding allocation to the Education and Skills portfolio? OAQ(4)0403(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The budget for the education and skills main expenditure group for 2014-15 is £1.8 billion, as set out in the final budget approved by the National Assembly last December.	Y gyllideb ar gyfer y prif grŵp gwariant ar addysg a sgiliau ar gyfer 2014-15 yw £18 biliwn, fel y nodir yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fis Rhagfyr diwethaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. You may know that the Children, Young People and Education Committee takes an interest in parental engagement in connection with various inquiries. What measurable results do you expect from the 'Education begins at home' advertising campaign, and if it is successful, will you be able to fund in the longer term?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Efallai y gwyddoch fod gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddiddordeb mewn ymgysylltu â rhieni mewn perthynas â gwahanol ymholiadau. Pa ganlyniadau mesuradwy rydych yn eu disgwyl o'r ymgyrch hysbysebu 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' ac os yw'n llwyddiant, a fyddwch yn gallu ariannu yn y tymor hwy?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> This is clearly a matter for the Minister for Education and Skills in terms of his ambitions to take this forward. It is about assessing the impact and the evidence as a result. This will be considered in terms of budgetary decisions.	Mae'n amlwg mai mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hyn o ran ei uchelgais i fwrw ymlaen â'r gwaith. Mae'n ymwneud ag asesu effaith a'r dystiolaeth o ganlyniad. Bydd hyn yn cael ei ystyried mewn perthynas â phenderfyniadau cyllidebol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, as you know, the education portfolio has benefited from political agreements on the budget as regards extra resources being placed in that portfolio. How do you monitor the expenditure and use of those resources vis-à-vis other things going on in the portfolio, such as the long-standing 1% commitment to schools, to ensure that you can demonstrate to the parties with which you made that budget agreement that this money is being spent appropriately and is not being used to hide other Government priorities?	Weinidog, fel y gwyddoch, mae'r portffolio addysg wedi elwa o gytundebau gwleidyddol ynghylch y gyllideb o ran gosod adnoddau ychwanegol yn y portffolio. Sut rydych yn monitro'r gwariant a'r defnydd o'r cyfryw adnoddau mewn perthynas â'r pethau eraill yn y portffolio, fel yr ymrwymiad 1% hirsefydlog i ysgolion, i sicrhau y gallwch ddangos i'r pleidiau y daethoch i gytundeb â hwy ar y gyllideb fod yr arian yn cael ei wario'n briodol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i guddio blaenoriaethau eraill y Llywodraeth?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We are working closely with schools, local authorities and education consortia to make sure that these grants make a real difference to the life chances of those who need extra support, and also to make good use of the funding. It is about embedding sustainable approaches. I know that there is agreement about the evaluation and the need to identify the best practice; it has to be used effectively. The Minister for Education and Skills has made it quite clear that he will challenge schools, local authorities and consortia where he feels that it is not being used in the best interests of the learners who it is intended to support. Of course, that relates to the funding, critically, in terms of monitoring the 1% protection and the pupil deprivation grant.	Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg i wneud yn siŵr fod y grantiau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd y rhai sydd angen cymorth ychwanegol a hefyd i wneud defnydd da o'r cyllid. Mae'n ymwneud ag ymgorffori dulliau cynaliadwy. Gwn fod cytundeb ynglŷn â'r gwerthusiad a'r angen i nodi arfer gorau; mae'n rhaid iddo gael ei ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi'i gwneud yn gwbl glir y bydd yn herio ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia lle mae'n teimlo nad yw'n cael ei ddefnyddio er lles gorau'r dysgwyr y mae wedi'i neilltuo i'w cefnogi. Wrth gwrs, mae a wnelo hynny â'r cyllid, yn allweddol, o ran monitro'r diogelwch 1% a'r grant amddifadedd disgyblion.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:11	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Minister.	Diolch i chi, Weinidog.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

# Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

## Blaenoriaethau Allweddol

# Questions to the Minister for Local Government and Government Business

## Key Priorities

- 14:11 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(4)0415(LG)*  
*1. Will the Minister provide an update on her key priorities for local government? OAQ(4)0415(LG)*
- 14:11 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
My priority, as set out in our programme for government, is to support the delivery of effective and efficient public services to meet the needs of the people of Wales. The next programme for government annual report will be published in the summer.  
Fy mlaenoriaeth, fel y nodir yn ein rhaglen lywodraethu, yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon i ateb anghenion pobl Cymru. Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf ar y rhaglen lywodraethu yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.
- 14:11 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, Minister, for that answer. What discussions have you had with the Minister for enterprise and business about the localised retention of business rates? It was one of Professor Brian Morgan's key recommendations as a way of encouraging local authorities to better support their local economies, to incentivise economic growth locally. I think that this is a good idea in principle, but it would clearly require a rejigging of the local government funding formula, to make sure that areas with a weaker economy are compensated. I wonder whether you could update us on any discussions that you have had in this area.  
Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog menter a busnes ynghylch cadw ardrethi busnes yn lleol? Roedd yn un o argymhellion allweddol yr Athro Brian Morgan fel ffordd o annog awdurdodau lleol i gefnogi eu heconomiâu lleol yn well, er mwyn cymell twf economaidd yn lleol. Rwy'n meddwl bod hyn yn syniad da mewn egwyddor ond byddai angen ailwampio fformiwla ariannu llywodraeth leol yn glir er mwyn sicrhau bod ardaloedd gydag economi wannach yn cael eu digolledu. Tybed a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael yn y maes hwn.
- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Yes, I have had discussion with my colleague the Minister for Economy, Science and Transport. I know that she is considering various options in relation to this issue and I am sure that there will be an announcement in due course.  
Gallaf, rwyf wedi cael trafodaeth â'm cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Gwn ei bod yn ystyried gwahanol opsiynau mewn perthynas â'r mater hwn ac rwy'n siŵr y bydd cyhoeddiad maes o law.
- 14:12 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Minister, what discussions have you had with the Westminster Government regarding the proposed pension fund management changes?  
Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth San Steffan ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r dull o reoli cronfeydd pensiwn?
- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Obviously, policy responsibility for local government pensions is not devolved to Wales. The UK Government is currently consulting on changes to the investment arrangements and we are considering the implications of the proposals set out in the consultation document. If it is appropriate, I will then discuss that with the UK Government Minister in due course. There are over 280,000 members and assets of over £9 billion in Wales, so it is absolutely vital that each local government pension scheme is managed, to ensure that the interests of members are protected.  
Yn amlwg, nid yw'r cyfrifoldeb polisi dros bensiynau llywodraeth leol wedi'i ddatganoli i Gymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar newidiadau i'r trefniadau buddsoddi ac rydym yn ystyried goblygiadau'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Os yw'n briodol, byddaf wedyn yn trafod hynny gyda Gweinidog Llywodraeth y DU maes o law. Mae dros 280,000 o aelodau ac asedau o dros £9 biliwn yng Nghymru felly mae'n gwbl hanfodol fod pob cynllun pensiwn llywodraeth leol yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod buddiannau'r aelodau yn cael eu diogelu.

14:13	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, sawl awdurdod lleol a sawl cynghorydd ydych chi'n disgwyl eu gweld ar ôl yr etholiadau lleol nesaf?</p>	<p>Minister, how many local authorities and how many councillors do you expect to see after the next local election?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, clearly, we have the report from the Commission on Public Service Governance and Delivery. You will be aware that there are proposed mergers. There is no number mentioned in terms of councillors, but I would expect to see fewer than there are at present.</p>	<p>Wel, yn amlwg, mae gennym adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwyddoch fod cynlluniau arfaethedig i uno. Ni chrybwyllwyd niiferoedd cynghorwyr ond byddwn yn disgwyl gweld llai ohonynt nag ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Rydym yn aros am arweiniad clir gan y Llywodraeth ar y mater hwn, gan fod y Prif Weinidog wedi dweud fod disgwyl cael cytundeb erbyn y Pasg. Mae'r Pasg wedi troi yn haf erbyn hyn. Ym mha ffordd ydych chi'n disgwyl delio gydag unrhyw gyngor sy'n dod atoch chi ar gyfer cyfuno gyda chyngor arall? Y tro diwethaf imi ofyn y cwestiwn yma i chi, fe ddywedoch nad oeddech wedi derbyn yr un cais; ydych chi wedi derbyn unrhyw gais erbyn hyn?</p>	<p>We are waiting for clear leadership from the Government on this issue, as the First Minister has said that he is expecting an agreement by Easter. The Easter has turned into summer by now. How do you expect to deal with any council that approaches you with a merger proposal with another council? The last time I asked this question of you, you said that you had not received any applications; have you received any applications by now?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have certainly been made aware of certain local authorities that I think would be happy to voluntarily merge. That would still need legislation from here. So, there are ongoing discussions. I think that it was actually Williams who mentioned Easter. Clearly, the First Minister has said that there will be an announcement before the summer.</p>	<p>Yn sicr, rwy'n ymwybodol fod rhai awdurdodau lleol a fyddai'n hapus i uno yn wirfoddol, rwy'n credu. Byddai angen deddfu oddi yma o hyd. Felly mae'r trafodaethau'n parhau. Credaf mai Williams a soniodd am y Pasg mewn gwirionedd. Yn amlwg, mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd cyhoeddiad cyn yr haf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Y System Dreth Gyngor</b>		<b>The Council Tax System</b>	
14:14	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>2. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i adolygu'r system dreth gyngor yng Nghymru? OAQ(4)0423(LG)</p>	<p>2. Does the Welsh Government have any intention to revise the council tax system in Wales? OAQ(4)0423(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Council tax is an established feature of local taxation and the system is kept up to date to ensure that it remains fit for purpose.</p>	<p>Mae'r dreth gyngor yn nodwedd sefydledig o drethi lleol ac mae'r system yn cael ei chadw'n gyfredol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n addas at y diben.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, you will be aware of discussions in England with regard to revaluation, and also the paper published by Gerry Holtham today, which suggests that, although he would not suggest that council tax is done away with, we could look at smoothing out indexation and the introduction of additional bands so that there would be gradual change. This would do away with the need for revaluation. Would you propose to consider some of the recommendations made in that paper?</p>	<p>Weinidog, byddwch yn gwybod am drafodaethau sydd ar y gweill yn Lloegr mewn perthynas ag ailbrisio a hefyd y papur a gyhoeddwyd gan Gerry Holtham heddiw. Er na fyddai'n argymhellu cael gwared ar y dreth gyngor, mae'n awgrymu y gallem edrych ar symleiddio'r broses o fynegeio a chyflwyno bandiau ychwanegol fel y byddai'r newid yn raddol. Byddai hyn yn dileu'r angen i ailbrisio. A fwriadwch ystyried rhai o'r argymhellion a wnaed yn y papur?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am aware of the paper from Gerry Holtham, and I very much look forward to reading it. I am always open to constructive suggestions for improving the way that local services in Wales are funded. I think that one thing in the report, certainly from what I have read in the media, is that we have a far superior council tax system in Wales to that in England.
- Rwy'n ymwybodol o bapur Gerry Holtham ac edrychaf ymlaen yn fawr at ei ddarllen. Rwyf bob amser yn agored i awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwella'r ffordd y mae gwasanaethau lleol yng Nghymru yn cael eu hariannu. Rwy'n meddwl mai un peth y mae'r adroddiad yn ei ddweud, yn sicr o'r hyn rwyf wedi'i ddarllen yn y cyfryngau, yw bod gennym system dreth gyngor lawer gwell yng Nghymru na'r un yn Lloegr.
- 14:15 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as a result of the UK Government's cuts in spending, councils across Wales have had to consider increasing council tax in order to protect public services. This, of course, has attracted criticism from the Conservatives, who have called for a council tax freeze. For how many years would England have to freeze its council tax in order to get the council tax levels the same as levels in Wales?
- Weinidog, o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU ar wariant, mae cynghorau ledled Cymru wedi gorfod ystyried codi'r dreth gyngor er mwyn gwarchod gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn, wrth gwrs, wedi denu beirniadaeth y Ceidwadwyr, sydd wedi galw am rewi'r dreth gyngor. Am sawl blwyddyn y byddai'n rhaid i Loegr rewi'r dreth gyngor er mwyn cael lefelau treth gyngor yr un fath â'r lefelau yng Nghymru?
- 14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, we shall put more myths to bed, shall we? Council tax levels across England are not frozen. The number of authorities in England freezing council tax is declining annually. I think that the answer to your specific question would be around six years in addition to the four years that they have already had. [Interruption.]
- Wel, beth am i ni chwalu rhagor o fythau? Nid yw lefelau'r dreth gyngor wedi'u rhewi ledled Lloegr. Mae nifer yr awdurdodau yn Lloegr sy'n rhewi'r dreth gyngor yn gostwng bob blwyddyn. Rwy'n credu mai'r ateb i'ch cwestiwn penodol yw tua chwe blynedd yn ychwanegol at y pedair blynedd y maent eisoes wedi'u cael. [Torri ar draws.]
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Are you finished, Minister, because I could not hear your answer? However, I am sure that it was—
- Trefn. A ydych wedi gorffen, Weinidog, oherwydd ni allwn glywed eich ateb? Fodd bynnag, rwy'n siŵr ei fod yn—
- 14:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Excellent. [Laughter.]
- Ardderchog. [Chwerthin.]
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I would not go as far as that. [Laughter.]
- Wel, ni fyddwn yn mynd mor bell â hynny. [Chwerthin.]
- 14:16 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I, too, welcome today the Senedd Paper by the highly respected economist Gerald Holtham for stimulating the debate on the current council tax regime in Wales. However, I am concerned that any further increases in council tax would have a bad impact, especially given that we have seen under the Welsh Labour Government a 150% council tax increase during that time. Would the Minister agree that the impact on the household budgets for individuals and families, rather than simple property values across Wales, must be taken into account before any consideration is given to any further increases in council tax for our Welsh residents?
- Rwyf fi hefyd yn croesawu'r Papur Senedd heddiw gan yr economegydd uchel ei barch, Gerald Holtham, i ysgogi'r ddadl ar y gyfundrefn dreth gyngor ar hyn o bryd yng Nghymru. Fodd bynnag, rwy'n bryderus y byddai unrhyw gynnydd pellach yn y dreth gyngor yn cael effaith ddrwg, yn enwedig o ystyried ein bod wedi gweld cynnydd o 150% yn y dreth gyngor dan Lywodraeth Lafur Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid ystyried yr effaith ar gyllidebau aelwydydd i unigolion a theuluoedd, yn hytrach na gwerth eiddo syml ar draws Cymru, cyn rhoi unrhyw sylw i godi'r dreth gyngor ymhellach i drigolion Cymru?
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I will just remind the Member, Presiding Officer, that council tax levels in Wales are still significantly lower than levels in England. You will have heard my answer to Aled Roberts's initial question regarding Gerry Holtham's suggestions.
- Wel, Lywydd, rwyf am atgoffa'r Aelod fod lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru yn dal gryn dipyn yn is na'r lefelau yn Lloegr. Byddwch wedi clywed fy ateb i gwestiwn gwreiddiol Aled Roberts ynghylch awgrymiadau Gerry Holtham.

## Rhaglenni Teledu Cylch Cyfyng

## Closed-circuit Television Programmes

- 14:17 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu rhaglenni teledu cylch cyfyng gan awdurdodau lleol? OAQ(4)0412(LG)*
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch. The funding of CCTV programmes in any area is a matter for local authorities in collaboration with the relevant police force and community safety partnership.
- 14:17 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch yn fawr iawn. Mae wir bryder yn Ynys Môn ynglŷn â phenderfyniad y cyngor sir i ddiffodd ei gamerâu teledu cylch cyfyng ar yr ynys ddiwedd y mis hwn, ac mae nifer o swyddogion yr heddlu wedi bod yn cysylltu â mi yn pryderu y bydd yn rhaid iddynt fuddsoddi mwy mewn adnoddau dynol o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Mae cynnal camerâu teledu cylch cyfyng heb os yn straen ar gynghorau. A ydyw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid edrych eto ar sut mae hyn yn cael ei ariannu, gan gynnwys y posibilrwydd o ofyn am fwy o gyfraniad gan yr heddlu neu sicrhau rhagor o gyllid i gynghorau, boed yn gyllid referniw neu yn grantiau cyfalaf, er mwyn iddynt adnewyddu'r systemau presennol?
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
This is clearly a decision for the local authority. It is right that that decision is taken locally, and I am aware of Ynys Môn's decision. I am aware of at least one PCC who is looking at possibly funding CCTV and, as I say, it would be up to the local authority, really, to have those discussions with both North Wales Police, in the case of Ynys Môn, and the local police and crime commissioner.
- 14:18 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, I have asked your counterpart in the economy, science and transport portfolio about the quality of CCTV cameras at railway stations because, in a recent meeting I had with Network Rail, it indicated to me that certain cameras are not compatible with court-quality evidence. I am just wondering whether you have that conversation with local authorities across Wales because, to the layperson, looking up and seeing a CCTV camera, you would assume that it is just a bog-standard camera. However, obviously, its use is inhibited if the film is not of a quality that can be used in court should a prosecution come about. So, do you have those conversations with local authorities? Is there any direction from the Welsh Government to standardise CCTV coverage across Wales?
3. Will the Minister make a statement on the funding of CCTV programmes by local authorities? OAQ(4)0412(LG)
- Diolch. Mater i awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â'r bartneriaeth berthnasol rhwng yr heddlu a diogelwch cymunedol yw ariannu rhaglenni teledu cylch cyfyng mewn unrhyw ardal.
- Thank you very much. There is real concern on Ynys Môn about the county council's decision to switch off its CCTV cameras on the island at the end of this month, and a number of police officers have been contacting me saying that they are concerned that they will have to invest more in human resources as a result of this decision. The maintenance of CCTV is undoubtedly a strain on councils. Will you look again at how this is funded, including the possibility of asking for a greater contribution from the police or securing more funding for councils, be that revenue or grant funding, in order that they can renew their current systems?
- Mae'n amlwg mai penderfyniad i'r awdurdod lleol yw hyn. Mae'n briodol i'r penderfyniad gael ei wneud yn lleol ac rwy'n ymwybodol o'i benderfyniad Ynys Môn. Rwy'n gwybod am o leiaf un Comisiynydd Heddlu a Throseddau sy'n edrych ar y posibilrwydd o gyllido camerâu teledu cylch cyfyng ac fel y dywedais, mater i'r awdurdod lleol mewn gwirionedd fyddai cael y trafodaethau hynny gyda Heddlu Gogledd Cymru yn achos Ynys Môn, a'r comisiynydd heddlu a throseddau lleol.
- Weinidog, rwyf wedi gofyn i'ch cyd-Weinidog yn y portffolio economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth am ansawdd camerâu teledu cylch cyfyng mewn gorsafoedd rheiffordd oherwydd, mewn cyfarfod diweddar a gefais gyda Network Rail, dywedwyd wrthyf nad yw rhai camerâu yn cyrraedd safonau tystiolaeth i'r llys. Tybed a ydych wedi cael y drafodaeth honno gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru, oherwydd i'r llygwyr sy'n edrych i fyny a gweld camera teledu cylch cyfyng, byddech yn cymryd yn ganiataol mai dim ond camera arferol yn unig ydyw. Fodd bynnag, mae'n amlwg y cyfyngir ar ei ddefnydd os nad yw'r ffilm o ansawdd y gellir ei ddefnyddio yn y llys pe bai'n arwain at erlyniad. Felly, a ydych chi wedi trafod hyn gydag awdurdodau lleol? A oes unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch safoni teledu cylch cyfyng ledled Cymru?

14:19	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Just last week, I met with Tony Porter, who is the new Surveillance Camera Commissioner for England and Wales, and this subject was something I touched upon with him. I know that he is very keen to engage with local authorities in Wales. He is very new to the post. I have asked him to discuss any issues with local authorities regarding the deployment of specific CCTV schemes.</p>	<p>Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â Tony Porter, sef Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth newydd Cymru a Lloegr, a chyfeiriais at hyn. Rwy'n gwybod ei fod yn awyddus iawn i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n newydd iawn i'r swydd. Rwyf wedi gofyn iddo drafod cynlluniau penodol yn ymwneud â defnyddio camerâu teledu cylch cyfng gydag awdurdodau lleol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Gwasanaethau Tân ac Achub</b>		<b>Fire and Rescue Services</b>	
14:20	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadaeth y Gwasanaethau Tân ac Achub yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0410(LG)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on the organisation of Fire and Rescue Services in west Wales? OAQ(4)0410(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau y mae wedi eu cael gydag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0421(LG)</p>	<p>9. Will the Minister provide an update on discussions she has had with Mid and West Wales Fire and Rescue Authority? OAQ(4)0421(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you. Presiding Officer, I understand that you have given your permission for questions 4 and 9 to be grouped.</p>	<p>Diolch. Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i grwpio cwestiynau 4 a 9.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes.</p>	<p>Do.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I meet regularly with chairs of fire and rescue authorities and chief fire officers to discuss the management and provision of services in Wales. However, fire and rescue authorities are autonomous, independent bodies, and it is for them to determine the risks and required provision of services in their areas.</p>	<p>Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â chadeiryddion awdurdodau tân ac achub a'r prif swyddogion tân i drafod y gwaith o reoli a darparu gwasanaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae awdurdodau tân ac achub yn gyrrff ymreolaethol, annibynnol a mater iddynt hwy i'w benderfynu yw'r risgiau a'r gwasanaethau sydd angen eu darparu yn eu hardaloedd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. You will know that there have been a number of questions raised about the reorganisation of the call centre for Mid and West Wales Fire and Rescue Service, particularly around the issue of the use of the Welsh language and back up being available for it.</p> <p>Can you give assurances that, when the Welsh Government committed to giving an invest-to-save loan to deliver this change, those issues were taken into account and that some solutions were proposed for them?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Gwyddoch fod nifer o gwestiynau wedi'u codi ynglŷn ag ad-drefnu'r ganolfan alwadau ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn enwedig ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod cymorth wrth gefn ar gael ar gyfer hynny.</p> <p>Pan ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi benthyciad buddsoddi i arbed i gyflawni'r newid hwn, a allwch roi sicrwydd fod y materion hynny wedi cael eu hystyried a bod rhai atebion wedi'u cynnig ar eu cyfer?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Those were taken into account and I have received assurance from the chief fire officer for South Wales Fire and Rescue Service that he has recognised the importance of providing services through the medium of Welsh and will ensure that it continues to conform to the Welsh Language (Wales) Measure 2011.
- You will be aware that the Minister for Finance announced on 15 April the offer of £3 million of invest-to-save funding to assist the development of the joint emergency control centre. The project is planning to deliver effective co-ordination of emergency assistance and is forecasting £1 million of net annual efficiency savings from 2016.
- Gallaf. Ystyriwyd y rheini ac rwyf wedi cael sicrwydd gan brif swyddog tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei fod yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Gwyddoch fod y Gweinidog Cyllid ar 15 Ebrill wedi cyhoeddi cynnig o £3 miliwn o arian buddsoddi i arbed i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu'r ganolfan reoli argyfwng ar y cyd. Nod y prosiect yw sicrhau bod cymorth brys yn cael ei gydgyssylltu'n effeithiol ac mae'n rhagweld £1 filiwn o arbedion effeithlonrwydd blyneddol net o 2016 ymlaen.
- 14:21 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The first part of my question was similar to Peter Black's. However, the second part of my question, really, relates to the fact that the Mid and West Wales Fire Authority spent money producing new offices in conjunction with Dyfed Powys Police and it is now moving to Bridgend, away from Dyfed Powys Police, to establish new offices, to where that money is going, with South Wales Police. Therefore, I am just wondering whether that is a good use of finance. Would it be useful, Minister, for you and I to meet the newly appointed head of the fire authority in mid and west Wales to discuss the matter?
- Mae rhan gyntaf fy nghwestiwn yn debyg i gwestiwn Peter Black. Ond mae ail ran fy nghwestiwn yn ymwneud mewn gwirionedd â'r ffaith fod Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwario arian yn creu swyddfeydd newydd ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys ac yn awr mae'n symud i Ben-y-bont ar Ogwr i ffwrdd o Heddlu Dyfed Powys, i sefydlu swyddfeydd newydd, i ble mae'r arian hwnnw'n mynd, gyda Heddlu De Cymru. Tybed felly a yw'n ddefnydd da o gyllid. A fyddai'n ddefnyddiol, Weinidog, i chi a minnau gyfarfod â phennaeth yr awdurdod tân yng nghanolbarth a gorllewin Cymru sydd newydd ei benodi, i drafod y mater?
- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I would certainly be very happy to meet you and Chris Davies, who I met this morning for the first time just very briefly, and I very much welcome him to his new position.
- Byddai. Byddwn yn sicr yn hapus iawn i gyfarfod â chi a Chris Davies, y cyfarfûm yn fyr iawn ag ef am y tro cyntaf y bore yma ac rwy'n ei groesawu'n gynnes iawn i'w swydd newydd.
- The most important thing is that what is planned provides a better service and, obviously, the efficiency savings, to which I referred in my answer to Peter Black.
- Y peth pwysicaf yw bod yr hyn a gynllunnir yn darparu gwasanaeth gwell ac wrth gwrs, yr arbedion effeithlonrwydd y cyfeiriais atynt yn fy ateb i Peter Black.
- 14:22 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, South Wales West has a prevalence of common land in and around Swansea and the Gower areas where it is not uncommon to find fires with malicious intent behind them. I know that this is a problem across Wales, but I would like to know what specific action you are taking alongside your partners in the fire and rescue services, police and local authorities to tackle the menace of criminals setting alight areas of our common, public and private land.
- Weinidog, mae tir comin yn gyffredin yn ardal Abertawe a Gŵyr lle nad yw'n anarferol i rywun ddod ar draws tanau wedi'u cynnu'n fwriadol. Gwn fod hyn yn broblem ym mhob rhan o Gymru, ond hoffwn wybod pa gamau penodol rydych yn eu cymryd gyda'ch partneriaid yn y gwasanaethau tân ac achub, yr heddlu ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â bygythiad troseddwy'r yn cynnu tân ar ein tir comin, tir cyhoeddus a thir preifat.
- 14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I am very well aware of the arson attacks to which you refer and, certainly, the incidence of grass fires increased greatly over the Easter period. There had been a significant drop in the number of grass fires in the first quarter of this year, compared with the first quarter of last year, which was very welcome, but, unfortunately, we saw a rise over Easter.
- Iawn. Rwy'n ymwybodol iawn o'r tanau bwriadol y cyfeiriwch atynt ac yn sicr, cynyddodd nifer y tanau glaswellt yn sylweddol dros gyfnod y Pasg. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau glaswellt yn chwarter cyntaf y flwyddyn hon o'i gymharu â chwarter cyntaf y llynedd, a oedd yn galonogol, ond yn anffodus, gwelsom gynydd dros y Pasg.



You will have heard me talking in previous statements in the Chamber about the preventative work that all of the fire and rescue authorities undertake in Wales, particularly, the Phoenix project, which works with young people who are either on the cusp of offending in the way to which I referred, or have actually offended. I think that such schemes are showing the work that can be done with young people to stop reoffending.

Byddwch wedi fy nghlywed yn siarad mewn datganiadau blaenorol yn y Siambr am y gwaith ataliol y mae'r holl awdurdodau tân ac achub yn ei wneud yng Nghymru, yn enwedig prosiect Phoenix sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd naill ai mewn perygl gwirioneddol o droseddu yn y ffordd y cyfeiriais ati, neu eisoes wedi troseddu. Rwy'n meddwl bod cynlluniau o'r fath yn dangos y gwaith y gellir ei wneud gyda phobl ifanc i atal troseddu.

## Perfformiad Gwasanaethau

## The Performance of Services

14:24 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad gwasanaethau a gaiff eu darparu gan awdurdodau lleol? OAQ(4)0418(LG)*

5. Will the Minister make a statement on the performance of services provided by local authorities? OAQ(4)0418(LG)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch. Every local authority has a duty to provide efficient, high-quality services for its local population. The levels of performance are subject to scrutiny and challenge by independent regulatory and audit bodies, as well as authorities' own scrutiny procedures.

Diolch. Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel ar gyfer ei boblogaeth leol. Mae lefelau perfformiad yn agored i'w craffu a'u herio gan gyrrff rheoleiddio ac archwilio annibynnol yn ogystal â gweithdrefnau craffu'r awdurdodau eu hunain.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch yn fawr, Weinidog. Mae Cyngor Gwynedd yn casglu gwastraff bwyd ei hunain, gan fynd i bartneriaeth â chwmni preifat i gynhyrchu trydan o nwy ac i gynhyrchu gwrtaithefeyd. Bydd digon o drydan i gyflenwi tua 900 o dai bob blwyddyn. A fydddech chi'n llongyfarch y cyngor ar ei flaengaredd yn y maes hwn fel llawer maes arall?

Thank you very much, Minister. Gwynedd Council collects food waste and has entered into a partnership with a private company to produce electricity from gas and to produce fertilizer. There will be enough electricity to supply approximately 900 houses each year. Would you congratulate the council on its innovation in this field as in many other fields?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes. I saw the project myself and it certainly is innovative. During the course of all my visits around Wales last year, I did see many examples, such as you refer to, of best practice and innovation.

Byddwn. Gwelais y prosiect fy hun ac roedd yn bendant yn arloesol. Yn ystod fy holl ymweliadau o amgylch Cymru y llynedd, gwelais lawer o enghreifftiau o arfer gorau ac arloesedd tebyg i'r hyn y cyfeirwch ato.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I call on the opposition spokesperson, Mark Isherwood.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you. The performance of local authority services, as you are well aware, was subject to consideration by the Williams commission in its report on public service, governance and delivery. What timescales has the Welsh Government agreed, if any, with the Welsh Local Government Association for it to collate and submit, and for the Welsh Government to consider, its cost evaluation of the Williams merger proposals?

Diolch. Roedd perfformiad gwasanaethau awdurdod lleol, fel y gwyddoch yn iawn, yn ddarostyngedig i ystyriaeth comisiwn Williams yn ei adroddiad ar wasanaethau cyhoeddus, llywodraethu a chyflawni. Pa amserlenni y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cytuno, os o gwbl, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer casglu a chyflwyno ei werthusiad o gost argymhellion Williams ar gyfer uno i Lywodraeth Cymru eu hystyried?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The Member for North Wales will be aware that the First Minister will be setting out the Welsh Government's position in relation to the commission's findings before the summer.

Bydd yr Aelod dros Ogledd Cymru yn ymwybodol y bydd y Prif Weinidog yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanfyddiadau'r comisiwn cyn yr haf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>How, therefore, do you, as the relevant Minister, respond to my understanding that, for example, in north Wales, all local authorities have now agreed that there will be no further service changes, structural changes, collaborations or voluntary mergers because of the uncertainty caused and the risk that they may be required to follow outcomes that differ from the actions that they may take, and that this has already led to at least one merger of departments between authorities being stopped—this was between Flintshire and Denbighshire legal services, I believe, because they were not two of the recommended merging authorities?</p>	<p>Felly sut rydych chi, fel y Gweinidog perthnasol, yn ymateb i fy nealltwriaeth, er enghraifft, fod pob awdurdod lleol yng nngogledd Cymru bellach wedi cytuno na fydd unrhyw newidiadau pellach i wasanaethau, newidiadau strwythurol, cydweithio nac uno gwirfoddol oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd a'r risg y gallai fod angen iddynt ddilyn canlyniadau sy'n wahanol i'r camau y gallent fod yn eu cymryd, a bod hyn eisoes wedi arwain at roi'r gorau i o leiaf un achos o uno adrannau rhwng awdurdodau-rhwng gwasanaethau cyfreithiol Sir y Fflint a Sir Ddinbych, rwy'n credu-am nad oeddent yn ddau awdurdod yr argymhellwyd y dylid eu huno?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:26	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I do not recognise the scene that you have just talked about. I think that the most important thing that local authorities need to do at the present time is maintain the momentum of ensuring that their performance, scrutiny and governance improve.</p>	<p>Nid wyf yn gyfarwydd â'r sefyllfa rydych newydd sôn amdani. Rwy'n meddwl mai'r peth pwysicaf sydd angen i awdurdodau lleol ei wneud ar hyn o bryd yw cynnal y momentwm o sicrhau bod eu perfformiad, gwaith craffu a llywodraethu yn gwella.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:26	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I call on Kirsty Williams.</p>	<p>Galwaf ar Kirsty Williams.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:26	<b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thank you, Presiding Officer. Minister, following a highly controversial retendering process, Powys County Council has ended all directly delivered domiciliary care and has now handed its domiciliary care contracts to two companies. This is causing absolute uproar in my constituency. We have vulnerable people who have not had their care plans handed over to the new agencies. We have vulnerable female care recipients now being visited by male domiciliary care workers. We have domiciliary care workers who are going to the wrong address and do not know what they should be doing. We have medicines not being delivered to people on time. Surely, you will be as concerned as I am that our vulnerable citizens are being treated in this way. Will you personally ask your officials to look into the situation regarding domiciliary care at Powys County Council to ensure that people are being properly safeguarded in a way that I am fearful that, at present, they are not?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn dilyn proses ail-dendro ddadleuol iawn, mae Cyngor Sir Powys wedi rhoi'r gorau i'r holl ofal cartref a gyflwynir yn uniongyrchol ac mae bellach wedi trosglwyddo ei contractau gofal cartref i ddau gwmni. Mae hyn yn achosi cythrwfl llwyr yn fy etholaeth. Mae gennym bobl agored i niwed nad yw eu cynlluniau gofal wedi cael eu trosglwyddo i'r asiantaethau newydd. Mae gennym weithwyr gofal cartref gwrywaidd bellach yn ymweld â menywod agored i niwed sy'n derbyn gofal. Mae gennym weithwyr gofal cartref sy'n mynd i'r cyfeiriad anghywir ac nad ydynt yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud. Mae gennym feddyginiaethau na chânt eu darparu i bobl ar amser. Mae'n sicr y byddwch yr un mor bryderus â minnau fod ein dinasyddion sy'n agored i niwed yn cael eu trin yn y ffordd hon. A wnech chi ofyn yn bersonol i'ch swyddogion edrych ar y sefyllfa o ran gofal yn y cartref yng Nghyngor Sir Powys er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n briodol mewn ffordd rwy'n ofni nad yw'n digwydd ar hyn o bryd?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:27	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Yes, I will certainly ask my officials to visit Powys council and look into this. I, too, will write to the leader of Powys council and to the Member.</p>	<p>Gwnaf, byddaf yn sicr yn gofyn i fy swyddogion ymweld â Chyngor Powys er mwyn edrych ar hyn. Hefyd, byddaf yn ysgrifennu at arweinydd Cyngor Powys ac at yr Aelod.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Trafodion Cynghorau</b>		<b>Council Proceedings</b>		
14:28	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y fenter ffrydio/gwe-ddarlledu trafodion cynghorau yn fyw yng Nghymru? OAQ(4)0419(LG)</p>	<p>6. Will the Minister make a statement on the progress of the live streaming/webcasting initiative of council proceedings in Wales? OAQ(4)0419(LG)</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. A sum of £1.25 million was provided to local authorities by the Welsh Government in March 2013 to broadcast council meetings. Sixteen local authorities, as well as Brecon Beacons National Park Authority, have opened up their proceedings on the internet. The Vale of Glamorgan has announced that it is due to start broadcasting shortly.
- Diolch. Darparwyd swm o £1.25 miliwn i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor. Mae un ar bymtheg o awdurdodau lleol, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi darlledu eu trafodion ar y rhyngwrwd. Mae Bro Morgannwg wedi cyhoeddi y bydd yn dechrau darlledu'n fuan.
- 14:28 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. The due there was 'council proceedings', and it is really good to hear that 16 councils are now embracing this. However, some concerns have been raised with me about whether this funding is used for all council proceedings or whether some local authorities are choosing to cherry-pick the meetings where live streaming is used. As all council business is rubber-stamped at council and cabinet, would you not agree that for meaningful transparency within local authorities it is essential that these meetings are recorded? There is also another concern about whether they then go onto the internet for people to view after a meeting has taken place. Minister, will you monitor the use of the considerable amount of funding that you have given to ensure that it is used for its purpose and will you ensure that our Welsh taxpayers are able to access the decision-making process after the meetings have taken place?
- Diolch. Y diw oedd 'trafodion cyngor', ac mae'n dda iawn clywed bod 16 o gynghorau bellach yn croesawu hyn. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon wrthyf ynglŷn ag a yw'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer holl drafodion y cyngor neu a yw rhai awdurdodau lleol yn dewis pa gyfarfodydd i'w ffrydio'n fyw. Gan fod sêl bendith yn cael ei roi ar bob busnes cyngor yn y cyngor a'r cabinet, oni fyddech yn cytuno ei bod hi'n hanfodol cofnodi'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau tryloywder ystyrllon o fewn awdurdodau lleol? Mae pryder arall yn codi ynglŷn ag a ydynt yn cael eu rhoi ar y rhyngwrwd i bobl eu gweld wedi i gyfarfod gael ei gynnal. Weinidog, a wnewch chi fonitro'r defnydd o'r swm sylweddol o arian rydych wedi'i roi er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwiadwyd ac a allwch sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn hygyrch i drethdalwyr Cymru wedi i'r cyfarfodydd gael eu cynnal?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I will certainly be monitoring and evaluating all local authorities that are broadcasting their meetings. I think that it is important that we ensure that democracy is as open and transparent as possible.
- Gallaf, byddaf yn bendant yn mynd ati i fonitro a gwerthuso pob awdurdod lleol sy'n darlledu eu cyfarfodydd. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig inni sicrhau democratiaeth mor agored a thryloyw â phosibl.
- 14:29 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We appear to have reached a tipping point, and the prevailing view these days is that local politics should embrace and encourage this sort of active citizenship. Minister, would you join me in warmly welcoming Carmarthenshire council's decision to extend its webcasting scheme for a further three years? Brecon Beacons National Park should also be congratulated for blazing a trail in that regard too. So, will you work with your colleague the Minister for Culture and Sport to encourage Pembrokeshire coast and Snowdonia national park authorities to follow suit, and broadcast their meetings?
- Mae'n ymddangos ein bod wedi cyrraedd pwynt di-droi'n-ôl, a'r farn gyffredinol y dyddiau hyn yw y dylai gwleidyddiaeth leol groesawu ac annog y math hwn o ddinasyddiaeth weithredol. Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i roi croeso cynnes i benderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i ymestyn ei gynllun gweddardlledu am dair blynedd arall? Dylai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd gael ei longyfarch am agor llwybr newydd yn hynny o beth. Felly a wnewch chi weithio gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, i annog awdurdodau parciau cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Eryri i ddilyn eu hesiampl a darlledu eu cyfarfodydd?
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I very much welcome the developments that you refer to. I am very happy to work with my colleague the Minister for Culture and Sport to encourage the other two national parks to follow the Brecon Beacons.
- Gwnaf, rwy'n croesawu'n fawr y datblygiadau y cyfeiriwch atynt. Rwy'n hapus iawn i weithio gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, i annog y ddau barc cenedlaethol arall i wneud yr un fath â Pharc Bannau Brycheiniog.

## Adnoddau Cyfieithu i Gyngorau Cymuned

## Translation Resources for Community Councils

14:30	<b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnoddau cyfieithu i gynghorau cymuned? OAQ(4)0422(LG)</p>	<p>7. Will the Minister make a statement on translation resources for community councils? OAQ(4)0422(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:30	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>It is for individual community and town councils to address any requirements for translation when the need arises.</p>	<p>Mater i gynghorau cymuned a thref unigol yw mynd i'r afael â gofynion cyfieithu yn ôl yr angen.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:30	<b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Yn cadarnhau yr hyn yr ydych chi yn ei ddweud, yn ôl Un Llais Cymru nid ydy hi'n ofynnol i gynghorau cymuned ddarparu adnoddau cyfieithu, ac nid ydynt ychwaith yn cael cyllid i wneud hynny. Mae un etholwr, sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg, wedi cysylltu â mi, gan ei fod yn dymuno gweld cofnodion cyngor cymuned sy'n rhedeg ei fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ef wedi methu â chael gafael ar y cofnodion hynny. A oes gan y Gweinidog fwiad i edrych ar sut y gall y Llywodraeth sicrhau bod etholwyr yn gallu gweld cofnodion yn Gymraeg neu yn Saesneg, os ydynt yn gwneud cais, ac i sicrhau bod cynghorau cymuned sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog a'u cefnogi i barhau i wneud hynny?</p>	<p>Thank you for that response. Confirming what you have been saying, according to One Voice Wales there is not a requirement for community councils to provide translation facilities, and they are not funded to do so. One constituent, who is not a Welsh speaker, has contacted me, because he wishes to see the minutes of the community council, which runs its business through the medium of Welsh, and he has failed to access those minutes. Does the Minister have any intention to look at how the Government can ensure that constituents are able to see minutes in Welsh or English, if they make that request, and to ensure that community councils that choose to work through the medium of Welsh are encouraged and supported to continue to do so?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:31	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>It is very important that individuals are able to access documents such as the minutes of town and community council meetings. You are quite right that they do have to meet the cost of translation services from their council tax precept. I think that they should reflect translation costs in their annual budget, alongside other expenditure.</p>	<p>Mae'n bwysig iawn i unigolion allu cael mynediad at ddogfennau megis cofnodion cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned. Rydych yn llygad eich lle fod yn rhaid iddynt dalu am wasanaethau cyfieithu o braesept eu treth gyngor. Rwy'n meddwl y dylent gofnodi costau cyfieithu yn eu cyllideb flynyddol ochr yn ochr â gwariant arall.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Diolch, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Rhan o waith ymchwilio safonau Comisiynydd y Gymraeg yw asesu gallu presennol awdurdod lleol i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau. Pan oeddwn i'n gynghorydd cymuned, cynhaliwyd ein busnes, a chyhoeddwyd ein cofnodion—i ddechrau, beth bynnag—yn y Gymraeg yn unig, ar y sail bod trefniadau cyfieithu yn ddard ac yn cymryd llawer o amser. Felly, fel y dywedodd Rhun, mae'n gwestiwn o fynediad i'r broses ddemocrataidd i'r di-Gymraeg hefyd. A ydych yn gwybod a yw awdurdodau lleol wedi bod yn ystyried eu gallu i gefnogi cynghorau cymuned yn y mater hwn, wrth ymateb i ymchwiliad y comisiynydd?</p>	<p>Thank you, Minister, for that response. Part of the Welsh Language Commissioner's investigation of standards is to assess a local authority's current capacity to treat both languages equally in the provision of services. When I was a community councillor, we conducted our business, and our minutes were published — initially, anyway — in Welsh only, on the grounds that translation arrangements are expensive and take a great deal of time. Therefore, as stated by Rhun, it is a question of access to the democratic process for non-Welsh speakers also. Do you know whether local authorities have been considering their ability to support community councils in this matter, in response to the commissioner's investigate?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I am not aware of any specific examples that I can give you of local authorities assisting town and community councils in relation to this.</p>	<p>Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau penodol y gallaf eu rhoi i chi am awdurdodau lleol yn cynorthwyo cynghorau tref a chymuned mewn perthynas â hyn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I call on the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will know that, in the most recent local government legislation, there was a requirement on all community councils to have a website, and I think that there was the expectation that the minutes of their meetings would be posted on that website. Is the Welsh Government's expectation that those websites should be bilingual, and, if so, how is that being funded?
- Weinidog, yn y ddeddfwriaeth lywodraeth leol ddiweddaraf, roedd yn ofynnol i bob cyngor cymuned gael gwefan a chredaf fod disgwyl i gofnodion eu cyfarfodydd gael eu gosod ar y wefan honno. A yw llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r gwefannau hynny fod yn ddwyieithog, ac os felly, sut y caiff hynny ei ariannu?
- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You will be aware of the funding that we provided in the £1.25 million that I referred to in answer to the opening question. I think that £500 was given to each town and community council to develop a website, and I would hope that they would look favourably on providing it bilingually.
- Byddwch yn ymwybodol o'r arian a ddarparwyd gennym yn yr £1.25 miliwn y cyfeiriais ato wrth ateb y cwestiwn agoriadol. Credaf fod £500 wedi'i roi i bob cyngor tref a chymuned ddatblygu gwefan a byddwn yn gobeithio y byddent yn edrych yn ffafriol ar ei darparu'n ddwyieithog.
- 14:33 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Could I ask you, Minister, whether you would be willing to write to me to let me know how many community councils actually have a website, and which are yet to deliver on that particular proposal?
- A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, a fydddech yn barod i ysgrifennu ataf i adael i mi wybod faint o gynghorau cymuned sydd â gwefan mewn gwirionedd a pha rai sydd eto i gydymffurfio â'r cynnig penodol hwnnw?
- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Out of the 700 plus, I will endeavour to find out how many there are, and write to the Member.
- Gwnaf. O'r 700 a mwy o gynghorau, ymdrechaf i ddarganfod faint o wefannau sy'n bodoli a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

## Perfformiad Awdurdodau Lleol

## Local Authority Performance

- 14:33 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. Pa asesiad diweddar y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o berfformiad awdurdodau lleol? OAQ(4)0420(LG)*
- 8. What recent assessment has the Minister made of local authority performance? OAQ(4)0420(LG)*
- 14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Performance varies more widely across authorities than it is reasonable to expect. The latest edition of the annual compendium that looks at performance data for local authority services in Wales reflects this picture. It is essential that authorities learn from, and act upon, each other's experiences in terms of good practice.
- Mae perfformiad yn amrywio'n fwy eang ar draws awdurdodau nag y gellid disgwyl yn rhesymol. Mae rhifyn diweddaraf y crynodeb blynyddol sy'n edrych ar ddata perfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru yn adlewyrchu darlun o'r fath. Mae'n hanfodol fod awdurdodau yn dysgu o brofiadau ei gilydd o arfer da ac yn gweithredu arnynt.
- 14:34 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. An important element of local government performance, I would suggest, is its ability to deliver its full range of services, appropriately, to vulnerable residents who are living independently. Many local authorities have taken part in a scheme that is being run by the Alzheimer's Society to train front-line staff to become dementia friends, for example, to help do this. What monitoring does the Welsh Government undertake to assess a local authority's success in terms of its delivery for those vulnerable individuals? What has the Welsh Government done to encourage local authorities to train front-line staff in these important initiatives?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Elfen bwysig o berfformiad llywodraeth leol, byddwn yn awgrymu, yw ei gallu i gyflawni ei hystod lawn o wasanaethau'n briodol i drigolion agored i niwed sy'n byw'n annibynnol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan mewn cynllun gan Gymdeithas Alzheimer i hyfforddi staff rheng flaen ddod yn gyfeillion dementia, er enghraifft, i helpu i wneud hyn. Pa fonitro y mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i'w wneud er mwyn asesu llwyddiant awdurdod lleol o ran yr hyn y mae'n ei ddarparu i unigolion agored i niwed? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i hyfforddi staff rheng flaen mewn perthynas â'r mentrau pwysig hyn?

- 14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am aware of the dementia friends training, and I am endeavouring to undertake it myself as a constituency Assembly Member. I think that it is very important that local authorities encourage their staff to do so because, clearly, many of the vulnerable people that they assist will have dementia. It is very important that they do that. This is monitored in several ways.
- Rwy'n ymwybodol o'r hyfforddiant i gyfeillion dementia ac rwy'n ymdrechu i'w ddilyn fy hun fel Aelod Cynulliad dros fy etholaeth. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i awdurdodau lleol annog eu staff i wneud hyn oherwydd, yn amlwg, mae llawer o'r bobl agored i niwed y maent yn eu cynorthwyo yn dioddef o dementia. Mae'n bwysig iawn eu bod yn gwneud hynny. Caiff hyn ei fonitro mewn sawl ffordd.
- 14:35 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the key performance indicators for local authorities is providing a clean and safe environment. Councils offer pest control services, often at a charge. If that charge is too high, occupiers can be put off dealing with an infestation, which then causes problems for neighbouring properties, both commercial and residential. Do you advise councils on when they must take direct action themselves to protect those neighbouring properties, and does that advice include guidance on charging?
- Weinidog, un o'r dangosyddion perfformiad allweddol yw i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn darparu amgylchedd glân a diogel. Mae cynghorau'n cynnig gwasanaethau rheoli pla a byddant yn aml yn codi tâl am y gwasanaeth. Os yw'r gost yn rhy uchel, mae'n bosibl y bydd deiliaid yn dewis peidio â thrin pla gan olygu y bydd wedyn yn achosi problemau i eiddo masnachol a phreswyl cyfagos. A ydych yn cynghori cynghorau ynglŷn â pha bryd y mae'n rhaid iddynt gymryd camau uniongyrchol eu hunain i ddiogelu eiddo cyfagos o'r fath ac a yw'r cyngor yn cynnwys canllawiau ar godi tâl?
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There will be guidance on charging. I am not aware of the specific point that you first raise. Obviously, it would be up to each local authority. I am sure that they would have the flexibility to be able to assist the residents that came forward asking for that assistance.
- Bydd canllawiau ar godi tâl. Nid wyf yn ymwybodol o'r pwynt penodol rydych yn ei godi yn gyntaf. Yn amlwg, mater i bob awdurdod lleol fyddai hynny. Rwy'n siŵr y byddai ganddynt hyblygrwydd i allu helpu trigolion a fyddai'n gofyn am gymorth o'r fath.
- 14:36 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r wybodaeth y mae'r Llywodraeth yn ei darparu ar berfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn ddefnyddiol ac mae'n bwysig i hwyluso craffu effeithiol ar waith a chyfrifoldebau statudol llywodraeth leol. Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw perfformiad awdurdodau lleol ym maes caffael yn hawdd i'w gyrchu. A dweud y gwir, mae'n gallu bod yn anodd iawn cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol. Fel y Gweinidog llywodraeth leol, beth allwch chi ei wneud i wella argaeledd data perfformiad awdurdodau lleol ym maes caffael?
- The information that the Government provides on the performance of services provided by local authorities, of course, is useful and it is important to facilitate proper scrutiny of the work and statutory responsibilities of local government. I have to say that data on the performance of local authorities in the field of procurement is not easy to access. Indeed, it can be very difficult to access the necessary information. As the Minister for local government, what can you do to improve the availability of performance data for local authorities in the area of procurement?
- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You will be aware of the compendium of performance data to which I referred. Procurement, obviously, is a very important area, particularly in financially challenging times, and you will be aware of the national procurement service that the Minister for Finance and I launched at the end of last year. In light of that new service, it will be much easier to be able to publish the data to which you refer.
- Byddwch yn ymwybodol o'r crynodeb o ddata perfformiad y cyfeiriais ato. Mae'n amlwg fod caffael yn faes pwysig iawn, yn enwedig mewn cyfnod anodd yn ariannol, a gwyddoch am y gwasanaeth caffael cenedlaethol a lansiwyd gan y Gweinidog Cyllid a minnau ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Yng ngoleuni'r gwasanaeth newydd, bydd yn llawer haws cyhoeddi'r data y cyfeiriwch ato.
- 14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 9 was grouped with question 4, so we move to question 10 from Julie Morgan.
- Cafodd cwestiwn 9 ei grwpio gyda chwestiwn 4, felly rydym yn symud i gwestiwn 10 gan Julie Morgan.

## Cam-Drin Domestig

## Domestic Abuse

14:37	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>10. Pa gynnydd y mae'r Gweinidog yn ei wneud o ran lleihau nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)0416(LG)</p>	<p>10. What progress is the Minister making in reducing the incidence of domestic abuse in Wales? OAQ(4)0416(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:37	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We continue to work with our partners, including specialist agencies and the police, to raise awareness and reduce the incidence of domestic abuse in Wales. I will be introducing legislation to address violence against women, domestic abuse and sexual violence in June.</p>	<p>Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys asiantaethau arbenigol a'r heddlu, i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer yr achosion o gam-drin yn y cartref yng Nghymru. Byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mis Mehefin.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:37	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the Minister for that response. Does the Minister think that it is very important to work with perpetrators of domestic abuse, because the vast majority will be living in the community and relating to people in the community? Does she not think that this is particularly important in view of the break-up of the public service that is the probation service? Under the plans of the coalition Government, domestic abuse will be categorised as low-to-medium risk and will be dealt with by the privatised part of the service.</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. A yw'r Gweinidog yn credu ei bod yn bwysig iawn gweithio gyda'r rhai sy'n cyflawni troseddau cam-drin domestig, gan y bydd y mwyafrif llethol yn byw yn y gymuned ac yn ymwneud â phobl yn y gymuned? Onid yw'n meddwl bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y modd y cafodd y gwasanaeth prawf, sy'n wasanaeth cyhoeddus, ei chwalu? O dan gynlluniau'r Llywodraeth glymblaid, caiff cam-drin domestig ei gategoreiddio fel risg isel i ganolig ac ymddrinn â'r mater gan y rhan o'r gwasanaeth sydd wedi'i phreifateiddio.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:38	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, it is absolutely vital that we work with perpetrators because I think that is key to addressing all forms of violence and domestic abuse. The Wales Probation Trust is represented at a very senior level on my 'The Right to be Safe' implementation board. We have another meeting tomorrow. So, I work very closely with it. I also meet regularly with the director of the National Offender Management Service in Wales, Sarah Payne. We have been discussing the implementation of the UK Government's transforming rehabilitation agenda in Wales, because that engagement will continue, in light of what has happened to the probation service, to help to ensure that domestic abuse perpetrators are appropriately managed. I have also recently undertaken a review of domestic services in Wales. One of the things that the review found was that the evidence base for perpetrator programmes in domestic abuse is still very much developing in the UK. So, I think that it is vital that we look at where best practice is. I have to say that no particular model stood out.</p>	<p>Ydy, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gweithio gyda throseddwyr oherwydd credaf fod hynny'n allweddol wrth fynd i'r afael â phob math o drais a cham-drin domestig. Mae Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel uchel iawn ar fy mwrdd gweithredu 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Byddwn yn cyfarfod eto yfory. Felly rwy'n gweithio'n agos iawn â'r Ymddiriedolaeth. Rwyf hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â Sarah Payne, cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru. Rydym wedi bod yn trafod gweithrediad agenda Llywodraeth y DU ar gyfer trawsnewid adsefydlu yng Nghymru, gan y bydd y cyswllt hwnnw'n parhau yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd i'r gwasanaeth prawf, er mwyn helpu i sicrhau bod troseddwyr cam-drin domestig yn cael eu rheoli'n briodol. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiad o wasanaethau domestig yng Nghymru yn ddiweddar. Un o'r pethau y gwelodd yr adolygiad oedd bod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglenni troseddwyr cam-drin domestig yn sicr yn dal i ddatblygu yn y DU. Felly rwy'n credu ei bod yn hanfodol inni edrych i weld ble mae'r arferion gorau. Mae'n rhaid i mi ddweud nad oedd un model penodol yn sefyll allan.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:39	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, a recent report by HM Inspectorate of Constabulary said that there were significant concerns about how Gwent Police responded to and handled some domestic abuse cases. It found that risk assessments were not consistently applied and a lack of supervision resulted in victims not being given the same level of service across the force area. Will the Minister agree to raise these concerns with the chief constable of Gwent Police when she meets him next to discuss tackling domestic abuse in the area?</p>	<p>Weinidog, nododd adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi fod pryderon sylweddol ynghylch sut yr aeth Heddlu Gwent ati i ymateb ac i ymdrin â rhai achosion o gam-drin domestig. Canfu nad oedd asesiadau risg yn cael eu defnyddio'n gyson a bod diffyg goruchwyliaeth yn arwain at fethu â rhoi'r un lefel o wasanaeth i ddioddefwyr ym mhob rhan o ardal yr heddlu. A wnaiff y Gweinidog gytuno i godi'r pryderon hyn gyda phrif gwnstabl Heddlu Gwent pan fydd hi'n ei gyfarfod nesaf i drafod mynd i'r afael â cham-drin domestig yn yr ardal?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:39	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I can assure you that I have already raised my concerns, not just with the chief constable of Gwent Police, but with all four chief constables and police and crime commissioners. The report that was published was disappointing. It presented quite worrying findings. I have also written to the Home Secretary about my concerns. I have told the four PCCs and the chief constables that I am very happy to work with them in order that they do deliver improvements in Wales. I meet regularly with them all and for my next meeting it is on the agenda.</p>	<p>Gallaf eich sicrhau fy mod eisoes wedi mynegi fy mhryderon, nid yn unig wrth brif gwnstabl Heddlu Gwent, ond wrth bob un o'r pedwar prif gwnstabl a'r comisiynywyr heddlu a throseddau. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn siomedig. Mae'n cyflwyno canfyddiadau eithaf pryderus. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref ynglŷn â fy mhryderon. Rwyf wedi dweud wrth y pedwar Comisiynydd a'r prif gwnstabiliaid fy mod yn hapus iawn i weithio gyda hwy er mwyn iddynt gyflawni gwelliannau yng Nghymru. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â hwy i gyd ac mae'r mater ar yr agenda ar gyfer fy nghyfarfod nesaf.</p>
14:40	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Weinidog, rwy'n credu mai beth sy'n bwysig i fi yw ystyried y bobl sydd ddim yn ystyried eu bod mewn perthynas sydd yn dioddef o drais domestig. Sut y gallwn roi gwybodaeth mas yna iddyn nhw, achos ni fyddant yn mynd at Women's Aid neu Calan DVS, er enghraifft, oherwydd nid ydynt yn gweld eu hunain fel dioddefwyr? Pa negeseuon positif y gallwn eu rhoi i fenywod a dynion sy'n mynd trwy gyfnod anodd mewn perthynas ac sydd ddim yn gweld ei fod yn rhywbeth mwy difrifol na hynny?</p>	<p>Minister, I think that what is important to me is to consider the people who do not actually believe that they are in a relationship that is affected by domestic abuse. How can we provide information to those people, because they are not going to approach Women's Aid or Calan DVS, for example, because they do not see themselves as victims? What positive messages can we put out there to women and men who are going through difficult periods in relationships and do not see that it is something more serious than that?</p>
14:41	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I think that you raise a very important point and certainly one of the things that I have done over the last year is to improve workplace policies. Every public service organisation in Wales now has a workplace policy and those that had them before have improved them. It is important that an employee who, as you say, may not recognise that they are in an abusive relationship, has somewhere where they can discuss it and now they will be able to be signposted to the most appropriate services.</p>	<p>Rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn ac yn sicr, un o'r pethau a wneuthum dros y flwyddyn ddiwethaf yw gwella polisiau yn y gweithle. Mae gan bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru bolisi ar gyfer y gweithle bellach ac mae'r rhai a oedd eisoes yn meddu ar bolisiau wedi'u gwella. Mae'n bwysig, fel y dywedwch, i weithwyr nad ydynt efallai'n cydnabod eu bod mewn perthynas gamdriniol gael rhywle i fynd i drafod y mater ac yn awr bydd modd eu cyfeirio at y gwasanaethau mwyaf priodol.</p>
	<b>Hygyrchedd Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol</b>	<b>The Accessibility of Local Authority Meetings</b>
14:41	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hygyrchedd cyfarfodydd awdurdodau lleol? OAQ(4)0417(LG)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on the accessibility of local authority meetings? OAQ(4)0417(LG)</i></p>
14:41	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Local authorities are obliged to allow public access to their meetings, other than when confidential matters are under discussion.</p>	<p>Rhaid i awdurdodau lleol ganiatáu mynediad i'r cyhoedd i'w cyfarfodydd ac eithrio pan fydd materion cyfrinachol yn cael eu trafod.</p>
14:41	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>To be able to view or attend a meeting in person can obviously help people to feel informed about proceedings. However, the ability for communities to speak at meetings, perhaps particularly at meetings such as planning committees, helps people really believe that their opinions matter and that engagement has been truly meaningful. Would you agree with that and, if so, what is the Welsh Government doing to encourage local authorities to give communities this right?</p>	<p>Yn amlwg, gallai gweld neu fynychu cyfarfod yn bersonol helpu pobl i deimlo'n wybodus ynghylch trafodion. Fodd bynnag, mae'r gallu i gymunedau siarad mewn cyfarfodydd, yn enwedig cyfarfodydd fel pwyllgorau cynllunio efallai, yn helpu pobl i gredu bod eu barn yn bwysig mewn gwirionedd a bod yr ymgysylltiad wedi bod yn wirioneddol ystyrion. A fydddech yn cytuno â hynny ac os felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i roi'r cyfryw hawl i gymunedau?</p>



14:42	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>That is certainly something that I have discussed with local authorities. For people to feel truly close to their local authority and be part of that democratic process, they must feel that their voice is heard and I know that in certain local authorities, you can submit questions beforehand, certainly to executive boards. That is certainly the way forward and I would hope to see more of that across Wales.</p>	<p>Mae hynny'n sicr yn rhywbeth rwyf wedi'i drafod gydag awdurdodau lleol. Er mwyn i bobl deimlo'n wirioneddol agos i'w hawdurdod lleol a bod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, mae'n rhaid iddynt deimlo bod eu llais yn cael ei glywed a gwn y gallwch gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw mewn rhai awdurdodau lleol, yn sicr i'r byrddau gweithredol. Yn bendant, dyna'r ffordd ymlaen a byddwn yn gobeithio gweld mwy o hynny'n digwydd ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:42	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Alongside local authorities, of course, community councils play a vital role in local democracy and enable local communities to play a role in determining how their services are carried out. However, I do receive complaints—it must be said that they are from across Wales—that not all community councils are enabling local residents to get easy access to council meetings. Many are not aware because, as Rhun AM mentioned, agendas and minutes are often not available online. I was under the impression that you had awarded £500 to be given to community councils to enable them to set up websites. Again, how are you monitoring that that money is being used for its purpose? What steps are you taking to ensure that those who pay the precept for a community council feel that they can access all the business that goes on within their local community council?</p>	<p>Ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, wrth gwrs, mae cynghorau cymuned yn chwarae rhan hanfodol mewn democratiaeth leol ac yn galluogi cymunedau lleol i chwarae rhan wrth benderfynu sut y dylid cyflawni eu gwasanaethau. Fodd bynnag, rwy'n derbyn cwynion—rhaid dweud eu bod o bob cwr o Gymru—nad yw pob cyngor cymuned yn galluogi trigolion lleol i gael mynediad hawdd i'w cyfarfodydd. Mae llawer o bobl nad ydynt yn ymwybodol o hyn oherwydd, fel y soniodd Rhun AC, yn aml nid yw'r agendâu a'r cofnodion ar gael ar-lein. Roeddwn dan yr argraff eich bod wedi rhoi £500 i gynghorau cymuned i'w galluogi i sefydlu gwefannau. Unwaith eto, sut rydych yn monitro bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at y diben? Pa gamau a rowch ar waith i sicrhau bod y rhai sy'n talu'r praesept ar gyfer cyngor cymuned yn teimlo y gallant gael mynediad at holl waith eu cyngor cymuned lleol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:43	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Member is quite right: we did provide £500 for each town and community council to set up a website and you will have heard me say, in my answer to Peter Black, that I will write to him clarifying how many have actually set up a website and I am very happy to write to you too.</p>	<p>Mae'r Aelod yn llygad ei le: rydym wedi darparu £500 i bob cyngor tref a chymuned sefydlu gwefan a byddwch wedi fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Peter Black y byddaf yn ysgrifennu ato i egluro faint o gynghorau sydd wedi sefydlu gwefan mewn gwirionedd ac rwy'n hapus iawn i ysgrifennu atoch chi hefyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Trefniadau Cyflog</b>		<b>Pay Arrangements</b>	
14:43	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau cyflog i staff awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0411(LG)</i></p>	<p><i>12. Will the Minister make a statement on pay arrangements for local authority staff in Wales? OAQ(4)0411(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:44	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Local government pay is the responsibility of local government employers.</p>	<p>Cyfrifoldeb cyflogwyr llywodraeth leol yw cyflogau llywodraeth leol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:44 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch am yr ateb bras hwnnw. Y bore yma, roeddwn ar biced gyda phobl sydd yn erbyn preifateiddio a newidiadau i systemau cyflog y Gofrestrfa Tir. Roeddent yn dweud wrthyf fod gan gynghorau lleol gynlluniau ar y gweill gyda'r Gofrestrfa Tir i symud y swyddi o sectorau cynllunio llywodraeth leol i mewn i'r Gofrestrfa Tir, ond bod y gwaith hwnnw'n mynd i gael ei wneud mewn ffordd awtomatig—hynny yw, ni fydd angen pobl i wneud y gwaith. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda llywodraeth leol ynglŷn â'r newidiadau hynny, oherwydd y ffaith y bydd hyn yn arwain at fwy o bobl llywodraeth leol yn colli eu swyddi yn y pen draw?
- Thank you for that response. This morning, I was on a picket line with people who are opposing privatisation and changes to the pay arrangements of the Land Registry. They told me that local councils had plans in the pipeline with the Land Registry to shift jobs from local government planning offices into the Land Registry, but that that work was going to be done in an automated way—that is, you would not need people to carry out those functions. Have you had any discussions with local government on those changes, because of the fact that this will lead to more people within local government losing their jobs ultimately?
- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No, I am not aware of any proposals.
- Na, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynigion.
- 14:44 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, apart from the pay, which is an important part to public sector workers, there is a lot of focus on other workforce issues. I was just wondering how that will be addressed in the Welsh Government's developing response to the Williams commission.
- Weinidog, ar wahân i gyflogau, sy'n rhan bwysig i weithwyr y sector cyhoeddus, mae llawer o ffocws ar faterion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu. Roeddwn i'n meddwl tybed pa sylw a roddir i hynny yn yr ymateb y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu i gomisiwn Williams.
- 14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, that will be a very important part of our response, and we are firmly committed to supporting, developing and ensuring a fair deal for the public service workforce. I have been very carefully considering the findings of the Commission on Public Service Governance and Delivery in this regard, in conjunction with the responses that I have received to our consultation on a draft public workforce Bill. In the light of this, I have decided not to bring the workforce Bill forward at this time. Public services obviously face unprecedented challenges, and the current climate of uncertainty means that it is absolutely essential that staff feel that their interests are considered and are cared for. I am considering establishing a staff commission to advise on how best to achieve consistent and fair treatment for staff through a period of significant change.
- Bydd, bydd hynny'n rhan bwysig iawn o'n hymateb ac rydym yn llwyr ymrwymedig i gefnogi, datblygu a sicrhau bargaen deg ar gyfer y gweithlu gwasanaeth cyhoeddus. Bûm yn ystyried canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn ofalus iawn yn hyn o beth ar y cyd â'r ymatebion a gefais i'n hymgynghoriad ar y drafft o'r Bil gweithlu cyhoeddus. Yng ngoleuni hyn, rwyf wedi penderfynu peidio â dod â Bil y gweithlu gerbron ar hyn o bryd. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn amlwg yn wynebu heriau nas gwelwyd o'r blaen ac mae'r hinsawdd bresennol o ansicrwydd yn golygu ei bod yn gwbl hanfodol fod y staff yn teimlo bod sylw a gofal yn cael ei roi i'w buddiannau. Rwy'n ystyried sefydlu comisiwn staff i roi cyngor ar y ffordd orau i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyson ac yn deg drwy gyfnod o newid sylweddol.
- 14:46 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the issues that we have been discussing at the Public Accounts Committee of late is the relationship in terms of senior staff within local government and their pay. I am aware that you are seeking to address some of the concerns that have been raised regarding these matters in the public interest, and that you have indicated that you will be publishing regulations for local authorities to adopt in their standing orders. However, those proposals were expected this month, and many local authorities have already had their annual general meetings, during which the opportunity to amend their standing orders will have arisen. Can you advise the Assembly when you will be publishing those regulations so that local authorities can adopt them as soon as possible?
- Weinidog, un o'r materion y buom yn ei drafod yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar yw'r berthynas rhwng staff uwch llywodraeth leol a'u cyflog. Rwy'n ymwybodol eich bod yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd ynghylch y materion hyn er budd y cyhoedd, a'ch bod wedi dweud y byddwch yn cyhoeddi rheoliadau i awdurdodau lleol eu mabwysiadu yn eu rheolau sefydlog. Fodd bynnag, roedd disgwyl i'r cynigion hynny gael eu cyhoeddi y mis hwn ac mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi cynnal eu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol sy'n darparu cyfle i newid eu rheolau sefydlog. A allwch roi gwybod i'r Cynulliad pa bryd y byddwch yn cyhoeddi'r rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol eu mabwysiadu cyn gynted ag y bo modd?
- 14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have published updated guidance to which authorities must have regard in preparing their statements for 2014-15.
- Rwyf wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau sy'n rhaid i awdurdodau eu hystyried wrth baratoi eu datganiadau ar gyfer 2014-15.

## Cynllun Cerdyn i Gyn-Filwyr

14:46

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am surprised by the last answer, given the evidence that we received at the Public Accounts Committee.

*13. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cyflwyno cynllun cerdyn i gyn-filwyr yng Nghymru? OAQ(4)0409(LG)*

14:47

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will be aware from previous answers that I have given in the Chamber that initial findings on the need for a card were inconclusive. However, I agreed to further explore whether there is a robust case via a pilot scheme. My armed forces expert group will be updated on proposals next month.

14:47

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I do not doubt your commitment to the veterans in Wales. One innovative approach that is being taken forward by the Scottish Government is the appointment of a Scottish veterans commissioner to champion the interests of veterans in Scotland, and indeed the contribution that those who have served in the armed forces can make to their country. Can you tell us whether you will consider that sort of approach here in Wales and, if so, the timescale by which you expect to be able to make a decision on such an approach?

14:47

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware that Scotland is the first country in the UK to introduce a veterans commissioner. I understand that he or she will be taking up post in the autumn. This is not something that I am considering at the present time.

## Gogledd Cymru

14:48

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0414(LG)*

14:48

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Local authorities in north Wales are responsible for the delivery of front-line services on which people rely every day. They are accountable for the delivery of these services to their elected members, citizens and stakeholders.

## Welsh Veteran Card Scheme

Rwy'n synnu at yr ateb olaf o ystyried y dystiolaeth a gawsom yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

*13. Will the Minister provide an update on progress towards the introduction of a Welsh veteran card scheme? OAQ(4)0409(LG)*

Gwyddoch o atebion blaenorol a roddais yn y Siambr fod y canfyddiadau cychwynnol ar yr angen am gerdyn yn amhendant. Fodd bynnag, cytunais i archwilio ymhellach i weld a oes achos cadarn drwy gynllun peilot. Bydd fy ngrŵp arbenigol ar y lluoedd arfog yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion y mis nesaf.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Nid wyf yn amau eich ymrwymiad i'r cyn-filwyr yng Nghymru. Un cynllun arloesol sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth yr Alban yw penodi comisiynydd cyn-filwyr yr Alban i hyrwyddo buddiannau cyn-filwyr yn yr Alban, ac yn wir, y cyfraniad y gall y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog ei wneud i'w gwlad. A allwch ddweud wrthym a fyddwch yn ystyried y math hwn o beth yma yng Nghymru ac os felly, pa bryd rydych yn disgwyl gallu gwneud penderfyniad ar gynllun o'r fath?

Rwy'n ymwybodol mai'r Alban yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno comisiynydd gyn-filwyr. Rwy'n deall y bydd ef neu hi yn dechrau yn ei swydd yn yr hydref. Nid yw hyn yn rhywbeth rwy'n ei ystyried ar hyn o bryd.

## North Wales

*14. Will the Minister make a statement on the delivery of local government services in North Wales? OAQ(4)0414(LG)*

Mae awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheng flaen y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd. Maent yn atebol am ddarparu'r gwasanaethau hyn i'w haelodau etholedig, eu dinasyddion a'u rhanddeiliaid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that answer, Minister. Gwynedd Council appears to have gained almost universal condemnation for its plans to reduce black bin bag refuse collection to once every three weeks. There are a number of issues surrounding public health and fly-tipping that do not currently appear to have been addressed fully. What safeguards are you able to put in place, along with the Minister for Natural Resources and Food, to ensure that other Welsh local authorities do not consider this controversial change in the future?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n ymddangos fod Cyngor Gwynedd wedi'i gondemnio bron yn llwyr am ei gynlluniau i gyfyngu casgliadau bagiau bin du i unwaith bob tair wythnos. Mae nifer o faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd a thipio anghyfreithlon nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael sylw llawn ar hyn o bryd. Pa fesurau diogelu a allwch chi a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn ystyried newid dadleuol o'r fath yn y dyfodol?</p>
14:48	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, it is up to each local authority to consider how they collect waste. Obviously, Gwynedd Council is looking at this matter at the current time.</p>	<p>Wel, mater i bob awdurdod lleol yw ystyried sut y mae'n casglu gwastraff. Yn amlwg, mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar y mater ar hyn o bryd.</p>
<b>Gorllewin De Cymru</b>		<b>South Wales West</b>
14:49	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0413(LG)</i></p>	<p><i>15. Will the Minister make a statement on the delivery of local public services in South Wales West? OAQ(4)0413(LG)</i></p>
14:49	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The delivery of local public services in South Wales West is the responsibility of a range of public bodies. I expect those services to be delivered to a high standard. Where they are not, I or my ministerial colleagues take appropriate action.</p>	<p>Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn ne-orllewin Cymru yn gyfrifoldeb i amryw o gyrff cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu i safon uchel. Lle nad yw hynny'n digwydd, rwyf i neu fy nghyd-Weinidogion yn rhoi camau priodol ar waith.</p>
14:49	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you very much for that answer, Minister. As you may remember, some local authority-run libraries have closed in one local authority area of my region due to budget cuts. However, some have been taken over by volunteers, with varying degrees of council support. I support that as a move forward, but I am still unclear as to whether they count towards the council's statutory provision under the Public Libraries and Museums Act 1964. I wonder whether you can tell me how much discretion local authorities have in deciding whether these former council-run libraries still count towards their statutory provision.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Fel y cofiwch, mae rhai llyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol wedi cau yn ardal un o'r awdurdodau lleol yn fy rhanbarth o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae gwirfoddolwyr wedi ymgymryd â'r gwaith o redeg rhai ohonynt gyda graddau amrywiol o gymorth yn cael ei roi gan gynghorau. Rwy'n cefnogi hyn fel cam ymlaen ond rwy'n dal yn aneglur pa un a ydynt yn cyfrif tuag at ddarpariaeth statudol y cyngor o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Tybed a allwch ddweud wrthyf faint o ddisgresiwn sydd gan awdurdodau lleol wrth benderfynu a yw'r llyfrgelloedd hyn a arferai gael eu rhedeg gan y cyngor yn dal i gyfrif tuag at eu darpariaeth statudol.</p>
14:49	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I will write to the Member on that specific point.</p>	<p>Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â'r pwynt penodol hwnnw.</p>
14:50	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

### Rhwystro Mynediad i Safleoedd Rhyngwryd

14:50

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am rwystro mynediad i safleoedd rhyngwryd drwy gyfrifiaduron y Cynulliad? OAQ(4)0080(AC)

14:50

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

I thank Mike Hedges for that question. We use an externally managed device called a web content filter to block access to some websites. This device automatically updates itself with lists of websites that may contain material that is inappropriate for access in the workplace, such as sites used for gambling or those that contain adult content. Our aim is to protect individual users and the security of our network.

14:50

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Commissioner for that response. As the Commissioner knows, high-interest pay-day lenders can bring with them an epidemic of despair, preying on individuals, often when they are experiencing real difficulties. Would you consider not only protecting our staff from their marketing techniques, but, more importantly, sending a message about how we feel about these sites, by restricting access to them?

14:51

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, Mike. Now that we are fully in control of our ICT services and infrastructure, we will begin to review regularly the need to block websites, including the type of content that should be blocked, and I will work with officials to review this and make recommendations as necessary. Although the tool that we use to block websites is automated, we can add sites manually to the list of those blocked. That is a straightforward process that can be done immediately. However, we will need to consider the wider implications of blocking access to pay-day loan sites to Assembly users. There are important considerations that could have an impact on how we work and on our understanding of these companies and the implications for our constituents. Access to pay-day loan websites for some Assembly computer users could be considered essential. Assembly Member support staff may need access if they want to offer help and guidance to constituents who have raised issues relating to those loans and companies, and, of course, we have an upcoming Assembly Bill on financial inclusion, which may require Assembly Members to access pay-day loan sites to conduct their own research. Assembly researchers may also need access to these sites to ensure that Members have the most up-to-date facts about lenders and their products.

## Questions to the Assembly Commission

### Blocking Internet Sites

1. Will the Commission make a statement on the blocking of internet sites accessed via Assembly computers? OAQ(4)0080(AC)

Diolch i Mike Hedges am ei gwestiwn. Rydym yn defnyddio dyfais a reolir yn allanol a elwir yn hidlydd cynnwys y we i rwystro mynediad i rai gwefannau. Mae'r ddyfais hon yn diweddarau ei hun yn awtomatig gyda rhestrau o wefannau a all gynnwys deunydd sy'n anaddas i'w gyrchu yn y gweithle fel gwefannau a ddefnyddir ar gyfer hapchwarae neu rai â chynnwys ar gyfer oedolion yn unig. Ein nod yw diogelu defnyddwyr unigol a diogelwch ein rhwydwaith.

Diolch i'r Comisiynydd am ei ymateb. Fel y gŵyr y Comisiynydd, gall benthycwyr diwrnod cyflog llog uchel greu epidemig o anobaith, gan aflonyddu ar unigolion, yn aml pan fyddant yn wynebu anawsterau gwirioneddol. A fydddech yn ystyried, nid yn unig amddiffyn ein staff rhag eu technegau marchnata, ond yn bwysicach, anfon neges ynglŷn â beth yw ein barn am wefannau o'r fath drwy gyfyngu ar fynediad iddynt?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Mike. Gan ein bod bellach â rheolaeth lawn ar ein gwasanaethau a'n seilwaith TGCh, byddwn yn dechrau mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r angen i rwystro gwefannau gan gynnwys y math o gynnwys y dylid ei rwystro, a byddaf yn gweithio gyda swyddogion i adolygu hyn a gwneud argymhellion yn ôl yr angen. Er bod y dull a ddefnyddiwn i rwystro gwefannau wedi'i awtomeiddio, gallwn ychwanegu safleoedd â llaw at y rhestr o'r rhai i'w rhwystro. Mae'n broses syml y gellir ei gwneud ar unwaith. Fodd bynnag, bydd angen i ni ystyried goblygiadau ehangach rhwystro mynediad defnyddwyr y Cynulliad i wefannau benthycwyr diwrnod cyflog. Mae ystyriaethau pwysig a allai gael effaith ar sut rydym yn gweithio ac ar ein dealltwriaeth o'r cwmnïau hyn a'r goblygiadau ar gyfer ein hetholwyr. Gellid ystyried ei bod hi'n hanfodol i rai o ddefnyddwyr cyfrifiaduron y Cynulliad allu cael mynediad i wefannau benthycwyr diwrnod cyflog. Efallai y bydd staff cymorth Aelodau'r Cynulliad angen mynediad os ydynt am gynnig cymorth ac arweiniad i etholwyr sydd wedi codi materion sy'n ymwneud â'r benthyciadau a'r cwmnïau hynny ac wrth gwrs, mae gennym Fil Cynulliad ar y gweill ar gynhwysiant ariannol, a allai ei gneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gael mynediad i wefannau benthycwyr diwrnod cyflog er mwyn gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain. Efallai y bydd ymchwilwyr y Cynulliad angen mynediad i'r gwefannau hyn hefyd er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael y ffeithiau diweddaraf am fenthycwyr a'u cynnyrch.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Members, support staff and Commission staff do have access to the employee assistance programme, which provides confidential advice to individuals who may have concerns about their own personal financial circumstances, and there are additional mechanisms that we offer to all staff, not just those facing financial difficulties, including salary sacrifice schemes, season ticket loans and salary advances.

Mae gan aelodau, staff cymorth a staff Comisiwn fynediad i'r rhaglen gymorth i weithwyr sy'n rhoi cyngor cyfrinachol i unigolion a allai fod yn pryderu am eu hamgylchiadau ariannol personol eu hunain ac mae trefniadau ychwanegol rydym yn eu cynnig i'r holl staff, nid yn unig y rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol, gan gynnwys cynlluniau aberthu cyflog, benthyciadau tocyn tymor a blaendaliadau cyflog.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are no other questions.

Nid oes unrhyw gwestiynau eraill.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Sigarêts Electronig**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Kirsty Williams to move the motion.

Cynnig NNDM5502 Kirsty Williams, Darren Millar, Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd i wahardd y defnydd o sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd yng Nghymru.
2. Yn nodi bod 2.1 miliwn o oedolion yn y DU, yn ôl amcangyfrif, yn defnyddio sigarêts electronig ar hyn o bryd.
3. Yn nodi bod canllawiau iechyd y cyhoedd oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal 'Tobacco: harm-reduction approaches to smoking' yn cefnogi'r defnydd o gynnyrch trwyddedig sy'n cynnwys nicotin i helpu pobl i ysmegu llai neu i roi'r gorau i ysmegu.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion ar sigarêts electronig, er mwyn darparu eglurder ar gyfer cyfiawnhau'r cynigion hyn ym Mil Iechyd y Cyhoedd.

**Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Electronic Cigarettes**

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig y cynnig.

Motion NNDM5502 Kirsty Williams, Darren Millar, Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the proposal within the Welsh Government's consultation on proposals for a Public Health Bill to ban the use of electronic cigarettes in enclosed public places and places of work in Wales.
2. Notes that an estimated 2.1million adults in the UK currently use electronic cigarettes.
3. Notes that public health guidance from the National Institute for Health and Care Excellence 'Tobacco: harm-reduction approaches to smoking' supports the use of licenced nicotine containing products to aid people in cutting down or quitting smoking.
4. Calls on the Welsh Government to bring forward the evidence behind the proposals on electronic cigarettes, to provide clarity on the justification for these proposals within the Public Health Bill.

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to colleagues across the Chamber for allowing this debate time on the floor of the Assembly this afternoon.

It was once said that:

'Those who have ever valued liberty for its own sake believed that to be free to choose, and not to be chosen for, is an inalienable ingredient in what makes human beings human.'

Diolch i gydweithwyr ar draws y Siambr am ganiatáu amser ar gyfer y ddadl ar lawr y Cynulliad y prynhawn yma.

Dywedwyd unwaith:

'Those who have ever valued liberty for its own sake believed that to be free to choose, and not to be chosen for, is an inalienable ingredient in what makes human beings human.'

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, as human beings, we are capable of choosing wrongly, choosing foolishly and choosing downright recklessly. There will always be a tension between when it is correct and right for the state to choose for us and limiting the personal freedoms of the individual, especially when those freedoms impact negatively on the freedoms of others, or when there is a clear societal benefit from intervention by the state. It is that balance, I believe, that is at the heart of the debate this afternoon, certainly for me and my colleagues in the Welsh Liberal Democrats. However, I appreciate that such philosophical niceties do not perhaps excite others in the same way as they do Liberal Democrats, so I would like to concentrate on the very practical arguments about why e-cigarettes should not be banned in enclosed public spaces, as is currently being consulted upon by the Welsh Government as part of its public health proposals. There is no justification for such a ban, no evidence to support such a ban, and, indeed, such a ban could lead to potential improvements in public health being lost—improvements in public health that lie at the heart of a much-needed Government of Wales public health Bill.

It is an undisputed fact that smoking is the largest preventable cause of premature mortality in the UK. The Welsh Government spends millions and millions of pounds treating the effects of tobacco and on trying to persuade the people of Wales to stop smoking. Presiding Officer, I want to make it clear that I am no pro-tobacco zealot; I am all too aware of and all too familiar with the pernicious effects and addictive qualities of cigarettes. I support those smoking cessation programmes as well as other measures to curtail tobacco use. I supported the ban on smoking in public places; indeed, I was voting for such a ban before this Assembly even had the powers to bring it in. I am very glad that, even late in the day, Westminster colleagues have seen fit to move forward on the issue of plain packaging. I supported the ban and I support further tobacco control measures because there is very clear evidence that such steps do reduce harm to smokers and others, and stop potential smokers from acquiring the habit. However, I am yet to be persuaded—indeed, I am yet to see any such evidence that exists—with regard to e-cigarettes.

There is no doubt that e-cigarettes are increasingly visible in our society, whether that be at points of sale or, indeed, people using them. According to a survey commissioned by Action on Smoking and Health, 3% of smokers reported using e-cigarettes in 2010. That had increased to 7% in 2012, and 11% in 2013. An estimated 2.1 million people use the products, one third of those being ex-smokers and two thirds current smokers. The main reason given by those e-cigarette users for their usage is that they are using those products to help them stop smoking, or they are using them to help them stay stopped. I believe that evidence is accumulating that e-cigarettes are an increasingly effective method of nicotine replacement, and a method of allowing people to reduce their harm from tobacco. Let us be clear: nicotine replacement is already recognised as an effective way of reducing harm from tobacco, as evidenced by the National Institute for Health and Care Excellence.

Wrth gwrs, fel bodau dynol, gallwn wneud dewisiadau anghywir, dewisiadau ffôl a dewisiadau hollol ddi-hid. Bydd yna bob amser densiwn rhwng pa bryd y mae'n gywir ac yn iawn i'r wladwriaeth ddewis ar ein rhan a chyfyngu ar ryddid personol yr unigolyn, yn enwedig pan fo rhyddid o'r fath yn effeithio'n negyddol ar ryddid pobl eraill, neu pan fo ymyrraeth y wladwriaeth yn amlwg o fudd i gymdeithas. Rwy'n credu mai cydbwysedd o'r fath sydd wrth wraidd y ddadl y prynhawn yma, yn sicr i mi a fy nghydweithwyr o fewn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Fodd bynnag, rwy'n sylweddoli nad yw chwiwiau athronyddol o'r fath yn cyffroi eraill yn yr un modd ag y maent yn cyffroi'r Democratiaid Rhyddfrydol, felly hoffwn ganolbwytio ar y dadleuon ymarferol iawn pam na ddylid gwahardd e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn ei glych ar hyn o bryd yn rhan o'i chynigion iechyd y cyhoedd. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros waharddiad o'r fath, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi gwaharddiad o'r fath ac yn wir, gallai gwaharddiad o'r fath arwain at golli gwelliannau posibl yn iechyd y cyhoedd—gwelliannau iechyd y cyhoedd sy'n ganolog i Fil iechyd y cyhoedd mawr ei angen gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ffaith ddiamheuol mai ysmegu sy'n achosi fwyaf o farwolaethau cynamserol ataliadwy yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn gwario miliynau ar filiynau o bunnoedd yn trin effeithiau tybaco ac ar geisio dwyn perswâd ar bobl Cymru i roi'r gorau i ysmegu. Lywydd, rwyf am ei gwneud yn glir nad penboethyn o blaid tybaco ydwyf; rwy'n ymwybodol iawn o effeithiau niweidiol a nodweddion caethiwus sigarêts ac rwy'n gyfarwydd iawn â hwy. Rwy'n cefnogi rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu yn ogystal â mesurau eraill i gyfyngu ar ddefnyddio tybaco. Rwy'n cefnogi'r gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus; yn wir, roeddwn yn pleidleisio am waharddiad o'r fath cyn bod gan y Cynulliad hwn bwerau i gyflwyno gwaharddiad o'r fath. Er ei bod yn hwyr yn y dydd, rwy'n hynod o falch fod ein cydweithwyr yn San Steffan wedi dewis symud ymlaen ar fater deunydd pacio plaen. Roeddwn yn cefnogi'r gwaharddiad ac rwy'n cefnogi mesurau rheoli tybaco pellach oherwydd bod tystiolaeth eglur iawn fod camau o'r fath yn lleihau niwed i ysmygwyr ac i eraill ac yn atal darpar ysmygwyr rhag datblygu'r arfer. Fodd bynnag, nid wyf eto wedi cael fy mherswadio—yn wir, nid wyf eto wedi gweld tystiolaeth o'r fath sy'n bodoli—mewn perthynas ag e-sigarêts.

Nid oes amheuaeth fod e-sigarêts yn fwyfwy gweladwy yn ein cymdeithas, boed hynny mewn mannau gwerthu neu'n wir, gan y bobl sy'n eu defnyddio. Yn ôl arolwg a gomisiynwyd gan Action on Smoking and Health, dywedodd 3% o ysmygwyr eu bod yn defnyddio e-sigarêts yn 2010. Roedd hynny wedi codi i 7% yn 2012 ac i 11% yn 2013. Amcangyfrifir bod 2.1 miliwn o bobl yn defnyddio'r cynnyrch, gydag un rhan o dair o'r rheini'n gyn-ysmygwyr a dwy ran o dair yn ysmygwyr cyfredol. Y prif reswm a roddodd defnyddwyr e-sigarêts dros ddefnyddio'r cynhyrchion yw er mwyn eu helpu i roi'r gorau i ysmegu neu er mwyn eu helpu i barhau i fod wedi rhoi'r gorau i'r arfer. Rwy'n credu bod tystiolaeth gynyddol fod e-sigarêts yn ddull mwyfwy effeithiol o amnewid nicotin ac o alluogi pobl i leihau'r niwed y mae tybaco yn ei wneud iddynt. Gadewch i ni fod yn glir: mae amnewid nicotin eisoes yn cael ei chydabod fel ffordd effeithiol o leihau niwed tybaco, fel y dangoswyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

What we do know is that smoking levels in Wales, despite all the efforts of Governments and those working in the field, remain stubbornly high, and we have signed up to a harm-reduction policy. So, why pursue this curtailment of people's freedom and restrict the use of nicotine replacement products that many people are successfully using to help stop smoking? Is it to protect other people from the effects of those products? The Minister himself has admitted that he is not aware of any evidence that e-cigarettes impact harmfully on those who do not use the product. Nor is there any evidence of what the Minister says he is frightened of, that is, e-cigarettes being a gateway into tobacco usage and normalising the effect of smoking. In fact, a recent YouGov survey of 12,000 UK e-cigarette users for ASH showed that there is no evidence from that research that e-cigarettes are acting as a gateway into smoking. The results also show that regular use of e-cigarettes among children and young people is extremely rare and is confined almost entirely to those young people who have already tried traditional tobacco products. Research undertaken by Queen Mary University of London found that a child trying a tobacco cigarette for the first time is '50% likely' to become a regular smoker. The same research found no evidence that a child trying an e-cigarette for the first time goes on to be a regular vaper.

Professor John Britton, who leads the tobacco advisory group for the Royal College of Physicians, says that:

'Nicotine itself is not a particularly hazardous drug. It is something on a par with the effects that you get from caffeine. If all smokers in Britain stopped smoking cigarettes and started smoking e-cigarettes, we would save 5 million deaths in people who are alive today. It's a massive potential public health prize.'

The issue is: will that prize be jeopardised by the Government's actions? I would like to ask the Minister what assessment he has carried out of the unintended consequences of banning these products and putting them in the same class as traditional tobacco products. The Minister admits that there is no evidence of second-hand health risks from e-cigarettes. What research has he done into the health impact of e-cigarette smokers being sent out and banished to the smoking sheds with traditional tobacco smokers? Many people who I have asked via my own website and social media say that that could drive them back to smoking traditional cigarettes when they have managed to cut down or quit smoking altogether.

Some people have rightly raised the issue about the confusion that e-cigarettes cause regarding the enforcement of the current smoking ban. As ASH Wales says on the subject, the most noticeable thing about tobacco smoke is not the smoke itself but the very distinctive and lingering smell. A very quick inspection will, and does, very quickly clear up any potential confusion.

Yr hyn a wyddom yw bod lefelau ysmegu yng Nghymru, er gwaethaf holl ymdrechion Llywodraethau a'r rhai sy'n gweithio yn y maes, yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel ac rydym wedi ymrwymo i bolisi o leihau niwed. Felly pam cwtogi ar ryddid pobl fel hyn a chyfyngu ar y defnydd o gynhyrchion amnewid nicotin y mae llawer o bobl yn eu defnyddio'n llwyddiannus i'w helpu i roi'r gorau i ysmegu? Ai er mwyn amddiffyn pobl eraill rhag effeithiau'r cynhyrchion hynny? Mae'r Gweinidog ei hun wedi cyfaddef nad oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n honni bod e-sigaréts yn cael effaith niweidiol ar rai nad ydynt yn defnyddio'r cynnyrch. Ac nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith o'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud ei fod yn ei ofni, sef bod e-sigaréts yn agor y drws ar ddefnyddio tybaco a normaleiddio effaith ysmegu. Yn wir, dangosodd arolwg YouGov diweddar o 12,000 o ddefnyddwyr e-sigaréts y DU ar gyfer ASH nad oes dystiolaeth o'r ymchwil hwnnw fod e-sigaréts yn agor y drws ar ysmegu. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod defnydd rheolaidd o e-sigaréts ymysg plant a phobl ifanc yn hynod o brin ac wedi'i gyfyngu bron yn llwyr i'r bobl ifanc hynny sydd eisoes wedi rhoi cynnig ar gynnyrch tybaco traddodiadol. Canfu ymchwil a wnaed gan Brifysgol y Frenhines Mary yn Llundain fod plentyn sy'n rhoi cynnig ar ysmegu sigarét tybaco am y tro cyntaf 'à thebygolrwydd o 50%' o ddatblygu'n ysmegwr rheolaidd. Ni chanfu'r un ymchwil unrhyw dystiolaeth fod plentyn sy'n rhoi cynnig ar e-sigarét am y tro cyntaf yn mynd i ddatblygu i fod yn ysmegwr rheolaidd.

Mae'r Athro John Britton, sy'n arwain grŵp cyngor ar dybaco Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, yn dweud:

'Nicotine itself is not a particularly hazardous drug. It is something on a par with the effects that you get from caffeine. If all smokers in Britain stopped smoking cigarettes and started smoking e-cigarettes, we would save 5 million deaths in people who are alive today. It's a massive potential public health prize.'

Dyma'r cwestiwn: a gaiff y wobr honno ei pheryglu gan gamau gweithredu'r Llywodraeth? Hoffwn ofyn i'r Gweinidog pa asesiad y mae wedi'i gynnal o'r canlyniadau anfwriadol a fyddai'n deillio o wahardd y cynhyrchion hyn a'u rhoi yn yr un dosbarth â chynnyrch tybaco traddodiadol. Mae'r Gweinidog yn cyfaddef nad oes dystiolaeth o risgiau iechyd ail-law yn deillio o e-sigaréts. Pa ymchwil a wnaeth i'r effaith ar iechyd ysmegwyr e-sigaréts pe baent yn cael eu gyrru allan a'u halltudio i'r siediau ysmegu gydag ysmegwyr tybaco traddodiadol? Mae llawer o'r bobl y gofynnais iddynt am eu barn drwy fy ngwefan fy hun a chyfryngau cymdeithasol yn dweud y gallai hynny beri iddynt aildechrau ysmegu sigaréts traddodiadol ar ôl llwyddo i gwtogi neu roi'r gorau i ysmegu yn gyfan gwbl.

Mae rhai pobl, yn ddigon teg, wedi cyfeirio at y dryswch y mae e-sigaréts yn ei achosi o ran gorfodi'r gwaharddiad ar ysmegu ar hyn o bryd. Fel y mae ASH Cymru yn ei ddweud am y mater, nid y mwg ei hun yw'r peth amlycaf ynglŷn â mwg tybaco ond yr arogl unigryw a pharhaol. Mae un archwiliad cyflym yn ddigon i gael gwared ar unrhyw ddryswch posibl.



Colleagues, the Welsh Liberal Democrats and I are still very supportive of the ban on smoking in public places. We are very supportive of the ban on packaging on traditional tobacco products. However, without evidence forthcoming from this Government, we will not be in a position to ban the use of e-cigarettes in public places as proposed by the Welsh Government. It is an infringement on people's personal liberty and it does not deliver for the public health agenda.

Gydweithwyr, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a minnau'n dal i fod yn gefnogol iawn i'r gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Rydym yn gefnogol iawn i'r gwaharddiad ar becynnu cynhyrchion tybaco traddodiadol. Fodd bynnag, heb dystiolaeth gan y Llywodraeth hon, ni fyddwn mewn sefyllfa i wahardd y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus fel y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig. Mae'n tramgwyddo rhyddid personol pobl ac nid yw'n cyfrannu dim tuag at agenda iechyd y cyhoedd.

- 15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I am sorry, did you move the motion? Mae'n ddrwg gennyf, a ydych chi wedi cynnig y cynnig?
- 15:01 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I move the motion in my name and in the names of Darren Millar and Elin Jones. Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enw Darren Millar ac Elin Jones.
- 15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Fine, thank you. I call on Julie Morgan. Iawn, diolch i chi. Galwaf ar Julie Morgan.
- 15:01 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you very much, Presiding Officer, for calling me to speak in this very important debate, which I know has at its heart the health of people in Wales. I know that we all share a common goal here—that we want people in Wales to be as healthy as they possibly can. Diolch yn fawr iawn, Lywydd, am alw arnaf i siarad yn y ddadl bwysig hon y mae iechyd pobl Cymru yn gwbl ganolog iddi, fel y gwn. Gwn ein bod oll yn rhannu nod cyffredin yma—rydym am i bobl Cymru fod mor iach ag y gallant fod.
- I have no problem voting for this motion because, if I read the motion, it asks for evidence from the Welsh Government to justify its proposals. It is a good thing to ask for the evidence. So, I am happy to vote for the motion, although personally I back the proposal that e-cigarettes should be treated the same way as ordinary cigarettes and that they should be banned in public places and in work places. Nid oes gennyf unrhyw broblem ynghylch pleidleisio dros y cynnig oherwydd, os darllenaf y cynnig, mae'n gofyn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i gyfiawnhau ei argymhellion. Mae gofyn am y dystiolaeth yn beth da. Felly rwy'n hapus i bleidleisio dros y cynnig er fy mod yn bersonol yn cefnogi'r cynnig y dylai e-sigaréts gael eu trin yn yr un ffordd â sigaréts arferol ac y dylid eu gwahardd mewn mannau cyhoeddus ac mewn mannau gwaith.
- I was particularly pleased to hear that staff in Caerphilly council will be banned from using e-cigarettes in council-owned buildings and vehicles. I hope that other councils may follow that example. Rwy'n arbennig o falch o glywed y bydd staff yng nghyngor Caerffili yn cael eu gwahardd rhag defnyddio e-sigaréts mewn adeiladau a cherbydau sy'n eiddo i'r cyngor. Rwy'n gobeithio y bydd cyngorau eraill yn dilyn yr esiampl honno.
- Back in December, I led a short debate on the regulation of e-cigarettes. At that time, I saw it as an opportunity to air the issues. I said then that I thought that reducing smoking was the single most important thing that we could do to improve the health of the nation, and I still think that. However, there are difficult issues to balance here. On the one hand, it seems positive that e-cigarettes can help people to reduce or stop smoking, but on the other there are worries about the dangers of e-cigarettes and what harm they may do to the body and whether they may act as a gateway into smoking for children and young people in particular. Yn ôl ym mis Rhagfyr, cyflwynais dadl fer ar reoleiddio e-sigaréts. Ar y pryd, roeddwn yn ei weld yn gyfle i wyntyllu'r problemau. Dywedais bryd hynny fy mod yn credu mai cyfyngu ar ysmegu oedd y peth pwysicaf y gallem ei wneud i wella iechyd y genedl ac rwy'n dal i gredu hynny. Fodd bynnag, mae materion anodd eu cydbwysio yma. Ar y naill law, mae'n ymddangos yn gadarnhaol y gallai e-sigaréts helpu pobl i ysmegu llai neu roi'r gorau i'r arfer, ond ar y llaw arall, ceir pryderon am beryglon o e-sigaréts, pa niwed y gallent ei wneud i'r corff ac a allant agor y drws ar ysmegu i blant a phobl ifanc yn benodol.

One of the main problems concerning e-cigarettes is that we just do not know how dangerous they might be. We need to have an evidence-based debate, but this is difficult when not all the evidence is in. The answer to the question of whether e-cigarettes are safe is, as the British Medical Association said quite simply, that we do not know. It will take some time before we do know because we need long-term research to study their effects. There has been some initial research, but I have to stress that it is only initial, which suggests that e-cigarette vapour could potentially cause or worsen respiratory diseases and promote the development of cancer in certain types of human cells. These results are preliminary. A lot more research, especially about longer-term consequences, needs to be done.

The fact that we must wait is of great concern because of the numbers of people now using e-cigarettes—users have tripled since 2010—and because of the perception among young adults that they are not as harmful as regular cigarettes—80% in a recent survey. So, given that we just do not know what their effects are, I think that, above all else, we must proceed with caution.

In fact, back in December when I had the debate, Public Health Wales advised as much. It said that a precautionary approach should be adopted until further information becomes available. To this end, I wonder whether the Minister would consider putting a health warning on e-cigarette packaging, which indicates that it is not known what the dangers are of e-cigarettes. It is important that people who use e-cigarettes should be aware of the fact that we do not know what their effects are.

I also wondered whether manufacturers should be required to put a full list of ingredients on packages, so that people know exactly what is going into their bodies. I think that this is particularly important for the under-18s, because there is a big growth in the use of e-cigarettes by the under-18s.

What also seems ominous to me is the fact that tobacco companies are moving into the market and are, for example, able to advertise e-cigarettes on television. They cannot advertise actual cigarettes, of course, but they often market e-cigarettes in the same way that cigarettes themselves were marketed. This is all part of the expression that we have used of renormalizing smoking. For the tobacco companies, there is money to be made from both cigarettes and their electronic equivalent. This movement into the market and the promotion of the image and habit of smoking should raise alarm bells.

Un o'r prif broblemau sy'n ymwneud ag e-sigaréts yw na wyddom yn iawn pa mor beryglus y gallant fod. Mae angen i ni gael trafodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ond mae hyn yn anodd pan nad yw'r holl dystiolaeth ar gael. Fel y dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain, yr ateb i'r cwestiwn a yw e-sigaréts yn ddiogel yn syml iawn yw nad ydym yn gwybod. Bydd yn cymryd peth amser i ni allu gwybod am fod angen ymchwil hirdymor er mwyn astudio eu heffeithiau. Cafwyd rhywfaint o ymchwil cychwynnol, ond mae'n rhaid i mi bwysleisio mai cychwynnol yn unig ydyw, sy'n awgrymu y gallai anwedd e-sigarét achosi neu waethygu clefydau anadlol a hyrwyddo datblygiad canser mewn rhai mathau o gelloedd dynol. Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain. Mae angen gwneud llawer mwy o ymchwil, yn enwedig ar y canlyniadau mwy hirdymor.

Mae'r ffaith fod yn rhaid i ni aros yn destun pryder mawr oherwydd nifer y bobl sydd bellach yn defnyddio e-sigaréts—mae nifer y defnyddwyr wedi treblu ers 2010—ac oherwydd y canfyddiad ymysg oedolion ifanc nad ydynt mor niweidiol â sigaréts arferol—80% mewn arolwg diweddar. Felly o ystyried nad ydym yn gwybod beth yw eu heffeithiau, yn anad dim arall, credaf fod yn rhaid i ni symud ymlaen gyda gofal.

Yn wir, yn ôl ym mis Rhagfyr pan gyflwynais y ddatl, dyna oedd cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd y dylid mabwysiadu ymagwedd ragofalus tan y ceid rhagor o wybodaeth. I'r perwyl hwn, tybed a fyddai'r Gweinidog yn ystyried rhoi rhybudd iechyd ar becynnau e-sigaréts sy'n dangos nad yw'n hysbys beth yw peryglon e-sigaréts. Mae'n bwysig fod pobl sy'n defnyddio e-sigaréts yn ymwybodol o'r ffaith nad ydym yn gwybod beth yw eu heffeithiau.

Tybed hefyd a ddylai fod yn ofynnol i weithgynhyrchwyr roi rhestr lawn o gynhwysion ar becynnau er mwyn i bobl wybod yn union beth sy'n mynd i mewn i'w cyrff. Rwy'n credu bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer plant dan 18 oed am fod cynnydd mawr yn y defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc dan 18 oed.

Yr hyn sydd hefyd yn ymddangos yn fygythiol i mi yw'r ffaith fod cwmnïau tybaco yn symud i mewn i'r farchnad ac yn gallu hysbysebu e-sigaréts ar y teledu er enghraifft. Ni chânt hysbysebu sigaréts go iawn wrth gwrs, ond maent yn aml yn marchnata e-sigaréts yn yr un ffordd ag y câi sigaréts eu hunain eu marchnata. Mae hyn oll yn rhan o'r hyn rydym wedi'i alw'n ail-normaleiddio ysmegu. I'r cwmnïau tybaco, mae arian i'w wneud o sigaréts a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig. Dylai'r symudiad hwn i mewn i'r farchnad ac ymdrechion i hyrwyddo'r ddelwedd a'r arfer o ysmegu ganu larymau.

So, I am pleased that there is a consultation process going on; I hope that there will be a big response from the public. As I said at the beginning, my view is that I hope that we treat e-cigarettes in the same way as we treat the more traditional tobacco-based cigarettes. None of us wants to be in the habit of banning things all of the time, and I take on board the points that Kirsty Williams made at the beginning of her speech about the freedom to choose. However, I really think that, with a product like this, when we do not know what is in it, the Minister for health and the public health department are right to proceed with caution and to consider treating e-cigarettes in the same way as other cigarettes.

Felly rwy'n falch fod proses ymgynghori ar y gweill; rwy'n gobeithio y bydd ymateb mawr gan y cyhoedd. Fel y dywedais ar y dechrau, rwy'n gobeithio y byddwn yn trin e-sigarêts yn yr un modd â'r ffordd rydym yn trin sigarêts tybaco mwy traddodiadol. Nid oes yr un ohonom eisiau dechrau arfer o wahardd pethau drwy'r amser ac rwy'n derbyn y pwyntiau a wnaeth Kirsty Williams ar ddechrau ei haraith ynglŷn â'r rhyddid i ddewis. Fodd bynnag, gan na wyddom beth sydd mewn cynnyrch o'r fath, rwy'n credu o ddifrif fod y Gweinidog iechyd a'r adran iechyd cyhoeddus yn iawn i fwrw ymlaen yn ofalus ac i ystyried trin e-sigarêts yn yr un modd â sigarêts eraill.

15:06

## **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I felt quite strongly about contributing to this important debate. It is only a brief contribution, but I want to support the motion, as set out, wholeheartedly. I join the calls on the Welsh Government to bring forward the evidence behind the proposals on electronic cigarettes to provide clarity on the justification for these proposals in the public health Bill.

The motion is not unreasonable, and, if not agreed, or if no evidence is produced to justify the proposals on electronic cigarettes, I fear that it will bring the entire public health Bill into disrepute.

I am bound to say that I was extremely surprised at the draconian measure of banning electronic cigarettes—a powerful weapon, I feel, in the fight against smoking in public places and workplaces. I know of many people—Kirsty Williams is absolutely right—who use them as a basic aid to remove the need for cigarettes. In fact, when I see people using them, I very often ask them why they are using these e-cigarettes. It is always the case that they want to give up cigarettes.

So, surely, a device that emits water vapour is always going to be safer than a normal tar-filled cigarette. In fact, might I suggest that a piece of work is commissioned to provide an analysis of the benefits to people who currently smoke normal cigarettes who move to electronic cigarettes? I should imagine that they would be enormous, both for long-term financial pressures on the NHS and for society at large.

This proposed piece of legislation sends completely the wrong message, and I firmly believe that, as a relatively new legislature, our new laws should be based on evidence and not on a whim.

The health benefits aside, I want the Assembly to consider the unintended consequences of these short-sighted measures. In Gower, for example, we have a thriving electronic cigarettes industry, and, in South Wales West, there are companies both directly and indirectly benefiting from this industry. Many jobs are dependent, together with livelihoods, and this measure puts all of that in jeopardy.

Rwy'n teimlo'n eithaf cryf ynglŷn â chyfrannu at y ddadl bwysig hon. Dim ond cyfraniad byr ydyw ond rwy'n awyddus i roi fy nghefnogaeth lwyr i'r cynnig fel y caiff ei nodi. Ymunaf â'r galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion ar sigarêts electronig er mwyn egluro'r cyfiawnhad dros y cynigion hyn yn y Bil iechyd y cyhoedd.

Nid yw'r cynnig yn afresymol ac os na chytunir arno neu os na chynhyrchir dystiolaeth i gyfiawnhau cynigion ar sigarêts electronig, mae arnaf ofn y bydd yn dwyn anfri ar y Bil iechyd y cyhoedd yn ei gyfanrwydd.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi fy synnu'n fawr gan y mesur llym o wahardd sigarêts electronig—arf pwerus, rwy'n teimlo, yn y frwydr yn erbyn ysmygu mewn manau cyhoeddus a gweithleoedd. Gwn am lawer o bobl—mae Kirsty Williams yn gwbl gywir—sy'n eu defnyddio fel cymorth sylfaenol i gael gwared ar yr angen am sigarêts. Yn wir, pan welaf bobl yn eu defnyddio, rwy'n aml iawn yn gofyn iddynt pam eu bod yn defnyddio e-sigarêts. Y rheswm bob amser yw eu bod am roi'r gorau i sigarêts.

Felly, siawns nad yw dyfais sy'n allyrru anwedd dŵr bob amser yn mynd i fod yn fwy diogel na sigarét arferol sy'n llawn tar. Yn wir, a gaf fi awgrymu y dylid comisiynu gwaith i ddadansoddi'r manteision y byddai pobl sydd ar hyn o bryd yn ysmygu sigarêts arferol yn eu cael o newid i sigarêts electronig? Byddwn yn dychmygu y byddent yn enfawr, o ran pwysau ariannol hirdymor ar y GIG ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r deddfwriaeth arfaethedig hon yn cyfleu neges hollol anghywir ac rwy'n credu'n gryf y dylid seilio ein deddfau newydd, fel corff deddfwriaethol cymharol newydd, ar dystiolaeth ac nid ar fympwy.

Ar wahân i'r manteision iechyd, rwyf am i'r Cynulliad ystyried canlyniadau anfwriadol y mesurau annoeth hyn. Yng Ngŵyr, er enghraifft, mae gennym ddiwydiant sigarêts electronig ffyniannus ac yng Ngorllewin De Cymru, mae cwmnïau'n elwa'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y diwydiant hwn. Mae llawer o swyddi a bywoliaeth llawer o bobl yn ddibynnol ar y diwydiant ac mae'r mesur hwn yn rhoi hynny i gyd mewn perygl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

So, I say to the Chamber that many succinct points have already been made by Members—particularly by Kirsty Williams in moving this motion—and I pay tribute to those Members for tabling this today. I wanted to make this brief contribution, and, to conclude, I hope that the points that I raise—namely where the evidence is to support this ban, what the health benefits are to people moving from cigarettes to electronic measures and what the cost to our economy will be—will ensure that the Government supports this motion and fully accepts a mature approach to the way that it legislates.

Felly, rwy'n dweud wrth y Siambr fod nifer o bwytiau cryno eisoes wedi'u gwneud gan yr Aelodau—yn enwedig gan Kirsty Williams wrth gynnig y cynnig—a thalaf deyrnged i'r Aelodau hynny am gyflwyno hyn heddiw. Roeddwn i eisiau gwneud y cyfraniad byr hwn ac i gloi, rwy'n gobeithio y bydd y pwyntiau rwy'n eu codi—sef ble mae'r dystiolaeth i gefnogi'r gwaharddiad hwn, beth yw'r manteision i iechyd pobl o newid o sigarêts i ddulliau electronig a beth fydd y gost i'n heconomi—yn sicrhau bod y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn meithrin agwedd gwbl aeddfed o ran y ffordd y mae'n deddfu.

15:09

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fy mwriad i, wrth gyfrannu i'r ddafl hon y prynhawn yma, yw nodi'n glir iawn fy marn bersonol i ar hyn, sef fy mod i heb ddod i gasgliad penodol o ran a ddyliid gwahardd ysmegu sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus; rwy'n agored yn eistedd ar y ffens ar hyn o bryd. Rwy'n cefnogi'r cynnig heddiw fel y mae wedi cael ei eirio, oherwydd y mae'n galw am dystiolaeth ychwanegol, a dyna beth y mae rhywun fel fi yn edrych amdano yn y ddafl hon ac wrth inni benderfynu a ddylem ddeddfu ai beidio yn y maes hwn. Hyd yn hyn, o'r hyn rwyf wedi ei weld, nid ydym wedi gweld dystiolaeth glir o'r angen iechyd cyhoeddus sydd yna i gymryd cam o'r fath. I Lywodraeth sydd yn arfer ymhyfrydu yn y ffaith ei bod yn seilio polisi a deddfwriaeth ar dystiolaeth, bach iawn o dystiolaeth sydd i gefnogi'r bwriad i wahardd defnyddio sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus. Bach iawn o dystiolaeth sydd i ddangos fod yna niwed i unigolyn sy'n defnyddio sigarêts electronig. Clywsom rywfaint am hynny oddi wrth Julie James, ond mae hyd yn oed llai o dystiolaeth bod niwed i iechyd unrhyw un sy'n digwydd bod yn sefyll neu eistedd drws nesaf i rywun sy'n defnyddio sigarét electronig.

Mae rhai wedi sôn—ac rwy'n credu bod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn hefyd—bod sigarêts electronig yn gallu bod yn 'gateway' i sigarêts tybaco. Nid oes dystiolaeth o hyn, hyd yn hyn. Yn wir, o'r dystiolaeth sy'n bodoli, mae'n glir bod y 'gateway' yn agor y ffordd arall, gydag ysmygwyr tybaco yn bennaf yn defnyddio sigarêts electronig i orffen ysmegu tybaco. Hyd yn oed ymysg pobl ifanc a phlant, mae'r dystiolaeth yn dangos taw pobl ifanc sydd eisoes yn ysmegu sigarêts sydd hefyd wedi cael unrhyw brofiad o ddefnyddio sigarêts electronig. Rydym yn gwybod yn awr, wrth gwrs, am y bwriad i ddeddfu i wahardd gwerthu sigarêts electronig i blant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed.

My aim, in contributing to this debate this afternoon, is to clearly note my own personal view on this, namely that I have yet to come to a particular conclusion as to whether the smoking of e-cigarettes should be banned in public places; I am openly sitting on the fence at present. I support the motion today as it is tabled, because it calls for additional evidence, and that is what someone like me is seeking in this debate and as we come to a decision as to whether or not we should legislate in this particular area. To date, from what I have seen, we have not seen clear evidence of the public health need and justification for taking such a step. For a Government that usually takes pride in the fact that it bases policy and legislation on evidence, there is very little evidence to support the proposal to ban the use of electronic cigarettes in public places. There is very little evidence to demonstrate that there is any harm to individuals who use electronic cigarettes. We heard a little of that from Julie James, but there is even less evidence of harm being done to the health of anyone who happens to be standing or sitting next to someone using an electronic cigarette.

Some have mentioned—and I believe that the Minister has also referred to this—that electronic cigarettes can be a 'gateway' to tobacco cigarettes. There is no evidence of this, to date. Indeed, from the evidence we have, it is clear that the 'gateway' opens in the other direction, with tobacco smokers mainly using electronic cigarettes to quit smoking tobacco. Even among young people and children, the evidence shows that it is young people who already smoke cigarettes who have had any experience of then using electronic cigarettes. We know now, of course, of the intention to legislate to ban the sale of electronic cigarettes to children and young people under the age of 18.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Y ffactor risg iechyd enfawr i gymdeithas a'r unigolyn yw ysmegu tybaco—mae'r holl dystiolaeth yn pwyntio at hyn, wrth gwrs. Felly, mae gwerth iechyd a gwerth economaidd i'r unigolyn a'r gymdeithas yn ehangach mewn lleihau ysmegu tybaco. Yn hyn o beth, mae'n gynyddol amlwg fod gan sigarêts electronig rôl bwysig i chwarae i helpu rhai pobl i roi i fyny ysmegu sigarêts. Ni ddylem beryglu hyn ar chwim nag ar chwarae bach. Mae'r mwyafrif llethol o ddefnyddwyr y sigarêts electronig—71% ohonynt yn ôl y dystiolaeth fwyaf diweddar o Loegr—yn eu defnyddio er mwyn rhoi'r gorau i dybaco. Mae'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu ei wneud, o bosibl, drwy wahardd ysmegu sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus yn golygu bod y bobl hynny sy'n dewis eu defnyddio i roi i fyny ysmegu yn gorfod cymryd y penderfyniad i fynd allan o'r man cyhoeddus i'r 'shelter' ysmegu, fel y cafodd ei ddisgrifio ynghynt yn y ddadl, gyda'r holl fwg tybaco o'u cwmpas. Fel arall, bydd yn rhaid i fannau cyhoeddus fel tafarndai neu leoedd gwaith greu dau fan ysmegu ar gyfer sigarêts electronig.

Nid wyf cweit yn gymaint o 'liberal' â Kirsty Williams. Rwy'n credu yn gryf iawn yn hawl y wladwriaeth i ymyrryd er lles y gymdeithas ehangach, ond nid wyf wedi cael fy argyhoeddi ar hyn o bryd bod yr achos wedi cael ei wneud er mwyn gwneud hyn—ac rwy'n deall, wrth gwrs, mai ymgynghori mae'r Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd—a byddwn yn dysgu o dystiolaeth ehangach ryngwladol dros y misoedd nesaf am hyn. Fodd bynnag, credaf fod pwynt fan hyn i ofyn i'r Llywodraeth yn benodol iawn i gomisiynu gwaith ymchwil penodol yma yng Nghymru ar y sgil-ffeithiau posibl o waharddiad o'r math hwn ar batrymau bywyd pobl, ac yn enwedig ar benderfyniadau pobl sy'n defnyddio sigarêts electronig ar hyn o bryd ac yn eu defnyddio er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu. Heb dystiolaeth o'r fath—tystiolaeth fanwl o arferion pobl ac o les posibl sigarêts electronig a goblygiadau deddfwriaeth fel hyn—byddwn yn ystyried fy hunan yn anghyfrifol petawn yn pleidleisio ar hyn o bryd i wahardd ysmegu sigarêts electronig, er fy mod yn agored iawn i wneud hynny, gyda'r dystiolaeth yn pwyntio i'r cyfeiriad iawn. Felly, hoffwn glywed y dystiolaeth, a dyna yw pwysigrwydd y ddadl y prynhawn yma.

The huge health risk factor to society and the individual is smoking tobacco—all the evidence points to this, of course. Therefore, there are health benefits and economic benefits to the individual and wider society in reducing tobacco smoking. In this regard, it is increasingly obvious that electronic cigarettes have an important role to play in helping some people to quit smoking cigarettes. We should not put this at risk on a whim or do this lightly. The vast majority of the users of electronic cigarettes—71% of them according to the most recent evidence from England—use them in order to quit tobacco. What the Government intends to do, possibly, by banning the smoking of electronic cigarettes in public places means that those people who choose to use them to give up smoking have to take the decision to go out of a public place and go to the smoking shelter, as it was described earlier in the debate, with all of the tobacco smoke around them. Alternatively, public places such as pubs or places of work would have to provide two smoking areas for the smoking of electronic cigarettes.

I am not quite as much of a liberal as Kirsty Williams. I strongly believe in the right of the state to intervene in the interests of the wider society, but I have yet to be convinced that the case has been made to do this—and I understand, of course, that the Government is currently consulting on this—and we will learn from the wider international evidence for this over the coming months. However, I think that there is a point here in asking the Government very specifically to commission specific research here in Wales on the possible impacts of such a ban on the patterns of people's lives, and especially on the decisions taken by people who use electronic cigarettes at present, and who use them to assist them to give up smoking. Without such evidence—detailed evidence of people's habits and the potential benefits of electronic cigarettes and the implications of legislation like this—I would consider it to be irresponsible of me to vote now to ban the smoking of electronic cigarettes, even though I am very open to doing so, should the evidence point in the right direction. Therefore, I would like to hear the evidence, and that is why this debate is important this afternoon.

15:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Health and Social Services to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch, Lywydd. Let me begin by setting out the position concerning e-cigarettes as it appears in the public health White Paper. It does not, as the mover of the motion so mistakenly suggested, propose a ban on e-cigarettes. It does not propose new restrictions on their sale. It does not even contain a firm commitment to bring their use into line with conventional cigarettes by restricting their use in enclosed public spaces. Rather, it asks for views and further evidence on the idea that such a ban would be beneficial to public health in Wales.

Diolch, Lywydd. Gadewch i mi ddechrau drwy nodi'r sefyllfa o ran e-sigarêts fel y mae'n ymddangos yn y Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd. Nid yw'n cynnig gwahardd e-sigarêts fel yr awgrymodd cynigydd y cynnig mor gyfeiliornus. Nid yw'n cynnig cyfyngiadau newydd ar eu gwerthu. Nid yw hyd yn oed yn cynnwys ymrwymiad cadarn i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio fel sigarêts confensiynol drwy gyfyngu ar eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig. Yn hytrach, mae'n gofyn am farn a thystiolaeth bellach ar y syniad y byddai gwaharddiad o'r fath yn fuddiol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Three key propositions are set forward in the White Paper in support of that proposition: that exempting e-cigarettes from the ban makes its enforcement more difficult; that allowing e-cigarettes to be used in enclosed public spaces contributes to the renormalisation of smoking; and that e-cigarettes act as a gateway product, introducing a new generation to that harmful habit.

In the time that I have available, I am not going to be able to cite the sources for the evidence that I am going to contribute to the debate this afternoon. However, I will make it available to Members immediately after the debate, giving them specific research citations for all the evidence that the motion quite rightly calls for, and which I am confidently able to provide.

In the world of politics it is often said that actions speak louder than words. That is why restrictions on the use of e-cigarettes by Wetherspoons, Arriva Trains, and Ryanair, by Glyndwr, Aberystwyth and Cardiff universities, by health boards, Caerphilly County Borough Council, the Welsh Rugby Union, Liberty stadium and a growing list of others is so important. These public and commercial organisations have already moved to bring e-cigarettes into line with conventional cigarettes because, in the practical business of enforcing the ban on smoking in enclosed public spaces, the use of e-cigarettes makes that more difficult. That is the reason why that long and growing list of organisations have already done what the White Paper proposes. The Assembly has a proud record of being in the vanguard of the smoking ban. None of us should be willing to ignore the mounting evidence that e-cigarettes are undermining the ban that this Chamber put in place, making it more difficult to enforce.

Turning to the wider issues of renormalisation and e-cigarettes as a gateway product, the evidence in support of the precautionary approach comes from expert organisations such as Public Health Wales, the World Health Organization, all four UK chief pharmaceutical officers, the British Medical Association, Cancer Research UK, the Directors of Public Protection Wales and advice provided to Public Health England. If this expert advice is not sufficient evidence for Members, let me return to emerging research evidence in this field. I remind Members that our White Paper proposals do not, in any way, interfere with the use of e-cigarettes as an aid to giving up smoking. I set aside the fact that, in comparison with other available stop-smoking aids, e-cigarettes are the only method that involves the ingestion of highly addictive nicotine directly into the lungs.

I thank Julie Morgan for the point on advertising, because Kirsty Williams's Government in England is proposing that when e-cigarettes are regulated in line with the European directive, products will indeed carry a warning on them, warning individuals that this product contains nicotine, which is a highly addictive substance.

Cyflwynwyd tri chynnig allweddol yn y Papur Gwyn i gefnogi'r cynnig: bod eithrio e-sigaréts o'r gwaharddiad yn ei gwneud yn anos gorfodi'r gwaharddiad; bod caniatáu i e-sigaréts gael eu defnyddio mewn mannau cyhoeddus caeedig yn cyfrannu at ail-normaleiddio ysmegu; a bod e-sigaréts yn gynnyrch sy'n agor y drws ar ysmegu gan gyflwyno cenhedlaeth newydd i'r arfer niweidiol hwn.

Yn yr amser sydd ar gael i mi, nid wyf yn mynd i allu dyfynnu ffynonellau'r dystiolaeth rwyf am ei chyfrannu at y ddatllyd y prynhawn yma. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau eu bod ar gael i'r Aelodau yn syth ar ôl y ddatllyd; gallaf roi cyfeiriadau ymchwil penodol iddynt ar gyfer yr holl dystiolaeth y mae'r cynnig, yn ddigon teg, yn galw amdani a gallaf ei darparu'n hyderus.

Ym myd gwleidyddiaeth, dywedir yn aml fod gweithredu'n dweud mwy na geiriau. Dyna pam y mae'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts gan Wetherspoons, Trenau Arriva a Ryanair, gan brifysgolion Glyndwr, Aberystwyth a Chaerdydd, gan fyrdau iechyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Undeb Rygbi Cymru, stadiwm Liberty a rhestr gynyddol o bobl eraill mor bwysig. Mae'r sefydliadau cyhoeddus a masnachol hyn eisoes wedi rhoi camau ar waith i drin e-sigaréts yn yr un ffordd â sigaréts confensiynol gan fod y defnydd o e-sigaréts yn gwneud y gwaith ymarferol o orfodi'r gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig yn anos. Dyna'r rheswm pam y mae'r rhestr hir a chynyddol o sefydliadau eisoes wedi gwneud yr hyn y mae'r Papur Gwyn yn ei gynnis. Mae record dda gan y Cynulliad o fod ar y blaen o ran y gwaharddiad ar ysmegu. Ni ddylai'r un ohonom fod yn barod i anwybyddu'r dystiolaeth gynyddol fod e-sigaréts yn tansellio'r gwaharddiad a roddodd y Siambr hon ar waith gan ei wneud yn fwy anodd ei orfodi.

Gan droi at faterion ehangach ailnormaleiddio ac e-sigaréts fel cynnyrch sy'n agor y drws ar ysmegu, mae'r dystiolaeth i gefnogi'r ymagwedd ragofalus yn dod gan sefydliadau arbenigol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Iechyd y Byd, pedwar prif swyddog fferyllol y DU, Cymdeithas Feddygol Prydain, Cancer Research UK, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a chyngor a ddarparwyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Os nad yw cyngor arbenigol o'r fath yn ddigon o dystiolaeth i'r Aelodau, gadewch i mi ddychweyd at dystiolaeth ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn. Atgoffaf yr Aelodau nad yw cynigion ein Papur Gwyn yn ymyrryd mewn unrhyw ffordd â'r defnydd o e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu. O'u cymharu â chymhorthion eraill ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu, rwy'n gosod o'r neilltu'r ffaith mai e-sigaréts yw'r unig ddull sy'n galw am lyncu nicotin hynod gaethiwus yn syth i mewn i'r ysgyfaint.

Diolch i Julie Morgan am y pwynt ynglŷn â hysbysebu, gan fod Llywodraeth Kirsty Williams yn Lloegr yn cynnis y dylai cynnyrch e-sigaréts gynnwys rhybudd pan gânt eu rheoleiddio'n unol â'r gyfarwydddeb Ewropeaidd, yn rhybuddio unigolion fod y cynnyrch yn cynnwys nicotin sy'n sylwedd caethiwus iawn.

15:18

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:18 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I made it quite clear, or at least I thought I had, that I am very supportive of measures being pursued at Westminster and in this Chamber. At no point did I say that I was not in favour of the regulation of this particular market. What I am asking for, and what we have not heard today, is the academic evidence to suggest, as you were suggesting, that this will lead to public health gain.

Gwneuthum yn gwbl eglur, neu o leiaf credais fy mod wedi gwneud hynny, fy mod yn cefnogi mesurau yn San Steffan ac yn y Siambr hon. Ni ddywedais ar unrhyw bwynt nad oeddwn o blaid rheoleiddio'r farchnad benodol hon. Yr hyn rwy'n gofyn amdano, a'r hyn nad ydym wedi'i glywed heddiw, yw'r dystiolaeth academaidd i awgrymu, fel roeddech chi'n awgrymu, y bydd hyn yn fanteisiol i iechyd y cyhoedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:19 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is on its way, Llywydd. I was simply answering the Member's point when she, in such a cavalier manner, dismissed nicotine as being of no danger to anybody, but, quite rightly, her Government will warn the public of its highly addictive qualities.

Mae ar ei ffordd, Lywydd. Roeddwn i'n ateb pwynt yr Aelod a ddiystyrai nicotin fel rhywbeth nad yw'n beryglus i unrhyw un, ond yn gwbl briodol, bydd ei Llywodraeth yn rhybuddio'r cyhoedd am ei nodweddion hynod gaethiwus.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I need not cite a New Zealand study, published in 'The Lancet' last September, which found that e-cigarettes were no more effective than nicotine patches at helping smokers to quit. I also do not have time to quote the series of research studies published over the past months that raise serious concerns about the long-term impact of e-cigarettes on users' health.

Nid oes angen i mi ddyfynnu astudiaeth o Seland Newydd a gyhoeddwyd yn 'The Lancet' fis Medi diwethaf a ganfu nad oedd e-sigarêts yn fwy effeithiol na chlytiau nicotin ar gyfer helpu ysmygwyr i roi'r gorau i'r arfer. Hefyd, nid oes gennyf amser i gyfeirio at y gyfres o astudiaethau ymchwil a gyhoeddwyd dros y misoedd diwethaf sy'n mynegi pryderon difrifol am effaith hirdymor e-sigarêts ar iechyd defnyddwyr.

Instead, the very modest proposal contained in our White Paper takes account of the strong emerging evidence that the tobacco industry is deliberately and cynically positioning e-cigarettes in order to create, as the advertising says—which any one of us here will have seen it if we go into a petrol station to buy petrol—the 'future of smoking'. And how successful they already are.

Yn lle hynny, mae'r cynnig cymedrol iawn sydd wedi'i gynnwys yn ein Papur Gwyn yn ystyried y dystiolaeth greff sy'n dod i'r amlwg fod y diwydiant tybaco yn mynd ati'n fwiadol ac yn sinigaidd i leoli e-sigarêts er mwyn creu 'dyfodol ysmygau', fel y mae'r hysbysebion yn ei ddweud—a bydd unrhyw un ohonom yma wedi'i weld wrth fynd i orsaf betrol i brynu petrol. A pha mor llwyddiannus y maent eisoes.

A research survey of Paris schoolchildren reported in academic journals in February this year found that two thirds of 12 to 14-year-old e-cigarette users had never previously been smokers. The researchers concluded that, for teenagers, e-cigarettes were not a product to aid quitting tobacco, but a product designed for experimentation and initiation into cigarette use. In the United States, scientists have found that nearly two thirds of young people who have used e-cigarettes have never been established smokers. In this country, too, only last month, a study—evidence, as the motion calls for—by the Centre for Public Health at Liverpool John Moores University found, in interviewing young people themselves, that e-cigarette use is becoming more and more common among those who had never used tobacco.

Canfu arolwg ymchwil o blant ysgol ym Mharis yr adroddwyd yn ei gylch mewn cyfnodolion academaidd ym mis Chwefror eleni nad oedd dwy ran o dair o blant 12 i 14 mlwydd oed a ddefnyddiai e-sigarêts yn ysmygwyr yn flaenorol. Daeth yr ymchwilwyr i'r casgliad nad yw e-sigarêts yn gynnyrch i helpu rhai yn eu harddegau i roi'r gorau i ddefnyddio tybaco, ond yn hytrach eu bod yn gynnyrch a luniwyd er mwyn arbrofi a chyflwyno'r defnydd o sigarêts. Yn yr Unol Daleithiau, mae gwyddonwyr wedi darganfod nad yw bron i ddwy ran o dair o'r bobl ifanc sydd wedi defnyddio e-sigarêts erioed wedi bod yn ysmygwyr sefydlog. Hefyd, yn y wlad hon yn ystod y mis diwethaf yn unig, canfu astudiaeth—tystiolaeth, fel y mae'r cynnig yn galw amdano—gan Ganolfan Iechyd y Cyhoedd Prifysgol John Moores Lerpwl, wrth gyfwrdd â phobl ifanc, fod y defnydd o e-sigarêts yn dod yn fwyfwy cyffredin ymysg rhai nad ydynt erioed wedi defnyddio tybaco.

Little wonder, then, that there are moves to strengthen the regulation of e-cigarettes by the US Food and Drug Administration and by legislators in Congress. A report published on Capitol Hill last month—a research report, an evidence report—described the way in which the industry targets e-cigarettes at children with flavours like 'cherry crush' and 'chocolate treat'.

Nid yw'n fawr o syndod felly fod mesurau ar y gweill gan Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau yr Unol Daleithiau a deddfwyr y Gyngres i gryfhau rheoleiddio e-sigarêts. Mae adroddiad a gyhoeddwyd ar Capitol Hill y mis diwethaf—adroddiad ymchwil, adroddiad dystiolaeth—yn disgrifio'r ffordd y mae'r diwydiant yn targedu e-sigarêts at blant gyda blasau megis 'cherry crush' a 'chocolate treat'.

Our White Paper proposals do not rely on the fact that other nations find the evidence in relation to e-cigarettes so alarming that they are already banned, as a minimum, in enclosed public places in European countries such as Belgium, Malta, Slovenia, Croatia and the Czech Republic, or indeed banned entirely in countries such as Australia and Brazil. They do not rely on the fact that, in other countries, including New Zealand, Austria, Finland, Denmark, Germany, Hungary, the Netherlands, Portugal and Sweden, they are already regulated as a medicine, which they will not be able to be in this country. Rather, the White Paper simply explores the proposition that the position in Wales should be brought into line with that already being rapidly and widely adopted in other places where the potential harm of e-cigarettes to public health is recognised.

The evidence for considering a change is absolutely clear, and so is the choice that will one day face this National Assembly. Do we want to be where public health medicine in Wales has so often been in the past, which is at the progressive, cutting edge of protection from harm, or do we want our successors to look back at the debates we are holding today and shake their heads at our inability to see where the evidence was leading and to take the practical steps that we had the power and the authority to take?

Do I worry about the state of evidence and the proposals put forward for consultation in our White Paper? I certainly do. I worry that we are at the very modest end of what could be done to address the potential harm from e-cigarettes. I worry that we are not doing enough while we have the chance to get ahead of the curve on the potential threat that e-cigarettes represent to children and young people. What I certainly do not worry about is that to consult and to seek views on the simple proposition to bring e-cigarettes into line with conventional cigarettes, by preventing their use in enclosed public spaces, is in any way in advance of the evidence or where this National Assembly should be prepared to go.

Nid yw cynigion ein Papur Gwyn yn dibynnu ar y ffaith fod gwledydd eraill yn ystyried bod y dystiolaeth mewn perthynas ag e-sigaréts mor frawychus fel eu bod eisoes yn eu gwahardd mewn mannau cyhoeddus caeedig fan lleiaf mewn gwledydd Ewropeaidd megis Gwlad Belg, Malta, Slofenia, Croatia a'r Weriniaeth Tsiec, neu yn wir, eu gwahardd yn gyfan gwbl mewn gwledydd fel Awstralia a Brasil. Nid ydynt yn dibynnu ar y ffaith eu bod eisoes yn cael eu rheoleiddio fel meddyginiaeth mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Seland Newydd, Awstralia, y Ffindir, Denmarc, yr Almaen, Hwngari, yr Iseldiroedd, Portiwgal a Sweden, ac na fydd modd ei wneud yn y wlad hon. Yn hytrach, yr hyn a wna'r Papur Gwyn yn syml yw edrych ar y cynnig y dylai'r sefyllfa yng Nghymru fod yr un fath â'r hyn sydd eisoes yn cael ei fabwysiadu'n gyflym ac yn eang mewn mannau eraill lle y mae niwed posibl e-sigaréts i iechyd y cyhoedd yn cael ei gydnabod.

Mae'r dystiolaeth dros ystyried newid yn gwbl eglur ac felly hefyd y dewis a fydd yn wynebu'r Cynulliad Cenedlaethol hwn rhyw ddydd. A ydym am fod lle y mae meddygaeth iechyd cyhoeddus yng Nghymru wedi bod mor aml yn y gorffennol, sef ar flaen y gad o ran amddiffyn pobl rhag niwed, neu a ydym am i'n holynwyr edrych yn ôl ar y dadleuon rydym yn eu cael heddiw ac ysgwyd eu pennau ar ein hanallu i weld i ble'r oedd y dystiolaeth yn arwain ac i gymryd y camau ymarferol yr oedd gennym y pŵer a'r awdurdod i'w cymryd?

A ydw i'n poeni am safon y dystiolaeth a'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch yn ein Papur Gwyn? Wrth gwrs fy mod. Rwy'n poeni ein bod ar ben cymedrol iawn o'r hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â niwed posibl e-sigaréts. Rwy'n poeni nad ydym yn gwneud digon tra bod cyfle gennym i fod ar flaen y gad o ran bygythiad posibl e-sigaréts i blant a phobl ifanc. Yn bendant, yr hyn nad wyf yn poeni yn ei gylch yw bod ymgynghori a gofyn am farn ar y cynnig syml ynghylch trin e-sigaréts yr un fath â sigaréts confensiynol drwy atal eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig, yn dod o flaen y dystiolaeth mewn unrhyw ffordd neu o flaen yr ystyriaeth ynghylch ble ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol hwn fod yn barod i fynd.

15:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:23 **Darren Millar** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Presiding Officer, and thank you to all of those Members who have taken part in what has been a fascinating and interesting debate. There is no doubt that there will be more of these debates in the coming months as the public health (Wales) Bill White Paper continues to get some attention.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i bob un o'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn yr hyn a fu'n ddadl ddiddorol. Nid yw unrhyw amheuaeth y bydd mwy o'r dadleuon hyn yn y misoedd i ddod wrth i Fil Papur Gwyn iechyd y cyhoedd (Cymru) barhau i gael sylw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



I have to say that I am a little disappointed with the response of the Minister to this debate. I think to describe some of the evidence that has been presented as being cavalier has been quite extraordinary, particularly given that it was not actually Kirsty Williams who was saying that nicotine was not harmful, or was only as harmful as tobacco; it was actually Professor John Britton of the Royal College of Physicians. I just think we need to tone this debate down and look at the evidence clinically. Frankly, the evidence at the moment does not stack up in favour of a ban. What we do know is that there are around 100,000 people in Wales using electronic cigarettes in 2014, and a third of those are ex-smokers. More than 30,000 people have given up and quit smoking as a result of the support that they have been able to glean, and from reducing the harm that they can cause by inhaling tobacco smoke, from switching to e-cigarettes. I think that that is a huge cause for elation and something that we should be celebrating here in Wales and not something that we should be downcast about.

Julie Morgan is quite right—the biggest public health intervention we can make in Wales is to reduce the number of people who are smoking tobacco. E-cigarettes are an extremely useful tool, as demonstrated by the clear evidence from Wales itself that we can see major results in this respect by supporting people in switching to the less harmful effects of e-cigarettes compared with smoking tobacco. So, when you consider that sort of information and those sorts of figures, I think it is very hard to conclude that we should have an all-out war on people being able to opt for e-cigarettes and I think that—  
[Interruption.] I do think that putting people in harm's way by implementing a ban and forcing them into the smoking sheds alongside people who are smoking, particularly when they are trying to quit themselves, is putting them in temptation's way, which could cause them to reignite their passion for smoking.

Let us just look at some of the evidence out there. There is not a great deal of evidence that e-cigarettes are a gateway to smoking tobacco. Action on Smoking and Health commissioned some work on this, and it showed that regular use of e-cigarettes among children and young people is very rare and that it is confined almost entirely to those who currently smoke or who have previously smoked. The majority of studies show that those young people who are experimenting with electronic cigarettes are current smokers or experimenters, and there is very little evidence of people who have never smoked actually trying them. ASH has also said that there is no evidence that e-cigarettes are acting as a gateway to smoking. Elin Jones cited the fact that 71% of those people it surveyed said that they used them to help them quit their habit. Interestingly, 48% use them to reduce the amount of tobacco they smoke without stopping completely. So, if the Government's aim is harm reduction, there is clear evidence stacking up in support of e-cigarettes being a major tool for reduction of harm caused by smoking here in Wales—  
[Interruption.] I know that you are shouting 'rubbish' from a sedentary position, Minister—

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod braidd yn siomedig o glywed ymateb y Gweinidog i'r ddatl hon. Credaf fod disgrifio peth o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel un ffwrdd-â-hi yn eithaf rhyfedd, yn enwedig o ystyried nad Kirsty Williams a ddywedodd nad oedd nicotin yn niweidiol, neu ei fod yr un mor niweidiol â thybaco; yr Athro John Britton o Goleg Brenhinol y Ffisigwyr a ddywedodd hynny. Rwyf i ond yn meddwl fod angen inni gymedrol'r ddatl hon ac edrych ar y dystiolaeth yn glinigol. A dweud y gwir, nid yw'r dystiolaeth o blaid gwaharddiad yn dal dŵr ar hyn o bryd. Yr hyn a wyddom yw bod tua 100,000 o bobl yng Nghymru yn defnyddio sigarêts electronig yn 2014 a thraean o'r rheini'n gyn-ysmygwyr. Mae mwy na 30,000 o bobl wedi rhoi'r gorau i ysmegu o ganlyniad i'r cymorth y maent wedi gallu ei gael, ac o leihau'r niwed y gall anadlu mwg tybaco ei achosi, drwy newid i e-sigarêts. Rwy'n credu bod hynny'n rheswm enfawr dros orfoleddu ac yn rhywbeth y dylem fod yn ei ddatlu yma yng Nghymru ac nid yn rhywbeth y dylem fod yn ddiffas yn ei glych.

Mae Julie Morgan yn llygad ei lle—yr ymyrraeth iechyd cyhoeddus fwyaf y gallwn ei wneud yng Nghymru yw lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu tybaco. Mae e-sigarêts yn arf hynod o ddefnyddiol, fel y dangosodd y dystiolaeth glir o Gymru ei hun, a gallwn weld canlyniadau mawr yn hyn o beth drwy gynorthwyo pobl i newid i effeithiau llai niweidiol e-sigarêts o gymharu ag ysmegu tybaco. Felly, pan ystyriwch wybodaeth o'r fath a'r mathau hynny o ffigurau, rwy'n credu ei bod yn anodd iawn dod i'r casgliad y dylem ymosod ar allu pobl i ddewis e-sigarêts ac rwy'n meddwl bod—  
[Torri ar draws.] Rwy'n credu bod rhoi pobl mewn perygl drwy weithredu gwaharddiad a'u gorfodi i mewn i'r siediau ysmegu ochr yn ochr â phobl sy'n ysmegu, yn enwedig pan fyddant yn ceisio rhoi'r gorau iddi eu hunain, yn eu gwneud yn agored i demtasiwn a allai achosi iddynt ailgynnu eu hawydd i ysmegu.

Gadewch inni edrych ar beth o'r dystiolaeth sydd ar gael. Nid oes llawer iawn o dystiolaeth fod e-sigarêts yn agor y drws ar ysmegu tybaco. Comisiynodd Action on Smoking and Health rywfaint o waith ar hyn a ddangosodd fod defnydd rheolaidd o e-sigarêts ymysg plant a phobl ifanc yn anghyffredin iawn a'i fod wedi ei gyfyngu bron yn gyfan gwbl i'r rhai sy'n ysmegu ar hyn o bryd neu sydd wedi ysmegu o'r blaen. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n dangos bod pobl ifanc sy'n arbrofi gyda sigarêts electronig yn ysmegwyr eisoes neu'n arbrofi gydag ysmegu ac nid oes fawr o dystiolaeth fod pobl nad ydynt erioed wedi ysmegu yn rhoi cynnig ar eu defnyddio. Dywedodd ASH hefyd nad oes unrhyw dystiolaeth fod e-sigarêts yn agor y drws ar ysmegu. Nododd Elin Jones y ffaith fod 71% o'r bobl a holwyd yn dweud eu bod yn eu defnyddio i'w helpu i roi'r gorau i'r arfer. Yn ddi-ddorol, roedd 48% yn eu defnyddio i gyfyngu ar faint o dybaco y maent yn ei ysmegu heb roi'r gorau iddi'n gyfan gwbl. Felly, os mai nod y Llywodraeth yw lleihau niwed, ceir tystiolaeth eglur sy'n cefnogi e-sigarêts fel arf pwysig ar gyfer lleihau'r niwed a achosir gan ysmegu yma yng Nghymru—  
[Torri ar draws.] Rwy'n gwybod eich bod yn gweiddi 'rwtsh' ar eich eistedd, Weinidog—

15:27

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Sorry, but nobody is shouting—

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond does neb yn gweiddi—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:27	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	[Continues.]—but I really—	[Parhau.] —ond rwyf fi wir—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:27	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Order. Nobody is shouting.	Trefn. Nid oes neb yn gweiddi.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:27	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	[Continues.]—think that for you to rubbish evidence—academic evidence—that is being provided in various studies is quite alarming. A recent publication in 'The Lancet', from July 2013, stated that the chemicals that make cigarettes dangerous are either absent in electronic cigarettes or present only in trace amounts. I quote Professor Robert West from University College London:	[Parhau.] —yn meddwl bod i chi alw tystiolaeth—tystiolaeth academaidd—sy'n cael ei rhoi mewn amryw o astudiaethau yn rwtsh yn eithaf brawychus. Nododd cyhoeddiad diweddar yn 'The Lancet' ym mis Gorffennaf 2013 mai dim ond lefelau hybrin, os o gwbl, o'r cemegau sy'n gwneud sigarétys yn beryglus y mae sigarétys electronig yn eu cynnwys. Dyfynnaf yr Athro Robert West o Goleg Prifysgol Llundain:	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		'The risk is negligible, and compared with smoking there is no contest'.	'The risk is negligible, and compared with smoking there is no contest'.	
		So, rather than being a gateway to smoking, they are a gateway out of it. Conventional nicotine replacement therapies have a 90% failure rate in helping people to quit. E-cigarettes have a success rate of around 30%. A University College London study found that those smoking e-cigarettes were 60% more likely not to be smoking than those who used a licensed nicotine replacement therapy or nothing at all. Data from the smoking toolkit survey in England strongly supports this position. I know about and appreciate the concerns that the Minister has about younger people accessing and experimenting with e-cigarettes, but, of course, the UK Government is taking action on that front. There is going to be a ban on younger people being able to purchase these sorts of things, so that deals with the issue that the Minister is quite rightly concerned about. The Royal College of Physicians said that, if all the smokers in Britain stopped smoking cigarettes and started smoking e-cigarettes, we would save 5 million deaths in people who are alive today. It is a massive public health prize. I think that we should take the opportunity to grasp that prize, not by punishing people who are using e-cigarettes as a tool to quit but by supporting them in doing so. It is a useful evidence-based fact that people are quitting smoking using e-cigarettes, Minister, and you cannot blindly ignore that evidence and continue to bury your head in the sand about it and be very selective in the evidence that you are very clearly trying to look at. I appreciate that the jury is still out on the long-term impact—no-one disputes that at all, and we need, of course, to have constant gleaning of further evidence about the long-term effects of e-cigarette use. However, certainly, they are appearing to help the public health outcomes for people, and we ought to not be knocking them as a result.	Felly, yn hytrach nag agor y drws ar ysmegu, maent yn ffordd o gau'r drws ar yr arfer. Mae cyfradd fethiant therapïau amnewid nicotin confensiynol yn 90% o ran helpu pobl i roi'r gorau i'r arfer. Mae'r gyfradd sy'n llwyddo i roi'r gorau i'r arfer drwy ddefnyddio e-sigarétys tua 30%. Canfu astudiaeth gan Goleg Prifysgol Llundain fod pobl sy'n ysmegu e-sigarétys 60% yn fwy tebygol o beidio â bod yn ysmegu na'r rhai a ddefnyddiai therapi amnewid nicotin trwyddedig neu ddim byd o gwbl. Mae data o'r arolwg ar y pecyn cymorth ysmegu yn Lloegr yn cefnogi'r safbwynt hwn yn gadarn. Rwy'n ymwybodol o bryderon y Gweinidog ynglŷn â phobl iau'n defnyddio ac yn arbrofi gyda e-sigarétys, ac yn gwerthfawrogi'r pryderon hynny, ond wrth gwrs, mae Llywodraeth y DU yn rhoi camau ar waith yn hynny o beth. Mae'n mynd i fod yn gwahardd pobl iau rhag gallu prynu'r mathau hyn o bethau felly bydd hynny'n mynd i'r afael â'r mater y mae'r Gweinidog, yn hollol deg, yn pryderu yn ei gylch. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon pe bai'r holl ysmygwyr ym Mhrydain yn rhoi'r gorau i ysmegu sigarétys a dechrau ysmegu e-sigarétys, y byddem yn arbed 5 miliwn o farwolaethau pobl sy'n fyw heddiw. Mae'n wobwr iechyd cyhoeddus enfawr. Rwy'n meddwl y dylem fanteisio ar y cyfle i fachu'r wobwr, nid drwy gosbi pobl sy'n defnyddio e-sigarétys fel adnodd i roi'r gorau i'r arfer, ond drwy eu cynorthwyo i wneud hynny. Mae'n ffaith ddefnyddiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod pobl yn rhoi'r gorau i ysmegu drwy ddefnyddio e-sigarétys, Weinidog, ac ni allwch anwybyddu'r dystiolaeth honno'n ddall a pharhau i gladdu eich pen yn y tywod am y peth, a bod yn ddethol iawn o ran y dystiolaeth rydych yn amlwg iawn yn ceisio edrych arni. Rwy'n sylweddoli nad yw'r wybodaeth gennym ynghylch yr effaith hirdymor—nid oes neb yn amau hynny o gwbl—ac wrth gwrs fod angen i ni fynd ati'n barhaus i gasglu tystiolaeth bellach am effeithiau hirdymor defnyddio e-sigarét. Ond yn bendant, ymddengys eu bod yn helpu i sicrhau canlyniadau iechyd cyhoeddus i bobl ac ni ddylem ladd arnynt am hynny.	

A recent BBC poll—just on public views here—found that 75% of the public would be happy if their friends or family switched from smoking tobacco to using e-cigarettes, and that 62% of the public said that they should not be banned in public places. I support the public view. Let us allow people the opportunity to use these to quit smoking, and to reduce public harm. Thank you.

Canfu pôl diweddar gan y BBC—ar farn y cyhoedd yma'n unig—y byddai 75% o'r cyhoedd yn hapus pe bai eu ffrindiau neu eu teulu'n newid o ysmegu tybaco i ddefnyddio e-sigaréts a dywedodd 62% o'r cyhoedd na ddylid eu gwahardd mewn mannau cyhoeddus. Rwy'n cefnogi barn y cyhoedd. Gadewch i ni roi cyfle i bobl ddefnyddio'r rhain er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu ac i leihau niwed cyhoeddus. Diolch.

15:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion as laid on the paper. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i cyflwynwyd ar y papur. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:31.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:31.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adfywio

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.*

## Welsh Conservatives Debate: Regeneration

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.*

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Byron Davies to move the motion.

Galwaf ar Bryon Davies i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5504 Paul Davies

Motion NDM5504 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod stryd fawr defnydd cymysg ac economi briodol gyda'r nos yn allweddol i sicrhau goroesiad y stryd fawr yng Nghymru;

1. Believes that a mixed-use high street and appropriate night-time economy is key to ensuring the survival of the Welsh high-street;

2. Yn nodi'r cysylltiad rhwng twristiaeth, treftadaeth ac adfywio;

2. Notes the link between tourism, heritage and regeneration;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol, ardaloedd gwella busnes a phrosiectau datblygu ddull cydgysylltiedig o ran adfywio.

3. Calls on the Welsh Government to ensure that there is a joined-up approach to regeneration between local authorities, business improvement districts and development projects.

15:31 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am delighted to have the opportunity to move the motion tabled in the name of Paul Davies, calling on the Welsh Government to ensure that there is a joined-up approach to regeneration between local authorities, business improvement districts and development projects. At the outset, I would like to say that we are accepting both amendments from the Liberal Democrats, in the spirit in which this debate is intended.

Rwyf wrth fy modd yn cael cyfle i gynnig y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol, ardaloedd gwella busnes a phrosiectau datblygu ddull cydgysylltiedig o ran adfywio. Ar y cychwyn, hoffwn ddweud ein bod yn derbyn y ddau welliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr ysbryd a fwriadwyd ar gyfer y ddadl hon.

Like everyone in this Chamber, the Welsh Conservatives want to see bustling high streets, thriving local businesses, and positive community engagement. To achieve this, we need effective management strategies and direction for Welsh high streets. We know that small and medium-sized enterprises are the lifeblood of the Welsh economy, accounting for 99% of Welsh business stock, and they are often the stalwarts of a local high street. How many times have I heard it said that if every SME in Wales could employ one additional member of staff, then every person in Wales who wanted a job would have a job?

The Welsh high street provides an essential role for community engagement, boosting local economies, and enhancing civic pride. The high street is not simply an economic environment for retail—it is a social arena for community development and engagement. Local community empowerment is a central theme of Welsh Conservative vision for our high streets.

However, Welsh high streets are struggling to remain relevant. The rise of internet shopping and the development of out-of-town shopping centres pose a significant threat to the high street. It is time for some new thinking, to ensure that our high streets can exist alongside the thriving internet businesses.

The most recent vacancy snap from the Local Data Company shows that Wales's average shop vacancy rate is 15.7%. This is compared to a rate of 14.9% in Scotland, and a UK average of 13.9%. That was in December 2013. Swansea sadly suffered the fastest rise in shop vacancy rates across the UK; according to the Local Data Company, over four years, it went from 8.3% in 2010 to 23.1% in 2013. Now, let us not be drawn into the reason for this today, but let us just say that, when the council finally stops altering the city centre in Swansea, we will all be delighted, and perhaps it can rid itself of its 'Stay away from Swansea, it is a motorist's nightmare' reputation.

To finally set the context to this debate, the March 2014 figures show that footfall in shops in Wales has dropped by 2.7% on the previous year. The three months between January and March 2014 also saw, accumulatively, a fall of 3.4%. This is against a backdrop, across the UK, where there has been a positive increase in footfall, with 1.8% growth in March, and 0.4% in the three months from January. This emphasises, I feel, the urgent need for action.

Wales, in my opinion, is well placed to grow our high streets and local economies. We are blessed with many different historical treasures, from the arcades of Cardiff to the markets in Swansea and Wrexham. Our town and city centres already have the building blocks, but, if we are honest, they lack investment and a joined-up strategy. 'Vibrant and Viable Places' could deliver the regeneration that our centres and high streets need, but they must be delivered alongside, and in partnership with, our businesses, and the private sector.

Fel pawb yn y Siambr hon, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld strydoedd mawr prysur, busnesau lleol sy'n ffynnu ac ymgysylltiad cymunedol cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen strategaethau rheoli effeithiol a chyfeiriad ar gyfer strydoedd mawr Cymru. Gwyddom fod mentrau bach a chanolig eu maint yn asgwrn cefn i economi Cymru, gan gynrychioli 99% o stoc busnesau Cymru, a'r rhain yn aml yw hoelion wyth y stryd fawr leol. Sawl gwaith y clywais rai'n sôn pe gallai pob busnes bach a chanolig yng Nghymru gyflogi un aelod ychwanegol o staff, yna byddai swydd ar gael i bob person yng Nghymru sydd eisiau swydd?

Mae rôl hanfodol gan y stryd fawr yng Nghymru i'w chwarae yn y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned, hybu economïau lleol a gwella balchder dinesig. Nid amgylchedd economaidd ar gyfer manwerthu yn unig yw'r stryd fawr—mae'n arena gymdeithasol ar gyfer datblygu ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae grymuso cymunedau lleol yn thema ganolog yng ngweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer ein strydoedd mawr.

Fodd bynnag, mae strydoedd mawr Cymru yn cael trafferth i barhau'n berthnasol. Mae'r cynnydd mewn siopa ar y rhyngwrwd a datblygiad canolfannau siopa ar gyrion trefi yn peri bygythiad sylweddol i'r stryd fawr. Mae'n bryd cael syniadau newydd er mwyn sicrhau y gall ein strydoedd mawr fodoli ochr yn ochr â busnesau ffyniannus y rhyngwrwd.

Mae'r ciplun diweddaraf o siopau gwag gan y Local Data Company yn dangos bod cyfradd siopau gwag cyfartalog Cymru yn 15.7%. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o 14.9% yn yr Alban, a chyfradd y DU o 13.9%. Roedd hynny ym mis Rhagfyr 2013. Yn anffodus, Abertawe a ddiodeffodd y cynnydd cyflymaf yng nghyfraddau siopau gwag ledled y DU; yn ôl y Local Data Company, dros bedair blynedd, aeth o 8.3% yn 2010 i 23.1% yn 2013. Yn awr, gadewch i ni beidio â chael ein tynnu i mewn i'r rheswm am hyn heddiw, dim ond dweud pan fydd y cyngor yn rhoi'r gorau yn y diwedd i newid canol y ddinas yn Abertawe, byddwn i gyd wrth eu boddau ac efallai y gall gael gwared ar yr enw drwg a gafodd am greu hunllef i fodurwyr sy'n eu cadw allan o Abertawe.

Er mwyn gosod cyd-destun terfynol i'r ddadl hon, mae ffigurau mis Mawrth 2014 yn dangos bod nifer y bobl sy'n mynd i siopau yng Nghymru wedi gostwng o 2.7% ers y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y tri mis rhwng Ionawr a Mawrth 2014 hefyd, cafwyd gostyngiad cronedig o 3.4%. Mae hyn yn erbyn cefndir o gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i siopau ar draws y DU, gyda thwf o 1.8% ym mis Mawrth, a 0.4% yn y tri mis o fis Ionawr. Teimlaf fod hyn yn pwysleisio'r angen i weithredu ar frys.

Yn fy marn i, mae Cymru mewn sefyllfa dda i dyfu ein stryd fawr ac economïau lleol. Cawsom ein bendithio gan lawer o drysorau hanesyddol gwahanol, o arcedau Caerdydd i farchnadoedd Abertawe a Wrecsam. Mae'r cerrig sylfaen eisoes yno, ynghanol ein trefi a'n dinasoedd, ond pe baem yn onest, ni cheir digon o fuddsoddi ynddynt na strategaeth gydgysylltiedig ar eu cyfer. Gallai 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' gyflawni'r gwaith adfywio sydd ei angen ar ganol ein trefi a'n strydoedd mawr, ond rhaid eu cyflwyno ochr yn ochr, ac mewn partneriaeth â'n busnesau a'r sector preifat.

I want to touch briefly on what we mean when we say 'a mixed-use high street'. I want to say at the outset that the Welsh Government's 'Planning Policy Wales', from 2011, which encouraged mixed-use development, was a good step forward. However, local authorities have often attempted to protect the retail core of a high street and this must be looked at. Our local authorities must be encouraged to develop a range of complementary uses including business, leisure, housing and community use. Housing and offices can both be important elements of a successful high street as they can create direct demand for retail and other services, and bring life to areas on a permanent basis.

Coming to the end of my opening remarks, I want to turn to the night-time economy. I know what probably races to the forefront of most of your minds, especially if you are from Swansea and have seen the sight of Wind Street on a weekend, as I have. However, look at the cafe culture that exists on the continent and is beginning to emerge around us in Cardiff bay. The high street after 5.00 p.m. can often be a quiet and deserted place before the late-night economy takes over and this can often be intimidating to older people or, as it gets darker, even earlier. By looking at this particular issue, a true mixed-use economy could help to regenerate our high streets. The UK Government's 'Re-imagining urban spaces to help revitalise our high streets' has some good ideas within it. I very much hope that the Welsh Government will plagiarise much of it.

It is also important to consider the night-time economy of a high street, which can be a valuable asset to the local economy. A 24-hour shopping culture now dominates retail. So, high streets need help to be able to adapt to this modern shopping environment. Tourism is crucial to the Welsh high street and the regeneration of Wales. Wales has an extremely vibrant and rich cultural, social and economic history, which is a huge asset to the regeneration of certain areas. I know that my colleague Suzy Davies will have more to say on this in a moment.

I have touched briefly already on our markets and arcades, but it goes much further than that. I want, for a second, just to look at, for example, Llangollen. Llangollen is an excellent example of how different assets like heritage, tourism and food can be used to create a diverse and successful regeneration project to boost the local economy. The Llangollen Food Festival is a prime example of how food festivals can attract vital tourism to the high street and help to pump money into the local economy.

Rwyf am gyfeirio'n fyr at yr hyn rydym yn ei olygu wrth 'stryd fawr defnydd cymysg'. Rwyf am ddweud ar y dechrau fod 'Polisi Cynllunio Cymru' Llywodraeth Cymru yn 2011, a oedd yn annog datblygiadau defnydd cymysg, yn gam da ymlaen. Ond yn aml, mae awdurdodau lleol wedi ceisio gwarchod craidd manwerthol y stryd fawr a rhaid edrych ar hyn. Mae'n rhaid annog ein hawdurdodau lleol i ddatblygu ystod o ddefnyddiau ategol gan gynnwys busnes, hamdden, tai a defnydd cymunedol. Gall tai a swyddfeydd ill dau fod yn elfennau pwysig o stryd fawr lwyddiannus gan y gallant greu galw uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill a dod â bywyd i ardaloedd ar sail barhaol.

Gan ddod i ddiwedd fy sylwadau agoriadol, rwyf am droi at economi'r nos. Yn ôl pob tebyg, gwn beth sydd ar flaen eich meddwl, yn enwedig os ydych yn dod o Abertawe ac fel finnau, wedi gweld y golwg sydd ar Stryd y Gwynt ar benwythnosau. Fodd bynnag, edrychwch ar y diwylliant caffi sy'n bodoli ar y cyfandir ac sy'n dechrau dod yn amlwg o'n cwmpas ym mae Caerdydd. Yn aml, gall y stryd fawr ar ôl 5.00 y prynhawn fod yn lle tawel ac anghyfannedd cyn i economi'r hwyr gymryd drosodd a gall hyn yn aml fod yn fgythiol i bobl hŷn, neu'n gynt na hynny wrth iddi dywyllu hyd yn oed. Drwy edrych ar y mater penodol hwn, yn bendant gallai economi defnydd cymysg helpu i adfywio ein strydoedd mawr. Mae rhai syniadau da yn adroddiad Llywodraeth y DU, 'Re-imagining urban spaces to help revitalise our high streets'. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn dwyn llawer ohono.

Mae hefyd yn bwysig ystyried economi nos y stryd fawr a all fod yn ased gwerthfawr i'r economi leol. Mae diwylliant siopa 24 awr bellach yn dominyddu'r sector manwerthu. Felly mae angen cymorth ar y stryd fawr i allu addasu i amgylchedd siopa modern o'r fath. Mae twristiaeth yn hanfodol i'r stryd fawr yng Nghymru ac i adfywio Cymru. Mae gan Gymru hanes diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd hynod o fywiog a chyfoethog sy'n ased enfawr ar gyfer adfywio rhai ardaloedd. Gwn y bydd gan fy nghydweithiwr Suzy Davies fwy i'w ddweud am hyn mewn munud.

Rwyf wedi cyfeirio'n fyr eisoes at ein marchnadoedd a'n harcedau ond mae'n mynd yn llawer pellach na hynny. Am eiliad, rwyf am edrych ar Langollen, sy'n enghraifft ragorol o sut y gellir defnyddio asedau gwahanol fel treftadaeth, twristiaeth a bywd i greu prosiect adfywio amrywiol a llwyddiannus er mwyn rhoi hwb i'r economi leol. Mae Gŵyl Fwyd Llangollen yn enghraifft wych o sut y gall gwyliau bywd ddenu twristiaeth hanfodol i'r stryd fawr a helpu i chwistrellu arian i mewn i'r economi leol.

The steam railway has proved to be a major driver for regeneration also. We have a number of steam railways across Wales and I would suggest that they have the potential to really focus regeneration opportunities, and directly and indirectly support their respective local economies. I was delighted to join Mark Isherwood in visiting the extension of the Llangollen line to Corwen. The railway enthusiasts and workers have extended the route close to the A5 Holyhead road, near an area called Bonwm. I would suggest that the volunteers who are driving this scheme will do more for regeneration than the Welsh Government could ever hope. That being said, there is huge potential for added benefit and regeneration schemes, which, in fairness, the Welsh Government has done and on which it is to be commended. The construction of the line from Carrog to Corwen, including a planned new station, has been costed at £4.6 million. Grant funding has been obtained from the Welsh Government towards this cost.

Therefore, in opening this debate, I have tried to air some issues in a consensual fashion. There is great potential in Wales for regeneration, if we operate in an open and honest partnership. We Welsh are great at forming committees and that is the great danger in an all-encompassing partnership. However, I believe that we can ensure that they deliver regeneration and do not just end up being talking shops, if we put politics aside and work constructively. I commend the motion to the Chamber. I could say a lot more on it, but I hope that I have teased the main issues out in opening this debate.

Mae'r rheilffordd stêm wedi profi'n sbardun pwysig ar gyfer adfywio hefyd. Mae gennym nifer o reilffyrdd stêm ar draws Cymru a byddwn yn awgrymu bod ganddynt botensial i roi ffocws i gyfleoedd adfywio a chefnogi eu gwahanol economïau lleol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Pleser oedd ymuno â Mark Isherwood wrth ymweld ag estyniad y rheilffordd o Langollen i Gorwen. Mae selogion a gweithwyr y rheilffordd wedi ymestyn y lein yn agos at ffordd yr A5 i Gaerdybi, ger ardal o'r enw Bonwm. Byddwn yn awgrymu bod y gwirfoddolwyr sy'n ysgogi'r cynllun hwn yn gwneud mwy i adfywio nag y gallai Llywodraeth Cymru fyth obeithio ei wneud. Wedi dweud hynny, mae potensial mawr i sicrhau budd ychwanegol a chynlluniau adfywio, ac a bod yn deg, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn a dylid ei chanmol am hynny. Cyfrifir y bydd y gwaith o adeiladu'r rheilffordd o Garrog i Gorwen, gan gynnwys gorsaf newydd arfaethedig, yn costio £4.6 miliwn. Cafwyd arian grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gost hon.

Felly, wrth agor y ddadl hon, rwyf wedi ceisio gwyntyllu rhai materion mewn modd cydsyniol. Mae potensial mawr yng Nghymru ar gyfer adfywio os awn ati i weithredu mewn partneriaeth agored a gonest. Rydym ni'r Cymry'n wych am ffurfio pwyllgorau a dyna'r perygl mawr mewn partneriaeth hollgynhwysol. Fodd bynnag, credaf y gallwn sicrhau eu bod yn cyflawni gwaith adfywio ac nad siopau siarad yn unig ydynt yn y pen draw os gallwn roi gwleidyddiaeth o'r neilltu a gweithio'n adeiladol. Cymeradwyaf y cynnig i'r Siambr. Gallwn ddweud llawer mwy amdano ond rwy'n gobeithio fy mod wedi agor cil y drws ar y prif faterion wrth agor y ddadl hon.

15:38

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Yn mhwynt 3, rhoi 'cyrff cyhoeddus,' ar ôl'awdurdodau lleol,'*

*In point 3, after 'local authorities,' insert 'public bodies,'.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau lleol i gadw cyfran o ardrethi busnes i ysgogi twf economaidd a phrosiectau adfywio lleol.*

*Calls on the Welsh Government to enable local authorities to retain a proportion of business rates to incentivise economic growth and local regeneration projects.*

15:38

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigaf welliannau 1 a 2.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing the debate on regeneration here to the Chamber again today and, of course, for accepting our amendments as well.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl ar adfywio gerbron y Siambr eto heddiw ac wrth gwrs, am dderbyn ein gwelliannau yn ogystal.

Clearly, our high streets and town centres, not only in Wales but across the UK, have faced some seriously challenging times. That is not only because of the economic problems that we have been facing as it is more fundamental than that, but because of changes in the way that people live and work now, and the challenges posed by out-of-town shopping centres and the growth of online and mobile retailing. Sadly, as Byron mentioned in opening this debate today, Wales has the highest national vacancy rate at 15.7%. However, the situation is even more extreme in some areas as we have also heard.

Byron, I was sorry to hear you suggest that Swansea was a motorist's nightmare. I was there last week and while the driving was not a lot of fun the ice cream was second to none. We must be proud of the things that we do really well here, and that is definitely one of them. If we look to some of our other high streets, we will see that Newport, for example, has the second-highest vacancy rate of all cities and towns in the UK, at 28.9%. That is something that we need to be extremely concerned about. There is clearly a lot of work to be done. We have to recognise that, as high streets, they have to offer something that is new and different that neither shopping centres nor the internet can match, if they are going to thrive into the future.

As I said, the way in which people live has fundamentally changed and that has impacted on the way in which they shop. We cannot expect to just recreate the high street of the past and see that being successful. We need to understand what the high street of the future will have to do to compete. I would suggest that that vibrant high street of the future is not just a place to shop, but is a leisure destination where people will be eating, drinking, shopping, meeting, socialising and enjoying themselves. However, it is also a place that is a community hub where people will be accessing services—perhaps they will be visiting doctors, going to libraries and accessing cultural venues.

Yn amlwg, mae ein strydoedd mawr a chanol trefi, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU, wedi wynebu rhai adegau difrifol o heriol, nid yn unig oherwydd y problemau economaidd rydym wedi'u hwynebu—mae'n fwy sylfaenol na hynny—ond oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio yn awr a'r heriau a ddaw yn sgîl canolfannau siopa ar gyron trefi a'r cynnydd mewn gwerthu ar-lein a symudol. Yn anffodus, fel y crybwyllodd Byron wrth agor y ddadl hon heddiw, Cymru sydd â'r gyfradd genedlaethol uchaf o unedau gwag, sef 15.7%. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy eithafol mewn rhai ardaloedd fel y clywsom.

Byron, roedd hi'n ddrwg gennyf eich clywed yn awgrymu bod Abertawe yn hunllef i fodurwyr. Roeddwn i yno yr wythnos diwethaf ac er nad oedd y gyrru'n llawer o hwyl, roedd yr hufen iâ yn ddiguro. Mae'n rhaid i ni fod yn falch o'r pethau rydym yn eu gwneud yn dda iawn ac mae hynny'n bendant yn un ohonynt. Os edrychwn ar rai o'n strydoedd mawr eraill, gwelwn mai Casnewydd, er enghraifft, sydd â'r gyfradd ail uchaf o unedau gwag o holl ddinasoedd a threfi'r DU ar 28.9%. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni fod yn bryderus iawn yn ei gylch. Mae'n amlwg fod llawer o waith i'w wneud. Rhaid i ni gydnabod fod angen i strydoedd mawr gynnig rhywbeth sy'n newydd ac yn wahanol na all y canolfannau siopa na'r rhyngwyd gynnig ei debyg, os ydynt yn mynd i ffynnu yn y dyfodol.

Fel y dywedais, mae'r ffordd y mae pobl yn byw wedi newid yn sylfaenol ac mae hynny wedi effeithio ar y ffordd y maent yn siopa. Ni allwn ddisgwyl allu ail-greu stryd fawr y gorffennol er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae angen i ni ddeall yr hyn y bydd yn rhaid i stryd fawr y dyfodol ei wneud i gystadlu. Byddwn yn awgrymu nad lle i siopa'n unig fydd stryd fawr fywiog y dyfodol, ond cyrchfan hamdden lle bydd pobl yn bwyta, yfed, siopa, cyfarfod, cymdeithasu a mwynhau eu hunain. Fodd bynnag, mae hefyd yn ganolfan gymunedol lle bydd pobl yn defnyddio gwasanaethau—efallai y byddant yn ymweld â meddygon, yn mynd i lyfrgelloedd ac yn mynychu lleoliadau diwylliannol.

15:41 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you give way?

A wnech chi ildio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:41 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:41 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for giving way. Will you agree with me, Eluned, that, as we found on the Enterprise and Business Committee during our inquiry, it is not a question of—or it does not have to be—the internet on the one hand and the high street on the other, because somewhere like Narberth is a perfect example of how you can combine both and have a flourishing high street that also has a strong online presence, marketing Wales abroad?

Diolch i chi am ildio. A gytunwch â mi, Eluned, fel y gwelsom ar y Pwyllgor Menter a Busnes, nad mater o—neu nid oes yn rhaid iddo fod—yn fater o'r rhyngwyd ar y naill law a'r stryd fawr ar y llall oherwydd mae rhywle fel Arberth yn enghraifft berffaith o sut y gallwch gyfuno'r ddau ac mae ganddynt stryd fawr lewyrchus sydd hefyd â phresenoldeb cryf ar-lein, yn marchnata Cymru dramor?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Absolutely and it is important that many of our smaller businesses in retail have been incredibly creative in the way in which they have combined a traditional high street presence with an online retail presence. There are towns such as Narberth that have worked together to do that and there are individual retailers who have also been successful on an individual basis and we welcome that.

However, we are looking at the reason why a person will go to the high street rather than an out-of-town shopping centre. For example, the chances are that they are looking for an experience that is not just about collecting their shopping—they are going to do something a little bit more than that. That is why bringing in the discussion of tourism heritage with regeneration, as you have in your motion, is very pertinent. My first amendment is obviously in relation to that point. The promotion of historic sites in Wales is an issue that I have raised in the Chamber recently. If I look at my own region, in the Vale of Glamorgan, we have a huge number of historic sites—more than 100 scheduled monuments such as the church of St Illtud with the Galilee chapel and the Cosmeston Medieval Village, where I had the pleasure to take part in a number of engagement events in my former professional life. I absolutely agree with the motion that heritage plays a critically important part in our tourism industry and in drawing visitors to those historic town centres, but my amendment today seeks to extend that duty of collaboration and that desire to bring together public bodies to include the likes of Cadw, which clearly has a crucial role to play in that kind of work.

My second amendment today is in relation to business rates. It is a song that I have sung on many occasions previously. We welcome a number of the changes that have been made to business rates, for example, the announcement by the Minister for Economy, Science and Transport in October on measures to support regeneration in our high streets. However, I want to think more strategically about how we incentivise local authorities to focus on regeneration in future. As we look forward to more devolved powers over the way in which business rates are designed and collected, I think that we ought to be looking for mechanisms in that regime that will reward those authorities that are successful in driving regeneration.

I recognise that the way that rates are collected, then aggregated and then redistributed is very complex and it does help to support those authorities that are struggling the most, but there is no reason why, for example, we cannot set a base level amount to be aggregated, but allow local authorities to keep the increases that they have made in terms of collecting business rates, if we want to see them then reinvest that in economic development in the future.

Yn hollol, ac mae'n bwysig bod llawer o'n busnesau manwerthu llai o faint wedi bod yn hynod o greadigol yn y ffordd y maent wedi cyfuno presenoldeb ar y stryd fawr draddodiadol gyda phresenoldeb manwerthu ar-lein. Mae trefi fel Arberth wedi gweithio gyda'i gilydd i wneud hynny a manwerthwyr wedi bod yn llwyddiannus hefyd ar sail unigol ac rydym yn croesawu hynny.

Fodd bynnag, rydym yn edrych ar y rheswm pam y bydd person yn mynd i'r stryd fawr yn hytrach na chanolfan siopa ar gyrion y dref. Mae'n debyg, er enghraifft, eu bod yn chwilio am brofiad sy'n fwy na dim ond casglu eu siopa-maent yn mynd i wneud rhywbeth ychydig mwy na hynny. Dyna pam y mae cyflwyno trafodaeth am dreftadaeth twristiaeth i'r drafodaeth am adfywio, fel sydd gennych yn eich cynnig, yn berthnasol iawn. Mae fy ngwelliant cyntaf yn amlwg yn ymwneud â'r pwynt hwnnw. Mae hyrwyddo safleoedd hanesyddol yng Nghymru yn fater rwyf wedi'i godi yn y Siambr yn ddiweddar. Os edrychaf ar fy rhanbarth i ym Mro Morgannwg, mae gennym nifer fawr o safleoedd-dros 100 o henebion rhestredig megis eglwys Sant Illtud a chapel Galilea, a Phentref Canoloesol Cosmeston, lle y cefais y plaser o gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu yn fy mywyd proffesiynol blaenorol. Cytunaf yn llwyr â'r cynnig fod treftadaeth yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn ein diwydiant twristiaeth ac wrth ddenu ymwelwyr i ganol trefi hanesyddol ond mae fy ngwelliant heddiw yn ceisio ymestyn y ddyletswydd hon i gydweithredu a'r awydd i ddod â chyrrff cyhoeddus at ei gilydd, gan gynnwys cyrff fel Cadw sy'n amlwg â rôl allweddol i'w chwarae yn y math hwn o waith.

Mae fy ail welliant heddiw yn ymwneud ag ardrethi busnes. Mae'n bregeth rwyf wedi'i rhoi ar sawl achlysur yn y gorffennol. Rydym yn croesawu nifer o'r newidiadau a wnaed i ardrethi busnes, er enghraifft y cyhoeddiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Hydref ar fesurau i gefnogi adfywio yn ein strydoedd mawr. Fodd bynnag, hoffwn feddwl yn fwy strategol ynglŷn â sut rydym yn cymell awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar adfywio yn y dyfodol. Wrth i ni edrych ymlaen at fwy o bwerau datganoledig mewn perthynas â'r ffordd y caiff ardrethi busnes eu cynllunio a'u casglu, rwy'n meddwl y dylem fod yn edrych am ddulliau yn y drefn a fydd yn gwobrwyo'r awdurdodau sy'n llwyddo i ysgogi adfywiad.

Rwy'n cydnabod bod y ffordd y caiff ardrethi eu casglu, eu cyfuno a'u hailddosbarthu yn gymhleth iawn ac mae rhoi cefnogaeth i'r awdurdodau sy'n cael fwyaf o drafferth yn helpu, ond nid oes unrhyw reswm pam, er enghraifft, na allwn bennu swm sylfaenol i'w grynhoi a chaniatáu i awdurdodau lleol gadw cynnydd a wnaethant wrth gasglu ardrethi busnes os ydym am eu gweld yn ei ail-fuddsoddi mewn datblygiadau economaidd yn y dyfodol.



We all wish to see bustling high streets at the heart of our communities. To achieve that, we need thriving local businesses and positive engagement by our communities with their high streets. However, the sad reality is that, today, too many of our high streets are in crisis. Wales already has more empty shops than either England or Scotland. In September last year, the Local Data Company found that national vacancy rates in Wales were at 17.5%. That compares to 14.9% in Scotland and 14% in England. Some parts of Wales have few empty shops such as Penarth and Tenby, but in other parts, such as Llanelli, Swansea, Bangor, Newport and the Gwent valleys, the picture is very different and bleak. There are many reasons for the decline of our high streets. Changes to people's lifestyles have made changes to the way that they shop. The development of out-of-town retailing has in some cases had a detrimental effect on town centres across Wales. Shoppers like and appreciate the convenience and choice afforded by out-of-town retailers with the benefit of free parking.

Minister, I am a very strong advocate of small shops within our high streets and parking is one of the biggest problems there. Also, when people stop buying in the high street and go out of town in cars, it can cause obesity—which no Member in this Chamber has ever mentioned—which is the biggest killer in Wales of children and families at the moment. It is causing that. Our shopping in the high street is declining. That can be totally reversed if people start walking in the high street—doing the shopping and running around with the children—and hawkers, ice cream parlours, flower shops, and all those little outlets, can virtually make the difference to improve our high streets.

A number of shops have left Newport city centre, for example, and located to other areas such as Spytt retail park. Newport has suffered not only from its proximity to Cardiff, but also from the shopping centre at Cribbs Causeway and Cabot Circus across the Severn Bridge in Bristol.

E-commerce is one of the fastest growing markets in Europe with more and more businesses being carried out on the internet, and also, the Government is losing money—businesses have told me—from people not paying their local taxes on those businesses. They are running businesses in their back gardens. All of these factors combine to increase pressure on our high streets. In the words of Chris Parry, a senior lecturer in the accounting, economics and finance department of Cardiff Metropolitan University:

'Without taking action as they are now they will just disappear. They can't survive unaided.'

I very much welcome the Friars Walk retail leisure project in Newport. This is just one of a number of schemes to regenerate the centre with a combination of new businesses, retail units and new homes to create a vibrant hub for the city. As a local data company said:

Rydym i gyd am weld strydoedd mawr prysur ynghanol ein cymunedau. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen busnesau lleol ffyniannus ac ymwneud cadarnhaol ein cymunedau â'u strydoedd mawr. Fodd bynnag, y realiti trist heddiw yw bod gormod o'n strydoedd mawr mewn argyfwng. Eisoes, mae gan Gymru fwy o siopau gwag na Lloegr a'r Alban. Yn mis Medi y llynedd, canfu'r Local Data Company fod cyfradd genedlaethol Cymru o unedau gwag yn 17.5%. Mae hynny'n cymharu â 14.9% yn yr Alban a 14% yn Lloegr. Ychydig o siopau gwag a geir mewn rhai rhannau o Gymru fel Penarth a Dinbych y Pysgod ond mewn rhannau eraill, megis Llanelli, Abertawe, Bangor, Casnewydd a chymoedd Gwent, mae'r darlun yn wahanol ac yn llwm iawn. Mae llawer o resymau dros ddirywiad ein stryd fawr. Mae newidiadau i ffyrdd o fyw pobl wedi newid y ffordd y maent yn siopa. Mewn rhai achosion, mae datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi wedi cael effaith niweidiol ar ganol trefi ar draws Cymru. Mae siopwyr yn hoffi ac yn gwerthfawrogi'r cyfleustra a'r dewis y mae manwerthwyr ar gyrion trefi yn eu cynnig gyda'r fantais o gael parcio am ddim.

Weinidog, rwy'n gadarn iawn fy nghefnogaeth i siopau ein stryd fawr a pharcio yw un o'r problemau mwyaf. Hefyd, pan fydd pobl yn rhoi'r gorau i brynu ar y stryd fawr ac yn mynd allan o'r dref mewn ceir, gall achosi gordewdra—mater nad oes yr un Aelod yn y Siambr wedi cyfeirio ato—sef yr hyn sy'n lladd fwyaf o blant a theuluoedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n achosi hynny. Mae siopa ar y stryd fawr yn dirywio. Gellir gwrthdroi hynny'n llwyr pe bai pobl yn dechrau cerdded ar y stryd fawr—gan siopa a rhedeg o gwmpas gyda'r plant—a gall gwerthwyr mân bethau, siopau hufen iâ, siopau blodau, a'r holl siopau bach wneud y gwahaniaeth o ran gwella ein stryd fawr.

Mae nifer o siopau wedi gadael canol dinas Casnewydd, er enghraifft, ac wedi adleoli i ardaloedd eraill fel parc manwerthu Spytt. Mae Casnewydd wedi dioddef, nid yn unig am ei bod yn agos i Gaerdydd, ond hefyd oherwydd y ganolfan siopa yn Cribbs Causeway a Cabot Circus dros Bont Hafren ym Mryste.

E-fasnach yw un o'r marchnadoedd sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop gyda mwy a mwy o fusnes yn digwydd ar y rhyngwrwyd, a hefyd mae'r Llywodraeth yn colli arian—yn ôl yr hyn y mae busnesau wedi'i ddweud wrthyf—wrth i bobl beidio â thalu eu hardrethi lleol ar y busnesau hynny. Maent yn rhedeg busnesau yn eu gerddi cefn. Mae pob un o'r ffactorau hyn yn cyfuno i gynyddu'r pwysau ar ein strydoedd mawr. Yng ngeiriau Chris Parry, uwch-ddarlithydd yn adran gyfrifeg, economeg a chyllid Prifysgol Fetropolitan Caerdydd:

'Without taking action as they are now they will just disappear. They can't survive unaided.'

Rwy'n croesawu prosiect hamdden manwerthu Friars Walk yng Nghasnewydd yn fawr. Dyma un o nifer o gynlluniau i adfywio canol y ddinas gyda chyfuniad o fusnesau newydd, unedau manwerthu a chartrefi newydd i greu canolfan fywiog ar gyfer y ddinas. Fel y dywedodd cwmni data lleol:

'It is not just about shops. Leisure and services are the key. We need a balance of large retailers, small shops, leisure services, cafes, bars and restaurants as well as housing.'

I believe that business improvement districts have a vital role to play in regenerating our high streets. Powers to set up business improvement districts in Wales have been in place since 2005. There has been a business improvement district in Swansea since 2006 and it was joined by Merthyr Tydfil in 2012. I regret that these are the only two business improvement districts that have appeared in nine years. Businesses in Newport are working at present on developing plans to create a BID in the city. This will further enhance the redevelopment of Newport, but this project to set up a business improvement district must not be delayed.

There is an urgent need to revitalise our high streets as centres for economic growth and we need to act now, Minister. There are certain areas— I am very pleased that our Minister for agriculture is doing some food festivals across the country, but high streets must be used for that sort of project. We should be working very hard to improve our small businesses so they can grow and flourish, as they did in the early 1970s and 1980s and in the past. We want Wales on the world map for its high-street shopping centres.

15:49

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I am not a fan at all of out-of-town shopping centres, mainly because they are not effective vehicles for retaining the profits from those businesses in Wales. They mainly tend to be national multiples and the profits from those businesses go elsewhere, so I think that local authorities need to bear that in mind if they are considering approving new out-of-town centres.

Shopping areas and high streets within communities are incredibly important, both for promoting community engagement, but also for ensuring that people without cars, who make up almost half the population, are able to access fresh fruit and vegetables and other fresh food. It is perfectly possible for them to make the occasional trip to buy dried goods from a warehouse, otherwise known as a supermarket, but they need to be able to access their daily needs locally, and that means within a reasonable walking or bus distance. So, I think that that is an incredibly important point.

I am very happy to go along with this motion, because it does not specifically mention out-of-town shopping centres. It is about creating vibrant high streets.

'It is not just about shops. Leisure and services are the key. We need a balance of large retailers, small shops, leisure services, cafes, bars and restaurants as well as housing.'

Rwy'n credu bod rôl allweddol gan ardaloedd gwella busnes i'w chwarae wrth adfywio ein strydoedd mawr. Mae pŵerau i sefydlu ardaloedd gwella busnes wedi bod ar waith yng Nghymru ers 2005. Cafwyd ardal gwella busnes yn Abertawe ers 2006 a chafodd Merthyr Tudful un yn 2012. Rwy'n gresynu mai'r ddwy ardal gwella busnes hon yw'r unig rai sydd wedi ymddangos mewn cyfnod o naw mlynedd. Mae busnesau yng Nghasnewydd yn gweithio ar hyn o bryd ar ddatblygu cynlluniau i greu ardal gwella busnes yn y ddinas. Bydd hyn yn gwella'r broses o ailddatblygu Casnewydd ymhellach, ond ni ddylid oeddi'r prosiect hwn i sefydlu ardal gwella busnes.

Mae angen dybryd i ni fynd ati i adfywio ein strydoedd mawr fel canolfannau ar gyfer twf economaidd ac mae angen i ni weithredu yn awr, Weinidog. Mae rhai ardaloedd-. Rwy'n falch iawn fod ein Gweinidog amaeth yn defnyddio'r stryd fawr ar gyfer y math hwnnw o brosiect. Dylem fod yn gweithio'n galed iawn i wella ein busnesau bach er mwyn iddynt dyfu a ffynnu fel y gwnaethant yn y 1970au cynnar a'r 1980au ac yn y gorffennol. Rydym eisiau i Gymru fod ar fap y byd yn rhinwedd ei chanolfannau siopa stryd fawr.

Nid wyf yn hoff o ganolfannau siopa ar gyrion trefi, yn bennaf am nad ydynt yn gyfryngau effeithiol ar gyfer cadw'r elw o'r busnesau hynny yng Nghymru. Tueddant yn bennaf i fod yn siopau cadwyn cenedlaethol ac mae'r elw o'r busnesau hynny'n mynd i rywle arall, felly rwy'n meddwl bod angen i awdurdodau lleol gadw hynny mewn cof wrth iddynt ystyried cymeradwyo canolfannau newydd ar gyrion trefi.

Mae ardaloedd siopa a strydoedd mawr o fewn cymunedau yn anhygoel o bwysig, ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned, ond hefyd er mwyn sicrhau bod pobl heb geir, sef bron hanner y boblogaeth, yn gallu cael gafael ar ffrwythau a llysiau a bwyd arall ffres. Mae'n gwbl bosibl iddynt wneud y daith achlysurol i brynu nwyddau sych o warws, neu archfarchnad fel y'i gelwir, ond mae angen iddynt allu dod o hyd i'w hanghenion dyddiol yn lleol, ac mae hynny'n golygu o fewn pellter cerdded neu bellter taith fws resymol. Felly, rwy'n meddwl fod hynny'n bwynt hynod bwysig.

Rwy'n hapus iawn i gytuno â'r cynnig hwn am nad yw'n sôn yn benodol am ganolfannau siopa ar gyrion y dref. Mae'n ymwneud â chreu strydoedd mawr bywiog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Very close to here is a development that I think is exemplary, and that is Loudoun Square in Butetown, which many of you may have been past. There was very serious consultation with the local community to find out what it wanted. None of the existing businesses were closed during the period of regeneration and, in many cases, they were housed on the ground floors of the new homes that were built at the same time. It is now a vibrant little shopping centre, which, combined with a health centre and a new community centre, is not just the hub for the local community, but also an attraction, bringing customers to the shops from outside the area, including people like us.

Clifton Street in my constituency in Adamstown is, unfortunately, a less good example of how to regenerate an area, mainly because the people who were put in charge of the consultation had a bee in their bonnets about making it a one-way street. The local shops have been maintained, but the one-way street prevents passing traffic from being able to access those shops without making a huge detour, and people are reluctant to go distances or to walk very far. As a result, it is used only by the local community, although it remains a very nice place to go to do your shopping.

There is another regeneration scheme on the cards, up in Llanedeyrn, in my constituency, which is the Maelfa regeneration partnership, made up mainly of a French developer, with some involvement from three local housing associations. My main concern there is that the developer is driven entirely by the bottom line, with no sense of a commitment, to date, to ensure that the excellent fruit and vegetable shop and the excellent butcher will continue to be housed in the area. There is nothing in the contract that I am aware of at the moment that would not allow the developer simply to have 16 betting shops, which would obviously not contribute to the community. Therefore, I am concerned to ensure that any local developments that we have are sustainable developments that promote healthy living and healthy eating. These are really important and significant issues, as far as I am concerned, to ensure that all our communities have access to fresh food. So, I hope that we will be able to get some consensus around those issues.

Yn agos iawn i'r fan hon mae yna ddatblygiad rwy'n ei ystyried yn enghraifft ragorol, sef Sgwâr Loudoun yn Butetown, y bydd llawer ohonoch wedi'i basio. Cafwyd ymgynghoriad trylwyr iawn â'r gymuned leol er mwyn darganfod beth oedd pobl ei eisiau. Ni chaewyd yr un o'r busnesau a fodolai'n barod yn ystod y cyfnod o adfywio ac mewn llawer o achosion, cawsant eu lleoli ar lawr gwaelod y cartrefi newydd a adeiladwyd ar yr un pryd. Mae bellach yn ganolfan siopa fach fywiog sydd, o'i chyfuno â chanolfan iechyd a chanolfan gymunedol newydd, nid yn unig yn ganolbwynt ar gyfer y gymuned leol, ond hefyd yn atyniad sy'n dod â chwsmeriaid i'r siopau o'r tu allan i'r ardal gan gynnwys pobl fel ni.

Yn anffodus, nid yw Clifton Street yn fy etholaeth yn Adamstown yn enghraifft gystal o sut i adfywio ardal, yn bennaf oherwydd bod y bobl a oedd yn gyfrifol am yr ymgynghoriad yn benderfynol o'i thro'i'n stryd unffordd. Mae'r siopau lleol wedi cael eu cadw ond mae'r stryd unffordd yn atal traffig sy'n mynd heibio rhag gallu defnyddio'r siopau heb fynd cryn bellter allan o ffordd ac mae pobl yn amharod i fynd neu i gerdded yn bell iawn. O ganlyniad, dim ond y gymuned leol sy'n defnyddio'r stryd er ei fod yn lle braf iawn i chi fynd i siopa o hyd.

Mae cynllun adfywio arall yn yr arfaeth i fyny yn Llanedern yn fy etholaeth i, sef partneriaeth adfywio Maelfa sy'n cynnwys datblygwr Ffrengig yn bennaf gyda rhywfaint o ymwneud gan dair cymdeithas dai leol. Fy mhrib bryder yw bod y datblygwr yn cael ei ysgogi'n gyfan gwbl gan y llinell isaf, heb unrhyw ymdeimlad o ymrwymiad hyd yn hyn i sicrhau y bydd y siop ffrwythau a llysiau ragorol a'r cigydd ardderchog yn parhau i fod wedi'u lleoli yn yr ardal. Nid oes unrhyw beth yn y contract rwy'n ymwybodol ohono ar hyn o bryd na fyddai'n caniatáu i'r datblygwr leoli 16 o siopau betio yno, na fyddai'n cyfrannu at fywyd y gymuned wrth gwrs. Felly rwy'n awyddus i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau lleol sydd gennym yn ddatblygiadau cynaliadwy sy'n hyrwyddo byw'n iach a bwyta'n iach. Yn fy marn i, mae'r rhain yn faterion pwysig ac arwyddocaol iawn er mwyn sicrhau bod bwyd ffres o fewn cyrraedd i'n holl gymunedau. Felly rwy'n gobeithio y gallwn sicrhau rhywfaint o gonsensws ynghylch y materion hyn.

15:54

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Today's debate looks at ways in which we can revitalise, reinvigorate and regenerate our communities across Wales. 'Vibrant and Viable Places' is a good start, and we fully support this initiative. However, if you were to mention this buzzword to many of our business owners who are working hard today, I am not sure whether they would understand what that means. So, there needs to be some link up with our local businesses.

Mae'r ddatl heddiw'n edrych ar ffyrdd o ailfywiogi, ailrymuso ac adfywio ein cymunedau ledled Cymru. Mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn ddechrau da ac rydym yn llwyr gefnogi'r fenter hon. Fodd bynnag, pe baech yn ynganu'r geiriau hynny wrth lawer o'n perchnogion busnesau gweithgar heddiw, nid wyf yn siŵr a fyddent yn deall beth y maent yn ei olygu. Felly, mae angen rhywfaint o gysylltiad â'n busnesau lleol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Welsh high street fulfils an essential role for community engagement, boosting local economies and enhancing civic pride. The high street is not simply an economic environment for retail; it is a social arena for community development and engagement. Local community empowerment is a central theme of the Welsh Conservative vision for our high streets, our towns and our communities. Our policy 'A Vision for the Welsh High Street' looks at regenerating the high street as the heart of public life, ensuring its very survival in this digital age, and the Centre for Regeneration Excellence in Wales endorses our message around mixed-use space in town centres. Bringing homes above our shops is one way in which to regenerate, yet, despite Planning Policy Wales in 2011 encouraging mixed-use development, too many local authorities resist innovation, allowing town centres to dwindle. Welsh high streets are struggling to remain relevant. The rise of internet shopping and the development of out-of-town shopping centres pose a significant threat. It is time for some new thinking to ensure that our high streets can exist alongside the thriving internet businesses.

Welsh Government must set the scene by encouraging local authorities to create a varying range of business, leisure, housing and community use. Office use can be an important element of any high street. March 2000 figures show that footfall in shops in Wales dropped by 2.7% on the previous year. Across the UK, however, there has been a positive increase in footfall. It is time to act, and it is time for change.

Recently, I had the pleasure of chairing a seminar for the Policy Forum for Wales on 'Regeneration: targeting funding and developing new projects'. It was an excellent event with many good speakers, and, more importantly, many within the audience working within the regeneration agenda across Wales speaking up to share their own ideas and some good practice. A common theme coming forward was that there is a tremendous amount of good practice going on across local authorities, the private sector, and the third sector. The issue is how do we, and how does the Welsh Government, join this up.

There was recognition of how people living within their own communities can be empowered to help in the regeneration, and how they can feel recognised and empowered by local and central Welsh government. There were discussions coming forward about how devolution is affecting regeneration and how, here in Wales, we have so many reasons to be enthusiastic about regeneration and the benefits that this can bring in terms of the overall socioeconomic potential and general improvements to the health and welfare agenda. After all, it is a simple fact that people feel so much better in regenerated towns, cities, and indeed within their own vibrant communities.

Mae'r stryd fawr yng Nghymru yn cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran ymgysylltu â'r gymuned, gan hybu economïau lleol a gwella balchder dinesig. Nid amgylchedd economaidd ar gyfer manwerthu yn unig yw'r stryd fawr; mae'n arena gymdeithasol ar gyfer datblygu ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae grymuso cymunedau lleol yn thema ganolog yng ngweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer ein strydoedd mawr, ein trefi a'n cymunedau. Mae ein polisi, 'Gweledigaeth ar gyfer Stryd Fawr Cymru', yn edrych ar adfywio'r stryd fawr fel calon bywyd cyhoeddus, gan sicrhau y bydd yn goroesi yn yr oes ddiigidol hon ac mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn cefnogi ein neges ynghylch gofod defnydd cymysg yng nghanol ein trefi. Mae creu cartrefi uwchben ein siopau yn un ffordd o adfywio, ac eto, er gwaethaf Polisi Cynllunio Cymru yn 2011 a oedd yn annog datblygiadau defnydd cymysg, mae gormod o awdurdodau lleol yn gwrthwynebu arloesi, gan adael i ganol trefi edwino. Mae strydoedd mawr Cymru yn ei chael hi'n anodd parhau i fod yn berthnasol. Mae'r cynnydd mewn siopa ar y rhyngwrwd a datblygu canolfannau siopa ar gyrion trefi yn fygythiad sylweddol. Mae'n bryd cael syniadau newydd er mwyn sicrhau y gall ein strydoedd mawr fodoli ochr yn ochr â'r busnesau rhyngwrwd ffyniannus.

Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd drwy annog awdurdodau lleol i greu ystod amrywiol o ddefnydd busnes, hamdden, tai a defnydd cymunedol. Gall defnydd swyddfa fod yn elfen bwysig o unrhyw stryd fawr. Dengys ffigurau mis Mawrth 2000 fod nifer yr ymwelwyr â siopau yng Nghymru wedi gostwng o 2.7% ers y flwyddyn flaenorol. Ar draws y DU, fodd bynnag, bu cynnydd cadarnhaol yn nifer yr ymwelwyr. Mae'n bryd gweithredu ac mae'n bryd cael newid.

Yn ddiweddar, cefais y pleser o gadeirio seminar Fforwm Polisi Cymru ar 'Adfywio: targedu cyllid a datblygu prosiectau newydd'. Roedd yn ddiwyddiad ardderchog gyda llawer o siaradwyr da, ac yn bwysicach, siaradodd sawl un o'r gynulleidfa sy'n gweithio o fewn yr agenda adfywio ledled Cymru, gan rannu eu syniadau eu hunain ac arferion da. Un thema gyffredin a ddaeth yn amlwg oedd bod llawer iawn o arferion da i'w gweld gan yr awdurdodau lleol, y sector preifat, a'r trydydd sector. Y cwestiwn yw sut rydym ni, a sut y mae Llywodraeth Cymru, yn cydgyssylltu'r gwaith hwn.

Cafwyd cydnabyddiaeth o'r modd y gellir grymuso pobl o fewn eu cymunedau eu hunain i helpu i adfywio a sut y gallant deimlo'u bod yn cael eu cydnabod a'u grymuso gan lywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â sut y mae datganoli'n effeithio ar adfywio a sut y mae gennym gymaint o resymau yma yng Nghymru i fod yn frwdfrydig ynghylch adfywio a'r manteision y gall eu creu o ran potensial economaidd-gymdeithasol cyffredinol a gwelliannau cyffredinol i'r agenda iechyd a lles. Wedi'r cyfan, mae'n ffaith syml fod pobl yn teimlo gymaint yn well mewn trefi a dinasoedd wedi'u hadfywio, ac yn wir o fewn eu cymunedau bywiog eu hunain.

Only last week I was proud to launch the Wales in Bloom competition here in the Senedd, followed the next day with the north Wales launch, with the benefits alone that this competition brings, allowing local authorities and community groups to work together, often with very little funding, to succeed in tidying up and enhancing our town centres, our streets, our local areas, and our seaside resorts. However, it was sad to learn that they have had their funding withdrawn by the Welsh Government and now they have to rely on other forms to attract sufficient funds to do this. I also learned that, of the 22 local authorities, four now just do not bother allowing for participation. I can only say that that is a mistake, given the continued benefit that this competition brings.

We also discussed city regions at the seminar. Councillor David Phillips gave a presentation on the merits and the challenges of the Swansea bay city region. Judith Alfrey from Cadw spoke well on the many opportunities and the importance that our own heritage presents, and the sheer importance of its integration within any regeneration agenda—Wales is home to so many beautiful historic buildings—and how the historical environment contributes some £840 million to Wales’s national gross value added.

They also represent the views—. Sorry, I am talking now about town-centre managers. They are a vibrant and really important part of our town centres. Colwyn Bay, in Darren Millar’s constituency, has an amazing town-centre manager who really joins up the local authority with business and the community and holds events.

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn falch o gael lansio cystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yma yn y Senedd a mynd ymlaen i’w lansio yn y gogledd y diwrnod wedyn. Gall y gystadleuaeth greu manteision drwy alluogi awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i weithio gyda’i gilydd, gydag ond ychydig iawn o arian yn aml, i dacluso a gwella canol ein trefi, ein strydoedd, ein hardaloedd lleol a’n trefi glan môr. Fodd bynnag, roedd hi’n drist clywed bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu eu cyllid yn ôl ac yn awr, mae’n rhaid iddynt ddiybnnu ar ddulliau eraill o ddenu digon o arian i wneud hyn. Deallaf hefyd nad yw pedwar o’r 22 awdurdod lleol bellach yn trafferthu caniatáu ar gyfer cymryd rhan. Ni allaf ond dweud bod hynny’n gamgymeriad o ystyried y budd parhaus a ddaw yn sgîl y gystadleuaeth hon.

Trafodwyd dinas-ranbarthau yn y seminar hefyd. Rhoddodd y Cynghorydd David Phillips gyflwyniad ar rinweddau a heriau dinas-ranbarth Bae Abertawe. Siaradodd Judith Alfrey o Cadw yn dda am y cyfleoedd niferus a phwysig y mae ein treftadaeth ein hunain yn eu cynnig, a phwysigrwydd eu hintegreiddio mewn unrhyw agenda adfywio—mae Cymru yn gartref i gymaint o adeiladau hanesyddol hardda sut y mae’r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu tua £840 miliwn at werth ychwanegol crynswth cenedlaethol Cymru.

Maent hefyd yn cynrychioli safbwyntiau—. Mae’n ddrwg gennyf, rwy’n sôn yn awr am reolwyr canol y dref. Maent yn rhan fywiog a phwysig iawn o ganol ein trefi. Mae gan Fae Colwyn, yn etholaeth Darren Millar, reolwr canol tref anhygoel sydd yn rhoi’r awdurdod lleol mewn cysylltiad gwirioneddol â busnes a’r gymuned ac yn cynnal digwyddiadau.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you finish with this, please?

A wnewch chi orffen â hyn, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:58 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. Minister, again, there are so many tools in the box ready to be used, and there are so many good people out there wanting to help. Work with us and them, and together let us go regenerate.

Iawn. Weinidog, unwaith eto, mae cymaint o adnoddau gennym yn barod i’w defnyddio a chymaint o bobl dda sydd eisiau helpu. Drwy weithio gyda’n gilydd, gadewch i ni fynd i adfywio.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl hon. Rwy'n falch ein bod yn cael cyfle i drafod sut orau i fynd i'r afael â her y stryd fawr, a sut i sicrhau bod canol ein trefi yn gallu brwydo'n ôl yn erbyn grym—ac, wrth gwrs, cyfleustra, rhaid dweud—siopau ar gyrion ein trefi a'n dinasoedd. Dylwn ddweud hefyd bod Plaid Cymru'n cydfynd â llawer o'r hyn oedd yn nogfen bolisi ddiweddar y Ceidwadwyr rhyw ddwy flynedd yn ôl ynglŷn â her y stryd fawr. Rwy'n meddwl bod llawer o gytundeb rhwng pawb ohonom yn y fan hon ynglŷn â mynd i'r afael â phroblemau'r stryd fawr. Mae llawer o gynnwys y ddogfen honno'n cydfynd â pholisi Plaid Cymru ar fusnesau bach ac ardrethi busnes bach, er enghraifft. Mi gyfeiriaf, os caf, yn syth at y gwahaniaeth, serch hynny, o ran y polisi ardrethi busnes. Mae'r Ceidwadwyr am gael gwared ar drethi'r busnesau lleiaf, ac yr ydym ni am ryddhad trethi busnes i'r busnesau â gwerth trethiant o hyd at £10,000. Mae gwahaniaeth yma, a hwnnw yw y byddai Llywodraeth Cymru'n talu'r trethi dan ein cynllun ni, tra byddai awdurdodau lleol yn eu colli'n llwyr o dan y Ceidwadwyr, a fyddai, wrth gwrs, yn golygu twll sylweddol yng nghyllidebau'r cynghorau.

Mae'n polisi ni ar rannu'r lluosydd yn eithaf tebyg, ond rydym ni'n argymhell torri'r gyfradd isaf fel y byddai'n sylweddol is nag y mae yng ngwledydd eraill y Deyrnas Gyfunol. Byddai hynny, wrth gwrs, yn rhoi mantais gystadleuol i Gymru, ac os wyf yn ei ddeall yn iawn, eu polisi nhw yw bod Cymru'n dilyn yr hyn sy'n digwydd yn barod yn Lloegr a'r Alban. Rydym yn sicr yn gweld trethi busnes fel un rhan yn unig o'n hymdrechion i roi bywyd o'r newydd i'r stryd fawr.

Thank you for the opportunity to take part in this debate. I am pleased that we are having an opportunity to discuss how best to tackle this challenge on the high street and how to ensure that our town centres are able to fight back against the power—and, of course, the convenience, it has to be said—of out-of-town shopping centres. I should also say that Plaid Cymru agrees with much of what was within the recent policy document from the Conservatives some two years ago regarding the challenge of the high street. I think that there has been a great deal of agreement among all of us on tackling these issues on the high street. A great deal of the content of that policy document is in line with Plaid Cymru policy on small businesses and small business rates, for example. I would like to refer to the difference that exists, nonetheless, in terms of the business rates policy. The Conservatives want to get rid of business rates for the smallest businesses, and we want business rate relief for businesses with a rateable value of up to £10,000. There is a difference here, and that is that the Welsh Government would pay the rates under our scheme, whereas local authorities would lose them entirely under the Conservatives, which would, of course, mean a substantial gap in the budgets of councils.

Our policy on sharing the multiplier is quite similar, but we recommend cutting the lowest rate so that it would be significantly lower than in other countries of the United Kingdom. That, of course, would give Wales a competitive advantage, and if I understand it correctly, their policy is that Wales should follow what is already happening in England and Scotland. We certainly see business rates as just one part of our efforts to revitalise our high streets.

16:01

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for taking the intervention. You outlined two policies there that the Welsh Government has to pick up the bill for, meaning that quite considerable sums of money are needed. What level of funding has Plaid identified to support those policy announcements?

Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Rydych chi wedi amlinellu dau bolisi sy'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu'r bil amdanynt, sy'n golygu bod angen arian go sylweddol. Pa lefel o gyllid y mae Plaid wedi'i nodi i gefnogi'r cyhoeddiadau polisi hyn?

16:01

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes—£40 million would be the cost of our 100% rate relief for a rateable value of up to £10,000, and then tapered relief up to £15,000. I shall continue.

Un rhan yn unig o'n hymdrechion ni i roi bywyd o'r newydd i'r stryd fawr yw'r syniad o weithio ar ardrethi busnes. Mae Plaid Cymru yn sicr yn gweld bod angen datblygu'r stryd fawr, o ran y defnydd cymysg ohono, os ydym am ganiatáu i ganol ein trefi ffynnu yn yr amgylchedd modern sydd gennym, ac mae hynny'n golygu'r angen am gynllunio strategol go iawn ar lefel llywodraeth leol, gyda chanllawiau wedyn gan Lywodraeth Cymru ar ddenu, er enghraifft, feddygfeydd a chlinigau, swyddfeydd, datblygiadau tai hefyd, le mae hynny'n addas i ganol y dref, i wneud y stryd fawr yn wirioneddol yn galon go iawn i'r gymuned.

lawn—£40 miliwn fyddai cost ein rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer gwerth ardrethol hyd at £10,000 a rhyddhad sy'n lleihau'n raddol hyd at £15,000. Rwyf am barhau.

The idea of working on business rates is only one part of our efforts to revitalise the high street. Plaid Cymru certainly sees that there is a need to develop the high street, in terms of its mixed use, if we want to allow our town centres to prosper in the modern environment that we have, and that means the need for genuine strategic planning at a local government level, with guidelines from the Welsh Government on attracting, for example, GP surgeries and clinics, offices, housing developments, where that is appropriate in town centres, to make the high street truly the heart of the community.

Mae polisi cynllunio Cymru yn annog datblygiad cymysg, ac mae llywodraeth leol yn aml yn teimlo'r angen i amddiffyn yr elfen fanwerthu sydd wrth wraidd y stryd fawr yn draddodiadol, ac mae hynny'n gallu bod yn rhwystr i fentrau ddatblygu defnydd cymysg o'r stryd fawr. Mi fyddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau llawer cryfach, ac mi fyddai'n rhaid i awdurdodau cynllunio gael strategaeth glir iawn ar sut i weithredu o fewn y canllawiau hynny.

Hoffwn sôn hefyd am hygyrchedd—mae Plaid Cymru'n gweld pwysigrwydd o ran ei gwneud hi'n hawdd cyrraedd a defnyddio'r stryd fawr, yn enwedig o ystyried cyfleustra canolfannau manwerthu ar y cyrion a'u llefydd parcio am ddim ac ati. Un ateb yr ydym yn ei gefnogi—er mai mater i lywodraeth leol ydyw—yw'r egwyddor o sicrhau parcio am ddim lle mae hynny'n addas. Y gwir amdani yw, gyda thwf yn siopa ar-lein a'r ffaith bod llawer o'r parciau manwerthu yn aml yn hawdd eu cyrraedd o'r traffyrdd a'r priffyrdd, mae'r stryd fawr, yn naturiol hollol, yn ei gweld yn anodd cystadlu â'r cyfleustra hwnnw.

Fodd bynnag, nid yw hygyrchedd yn golygu pa mor hawdd yw hi i yrru i rywle neu barcio yno. Yn sicr, rydym yn gweld bod yn rhaid buddsoddi mewn cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus—po hawsaf y bydd hi i bobl gyrraedd canol y dref ar drafndiaeth gyhoeddus, y mwyaf tebygol ydyw y byddant yn mynd i ganol y dref yn defnyddio'r trafndiaeth gyhoeddus honno, ac rydym yn gresynu at y toriadau sydd wedi bod yng nghyllidebau trafndiaeth gyhoeddus.

I gloi, mae lle hefyd i ddefnyddio'r Bil cynllunio mewn nifer o ffyrdd nad oes gennyf amser i'w crybwyll yn awr, ond yn sicr o ran hybu amldefnydd o'r stryd fawr.

O ran y gwelliannau, mi gefnogwn ni welliant 1. Atal ein pleidlais a wnawn ni ar welliant 2, gan nad ydym eto'n argyhoeddedig ynglŷn â'r syniad o gadw cyfran o ardrethi, a hynny'n bennaf oherwydd pryder am awdurdodau tlotach, ond rydym yn barod i gael ein hargyhoeddi hefyd. Diolch eto am y cyfle i siarad ar y testun pwysig iawn hwn.

The planning policy of Wales encourages mixed development, and local government often feels the need to defend the retail component that is at the core of the high street traditionally, and that can be an obstacle to enterprises developing the mixed use of the high street. The Welsh Government would need to provide much stronger guidelines, and planning authorities would have to have very clear strategies in place on how to operate within those guidelines.

I would also like to mention accessibility—Plaid Cymru sees the importance of making it easy to reach and use the high street, particularly in considering the convenience of these out-of-town retail centres and their free parking and so on. One suggestion that we support—although this is a matter for local government—is the principle of ensuring free parking where appropriate. The truth of the matter is that, with the growth in online shopping and the fact that many of the retail parks are often easily accessible from the motorways and highways, the high street, quite naturally, finds it difficult to compete with that convenience.

However, accessibility does not mean how easy it is to drive somewhere or to park there. Certainly, we see that we must invest in public transport links—the easier it will be for people to get to the town centre by public transport, the more likely it is that they will go to the town centre using that public transport, and we regret the cuts that have been made to public transport budgets.

To conclude, there is also scope to use the planning Bill in a number of ways that I do not have time to mention now, but certainly in terms of promoting the multi-use of the high street.

In terms of the amendments, we will support amendment 1. We will abstain on amendment 2, since we are not yet convinced about the idea of keeping a portion of rates, mainly because of concern about poorer authorities, but we are prepared to be convinced about that. Thank you again for the opportunity to speak on this very important subject.

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Tourism is crucial to the Welsh high street and to regeneration in Wales. Wales has an extremely vibrant and rich cultural and economic history, which is a huge asset in the regeneration of almost all areas of Wales. With regard to heritage, you heard me talk previously regarding the medieval ship at Newport. With the uncovering of the ship's timbers, preserved by the silt and mud that it was surrendered to over 500 years ago, people began to realise what a wonderful treasure had been discovered in the city. Immediately, they began an enthusiastic campaign, with the aim of preserving the vessel in its entirety for permanent exhibition in the city. Originally, this was to be in the basement of a new arts centre. However, due to the size of the recovered vessel, this would not be possible. I acknowledge the support and funding given to and for the conservation of what we all know now as the Newport medieval ship from both the National Assembly for Wales and from Newport City Council since 2002. I continue to support the friends of the ship to ensure that the Newport medieval ship, scuttled in 1469, does not meet the same fate in 2014.

Last Thursday, with the Enterprise and Business Committee, which I am proud to chair, I was fortunate enough to visit Swansea University's £450 million bay campus, one of the largest knowledge economy projects in Europe. It has been described as both transformational and exemplary. In the long term, the project will establish the region as a vibrant location for modern, high-technology companies, bringing even greater economic impact. Local small and medium-sized enterprises and start-ups will be able to work alongside industry partners and researchers keen on supporting their development. This project will bring huge regeneration not just to the Swansea bay area, but also the wider region and beyond. It has the power to transform the community that it serves, delivering world-class educational opportunities, an excellent lifestyle, and an environment of sustainable wealth creation. These pioneering projects must be the way forward for Wales in regenerating local and national business. The Enterprise and Business Committee is about to conduct an inquiry into tourism, and we welcome the Minister's help with that.

Mae twristiaeth yn hanfodol i'r stryd fawr yng Nghymru ac i adfywio yng Nghymru. Mae gan Gymru hanes diwylliannol ac economaidd hynod o fywiog a chyfoethog, sy'n ased enfawr yn y gwaith o adfywio bron bob ardal yng Nghymru. O ran treftadaeth, clysoch fi'n siarad o'r blaen am y llong ganoloesol yng Nghasnewydd. Gyda datgelu pren y llong, a oedd wedi'i gadw gan y silt a'r llaid y disgynnodd iddo dros 500 o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd pobl sylweddoli'r fath drysor gwych a ddarganfuwyd yn y ddinas. Ar unwaith, dechreuwyd ymgyrch frwd gyda'r nod o gadw'r llong yn ei chyfanrwydd i'w harddangos yn barhaol yn y ddinas. Yn wreiddiol, roedd hyn i ddigwydd ar lawr isaf y ganolfan gelfyddydau newydd. Fodd bynnag, oherwydd maint y llong a adferwyd, ni fyddai hynny'n bosibl. Rwy'n cydnabod y gefnogaeth a'r arian y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd wedi'i roi ers 2002 tuag at gadwraeth yr hyn a elwir yn awr yn llong ganoloesol Casnewydd. Rwy'n parhau i gefnogi cyfeillion y llong er mwyn sicrhau nad yw llong ganoloesol Casnewydd, a longdrrylliwyd ym 1469, yn ynebu'r un dynged yn 2014.

Ddydd Iau diwethaf, gyda'r Pwyllgor Menter a Busnes yr wyf yn falch o'i gadeirio, roeddwn yn ddigon ffodus i gael ymweld â champws y bae Prifysgol Abertawe, datblygiad gwerth £450 miliwn ac un o'r prosiectau economi gwybodaeth mwyaf yn Ewrop. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel menter drawsnewidiol a rhagorol. Yn y tymor hir, bydd y prosiect yn sefydlu'r rhanbarth fel lleoliad bywiog ar gyfer cwmnïau uwch-dechnoleg modern, gan sicrhau effaith economaidd hyd yn oed yn fwy. Bydd busnesau bach a chanolig lleol a busnesau sy'n dechrau yn gallu gweithio ochr yn ochr â phartneriaid ac ymchwilwyr y diwydiant sy'n awyddus i gefnogi eu datblygiad. Bydd y prosiect yn adfywio'r rhanbarth ehangach a thu hwnt hefyd yn ogystal ag ardal bae Abertawe. Mae ganddo'r gallu i drawsnewid y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, i ddarparu cyfleoedd addysgol o'r radd flaenaf, ffordd o fyw ragorol ac amgylchedd o greu cyfoeth cynaliadwy. Rhaid bod y prosiectau arloesol hyn yn ffordd ymlaen i Gymru o ran adfywio busnes lleol a chenedlaethol. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes ar fin cynnal ymchwiliad i dwristiaeth ac rydym yn croesawu cymorth y Gweinidog gyda'r gwaith hwnnw.



When we talk about Welsh tourism, it is hard to ignore Welsh food festivals. They are a creative way to celebrate what is great about Welsh food and drink. They remain a superb advert for Wales, and attract crucial tourism to town centres from all over the country. We welcome the Minister for Natural Resources and Food's announcement to commit more than £148,000 to support food and drink festivals across Wales and to strengthen the nation's reputation as a producer of high-quality food. At the National Tourism Awards for Wales ceremony in 2013, the Abergavenny Food Festival scooped 'Best event in Wales'. These annual national tourism awards, staged by Visit Wales in partnership with the Wales Tourism Alliance and Quadrant Media and Communications Ltd, recognise and reward the very best in Welsh tourism. Let us recall that, in Wales, tourism directly employs approximately 100,000 people, roughly 8% of the entire workforce. Recent figures place tourist spending in the region of £3 billion a year, contributing nearly 4% of the whole economy's value-added in Wales. With a concerted and co-ordinated approach to regeneration between local authorities, business improvement districts and development projects, we can ensure a regeneration of the Welsh high street and local businesses for years to come. The American philosopher and poet, Henry David Thoreau, once said that

'Only that traveling is good which reveals to me the value of home and enables me to enjoy it better.'

Wrth sôn am dwristiaeth Cymru, mae'n anodd anwybyddu gwyliau bwyd Cymru. Maent yn ffordd greadigol o ddathlu'r hyn sy'n wych am fwyd a diod o Gymru. Maent yn parhau i fod yn hysbyseb gwych i Gymru ac maent yn denu twristiaeth hanfodol i ganol trefi o bob cwr o'r wlad. Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ei fod yn rhyddhau mwy na £148,000 i gefnogi gwyliau bwyd a diod ledled Cymru ac i gryfhau enw da'r genedl fel cynhyrchydd bwyd o ansawdd uchel. Yn seremoni wobrwyo Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2013, enillodd Gŵyl Fwyd y Fenni y wobrw am y digwyddiad gorau yng Nghymru. Mae'r gwobrau twristiaeth cenedlaethol blynnyddol, a gynhaliwyd gan Croeso Cymru mewn partneriaeth â Chynghrair Twristiaeth Cymru a Quadrant Media and Communications Ltd, yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r hyn sydd orau ym maes twristiaeth yng Nghymru. Gadewch i ni gofio bod twristiaeth yng Nghymru yn cyflogi tua 100,000 o bobl yn uniongyrchol, tua 8% o'r gweithlu cyfan yn fras. Dengys ffigurau diweddar fod gwariant twristiaeth oddeutu £3 biliwn y flwyddyn, gan gyfrannu bron i 4% o werth ychwanegol yr economi gyfan yng Nghymru. Wrth i awdurdodau lleol, ardaloedd gwella busnes a phrosiectau datblygu fynd ati i adfywio modd cydunol a chydgyssylltiedig, gallwn sicrhau adfywiad y stryd fawr a busnesau lleol yng Nghymru am flynyddoedd i ddod. Dywedodd yr athronydd a'r bardd Americanaidd, Henry David Thoreau:

'Only that traveling is good which reveals to me the value of home and enables me to enjoy it better.'

16:08

## Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

I find this a difficult debate because it is one that we have had many times. I think that it is also a bit guilty of hankering too much for a concept of what was rather than for the sort of changes that we actually need to look at for the future. There is a reality: the high street as we have known it has been in decline for a whole variety of reasons. Most people do not want to shop in high streets. They find retail parks attractive, because they can go there and do everything in a short space of time, and they can then go to do other things with their lives. That is a reality for a lot of people. There are also a lot of people who basically do not do any direct shopping themselves, or very little, because so much of it can be done online. How many people here actually go into bookshops to buy books? I do, but I know many people, many of my friends, who buy all of their books online. Bookshops used to be a traditional part of town centres and so on.

So, I think that we actually have to stop thinking about the high street in the way that we have, and talking about the decline of the high street and the resurrection, regeneration and so on. Also, we have to get away from trying to look at a sort of one-magic-bullet-fits-all approach, even though it may have a series of components. We have to look at what we actually want the centres of our communities to be, rather than just start to look at the high street—[Interruption.] Yes, I will take your intervention.

Rwy'n meddwl fod hon yn ddadl anodd gan ei bod yn un rydym wedi'i chael sawl gwaith o'r blaen. Rwy'n meddwl ei bod hefyd braidd yn euog o hiraethu ormod am gysyniad o'r hyn a fu yn hytrach na'r math o newidiadau sydd angen i ni edrych arnynt mewn gwirionedd ar gyfer y dyfodol. Mae yna realiti: mae'r stryd fawr rydym yn gyfarwydd â hi wedi bod yn dirywio am bob math o wahanol resymau. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl eisiau siopa ar y stryd fawr. Maent yn ystyried bod canolfannau manwerthu'n ddeniadol oherwydd y gallant fynd yno a gwneud popeth mewn amser byr gan eu rhyddhau i fynd i wneud pethau eraill gyda'u bywydau. Dyna'r realiti i lawer o bobl. Hefyd, mae llawer o bobl nad ydynt yn gwneud unrhyw siopa uniongyrchol eu hunain yn y bôn, neu ddim ond ychydig iawn, gan fod modd gwneud cymaint ohono ar-lein. Faint o bobl yma mewn gwirionedd sy'n mynd i mewn i siopau llyfrau i brynu llyfrau? Rwyf i'n gwneud hynny ond rwy'n adnabod llawer o bobl, llawer o fy ffrindiau, sy'n prynu eu holl lyfrau ar-lein. Roedd siopau llyfrau'n arfer bod yn rhan draddodiadol o ganol trefi ac yn y blaen.

Mewn gwirionedd felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni roi'r gorau i feddwl am y stryd fawr yn y ffordd rydym wedi bod yn ei wneud, a siarad am ddirywiad y stryd fawr a'r atgyfodiad, yr adfywio ac yn y blaen. Hefyd, rhaid i ni roi'r gorau i geisio edrych ar ryw fath o ddull un ateb i bob dim, er y gallai fod cyfres o gydrannau'n perthyn iddo. Rhaid i ni edrych ar yr hyn rydym eisiau i ganol ein cymunedau fod mewn gwirionedd yn hytrach na dim ond dechrau edrych ar y stryd fawr—[Torri ar draws.] Iawn, ildiaf i'ch ymyriad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:09 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. I am little alarmed at how you started off in your contribution to our debate. My question is this: are you now saying that you do not support the regeneration and revitalisation of our high streets, and are you condemning the high street as being a thing of the past?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Mae'r ffordd y dechreuoch eich cyfraniad i'r ddadl yn destun peth braw i mi. Dyma fy nghwestiwn: a ydych yn dweud yn awr nad ydych yn cefnogi adfywio ac ailfywiogi ein strydoedd mawr ac a ydych yn condemnio'r stryd fawr fel rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:10 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, you obviously were not listening very carefully to what I was saying. We have to stop looking at the concept of the high street as we have known it and start recreating a new concept for high streets, or rather for communities, the focus. There is a role, and there will be a role, for elements of retail—specialist retail, things that may be different, that people may particularly want to go there for. One of the things that have destroyed many of our high streets and communities is the way in which we are increasingly taking housing and accommodation away from centres. If there is one thing that we could do, it would be to really start looking at utilising all those spaces at the tops of buildings that now remain vacant, to start bringing people back in. However, if you bring them back in, they will not necessarily come because they shop down there—there may be a convenience shop and all sorts of things like that—because they will also want to see a certain amount of social and environmental life. We have to start breaking down some of the barriers that exist.

Na, mae'n amlwg nad oeddech yn gwrando'n astud ar yr hyn roeddwn yn ei ddweud. Rhaid i ni roi'r gorau i edrych ar y cysyniad cyfarwydd o'r stryd fawr a dechrau ail-greu cysyniad newydd ar gyfer y stryd fawr, neu yn hytrach i gymunedau, sef y ffocws. Mae rôl, a bydd rôl, i elfennau manwerthu—manwerthu arbenigol, pethau sy'n wahanol, o bosibl, y bydd pobl eisiau mynd yno'n arbennig i'w prynu. Un o'r pethau sydd wedi dinistrio llawer o'n strydoedd mawr a'n cymunedau yw'r ffordd rydym yn mynd ati'n gynyddol i symud tai a llety o ganol y dref. Os oes un peth y gallem ei wneud, dechrau edrych mewn gwirionedd ar ddefnyddio pob un o'r gofodau hynny ar loriau uchaf adeiladau sydd bellach yn wag fyddai hynny, er mwyn dechrau dod â phobl yn ôl i mewn Fodd bynnag, os dowch â hwy'n ôl i mewn, ni fyddant o reidrwydd yn dod am eu bod yn siopa yno—gallai fod siop cyfleustra a phob math o bethau fel yna—oherwydd byddant hefyd am weld rhywfaint o fywyd yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Rhaid i ni ddechrau chwalo rhai o'r rhwystrau sy'n bodoli.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you therefore support our call to local authorities to start listing all those empty premises above shops in town centres throughout Wales?

A fyddech felly'n cefnogi ein galwad ar awdurdodau lleol i ddechrau rhestru'r holl safleoedd gwag uwchben siopau canol y dref ledled Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no problem at all with the idea that we should now be looking to try to utilise those spaces and bring people back into centres. We should perhaps stop calling them high streets and start looking at them again as communities, which is what a lot of retail outlets in towns actually were—they were the centre of a community, rather than just being retail outlets. They developed in the 1930s and 1940s in a slightly different way, but then began to change again. We have to look also at the environment around—. Look at Cardiff bay, it is heaving with people in the summer. Why? Well, there is a bit of retail and there are restaurants and so on. It is fun to go—you can go there with the family, and you can enjoy at leisure. That is really no different. What has to happen is that we have to start looking at them high streets in terms of their own particular unique features, rather than thinking of them as a sort of master plan that created something we feel we have lost and a feeling of, 'If only we could do certain things we would recreate that'.

Nid oes gennyf unrhyw broblem o gwbl gyda'r syniad y dylem geisio defnyddio'r lleoedd hynny a dod â phobl yn ôl i ganol y dref. Efallai y dylem roi'r gorau i'w galw'n strydoedd mawr a dechrau edrych arnynt eto fel cymunedau, sef yr hyn oedd llawer o siopau manwerthu mewn trefi mewn gwirionedd—canol cymuned, yn hytrach na dim ond siopau. Datblygasant yn y 1930au a'r 1940au mewn ffordd ychydig yn wahanol, cyn dechrau newid eto. Mae'n rhaid i ni edrych hefyd ar yr amgylchedd o gwmpas—. Edrychwch ar fae Caerdydd, mae'n orlawn o bobl yn ystod yr haf. Pam? Wel, mae yno ychydig o siopau ac mae yno dai bwyta ac yn y blaen. Mae'n lle hwyliog i fynd iddo—gallwch fynd yno gyda'r teulu a gallwch fwynhau wrth eich pwysau. Nid oes dim yn wahanol yn hynny mewn gwirionedd. Yr hyn sy'n rhaid inni ei wneud yw dechrau edrych ar strydoedd mawr o ran eu nodweddion unigryw arbennig eu hunain yn hytrach na meddwl amdanynt fel rhyw fath o gynllun meistr sy'n creu rhywbeth y teimlwn ein bod wedi'i golli a theimlad o, 'pe baem ni ond yn gallu gwneud ambell beth penodol, gallem ail-greu hynna'.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Part of the problem is the way that we look at the nature of our communities and at the retail and leisure services within those communities. That is what we could change. We have to have a broader, holistic vision of what the future might be.

Rhan o'r broblem yw'r ffordd rydym yn edrych ar natur ein cymunedau ac ar y gwasanaethau manwerthu a hamdden yn y cymunedau hynny. Dyna beth y gallem ei newid. Mae'n rhaid i ni gael gweledigaeth ehangach, gyfannol o'r hyn y gallai'r dyfodol ei gynnig.

- 16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart. Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
- 
- 16:12 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*
- I very much welcome the debate today, which follows on from the debates that we have had on regenerating the high street over a number of months. We all acknowledge that it is challenging times for our town centres. We are working with our partners and key stakeholders to ensure that they are supporting our high streets. Mick Antoniw made some very good points about what the town centre is and what the town centre will be, particularly in terms of the issue of housing in a town centre and the use of that housing to establish a community that will then utilise the services. That falls very nicely into some of the comments that Rhun made regarding the location of health centres, dentists and other services within the high street. The restrictions on the shopping area and the service centre and having more houses around that centre are some of the issues that we will probably take forward.
- Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw'n fawr, sy'n dilyn ymlaen o'r dadleuon rydym wedi'u cael ar adfywio'r stryd fawr dros nifer o fisoedd. Rydym oll yn cydnabod ei bod hi'n adeg heriol ar ganol ein trefi. Rydym yn gweithio gyda'nartneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn cefnogi ein strydoedd mawr. Gwnaeth Mick Antoniw rai pwyntiau da iawn am yr hyn yw canol y dref a beth fydd canol y dref, yn enwedig o ran mater tai yng nghanol trefi a'r defnydd o dai i greu cymuned a fydd wedyn yn defnyddio'r gwasanaethau. Mae hyn yn arwain yn daclus at rai o'r sylwadau a wnaeth Rhun ynghylch lleoli canolfannau iechyd, deintyddion a gwasanaethau eraill ar y stryd fawr. Mae'r cyfyngiadau ar ardaloedd siopa a chanolfannau gwasanaethau a chael mwy o dai o gwmpas canol trefi yn rhai o'r materion y byddwn yn eu datblygu yn ôl pob tebyg.
- We have seen evidence of the growing cultural shifts in the way that people shop—we all acknowledge that, as well as the challenging economic environment that faces all of us. While the key short-term economic levers rest with the UK, we as a Government have to do all we can to support growth, create jobs and prosperity. We see town centres, or town centre communities, as being at the heart of communities, providing places to shop, do business and socialise. That was the point that Eluned Parrott concentrated on in her contribution—what they mean, what they are and what we require and want from the centres.
- Rydym wedi gweld tystiolaeth o'r newidiadau diwylliannol cynyddol o ran y ffordd y mae pobl yn siopa—rydym i gyd yn cydnabod hynny, yn ogystal â'r amgylchiadau economaidd heriol sy'n wynebu pob un ohonom. Er mai'r DU sydd â'u dwylo ar y liferi economaidd allweddol yn y tymor byr, rhaid i ni fel Llywodraeth wneud popeth yn ein gallu i gefnogi twf a chreu swyddi a ffyniant. Ystyriwn fod canol trefi, neu gymunedau canol y dref, yn ganolog i gymunedau, gan ddarparu mannau ar gyfer siopa, cynnal busnes a chymdeithasu. Dyna oedd y pwynt y canolbwyntiodd Eluned Parrott arno yn ei chyfraniad—yr hyn y maent yn ei olygu, beth ydynt a beth rydym ei angen a'i eisiau ar gyfer canol ein trefi.
- Our Vibrant and Viable Places framework sets the policy for the regeneration of town centres in Wales, which includes working with businesses to help towns respond to changing shopping habits and to diversify in terms of their offer to residents and visitors. The issue about visitors in quite important as well.
- Mae ein fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn gosod y polisi ar gyfer adfywio canol trefi yng Nghymru, sy'n cynnwys gweithio gyda busnesau i helpu trefi i ymateb i newid mewn arferion siopa ac i arallgyfeirio o ran yr hyn y maent yn ei gynnig i drigolion ac ymwelwyr. Mae mater ymwelwyr yn eithaf pwysig hefyd.
- 
- 16:14 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for giving way. Do you share my regret that a large number of shops in town centres have felt encouraged to remove the staircases to the upper stories to increase the amount of space that they have downstairs? That means that those upper levels in shops cannot be used for people to move into, as we would like for them to do.
- Diolch i chi am iildio. A ydych yn rhannu fy siom fod nifer fawr o siopau canol y dref yn teimlo anogaeth i gael gwared ar risiau i'r lloriau uchaf er mwyn ehangu'r lle sydd ganddynt i lawr y grisiau? Mae hynny'n golygu na ellir defnyddio lloriau uwch mewn siopau i bobl allu symud i mewn iddynt fel y byddem yn hoffi iddynt ei wneud.
- 
- 16:14 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I cannot comment on things that I do not have direct experience of, such as the issues that you raise. However, we should utilise shopping centres and the buildings above them for housing because it makes for a vibrant community, not just in the daytime but in the evening, with a very different type of environment.
- Ni allaf roi sylwadau ar bethau nad wyf wedi cael profiad uniongyrchol ohonynt fel y mater rydych yn ei godi. Fodd bynnag, dylem ddefnyddio canolfannau siopa a'r adeiladau uwch eu pennau fel cartrefi er mwyn creu cymunedau bywiog, nid yn unig yn ystod y dydd, ond yn y nos, gyda math gwahanol iawn o amgylchedd.

We are also, as a Government, developing a pilot town centres loan scheme, which will be brought forward to assist local partners in pilot areas to bring their town centres back to life. I think that that is the point that you are getting at; they have to be alive—they cannot be dead when shopping hours are over. What are they? Are they vibrant communities? We continue to support several town centres in our strategic regeneration areas, and, with European funding, we are supporting around £270 million in investment in 24 town centres across Wales.

A campaign in support of our high streets is also planned to launch this autumn. I think that that is about a wide campaign—like the points made in some of the contributions suggested—on what it means to be in the town centre. We continue our work to support the development of business improvement districts across Wales, which was one of the recommendations, as we all know, of the business task and finish group.

Experience has shown that these initiatives can empower businesses to take positive decisions for the benefit of their town centres; we have had some successful looks at this, and I think that it is important that we concentrate on assisting those developments. Obviously, we have put some money in, and there have been nine successful applicants. The funding will be used to appoint consultants to help local partnerships to develop their proposals.

We have also introduced a new business rates scheme to help town centres and high streets, which I know that Members understand across the Chamber. We have successfully lobbied the UK Government to extend small business tax relief; this is an important issue for us, as well. We also have the Wales retail relief scheme, which I also think will help. Last October, we had the scheme to encourage construction.

The UK Government's agreement to devolve business rates to Wales will, I think, help us in the long term to develop the right regime in terms of business rates. Other initiatives, such as the Newport business development project, local growth zones and city regions contribute, I think, to this broad agenda.

The historic environment plays an important role, I think, in delivering social, economic and environmental benefits for Welsh communities. Investment in heritage can have a considerable regenerative impact, I believe, on our communities. Investment in heritage—for example, through the townscape heritage initiative that brings historic buildings back into sustainable use—is very important and helps realise the value of assets that contribute strongly to a distinctive sense of place. You have to give these communities, these towns, a sense of place.

Fel Llywodraeth, rydym hefyd yn datblygu cynllun peilot benthyciadau canol trefi a fydd yn cael ei gyflwyno er mwyn cynorthwyo partneriaid lleol mewn ardaloedd peilot i adfywio canol eu trefi. Rwy'n meddwl mai dyna'r pwynt sydd gennych: rhaid iddynt fod yn fyw—ni allant fod yn farw ar ôl i oriau siopa ddod i ben. Beth ydynt? A ydynt yn gymunedau bywiog? Rydym yn parhau i gefnogi sawl canol tref yn ein hardaloedd adfywio strategol a gyda chyllid Ewropeaidd, rydym yn cefnogi oddeutu £270 miliwn o fuddsoddiad mewn 24 o ganol trefi ledled Cymru.

Hefyd, bwriedir cynnal ymgyrch i gefnogi ein stryd fawr i'w lansio yn yr hydref. Credaf y bydd yn ymgyrch eang—fel roedd pwyntiau a wnaed yn rhai o'r cyfraniadau yn awgrymu—ynglŷn â'r hyn y mae'n ei olygu i fod yng nghanol y dref. Rydym yn parhau â'n gwaith i gefnogi datblygiad ardaloedd gwella busnes ar draws Cymru a oedd, fel y gwyddom, yn un o argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar fusnes.

Mae profiad wedi dangos y gall y mentrau hyn rymuso busnesau i wneud penderfyniadau cadarnhaol er budd canol eu trefi; rydym wedi edrych ar hyn gyda pheth llwyddiant ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ganolbwyntio ar gynorthwyo'r datblygiadau hynny. Yn amlwg, rydym wedi buddsoddi arian a daeth naw ymgeisydd llwyddiannus i'r fei. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i benodi ymgynghorwyr i helpu partneriaethau lleol i ddatblygu eu cynigion.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cynllun ardrethi busnes newydd i helpu canol trefi a strydoedd mawr, a gwn y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn gwybod amdano. Rydym wedi llwyddo i lobio Llywodraeth y DU i ymestyn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach; mae hwn hefyd yn fater pwysig i ni. Mae gennym gynllun rhyddhad manwerthu Cymru a fydd hefyd yn helpu yn fy marn i. Fis Hydref diwethaf, cyflwynwyd y cynllun i annog adeiladu.

Rwy'n credu y bydd cytundeb Llywodraeth y DU i ddatganoli ardrethi busnes i Gymru yn ein helpu yn y tymor hir i ddatblygu'r drefn gywir o ran ardrethi busnes. Mae mentrau eraill, megis prosiect datblygu busnes Casnewydd, parthau twf lleol a dinas-ranbarthau yn cyfrannu, rwy'n credu, at yr agenda eang hon.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn chwarae rhan bwysig, rwy'n meddwl, wrth gyflwyno manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymunedau Cymru. Gall buddsoddi mewn treftadaeth gael effaith sylweddol o ran adfywio ein cymunedau yn fy marn i. Mae buddsoddi mewn treftadaeth—er enghraifft, drwy'r fenter treftadaeth treflun sy'n dod ag adeiladau hanesyddol yn ôl i ddefnydd cynaliadwy—yn bwysig iawn ac yn helpu i wireddu gwerth yr asedau sy'n cyfrannu'n bendant at ymdeimlad unigryw o le. Rhaid i chi roi ymdeimlad o le i'r cymunedau hyn, i'r trefi hyn.

Cadw obviously provides the sites in its care, and works in partnership with others to support conservation and the reuse of historic buildings. I think that an understanding of historic character is being used to guide and inform regeneration activities. If we look at the Caernarfon waterfront project particularly, you can see that at first hand. It is a key heritage-led regeneration initiative that, I think, is already delivering results in that town.

Our heritage is also an asset for tourism, and we recognise the importance of aligning tourism activities with the regeneration agenda. I think that William Graham was quite right when he alluded to the work that has been done on the Newport ship. When you look at Newport as a city, and the work that is going on, you see that Newport is a city of great heritage, with the ship. Also, it is the Chartist city, and we should be doing more to align some of our history and historic things together to get benefit in terms of regeneration.

I think that the visit that you made to Swansea University is a good illustration of how higher education can lead regeneration. When we also look at the positive way that University of Wales Trinity Saint David is also developing the city, you see the links between HE and how that can help the development of sustainable town centres. May I add that I very much look forward to the committee's report on tourism?

Our direct support for the tourism industry in Wales also helps to support regeneration through developing the tourism product offer. I think that that, with the use of our tourism investment support scheme, is also very useful in those key areas. I think that we all agree that there are a considerable number of tools in the toolbox, but it is about the way that we use them collectively to bring about the maximum benefit.

Turning quickly to the amendments, Deputy Presiding Officer, we support very much the first amendment in the name of Aled Roberts, because regeneration officials meet regularly with all of the various stakeholders in all areas of the regeneration agenda, and this includes guidance and advice from the ministerial advisory group, attendance at key stakeholder events, such as the relevant Welsh Local Government Association boards, as well a regular workshops, fora and one-to-one discussions. I think that it is important that we integrate the offers that we have across local and central governments and our third sector partners.

With regard to the second amendment, the issue of local rates retention will be looked at as part of the work to determine how we should move devolution further. It is important that we have a business rates regime that is right for Wales, and we will use the opportunity presented by devolution to look at it. So, Professor Morgan is looking at this work and he is meeting key stakeholders already on some of these issues; he has had over 100 attendees so far and, this week, he is actually going to Manchester to learn about the experience there with regard to what has happened with business rates.

Mae Cadw yn amlwg yn darparu ar gyfer y safleoedd yn ei ofal ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi cadwraeth ac aildefnyddio adeiladau hanesyddol. Credaf fod dealltwriaeth o gymeriad hanesyddol yn cael ei ddefnyddio i arwain a llywio gweithgareddau adfywio. Os edrychwn ar brosiect glannau Caernarfon yn arbennig, gallwch weld hyn ar waith. Mae'n fenter adfywio allweddol wedi'i harwain gan dreftadaeth ac sydd, rwy'n meddwl, eisoes yn sicrhau canlyniadau yn y dref honno.

Mae ein treftadaeth hefyd yn ased ar gyfer twristiaeth ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd gosod gweithgareddau twristiaeth ochr yn ochr â'r agenda adfywio. Credaf fod William Graham yn llygad ei le pan gyfeiriodd at y gwaith a wnaed ar long Casnewydd. Pan edrychwch ar Gasnewydd fel dinas, a'r gwaith sydd ar y gweill, gwelwch fod Casnewydd yn ddinas ag iddi dreftadaeth wych, gyda'r llong. Hefyd, dyma ddinas y Siartwyr a dylem fod yn gwneud mwy i gyfuno peth o'n hanes a phethau hanesyddol er mwyn sicrhau budd o ran adfywio.

Rwy'n credu bod eich ymweliad â Phrifysgol Abertawe yn enghraifft dda o sut y gall addysg uwch arwain gwaith adfywio. Pan edrychwn hefyd ar y ffordd gadarnhaol y mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn datblygu'r ddinas, gwelwn y cysylltiadau rhwng addysg uwch a sut y gall hynny helpu i ddatblygu canol trefi cynaliadwy. A gaf fi ychwanegu fy mod yn edrych ymlaen yn fawr at adroddiad y pwyllgor ar dwristiaeth?

Mae ein cymorth uniongyrchol i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru hefyd yn helpu i gefnogi adfywio drwy ddatblygu'r cynnyrch twristiaeth sy'n cael ei gynnig. Rwy'n meddwl y bydd hynny, gyda'r defnydd o'n cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth, yn ddefnyddiol iawn yn y meysydd allweddol hynny. Credaf ein bod i gyd yn gytûn fod nifer sylweddol o adnoddau gennym, ond mae a wnelo â'r ffordd rydym yn eu defnyddio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf.

Gan droi'n gyflym at y gwelliannau, Ddirprwy Lywydd, rydym yn cefnogi'n fawr iawn y gwelliant cyntaf yn enw Aled Roberts oherwydd bod swyddogion adfywio'n cyfarfod yn rheolaidd â phob un o'r gwahanol randdeiliaid ym mhob maes o'r agenda adfywio ac mae hyn yn cynnwys arweiniad a chynghor gan grŵp cynghori'r Gweinidog, presenoldeb mewn digwyddiadau allweddol i randdeiliaid megis byrddau perthnasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ogystal â gweithdai rheolaidd, fforymau a thrafodaethau un i un. Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni integreiddio'r cynigion sydd gennym ar draws llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog a'n partneriaid yn y trydydd sector.

O ran yr ail welliant, bydd mater cadw ardrethi'n lleol yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith i benderfynu sut y dylem fynd ati i ddatganoli ymhellach. Mae'n bwysig bod gennym drefn ardrethi busnes sy'n iawn i Gymru a byddwn yn defnyddio'r cyfle y mae datganoli'n ei roi i edrych arno. Felly, mae'r Athro Morgan yn edrych ar y gwaith hwn ac mae'n cwrdd â rhanddeiliaid allweddol sydd eisoes yn ymwneud â rhai o'r materion hyn; mae dros 100 o bobl wedi mynychu cyfarfodydd ag ef hyd yn hyn a'r wythnos hon, mae'n mynd i Fanceinion i ddysgu am brofiadau pobl yno o ran yr hyn sydd wedi digwydd gydag ardrethi busnes.

I have met local authority leaders, as I indicated last week, to seek their views, and an officials' group has been established by the Minister for Finance to look at the devolution process. Therefore, I am not, at this stage, in a position to support the amendment. I will have to oppose the amendment, because I need greater clarity with regard to how this position will work. However, in terms of the overall debate today, there is a lot more that we can do. There have been other discussions; for example, Janet Finch-Saunders mentioned Wales in Bloom, which is very popular in some areas and gives life to some environments, making them look pretty and acceptable and people want to see them. Also, William alluded to the food and drink festivals, which have been quite important. In my own constituency, in Gorseinon, there is a food festival that makes a difference to the local community. Therefore, as a Government, it is important that we ensure that there is a wide range of advice and initiatives to support businesses in Wales and to encourage sustainable growth in these very valuable assets.

Rwyf wedi cyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol, fel y dynodais yr wythnos diwethaf, i ofyn am eu barn, a sefydlodd y Gweinidog Cyllid grŵp o swyddogion i edrych ar y broses ddatganoli. Ar hyn o bryd felly, nid wyf mewn sefyllfa i gefnogi'r gwelliant. Bydd yn rhaid i mi wrthwynebu'r gwelliant am fod angen i mi gael mwy o eglurder o ran sut y bydd y sefyllfa hon yn gweithio. Fodd bynnag, o ran y ddadl yn gyffredinol heddiw, mae llawer mwy y gallwn ei wneud. Cafwyd trafodaethau eraill; er enghraifft, soniodd Janet Finch-Saunders am Cymru yn ei Blodau sy'n boblogaidd iawn mewn rhai ardaloedd, gan fywogi rhai mannau a'u gwneud yn bert ac yn dderbyniol, ac mae pobl am eu gweld. Hefyd, cyfeiriodd William at y gwyliau bwyd a diod sydd wedi bod yn eithaf pwysig. Yn fy etholaeth fy hun yng Ngorseinon, mae gŵyl fwyd sy'n gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol. Felly, fel Llywodraeth, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ystod eang o gyngor a mentrau i gefnogi busnesau yng Nghymru ac i annog twf cynaliadwy asedau hynod werthfawr o'r fath.

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:21 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. I thank Members and the Minister for their contributions today. It is important that we explore a wide variety of ideas for regenerating our economy and our communities—they go hand in hand, after all—because, between us, we represent a range of communities with a range of economic strengths and weaknesses, even if they face some common challenges. While our constituencies and regions have a wealth of knowledge and experience on which to draw, identifying those common challenges and finding an answer that works everywhere is very far from easy, as Mick Antoniw noted.

Diolch. Diolch i'r Aelodau a'r Gweinidog am eu cyfraniadau heddiw. Mae'n bwysig ein bod yn archwilio amrywiaeth eang o syniadau ar gyfer adfywio ein heconomi a'n cymunedau—maent yn mynd law yn llaw wedi'r cyfan—oherwydd rhyngom, rydym yn cynrychioli amrywiaeth o gymunedau gydag ystod o gryfderau a gwendidau economaidd, hyd yn oed os ydynt yn wynebu rhai heriau cyffredin. Er bod gan ein hetholaethau a'n rhanbarthau gyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gellir pwyso arno, mae nodi'r heriau cyffredin a dod o hyd i ateb sy'n gweithio ym mhob man yn bell iawn o fod yn hawdd, fel y nododd Mick Antoniw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Byron Davies opened the debate with various references to material that we have brought into the Chamber before—a reminder that we have the highest vacancy rates in the UK and identifying ideas that we, certainly, as Welsh Conservatives think can work. He made a point that I want to develop a little later about why it is important that small businesses are at the forefront of the way in which we decide on the best way to deal with regeneration more widely.

Agorodd Byron Davies y ddadl gyda gwahanol gyfeiriadau at ddeunydd rydym wedi'i gyflwyno i'r Siambr o'r blaen—gair i'n hatgoffa mai gennym ni y mae'r gyfradd uchaf o unedau gwag yn y DU a syniadau y credwn ni, fel Ceidwadwyr Cymreig, yn bendant y gallant weithio. Gwnaeth bwynt yr wyf am ei ddatblygu ychydig yn nes ymlaen ynglŷn â pham ei bod yn bwysig i fusnesau bach fod ar flaen y gad wrth i ni benderfynu ar y ffordd orau o ymdrin ag adfywio yn ehangach.

Eluned, you were right; I am afraid that Mick Antoniw seemed to have misinterpreted initially the purpose of our debate, although he came around to our way of thinking in the end. We cannot recreate the high streets of the past, but high streets should not be consigned to history, either. By flipping this on its head, we can use our heritage assets to draw people to particular locations and communities. There is a question, then, of how to do that over a period, creating demand for skills and persuading people to spend money there.

Eluned, roeddech yn iawn; mae arnaf ofn fod Mick Antoniw i'w weld wedi camddehongli pwrpas ein dadl ar y cychwyn er iddo ddod i gytuno â ni yn y diwedd. Ni allwn ail-greu strydoedd mawr y gorffennol ond ni ddylid cloi'r drws ar y stryd fawr ychwaith. Drwy droi hyn ar ei ben, gallwn ddefnyddio ein hasedau treftadaeth i ddenu pobl i leoliadau a chymunedau penodol. Mae'n gwestiwn felly o sut i wneud hynny dros gyfnod, gan greu galw am sgiliau a darbwyllo pobl i wario arian yno.

Mohammad Asghar's contribution was very interesting with regard to the way in which he brought into a debate on regeneration the issue of wellbeing, because without good wellbeing, along with good housing and education, regeneration purely on the grounds of economy is not going to work. They are all part of a much bigger circle of life, if you like, and economic improvement depends on having communities where wellbeing is high, housing is good, and the workforce is well skilled.

Tarodd Jenny Rathbone yr hoelen ar ei phen.

Everybody loves an out-of-town shopping experience for the reasons that Mick Antoniw mentioned, but they are very poor at retaining wealth within particular communities and they can offer only limited job opportunities as well. I was very pleased that you were able to give us examples where regeneration works if residents and small businesses are at the heart of the decision making, and what can go wrong when they are not. Once again, that is something that I want to come back to.

Both the Minister and Janet Finch-Saunders talked about Vibrant and Viable Places. Obviously, there is huge potential for this programme. However, the experience in at least part of my region is that, when applications are made, with a vision built in, they are obviously not fully funded, and that means major changes to the original plans, which end up then not being able to achieve the results for which the money is given in the first place. It is one of those downward spiral-type arguments that needs a little bit of attention. If communities are putting together these large and well-thought-through applications, not funding them properly means that there is built-in failure. I hope that we see more good town-centre managers, Janet; that is something that we can all stand behind.

Rhun, diolch am gyfeirio at ein dogfen ar y stryd fawr ac at eich syniadau chi. Nid cystadleuaeth yw hyn, ond cyfle i gyfrannu at glymblaid syniadau. Felly, rwy'n falch i weld eich bod yn cytuno bod angen adfywio strydoedd mawr ond rwy'n dal yn aros am ryw fath o strategaeth gan y Llywodraeth. Felly, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn dod cyn bo hir.

I want to use the example of tourism and heritage to make some quick observations about how local knowledge and experience affects the ability to capture opportunities for regeneration. The Minister for heritage has recently been talking about using tourism and heritage as contexts in which to develop skills and exploit creativity, which are important to help establish and sustain viable businesses or services. We would not disagree that heritage and tourism offer those opportunities, as well as being important players in the economy already, as this week's figures on outdoor activity show. Various Members have referred to things like food festivals, William Graham mentioned the Newport medieval ship, and I think I can bring in the Hafod copper works as offering similar potential for drawing tourists into areas where perhaps they have not been before.

Roedd cyfraniad Mohammad Asghar yn ddiddorol iawn o ran y ffordd y daeth â mater lles i mewn i'r ddadl ar adfywio, oherwydd heb safonau lles da, ynghyd â thai da ac addysg dda, nid yw adfywio ar sail yr economi'n unig yn mynd i weithio. Maent oll yn rhan o gylch llawer mwy o fywyd, os dymunwch, ac mae gwelliant economaidd yn dibynnu ar sicrhau bod gan gymunedau safonau lles uchel, tai o ansawdd da a gweithlu medrus.

Jenny Rathbone hit the nail on the head.

Mae pawb yn hoff o'r profiad o siopa ar gyrion y dref am y rhesymau a grybwyllodd Mick Antoniw, ond maent yn wael iawn am gadw cyfoeth o fewn cymunedau penodol a dim ond nifer cyfyngedig o swyddi y gallant eu cynnig. Roeddwn yn falch iawn eich bod wedi gallu rhoi enghreifftiau i ni o adfywio'n gweithio os yw trigolion a busnesau bach wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a beth all fynd o'i le pan nad ydynt. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth rwyf am ddychwelyd ato.

Siaradodd y Gweinidog a Janet Finch-Saunders am y rhaglen, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Yn amlwg, mae potensial aruthrol i'r rhaglen hon. Fodd bynnag, ym mhrofiad o leiaf un rhan o fy rhanbarth, pan wneir ceisiadau, gyda gweledigaeth wedi'i chynnwys, mae'n amlwg na chânt eu hariannu'n llawn ac mae hynny'n golygu newidiadau mawr i'r cynlluniau gwreiddiol, nad ydynt felly, yn y pen draw, yn gallu sicrhau'r canlyniadau y rhoddwyd yr arian ar gyfer eu gwireddu yn y lle cyntaf. Mae'r ddadl yn un droellog o'r math sy'n galw am ychydig o sylw. Os yw cymunedau'n llunio ceisiadau mawr wedi'u hystyried yn drwyadl, mae peidio â'u hariannu'n briodol yn golygu bod methiant wedi'i gynnwys ynddynt o'r cychwyn. Rwy'n gobeithio y gwelwn ragor o reolwyr canol trefi da, Janet; mae hynny'n rhywbeth y gallwn oll ei gefnogi.

Rhun, thank you for referring to our high street document and to your own ideas. This is not a competition, but an opportunity to contribute to a coalition of ideas. So, I am pleased to see that you agree that we need to regenerate our high streets, but I am still waiting for some sort of strategy to emerge from Government. I hope that this will happen before long.

Rwyf am ddefnyddio enghraifft o faes twristiaeth a threftadaeth i wneud rhai sylwadau cyflym am y modd y mae gwybodaeth a phrofiad lleol yn effeithio ar y gallu i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer adfywio. Yn ddiweddar, bu'r Gweinidog treftadaeth yn sôn am ddefnyddio twristiaeth a threftadaeth fel cyd-destunau ar gyfer datblygu sgiliau a manteisio ar greadigrwydd, sy'n bwysig i helpu i sefydlu a chynnal busnesau neu wasanaethau hyfyw. Ni fyddem yn anghytuno bod treftadaeth a thwristiaeth yn cynnig cyfleoedd o'r fath, yn ogystal â chwarae rhan bwysig yn yr economi eisoes, fel y dengys ffigurau'r wythnos hon ar weithgareddau awyr agored. Mae amryw o Aelodau wedi cyfeirio at bethau fel gwyliau bwyd, soniodd William Graham am long ganoloesol Casnewydd ac rwy'n credu y gallaf gyfeirio at waith copr yr Hafod fel enghraifft arall sy'n cynnig potensial tebyg ar gyfer denu twristiaid i ardaloedd lle nad ydynt wedi bod o'r blaen efallai.

However, tourism businesses fall almost exclusively into that 90% or so of private businesses that make up the Welsh economy. The Welsh Government may be a custodian of much of our heritage tourism assets, but the people known to capitalise on them, for the kind of economy we have in a way that makes sense in any given community, are business owners and the communities themselves. Byron gave a very good example with the Llangollen railway. It is one reason why we are so keen to see action on business rates and local access to finance.

To illustrate what I am trying to say, I am going to use the example of Catalonia, where Government policy on tourism is not just influenced by tourism operators, but they also make a direct financial contribution to the budget and are partners in the design of policy, along with their version of county borough councils. I am not suggesting that we attempt to replicate that, but the balance of central Government, local government and business has been phenomenally successful. It has meant that residents and inward investors making the most of their heritage assets in raising the status of tourism as a career choice, attracting investment, raising tax revenue and creating a tourism economy.

More importantly from my perspective, it has also been able to respond swiftly when that model of regeneration got out of hand, where residents of Barcelona and the coast began to feel overwhelmed by the very visitors who had brought wealth to some parts of the region. The wider Barcelona county is now the subject of some fundamental rebalancing of priorities in order to bring stability and sustainability back to communities that were dissipating and really losing their identity. This is where I come back to Jenny Rathbone's point, a point recognised by the Minister as well. The speed at which this is happening lies to a significant degree in the ability of businesses to use their familiarity with trend spotting, entrepreneurial thinking and ability to act quickly. They make policy with residents that they know they can deliver on, even when the social context changes in a short period of time.

This is where I speak to the third proposal in the motion. Ideas for regeneration will not last if you cannot take communities and small businesses with you, and if you underestimate their creativity to regenerate compatibly. Common challenges do not always inspire answers that work everywhere, but inspiration can prompt many answers to common challenges. It is here, I think, Minister, that the Government can help with a joined-up process.

Fodd bynnag, mae busnesau twristiaeth yn perthyn bron yn gyfan gwbl i'r oddeutu 90% o fusnesau preifat sy'n ffurfio economi Cymru. Efallai bod Llywodraeth Cymru yn geidwad llawer o'n hasedau twristiaeth treftadaeth, ond y bobl y gwyddom eu bod yn manteisio arnynt ar gyfer y math o economi sydd gennym mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr mewn unrhyw gymuned, yw'r perchnogion busnesau a'r cymunedau eu hunain. Roedd yr enghraifft a roddodd Byron, sef rheilffordd Llangollen, yn un dda iawn. Mae'n un rheswm pam ein bod mor awyddus i weld gweithredu'n digwydd ar drethi busnes a defnyddio cyllid yn lleol.

I ddangos yr hyn rwy'n ceisio'i ddweud, rwy'n mynd i ddefnyddio Catalonia fel enghraifft. Yno, mae polisi'r Llywodraeth ar dwristiaeth nid yn unig yn cael ei ddylanwadu gan weithredwyr twristiaeth, ond maent hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol uniongyrchol i'r gyllideb ac yn bartneriaid yn y gwaith o gynllunio polisi, ynghyd â'u fersiwn o gynghorau bwrdeistref sirol. Nid wyf yn awgrymu ein bod yn ceisio dynwared hynny, ond mae'r cydbwysedd rhwng y Llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a busnes wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae wedi golygu bod preswylwyr a buddsoddwyr o'r tu allan yn manteisio i'r eithaf ar eu hasedau treftadaeth wrth godi statws twristiaeth fel dewis gyrfa, denu buddsoddiad, cynyddu refeniw treth a chreu economi dwristiaeth.

Yn bwysicach o fy safbwynt i, mae hefyd wedi gallu ymateb yn gyflym pan gollwyd rheolaeth ar y model adfywio, a phan ddechreuodd trigolion Barcelona a'r arfordir deimlo'u bod yn cael eu llethu gan yr union ymwelwyr a oedd wedi dod â chyfoeth i rai rhannau o'r rhanbarth. Mae sir ehangach Barcelona bellach yn destun rhywfaint o ail-gydbwyso blaenoriaethau sylfaenol er mwyn adfer sefydlogrwydd a chynaliadwyedd i gymunedau a oedd mewn gwirionedd yn chwalu ac yn colli eu hunaniaeth. Dyma lle rwy'n dod yn ôl at bwynt Jenny Rathbone, pwynt y mae'r Gweinidog wedi'i gydnabod hefyd. Mae pa mor gyflym y mae hyn yn digwydd yn dibynnu i raddau helaeth ar allu busnesau i ddefnyddio'u cyneffindra â nodi tueddiadau, i feddwl yn entrepreneuriaid ac i weithredu'n gyflym. Maent yn mynd ati gyda thrigolion i lunio polisiâu y gwyddant y gallant eu cyflawni hyd yn oed pan fo'r cyd-destun cymdeithasol yn newid mewn cyfnod byr o amser.

Dyma droi at y trydydd argymhelliad yn y cynnig. Ni fydd syniadau ar gyfer adfywio yn para os na allwch ddenu cymunedau a busnesau bach i ddod gyda chi ac os ydych yn tanbriso eu creadigrwydd i adfywio'n gyson. Nid yw heriau cyffredin bob amser yn ysbrydoli atebion sy'n gweithio ym mhob man, ond gall ysbrydoliaeth ysgogi llawer o atebion i heriau cyffredin. Rwy'n credu y gall y Llywodraeth helpu yn hyn o beth, Weiniog, drwy sicrhau bod y broses yn un gydgyssylltiedig.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I will be quicker next time. There is objection. I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Byddaf yn gyflymach y tro nesaf. Mae yna wrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



## Dadl Plaid Cymru: HS2 a Chymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies, a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts.*

## Plaid Cymru Debate: HS2 and Wales

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.*

16:28

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i wneud y cynnig.

I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Cynnig NDM5505 Elin Jones

Motion NDM5505 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu rhwydwaith rheilffordd cyflymder uchel HS2 yn Lloegr.

1. Notes the UK Government's intention to develop the HS2 high-speed rail network in England.

2. Yn cydnabod y rhagwelir y bydd datblygu HS2 yn cael effaith negyddol gyffredinol ar economi Cymru.

2. Recognises that the development of HS2 is predicted to have an overall negative impact on the economy of Wales.

3. Yn gresynu, hyd yma, na chadarnhawyd y bydd Cymru yn cael unrhyw adnodd ychwanegol pellach drwy fformiwla Barnett yn sgîl gwariant Llywodraeth y DU ar HS2.

3. Regrets that, to date, it has not been confirmed that Wales will receive any further additional resource through the Barnett formula as a result of UK Government expenditure on HS2.

4. Yn nodi pwysigrwydd hanfodol buddsoddi yn y seilwaith trafndiaeth ar gyfer rhagolygon economi Cymru yn y dyfodol.

4. Notes the critical importance of transport infrastructure investment for the future prospects of the Welsh economy.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid canlyniadol Barnett llawn neu unrhyw setliad ariannol teg arall, yn sgîl datblygu HS2.

5. Calls on the Welsh Government to secure full Barnett consequentials, or any other fair financial settlement, from the development of HS2.

16:29

### **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiau y cynnig.

I move the motion.

Diolch am gael cyflwyno'r ddadl hon heddiw ar fater nad ydyw am Gymru ond sy'n sicr am gael effaith bellgyrhaeddol ar Gymru. Dyna pam y mae mor bwysig ein bod yn trafod hyn. Sôn yr wyf am HS2, y rheilffordd gyflym newydd i Loegr sy'n destun dadlau tanbaid iawn yn Lloegr, ac sy'n destun deddfwriaeth a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffedin. Fel y dywedais, mae dadlau brwd ar y ddwy ochr yn Lloegr. Mae dadleuon economaidd o blaid gan y rheini sydd am geisio rhannu twf economaidd drwy adeiladu cysylltiadau cyflym efo Llundain. Mae digon o ddadleuon bod cysylltiadau cyflym fel hyn a'u ffocws ar un 'hub' economaidd yn gwneud dim ond sugno mwy a mwy o rym economaidd i'r 'hub' hwnnw, yn hytrach na rhannu i ardaloedd eraill. Hefyd yn erbyn y mae pryderon amgylcheddol a phryderon am y gost, ond caiff y dadleuon hynny eu clywed a'u trafod yn Lloegr.

Thank you for the opportunity to open this debate today on an issue that is not about Wales, but will certainly have a far-reaching effect on Wales. That is why it is so important that we discuss this issue. I am talking of course about HS2, the new high-speed rail line for England that is the cause of great debate in England, and is subject to legislation introduced in the House of Commons. As I said, there have been arguments on both sides in England. There are economic arguments in favour from those who want to distribute economic growth by building high-speed links with London. There are also plenty of arguments that high-speed links of this sort, with their focus on one economic hub, do nothing but suck more and more economic power into that hub, rather than distributing it to other areas. There are also concerns about the environmental impact and the cost, but those debates can be had in England.

Ein gwaith ni yw hyn: mae yna botensial go iawn i unrhyw gyfleoedd newydd a ddaw yn sgîl HS2 i ranbarthau o Loegr y tu hwnt i Lundain a Birmingham fod yn her i allu Cymru i fod yn gystadleuol. Nid wyf yn meddwl bod rhaid inni fod ofn hynny, os gallwn ni sicrhau bod Cymru yn cael y cyfle i fuddsoddi mewn isadeiledd yn y fan hon ar yr un pryd, er mwyn gwneud iawn am unrhyw golled yn ein gallu ni i fod yn gystadleuol. Nid oes fyw inni eistedd yn ôl yn fan hon a derbyn y bydd Prydain rywsut yn datblygu ar sawl cyflymder gwahanol, er bod de-ddwyrain Lloegr yn amlwg mewn gêr uwch yn barod. Os oes buddsoddiad mawr o arian cyhoeddus i fod mewn hybu gallu rhanbarthau o Loegr i fod yn economaidd gystadleuol, mae'n gwbl hanfodol inni sicrhau nad yw Cymru yn cael ei gadael o dan anfantais economaidd.

Pam ei bod hi'n bwysig gwneud datganiad clir rŵan? Wel, ar ôl yr etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf, mi fydd datganiad polisi cyllid i Loegr a'r gwledydd datganoledig yn cael ei gyhoeddi. Hwnnw fydd yn gosod mewn du a gwyn y modd y bydd Llywodraeth Prydain yn ymdrin ag HS2, fel popeth arall, yn nhermau perthnasedd i fformwla Barnett. Felly, mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn siarad efo un llais heddiw i gefnogi'r agenda yma, a hynny er mwyn defnyddio ein dylanwad ni ar y cyd i'r eithaf.

Dywedais mai prosiect i Loegr yw hwn, ond bydd yna effaith economaidd ar Gymru. Fe wnaeth y cyfrifywr KPMG gyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn dweud bod HS2 yn debygol iawn o gael effaith negyddol ar y rhannau hynny o Brydain nad ydynt yn cael eu cyffwrdd yn uniongyrchol gan HS2. Mae'r adroddiad yn sôn am fudd economaidd enfawr i Lundain ac i Birmingham, ac mae'r ardaloedd o Loegr fydd yn cael budd o HS2 yn gystadleuwyr uniongyrchol efo economi Cymru mewn sawl ffordd. Fel y dywedais, nid oes eisiau bod ofn y gystadleuaeth yna, os ydy'r cae chwarae yn un gwastad. Fe wnaiff eraill sôn mwy am fanylion canfyddiadau'r adroddiad hwnnw, ond er mwyn gallu wynebu'r impact economaidd hwnnw, mae'n rhaid inni allu buddsoddi yn ein hisadeiledd ni ein hunain. Mae'n rhaid i hwnnw fod yn fuddsoddiad Cymru gyfan, yn mynd y tu hwnt i'r cynlluniau, er enghraifft, i drydaneiddio rheilffordd de Cymru a'r Cymoedd.

Felly pa fath o daliad cyfatebol a ydym yn sôn amdano? Mae ein gwaith ymchwil manwl ni, a gafodd ei baratoi gan Dr Eurfyl ap Gwilym, yn dweud bod y gyfran deg o arian a ddylai ddod i Gymru rhywle o gwmpas £1 biliwn dros gyfnod o ddegawd. O dan y senario mwyaf teg fel rydym ni'n ei gweld hi, byddai Cymru'n derbyn £121 miliwn bob blwyddyn am y ddegawd pan fydd cymal 1 HS2, o Lundain i Birmingham, yn cael ei ddatblygu. O dan y senario hwnnw, byddai HS2 yn cael ei weld fel prosiect Lloegr yn unig, sef y senario fel y mae Plaid Cymru yn ei weld. Byddai Cymru, o ganlyniad, yn cael setliad datganoledig llawn, yn cynnwys gwariant gan Network Rail. Nid Network Rail sy'n mynd i ddatblygu HS2, ond y pwynt allweddol fan hyn—ac mae'n bwynt hollbwysig—yw bod datganoli'r cyllid llawn yn cynyddu'r ganran sy'n cael ei gynnwys yn ystyriaethau Barnett o fewn cyllid yr Adran Drafnidiaeth yn ei chyfanrwydd. Mae cynyddu ein cyfrifoldebau ni dros drafnidiaeth yn arwain at gynnydd mewn cyllid i Gymru, a hynny cyn inni ystyried y cwestiwn o gyllid teg ar draws y grant bloc i gyd.

Our job is this: there is a very real potential for any new opportunities that come in the wake of HS2 to the English regions beyond London and Birmingham to be a challenge to Wales's ability to be competitive. I do not believe that we should be fearful of that, if we can ensure that Wales will get the opportunity to invest in its own infrastructure here at the same time, in order to make up for any loss in our ability to be competitive. We can by no means sit back and accept that Britain is to develop at different speeds, although the south-east of England is evidently in a higher gear already. If there is to be a major investment of public money in promoting the ability of English regions to be economically competitive, it is crucially important that we ensure that Wales is not left at a disadvantage economically.

Why is it important that we make that clear statement now? Well, after the general election next year, a statement of funding policy for England and the devolved nations will be published. That will set in black and white the way in which the UK Government will deal with HS2, like everything else, in terms of its relation to the Barnett formula. Therefore, it is important that we all speak with one voice today to support this agenda, in order to use our influence jointly to the greatest possible degree.

I said that HS2 is a project for England, but there will be an economic impact on Wales. The KPMG accountancy firm recently published a report saying that HS2 was very likely to have a negative impact on those parts of Britain that are not directly touched by the project. The report talks about huge economic benefits for London and Birmingham, and the areas of England that will benefit from HS2 are direct competitors to the Welsh economy in many ways. As I said, we should not be fearful of that competition, if we are on a level playing field. Others will say more about the conclusions of that report, but in order to be able to face that economic impact, we must be able to invest in our infrastructure. It has to be all-Wales investment, going beyond the current proposals, for example, to electrify the south Wales main line and the Valleys lines.

So, what kind of consequential are we talking about? Our detailed research, which was prepared by Dr Eurfyl ap Gwilym, states that the fair share of funding that should come to Wales is somewhere in region of £1 billion over a period of a decade. Under the fairest scenario as we see it, Wales would receive £121 million per annum for the decade when stage 1 of HS2, from London to Birmingham, is being developed. Under that scenario, HS2 would be seen as an England-only project, namely the scenario as Plaid Cymru would describe it. Wales, as a result, would have a fully devolved settlement, including expenditure by Network Rail. It is not Network Rail that will develop HS2, but the key point here—and it is a crucial point—is that devolving the funding fully would increase the percentage included in the Barnett considerations within the wider budget of the Department for Transport. Increasing our responsibilities for transport will lead to an increase in funding for Wales, and that is before we consider the wider question of fair funding across the entire block grant.

Yn ôl Dr ap Gwilym, byddai diffinio HS2 o dan senario arall fel prosiect i'r Deyrnas Gyfunol gyfan, yn hytrach na chynllun i Loegr yn unig, hefyd yn cynhyrchu arian Barnett o dros £1 biliwn yn ystod y cymal cyntaf—eto, os bydd gwariant Network Rail yn cael ei ddatganoli. Mae yna senario arall, sy'n senario a ddylai gael ei wrthod gennym ni, efo llais cryf iawn, yn llwyr. Y senario hwnnw yw unrhyw awgrym y dylai buddsoddiad HS2 gael ei weld mewn rhyw ffordd fel 'one-off'—rhywbeth tebyg i'r Geman Olympaidd. Mae'n brosiect mawr, ydy, ond rhan ydy hon o fuddsoddiad hirdymor mewn isadeiledd ac mae'n rhaid ei rhoi yng nghyd-destun ein hisadeiledd ni yng Nghymru. Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn sylweddoli bod Barnett yn amhriodol ar gyfer Cymru a Phrydain yr unfed ganrif ar hugain. Yr ydym yn gwybod ei fod yn gymhleth ac yn rhoi cyfle i Lywodraethau i fod yn annelwig. Ond, y pwynt yw hyn: tra bod Cymru yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol, mae'n rhaid i ni gael ein caniatáu i ddatblygu ein heconomi i'w lawn botensial.

According to Dr ap Gwilym, defining HS2 under another scenario as a UK-wide project, rather than an England-only project, would also generate a Barnett consequential of over £1 billion during its first stage—again, if Network Rail expenditure is devolved. There is another scenario, a scenario that should be rejected by us, very strongly. That scenario is any suggestion that HS2 investment should somehow be seen as a one-off—something akin to the Olympic Games. It is a major project, yes, but this is only part of a long-term investment in infrastructure and we must put it in the context of our infrastructure in Wales. We in Plaid Cymru realise that Barnett is inappropriate for Wales and neither is it appropriate for twentieth-century Britain. We know that it is complex and gives Governments the opportunity to be ambiguous. However, the point is this: while Wales is part of the UK, we must be allowed to develop our own economy to its full potential.

16:35

### Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Rhun, for giving way. I hear what you say about Barnett consequentials. You also have to appreciate that HS2 is part of a wider package of infrastructure developments that are happening at the moment, including the electrification of the Great Western line, which surely your party would welcome. So, it is not the case that nothing is happening here in Wales.

Diolch i chi am ildio, Rhun. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am symiau canlyniadol Barnett. Rhaid i chi hefyd werthfawrogi bod HS2 yn rhan o becyn ehangach o ddatblygiadau seilwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd, gan gynnwys trydaneiddio rheilffordd y Great Western, y byddai eich plaid yn ei groesawu mae'n sicr. Felly nid yw'n wir nad oes dim yn digwydd yma yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:35

### Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

I do not think that anybody would suggest that HS2 can be thrown into the pot with the rest of, if you like, standard infrastructure investment projects throughout the UK. HS2 has to be treated differently. What we need to nail down is how we treat it differently.

Nid wyf yn credu y byddai neb yn awgrymu y gellir taflu HS2 i mewn i'r crochan gyda gweddill, os dymunwch, y prosiectau buddsoddi safonol yn y seilwaith ledled y DU. Rhaid trin HS2 yn wahanol. Yr hyn sydd angen i ni ei grisialu yw sut y dylem ei drin yn wahanol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The politics of HS2 in relation to Wales are crucial. The 2015 review of the statement of funding policy is the key opportunity for Wales here. This sets the basis for Barnett calculations for the coming years, and let us remember that the terms of the statement of funding policy are supposed to be agreed by the Treasury with the devolved administrations. This is where Plaid Cymru believes the Welsh Government has a role to play, and our motion calls for that. The Welsh Government has every right to engage with the Treasury ahead of the next statement of funding policy. It is allowed to do that. We say that it should be doing that and must make the case for a fair deal for Wales from HS2. The current UK Government claims that it has not received any representations from the Welsh Government on HS2. If this is not true, we need to know that, and I invite the Minister to set the record straight if those discussions with the Treasury have indeed taken place.

Mae gwleidyddiaeth HS2 mewn perthynas â Chymru yn hanfodol. Adolygiad 2015 o'r datganiad polisi cyllid yw'r cyfle allweddol i Gymru yma. Mae'n rhoi sylfaen i gyfrifiadau Barnett ar gyfer y blynyddoedd i ddod a gadewch i ni gofio bod telerau'r datganiad polisi cyllideb i fod i gael eu cytuno gan y Trysorlys â'r gweinyddiaethau datganoledig. Dyma lle y mae Plaid Cymru'n credu bod rôl gan Lywodraeth Cymru i'w chwarae ac mae ein cynnig yn galw am hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru bob hawl i ymgysylltu â'r Trysorlys cyn y datganiad polisi cyllid. Mae ganddi hawl i wneud hynny. Rydym yn dweud y dylai fod yn gwneud hynny a rhaid iddi gyflwyno achos dros fargen deg i Gymru yn sgîl HS2. Mae Llywodraeth bresennol y DU yn honni nad yw wedi derbyn unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â HS2. Os nad yw hyn yn wir, mae angen i ni wybod hynny ac rwy'n gwahodd y Gweinidog i gywiro'r camagraff yn syth os yw'r trafodaethau hynny gyda'r Trysorlys yn wir wedi digwydd.

Also, while we press for the UK Government to make this HS2 pledge for Wales, the Labour UK transport spokesperson has also failed to commit to a fair share for Wales from HS2, which, again, shows that we are not doing enough from this end of the M4 to set out our collective case. Given what we know about the need for investment in Welsh infrastructure and the adverse economic impact of HS2 on Wales as a national economy, it is hard to see how anyone in this Chamber cannot commit fully today to making a very clear and collective and concise case for a fair share from HS2.

Let me turn to the amendments. Looking at the Conservative amendments first of all, we cannot accept amendment 1 because it deletes our central point about the economy, but we do agree, of course, that HS2 offers the potential for enhancing electrification in north Wales. That is exactly our point. In fact, we need the consequential funds from HS2 in order to finance that electrification and to ensure the connectivity to Crewe to keep our competitiveness. On amendment 2, again, we cannot quite understand why the Conservatives have deleted the fact that the UK Government has not yet made a commitment on Barnett consequentials from HS2—it is just the fact of the matter. Despite that, we of course welcome the south Wales electrification. As an aside, it is a commitment made following negotiations, as I remember, when Ieuan Wyn Jones was Minister for transport.

On amendment 3, I am afraid that we cannot accept this amendment either because it deletes our points. We do not see Valleys lines electrification as being the main point today, although there is an issue with regard to the wider metro system and how that would be funded without our getting a fair share of UK transport investment. We will hear more from Jocelyn Davies on that point.

Finally, turning to the Liberal Democrat amendment, yes, of course, we agree on the need to increase rail freight, so we certainly will not vote against it. However, we are concerned that we just need to focus a bit more today on the finances. If HS2 does enable freight movements in England, that is a matter for the UK Government to promote, but, as I said, we will not be voting against it; we just want to keep our focus.

As I have said, I hope that we can send out a strong message today in supporting the Plaid Cymru motion. HS2 is an enormous project, the rights and wrongs of which for England have already been the subject of fierce debate, and they will continue to be so. However, if, as is likely, the pro-HS2 camp gets its way, it is our job here to ensure that we get our fair share to enable us to keep our competitive edge here in Wales.

Hefyd, er ein bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU i wneud yr addewid HS2 hwn i Gymru, mae llefarydd Llafur y DU ar drafnidiaeth hefyd wedi methu ag ymrwymo i gyfran deg i Gymru o HS2, sydd unwaith eto'n dangos nad ydym yn gwneud digon y pen yma i'r M4 i gyflwyno ein hachos cyfunol. O ystyried yr hyn a wyddom am yr angen i fuddsoddi yn seilwaith Cymru ac effaith economaidd andwyol HS2 ar Gymru fel economi genedlaethol, mae'n anodd gweld sut na all unrhyw un yn y Siambr hon ymrwymo'n llawn heddiw i wneud achos clir, cyfunol a chryno iawn am gyfran deg o HS2.

Gadewch i mi droi at y gwelliannau. O edrych ar welliannau'r Ceidwadwyr yn gyntaf oll, ni allwn dderbyn gwelliant 1 am ei fod yn diddymu ein pwynt canolog am yr economi, ond rydym yn cytuno, wrth gwrs, fod HS2 yn cynnig potensial ar gyfer gwella gwaith trydaneiddio yn y gogledd. Dyna'n union yw ein pwynt. Yn wir, mae angen y cyllid canlyniadol o HS2 er mwyn ariannu'r trydaneiddio a sicrhau cysylltedd â Crewe i gynnal ein cystadleurwydd. O ran gwelliant 2, unwaith eto ni allwn ddeall yn iawn pam y mae'r Ceidwadwyr wedi dileu'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiad hyd yn hyn ar symiau canlyniadol Barnett o HS2—dyna'r gwir, a dyna'i gyd. Er gwaethaf hynny, rydym yn croesawu'r trydaneiddio yn ne Cymru wrth gwrs. Fel y mae'n digwydd, ymrwymiad ydyw a wnaed yn dilyn trafodaethau, fel rwy'n cofio, pan oedd Ieuan Wyn Jones yn Weinidog trafnidiaeth.

O ran gwelliant 3, mae arnaf ofn na allwn dderbyn y gwelliant hwn ychwaith oherwydd ei fod yn dileu ein pwyntiau. Nid ydym yn ystyried mai trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yw'r prif bwynt heddiw, er bod mater yn codi mewn perthynas â'r system metro ehangach a sut y byddai hynny'n cael ei ariannu heb ein bod yn cael ein cyfran deg o fuddsoddiad trafnidiaeth y DU. Byddwn yn clywed mwy gan Jocelyn Davies ar y pwynt hwnnw.

Yn olaf, gan droi at welliant y Democratiaid Rhyddfrydol: wrth gwrs ein bod yn cytuno ar yr angen i gludo mwy o nwyddau ar drenau, felly'n sicr ni fyddwn yn pleidleisio yn ei erbyn. Ond rydym yn pryderu fod angen i ni ganolbwyntio ychydig mwy heddiw ar y trefniadau ariannol. Os yw HS2 yn mynd i'w gwneud hi'n bosibl symud nwyddau yn Lloegr, mae hynny'n fater i Lywodraeth y DU i hyrwyddo, ond fel y dywedais, ni fyddwn yn pleidleisio yn ei erbyn; rydym yn awyddus i gadw ein ffocws, dyna'i gyd.

Fel rwyf wedi dweud, rwy'n gobeithio y gallwn anfon neges gref heddiw drwy gefnogi cynnig Plaid Cymru. Mae HS2 yn brosiect enfawr, ac mae'r hyn sy'n iawn a'r hyn nad yw'n iawn yn ei gylch eisoes wedi bod yn destun dadlau ffyrnig yn Lloegr, a byddant yn parhau i fod felly. Fodd bynnag, os yw'r rhai sydd o blaid HS2 yn cael eu ffordd, fel sy'n debygol, ein gwaith ni yma yw sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg er mwyn ein galluogi i gadw ein mantais gystadleuol yma yng Nghymru.

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the four amendments to the motion. I call on Byron Davies to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'cydnabod' a rhoi yn ei le:*

*'y cyfleoedd y mae HS2 yn eu cynnig i gryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.'*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Dileu pwyntiau 4 a 5 a rhoi yn eu lle:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i anrhydeddu ei chytundeb gyda Llywodraeth y DU i weithio mewn partneriaeth i drydaneiddio rheilffyrdd de Cymru.*

*In point 2, delete all after 'Recognises' and replace with:*

*'the opportunities that HS2 represents in strengthening the business case for electrification of the north Wales line.'*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Delete point 3 and replace with:*

*Welcomes the significant investment in the electrification of the Great Western Main Line.*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Delete points 4 and 5 and replace with:*

*Calls on the Welsh Government to honour its agreement with the UK Government to work in partnership to deliver electrification of the south Wales lines.*

16:40

## **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2 and 3.

I will come to the amendments in a moment. I am a little surprised at the tone of the Plaid Cymru motion. The Conservative-led UK Government's investment into transport infrastructure here in Wales is quite enormous, really. I know that the Westminster Government wants to work with the Welsh Government to deliver electrification to the Valleys and to Swansea, and I hope that all of this playing with politics with Wales's biggest transport investment in decades will stop and deliver for the people of Wales. However, only time will tell on that.

HS2 also has huge potential to benefit the economy of north Wales, I would suggest, and to support efforts being made to provide a solid business case to invest in the north Wales main line. As you know, the Secretary of State David Jones has been leading the charge on electrification of the north Wales line and I am disappointed that there is not one mention of that aspiration today. I think that you really must fight the urge to constantly moan from the sidelines and join team Wales in actually delivering for residents and businesses across Wales.

Our amendments, I hope, speak for themselves, but I will happily walk you through the rationale quite quickly. Amendment 1 refers to point 2, where we have deleted all after 'Recognises' and replaced it with,

'the opportunities that HS2 represents in strengthening the business case for electrification of the north Wales line.'

Cynigiad welliannau 1, 2 a 3.

Byddaf yn dod at y gwelliannau yn y man. Caf fy synnu braidd gan dôn cynnig Plaid Cymru. Mae buddsoddiad Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr yn y seilwaith trafniadaeth yma yng Nghymru yn enfawr mewn gwirionedd. Gwn fod Llywodraeth San Steffan yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i drydaneiddio'r rheilffyrdd i'r Cymoedd ac i Abertawe ac rwy'n gobeithio y daw'r holl chwarae gwleidyddiaeth gyda buddsoddiad trafniadaeth mwyaf Cymru ers degawdau i ben ac y bydd yn cyflawni dros bobl Cymru. Fodd bynnag, dim ond amser a ddengys ynglŷn â hynny.

Mae gan HS2 botensial enfawr hefyd i fod o fudd i economi gogledd Cymru, byddwn yn awgrymu, ac i gefnogi ymdrechion i gynnig achos busnes cadarn dros fuddsoddi ym mhreif reilffordd gogledd Cymru. Fel y gwyddoch, mae David Jones, yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi bod yn arwain yr ymgyrch i drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru ac rwy'n siomedig na soniwyd am yr uchelgais hwnnw o gwbl heddiw. Rwy'n credu bod yn rhaid i chi ymladd yr awydd i gwyno'n ddi-ddiwedd o'r cyrion ac ymuno â thîm Cymru i gyflawni mewn gwirionedd dros drigolion a busnesau ledled Cymru.

Mae ein gwelliannau, rwyf yn gobeithio, yn siarad drostynt eu hunain, ond rwy'n hapus i'ch arwain drwy'r sail resymegol yn eithaf cyflym. Mae gwelliant 1 yn cyfeirio at bwynt 2, lle rydym wedi dileu popeth ar ôl 'cydnabod' ac wedi rhoi yn ei le,

'y cyfleoedd y mae HS2 yn eu cynnig i gryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.'

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

This is a recognition that north Wales stands to benefit from this investment, if we start planning for it now. We were all disappointed to see north Wales not being given the highest priority in the trans-European transport network. HS2 and further electrification to Holyhead, with a hub in Crewe, is a great chance to put north Wales back in leading investment in north Wales, in Holyhead, and fulfilling an ambition that the Welsh Conservatives have to make sure that north Wales is key on the European map. Again, I hope that Plaid Cymru sees the sense of this amendment and accepts it.

Amendment 2 deletes point 3 and replaces it with,

‘Welcomes the significant investment in the electrification of the Great Western Main Line.’

There have been many churlish remarks in this Chamber, but like it or not, this is the only UK Government in a considerable amount of time that is heavily investing in Welsh infrastructure. This amendment seeks to display that clearly, without any political point scoring of who did not do it.

Amendment 3, tabled by Paul Davies, deletes points 4 and 5 and replaces them with,

‘Calls on the Welsh Government to honour its agreement with the UK Government to work in partnership to deliver electrification of the south Wales lines.’

This is a key amendment for the Welsh Conservatives and, I would suggest, the Welsh people. As I have already touched upon, the shocking party-political point-scoring exercise currently under way by the First Minister is, I would suggest, detrimental for our people. Electrification to Swansea and the Valleys lines is under threat because the Welsh Government wants something for nothing and will not honour a clearly laid out agreement between Ministers of the two respective Governments. It is clearly laid out here in these letters.

Therefore, Members, HS2 is only a threat to Wales if the Welsh Government does its usual trick of not engaging with partners and realising the potential to Wales, especially north Wales. We all know that this Assembly, and the Welsh Government in particular, have been accused of being M4-centric. When I have visited north Wales and businesses there that has always been their chief concern. HS2 would benefit north Wales more than most and I commend our amendments to this Chamber and ask Plaid Cymru to join team Wales and forgo jumping on the bandwagon on this occasion.

Mae hyn yn gydnabyddiaeth fod gan y gogledd le i elwa o'r buddsoddiad hwn, os dechreuwn gynllunio ar ei gyfer yn awr. Roeddem i gyd yn siomedig o weld nad yw gogledd Cymru yn cael y flaenoriaeth uchaf yn y rhwydwaith trafniadaeth traws-Ewropeaidd. Mae HS2 a thrydaneiddio pellach i Gaerdybi, gyda chanolbwynt yn Crewe, yn gyfle gwych i roi gogledd Cymru yn ôl yn ar flaen y buddsoddi yn y gogledd, yng Nghaerdybi, a chyflawni uchelgais fod yn rhaid i'r Ceidwadwyr Cymreig wneud yn siŵr fod gogledd Cymru yn allweddol ar y map Ewropeaidd. Unwaith eto, rwy'n gobeithio bod Plaid Cymru yn gweld synnwyr y gwelliant hwn ac yn ei dderbyn.

Mae gwelliant 2 yn dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le,

‘Yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western.’

Cafwyd llawer o sylwadau diserch yn y Siambr hon, ond pa un a ydych yn ei hoffi ai peidio, dyma'r unig Lywodraeth DU ers cryn dipyn o amser sy'n buddsoddi'n drwm yn seilwaith Cymru. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio dangos hynny'n glir heb geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol ynglŷn â phwy na wnaeth hynny.

Mae gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Paul Davies, yn dileu pwyntiau 4 a 5 ac yn rhoi yn eu lle,

‘Yn galw ar Lywodraeth Cymru i anrhydeddu ei chytundeb gyda Llywodraeth y DU i weithio mewn partneriaeth i drydaneiddio rheilffyrdd de Cymru.’

Mae hwn yn welliant allweddol i'r Ceidwadwyr Cymreig, ac i bobl Cymru, byddwn yn awgrymu. Fel rwyf eisoes wedi crybwyll, mae'r ymarfer sgorio pwyntiau pleidiol gwarthus sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan y Prif Weinidog yn niweidiol i'n pobl, byddwn yn awgrymu. Mae gwaith trydaneiddio i Abertawe a rheilffyrdd y Cymoedd o dan fgythiad am fod Llywodraeth Cymru eisiau rhywbeth am ddim ac ni fydd yn anrhydeddu cytundeb a amlinellwyd yn eglur rhwng Gweinidogion y ddwy Lywodraeth. Mae'n cael ei osod yn eglur yma yn y llythyrau hyn.

Felly, Aelodau, nid yw HS2 yn fgythiad i Gymru oni bai bod Llywodraeth Cymru yn chwarae ei gêm arferol o beidio ag ymgysylltu â phartneriaid a gwireddu'r potensial i Gymru, yn enwedig gogledd Cymru. Rydym i gyd yn gwybod bod y Cynulliad hwn, a Llywodraeth Cymru yn benodol, wedi cael eu cyhuddo o roi gormod o sylw i'r M4. Wrth i mi ymweld â gogledd Cymru a busnesau yno, dyna oedd eu prif bryder bob amser. Byddai HS2 o fudd i ogledd Cymru yn fwy na'r rhelyw ac rwy'n cymeradwyo ein gwelliannau i'r Siambr hon ac yn gofyn i Blaid Cymru ymuno â thîm Cymru a pheidio â mynd i ganlyn y llif ar yr achlysur hwn.

16:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

I call on Eluned Parrott to move amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Insert as new point 5 and renumber accordingly:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Yn croesawu'r cynnydd yng nghapasiti rheilffyrdd y DU yn sgîl datblygu HS2, a fydd yn galluogi rhagor o gerbydau cludo i deithio ar y rheilffyrdd ar hyd a lled y DU.*

*Welcomes the increase in the UK's rail capacity from the development of HS2 which will enable more freight movement to be achieved by rail across the UK.*

16:44

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 4 in the name of Aled Roberts.

I would like to welcome the opportunity to discuss the UK's rail infrastructure and how improvements across the UK will have an impact on users here in Wales, but I believe that there are two fundamental weaknesses and one practical one in the arguments that have been put before us so far.

First, looking at the practical one; in his introduction today, the Member for Ynys Môn did not say which of the KPMG reports that he was quoting when he was discussing the economic impact. I have two of them open on my screen at the moment and they say very different things. The 2010 report, for example, pre-dates the electrification announcement and it does not take into account changes at Reading, the Crossrail investment, or the Heathrow spur. So, if that is the report to which you are referring, then you need to perhaps have another look at that.

In terms of the more fundamental problems, first, you fail to recognise that Wales's rail infrastructure is not a stand-alone structure, but it is closely interconnected with that of England and I will return to this in a moment. Secondly, however, you do not seem to realise the true scale of HS2 as a piece of infrastructure and its impact on all of Britain's rail capacity, because HS2 is not a short-term, single investment to get people from London to the north more quickly. It is a strategically critical expansion of our capacity as a country to move people and goods across our land more effectively. It is something that we must do if we are to avoid grinding to a halt, because, frankly, our roads are bursting at the seams and our rail network is at the outer limits of its capabilities to deliver the services that we already have in many places, let alone the service improvements that the public wants to see. That is without considering the environmental benefits of moving more freight off our roads and onto the rails. Britain needs more rail capacity, and HS2 is the spine along which the next century's rail network will be built.

Cynigaf welliant 4 yn enw Aled Roberts.

Hoffwn groesawu'r cyfle i drafod seilwaith rheilffyrdd y DU a sut y bydd gwelliannau ar draws y DU yn cael effaith ar ddefnyddwyr yma yng Nghymru, ond rwy'n credu bod dau wendid sylfaenol ac un gwendid ymarferol yn y dadleuon a gyflwynwyd hyd yn hyn.

Yn gyntaf, gan edrych ar y un ymarferol; yn ei gyflwyniad heddiw, nid oedd yr Aelod dros Ynys Môn yn dweud pa un o'r adroddiadau KPMG a ddyfynnai pan oedd yn trafod yr effaith economaidd. Mae gen i'r ddau ar agor ar fy sgrin ar hyn o bryd ac maent yn dweud pethau gwahanol iawn. Lluniwyd adroddiad 2010, er enghraifft, cyn i'r cyhoeddiad ar drydaneiddio gael ei wneud ac nid yw'n rhoi sylw i newidiadau yn Reading, buddsoddiad Crossrail na changen Heathrow. Felly, os mai dyna'r adroddiad y cyfeirir ato, efallai bod angen i chi fwrw golwg arall arno.

O ran y problemau mwy sylfaenol, yn gyntaf, rydych yn methu â chydabod nad strwythur sy'n sefyll ar ei ben ei hun yw seilwaith rheilffyrdd Cymru, ond mae'n rhyng-gysylltu'n agos â seilwaith rheilffyrdd Lloegr a byddaf yn dychwelyd at hyn mewn munud. Yn ail, fodd bynnag, nid yw'n ymddangos eich bod yn sylweddoli gwir faint HS2 fel darn o seilwaith a'i effaith ar holl gapasiti rheilffyrdd Prydain, gan nad buddsoddiad sengl yn y tymor byr yw HS2 i gael pobl o Lundain i'r gogledd yn gyflymach. Mae'n ymestyniad strategol hanfodol o'n gallu fel gwlad i symud pobl a nwyddau ar draws ein tir yn fwy effeithiol. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud os ydym am osgoi arafu i stop, oherwydd, a siarad yn blaen, ni all ein ffyrdd ymdopi â rhagor o draffig ac mae ein rhwydwaith rheilffyrdd bron iawn â chyrraedd terfyn ei allu i ddarparu'r gwasanaethau sydd gennym eisoes mewn llawer o leoedd, heb sôn am y gwelliannau i wasanaethau y mae'r cyhoedd am eu gweld. Mae hynny heb ystyried y manteision amgylcheddol sy'n deillio o symud mwy o draffig cludo nwyddau oddi ar ein ffyrdd ac ar y dedrau. Mae angen mwy o gapasiti rheilffyrdd ar Brydain a HS2 yw'r asgwrn cefn y bydd rhwydwaith rheilffyrdd y ganrif nesaf yn cael ei adeiladu ar hyd-ddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, I want to return to this idea of the interrelationship between Wales's infrastructure and that of England, because, of course, Wales is not an island. Capacity issues and delays in other parts of the UK have a significant impact on Welsh passengers and Welsh businesses. If you cannot move freight through the midlands because passenger services that could be being moved on HS2 are clogging up lines, we cannot get steel from Port Talbot to the distribution chain in the north-east of England. If we cannot get our freight through the south-east of England, we cannot get our goods via rail to Europe. Improvements elsewhere, then, also have a knock-on impact too. For example, in terms of HS2, clearly, as has already been mentioned, it strengthens the business case for north Wales electrification, because the two projects are mutually beneficial and there are add-on benefits of doing both rather than doing one or the other. I cannot believe that Plaid Cymru is not fighting this case from that point of view. It is a real opportunity for us.

Also, in terms of what it means for the people of north Wales, it increases the capacity, and it improves journey times to London for the people of north Wales, through Crewe. As I understand it, that may now well be brought forward to phase 1 of the HS2 development, so there are critical issues to think of there.

There are benefits, as well, to explore for mid Wales in terms of journey times and capacity through the link through Shrewsbury and Birmingham into HS2, and south Wales will be connected into the high-speed network, initially via a new station at Old Oak Common that will bring together the Great Western mainline, HS2 and Crossrail. South Wales will obviously benefit directly from improvements to the Great Western main line, and it is not just electrification, it is also things like signalling changes and building the direct spur from the Great Western main line to Heathrow. These investments bring south Wales closer to one of the world's most successful megacities in London and to the UK airport hub that serves the world. It has the potential, I think, to be incredibly important in helping Welsh businesses to face the world with more confidence and with more ability to address their markets.

Another overlooked benefit, I would suggest, for south Wales of some of the forthcoming rail projects is the news, announced last month, of the extension of Crossrail to Reading, taking local passengers off our overcrowded Great Western train services. I think that any regular passenger on that service will be overjoyed by that particular announcement. Similarly, there are improvements at Reading station that passengers on that service will have seen; they are coming towards the completion now of a £400 million investment from Network Rail and the UK Government, which will relieve bottlenecks and will improve the performance of trains, and that will mean that there will be fewer delays for passengers travelling from southern Wales into London as well.

Fodd bynnag, hoffwn ddychwelyd at y syniad hwn o'r rhyngberthynas rhwng seilwaith Cymru a seilwaith Lloegr, gan nad yw Cymru yn ynys wrth gwrs. Mae materion sy'n gysylltiedig â chapasiti ac oedi mewn rhannau eraill o'r DU yn cael effaith sylweddol ar deithwyr Cymru a busnesau Cymru. Os na allwch symud nwyddau drwy ganolbarth Lloegr am fod gwasanaethau i deithwyr a allai fod yn cael eu symud ar HS2 yn achosi tagfeydd ar y rheilffyrdd, ni allwn gael dur o Bort Talbot i'r gadwyn dosbarthu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Os na allwn gludo ein nwyddau trwy dde-ddwyrain Lloegr, ni allwn gael ein nwyddau ar y rheilffyrdd i Ewrop. Mae effaith ganlyniadol i welliannau mewn mannau eraill hefyd. Er enghraifft, o ran HS2, fel sydd eisoes wedi'i grybwyll, mae'n amlwg ei fod yn cryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio gogledd Cymru am fod y ddau brosiect yn fuddiol i'r ddwy ochr a cheir manteision ychwanegol o wneud y ddau beth yn hytrach na gwneud un neu'r llall. Ni allaf gredu nad yw Plaid Cymru yn ymladd yr achos o'r safbwynt hwnnw. Mae'n gyfle gwirioneddol i ni.

Hefyd, o ran yr hyn y mae'n ei olygu i bobl gogledd Cymru, mae'n cynyddu'r capasiti ac yn gwella amseroedd teithio i Lundain i bobl gogledd Cymru, drwy Crewe. Fel y deallaf, mae'n bosibl iawn bellach y caiff hynny ei ddwyn ymlaen i gam 1 o'r datblygiad HS2 felly mae materion allweddol i feddwl amdanant yn hynny o beth.

Mae manteision i'w harchwilio ar gyfer canolbarth Cymru hefyd o ran amserau teithio a chapasiti drwy gysylltiad yr Amwythig a Birmingham â HS2, ac i gychwyn, bydd de Cymru yn cysylltu â'r rhwydwaith cyflym drwy orsaf newydd yn Old Oak Common a fydd yn dod â phrif reilffordd y Great Western, HS2 a Crossrail at ei gilydd. Bydd De Cymru yn cael budd uniongyrchol amlwg o welliannau i brif reilffordd y Great Western, ac nid drwy drydaneiddio'n unig, ond drwy bethau fel newidiadau i signalau ac adeiladu'r gangen uniongyrchol o brif reilffordd y Great Western i Heathrow. Mae'r buddsoddiadau hyn yn dod â de Cymru yn nes at un o fegaddinasoedd mwyaf llwyddiannus y byd yn Llundain ac at ganolbwynt meysydd awyr y DU sy'n gwasanaethu'r byd. Mae ganddo'r potensial, rwy'n credu, i fod yn hynod o bwysig wrth helpu busnesau Cymru i wynebu'r byd â mwy o hyder a gallu i ymgysylltu â'u marchnadoedd.

Budd arall rhai o'r prosiectau rheilffyrdd sydd ar y gweill i dde Cymru sydd wedi'i anwybyddu, byddwn yn awgrymu, yw'r newyddion a gyhoeddwyd y mis diwethaf am estyniad Crossrail i Reading, gan fynd â theithwyr lleol oddi ar ein gwasanaethau trên Great Western gorlawn. Rwy'n meddwl y bydd unrhyw deithiwr rheolaidd ar y gwasanaeth wrth ei fodd â'r cyhoeddiad arbennig hwn. Yn yr un modd, bydd teithwyr ar y gwasanaeth wedi gweld gwelliannau yng ngorsaf Reading; maent bellach yn nesu tuag at gwblhau buddsoddiad o £400 miliwn gan Network Rail a Llywodraeth y DU, a fydd yn lleddfu tagfeydd ac yn gwella perfformiad y trenau, a bydd hynny'n golygu llai o oedi i deithwyr sy'n teithio o dde Cymru i Lundain yn ogystal.



I will be supporting all the amendments today, but I have to say that I am sorry that the Welsh Conservatives chose to table amendment 3 today. I do not think that throwing petrol on that particular bonfire is terribly helpful at a time when I sincerely hope that both Governments are working constructively and talking constructively about how to resolve the issues that we have so that we can deliver Valleys lines electrification for the people of Wales. That is, ultimately, what matters there, but, in terms of the broader arguments of this debate today, HS2 is an incredible opportunity for the people of Wales, and we would be foolish indeed to cast it aside.

Byddaf yn cefnogi'r holl welliannau heddiw ond rhaid i mi ddweud ei bod hi'n ddrwg gen i weld bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi dewis cyflwyno gwelliant 3 heddiw. Nid wyf yn credu bod taflu petrol ar fflamau'r ddatl benodol honno yn arbennig o ddefnyddiol ar adeg pan rwy'n mawr obeithio bod y ddwy Lywodraeth yn gweithio'n adeiladol ac yn siarad yn adeiladol ynghylch sut i ddatrys y problemau sydd gennym fel y gallwn gyflawni gwaith ar drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ar gyfer pobl Cymru. Yn y pen draw, dyna sy'n bwysig ond o ran y ddatl ehangach heddiw, mae HS2 yn gyfle anhygoel i bobl Cymru a byddem yn ffôl iawn i beidio â manteisio arno.

16:49

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Jest o ran cywirdeb, rydym ni'n cyfeirio at yr ail adroddiad, sydd yn cymryd i ystyriaeth y datblygiadau diweddaraf, gan gynnwys trydaneiddio'r rheilffordd i dde Cymru. Rwy'n dweud hynny fel bod Eluned yn deall ein bod ni wedi gwneud ein hymchwil. Roedd hi'n cyfeirio at Crossrail, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gytuno i anghytuno. Rydym ni'n ystyried Crossrail fel cynllun a oedd yn benodol i wella ac er budd Llundain ac y dylai Cymru fod wedi cael buddiant uniongyrchol o hynny drwy fformiwla Barnett.

Just in terms of accuracy, we are referring to the second report, which takes into consideration the most recent developments, including the electrification of the railway to south Wales. I say that just so that Eluned understands that we have done our research. She referred to Crossrail, and I think that we have to agree to disagree on that. We consider Crossrail to be a scheme that was specifically there to improve and to benefit London, and that Wales should have directly benefited from that via the Barnett formula.

Fodd bynnag, dau adroddiad KPMG ydy prif sail y Llywodraeth dros y gwariant anferthol hwn o dros £20 biliwn. Mae'n wir, ac rwy'n meddwl y dylem gydnabod hyn, bod pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin wedi beirniadu'r ffigurau a'r manteision honedig, gan ddweud eu bod yn gorliwio'r manteision. Yn sicr, mi fydd y cynllun mawr hwn yn gwella mynediad at waith ac yn gwella cynhyrchaeth yn y canolbarth ac yn ne-ddwyrain Lloegr—fel petai de-ddwyrain Lloegr angen yr ychwanegiad hwn, sydd eisoes yn gyrru bwlch mawr rhwng yr ardal honno a gweddill Prydain, a dweud y gwir. Fy nghwestiwn i yw: beth fydd yr effaith ar Gymru? Mae adroddiad KPMG—yr ail adroddiad, i fod yn glir eto—yn ceisio mesur effaith y cynllun ar wahanol ardaloedd drwy Brydain, ac, wrth edrych ar Gymru, yn cyfeirio at y ffaith gall gogledd-ddwyrain Cymru, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy'n benodol, gael manteision oherwydd eu bod yn weddol agos at Crewe ac yn debyg o weld enillion bach mewn cynhyrchaeth. Nid yw rhagolygon ar gyfer gweddill gogledd Cymru yn sicr o gwbl. Nid ydynt yn gallu rhagweld hynny gydag unrhyw bendantrwydd.

However, both KPMG reports are the Government's main basis for this huge expenditure of over £20 billion. It is true, and I think that we should recognise this, that the Westminster select committee has criticised those figures and the so-called advantages, saying that it overemphasises the advantages. Certainly, this major scheme will improve access to work and increase productivity in the midlands and in the south-east of England—as if that area of England need this addition, which is already driving a great divide between that area and the rest of the UK. My question is: what will the impact be for Wales? The KPMG report—the second report, to again be clear—tries to measure the effect of the scheme on various parts of the UK, and, in looking at Wales, refers to the fact that north-east Wales, Wrexham and Deeside in particular, could benefit because they are fairly close to Crewe and are likely to see slight gains in terms of productivity. The predictions for the rest of north Wales are not certain at all. They cannot predict that with any certainty.

Yn sicr, byddai trydaneiddio'r rheilffordd ar draws y gogledd yn gallu bod yn gyfraniad sylweddol ac yn gwneud y cysylltiadau angenrheidiol, ond nid ydym wedi gweld addewid ar gyfer hynny—heb sôn am David Jones yn arwain rhyw 'charge' rhywle neu'i gilydd. Mae'n anodd dychmygu'r ffaith beth, ond, hyd oed pe bai'n gwneud hynny—. Hynny yw, gadewch i ni weld yr addewid, a gadewch i ni gael yr addewid, os mai dyna yw hi. Rwy'n cydnabod, gyda llaw, bod y Llywodraeth hon eisoes wedi gwneud cryn dipyn yn fwy na ddaru'r Llywodraeth Lafur o ran datblygiadau ar y rheilffyrdd.

Certainly, the electrification of the railway across north Wales could make a substantial contribution and make the necessary links, but we have not seen a promise of that—not to mention David Jones leading some sort of charge somewhere or other. I cannot imagine such a thing, but, even if that were the case—. That is, let us see that commitment, and let us have that commitment, if that is the case. By the way, I recognise that this Government has already done a great deal more than the Labour Government did in terms of railway development.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Fodd bynnag, o safbwynt Cymru gyfan, mae dylanwad, yn ôl ffigurau KPMG, ar economi Cymru yn debyg o fod yn negyddol. Mae Rhun, yn ei gyflwyniad, eisoes wedi trio meintioli hynny. Rydym yn rhagweld colled gyffredinol o rywbeth rhwng £120 miliwn a £180 miliwn y flwyddyn. Dyna pam rydym yn credu y dylai fod arian yn dod i Gymru yn sgîl y datblygiad hwn. Fel y dywedais, mae maint y golled rhywle rhwng £120 miliwn a £180 miliwn. Mae angen yr arian hwnnw arnom er mwyn cryfhau'r economi yng Nghymru fel ein bod yn fwy hyfyw ac yn gallu gwrthsefyll rhai o'r dylanwadau anochel hyn sy'n digwydd drwy gynlluniau mawr fel hyn.

Rwy'n gweld eich bod eisiau ymyrryd arnaf, Nick.

However, on an all-Wales basis, according to the KPMG figures, the influence on the Welsh economy is likely to be negative. In his presentation, Rhun tried to examine that. We predict a general loss of anything between £120 million and £180 million a year. That is why we think that there should be consequential coming to Wales as a result of this development. As I said, the size of the loss is somewhere between £120 million and £180 million. We need that money in order to strengthen the economy of Wales so that we are more viable and can withstand some of these inevitable influences that occur as a result of such major developments.

I see that you would like to intervene, Nick.

16:52 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks, Alun Ffred. I hear what you say about the KPMG report, but you must accept that there is, potentially, some benefit to the Welsh economy if you improve the infrastructure of the UK economy as a whole.

Diolch, Alun Ffred. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am adroddiad KPMG ond rhaid i chi dderbyn y gallai fod ychydig o fudd i economi Cymru os ydych yn gwella seilwaith economi'r DU yn ei chyfanrwydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:52 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, rydym yn sôn yn y fan hon am wariant o £20 biliwn, ac rydym yn dweud gall fod ychydig bach o wahaniaeth i economi Cymru. Rwy'n dweud ein bod eisiau gweld llawer iawn yn fwy na ychydig bach o welliant hwyrach i economi un rhan o Gymru. Rwyf eisiau gweld economi Cymru i gyd yn gwella. Felly, rwy'n credu mai'r ffordd briodol o wneud hynny yw cael Barnett 'consequential' o'r gwariant hwn er mwyn i ni allu cryfhau'r economi drwyddi draw ym mhob rhan o Gymru er mwyn gallu cystadlu'n effeithiol gyda rhannau eraill nid yn unig o Brydain ond hefyd o Ewrop a thu hwnt.

Well, we are talking here about expenditure of £20 billion, and you say that there could be a little bit of a difference for the Welsh economy. I am saying that we would want to see a lot more than a little bit of improvement perhaps to the economy of one part of Wales. I want to see the economy of the whole of Wales improving. Therefore, I think that the appropriate way of doing that is to have the Barnett consequential from this expenditure so that we can strengthen the economy across the board in all parts of Wales in order to be able to compete effectively with other parts not only of Britain, but of Europe and beyond.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Nid oes posibl na fyddai'r rhan fwyaf ohonom yma yn y Siambr heddiw yn cytuno â'r angen i Gymru gael cyfran deg o wariant HS2. Mae union yr un dadleuon—a dweud y gwir, dadleuon llawer iawn yn fwy cryf—â'r rhai ynglŷn â'r Olympics. Rhoddwyd addewidion ynglŷn â manteision i Gymru o'r gwariant anferth hwnnw, ond bach iawn iawn a gwelsom o ganlyniadau a manteision i Gymru. Rydym yn dadlau bod yr un peth yn fwy gwir am y cynllun drud hwn.

Surely, the majority of us here in this Chamber today would agree that Wales needs to have a fair share of the HS2 expenditure. There are exactly the same arguments—far stronger arguments, in truth—than those relating to the Olympics. Promises were made regarding the benefits to Wales from that huge expenditure, but we saw very little in terms of outcomes and benefits for Wales. We argue that that would be even more true of this very expensive project.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Julie Morgan.

Galwaf ar Julie Morgan.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak. A good transport infrastructure is vital to the economy of Wales and, obviously, that must be our main concern. However, I do think that HS2 does offer opportunities to Wales. Stage 2 will include the major interchange at Crewe, which is bound to be of benefit to north Wales and could strengthen the case for electrification of the north Wales line, as the Tory amendment states. However, it seems to me that HS2 is a missed opportunity in England, and I think that that does have relevance to us in Wales because it does not actually go via Heathrow before it heads to Birmingham. In my view, HS2 would be much improved if it went direct to Heathrow and then to Birmingham. I think that this is a missed opportunity, and I think that it is also linked to the UK coalition Government's confusion about the future of Heathrow, because it is proposed that there will be a link from HS2 to Heathrow, and there will also be a link on the south Wales line, on the First Great Western route to Heathrow, which was confirmed in Network Rail's 10-year plan. So, in fact, two links are planned into Heathrow, which would make Heathrow a very important station and a major railway hub. I think that that would be of huge benefit to us in Wales.

However, it is still uncertain whether Heathrow will continue to exist, because Boris's island has still not been dismissed; it is still there. The Government has not said that that is not going to happen. I am sure that many people yesterday heard about Gatwick bidding for a second runway and Heathrow bidding for a double runway in their submissions to Howard Davies's commission on airport capacity in the south-east. I think that it is a tragedy that the south Wales main line was not linked to Heathrow right from the beginning, as it is only a very small distance, a very small number of miles, and I think that we all know how frustrating it is that you cannot get directly to Heathrow from the London Paddington line. I think that that would have made a huge difference to the economic future of south Wales had this existed.

So, there is a great deal of confusion about the future of Heathrow, and Howard Davies's review will actually not be completed until after the next election. So, we have these plans for two major rail links into Heathrow, with the uncertainty of Heathrow still not resolved. I therefore think that HS2 is a missed opportunity for really plugging directly into Heathrow, and I think that Wales's best interests would be best served if Heathrow became a major rail hub, a bit like the Charles de Gaulle Airport, with the extended airport capacity taking place at Heathrow. I think that that would be much the best development for us in Wales.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am alw arnaf i siarad. Mae seilwaith trafnidiaeth da yn hanfodol i economi Cymru ac mae'n amlwg, rhaid canolbwyntio ar hynny'n bennaf. Fodd bynnag, rwy'n credu bod HS2 yn cynnig cyfleoedd i Gymru. Bydd Cam 2 yn cynnwys y gyfnewidfa fawr yn Crewe sy'n sicr o fod o fudd i ogledd Cymru a gallai gryfhau'r achos dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru, fel y mae gwelliant y Toriaid yn ei ddatgan. Ond ymddengys i mi fod HS2 yn gyfle a gollwyd yn Lloegr ac rwy'n credu bod hynny'n berthnasol i ni yng Nghymru am nad yw mewn gwirionedd yn mynd drwy Heathrow cyn anelu am Birmingham. Yn fy marn i, byddai HS2 yn llawer gwell pe bai'n mynd yn uniongyrchol i Heathrow ac yna i Birmingham. Rwy'n meddwl bod hwn yn gyfle a gollwyd ac rwy'n credu ei fod hefyd yn gysylltiedig â dryswch Llywodraeth glymblaid y DU ynglŷn â dyfodol Heathrow oherwydd argymhellir y bydd cyswllt o HS2 i Heathrow, a bydd cyswllt hefyd ar reilffordd de Cymru, ar lwybr First Great Western i Heathrow, a gadarnhawyd yng nghynllun 10-mllynedd Network Rail. Felly, mewn gwirionedd, cynlluniwyd dau gyswllt â Heathrow, a fyddai'n gwneud Heathrow yn orsaf bwysig iawn ac yn ganolbwynt pwysig i'r rheilffyrdd. Rwy'n meddwl y byddai hynny o fudd enfawr i ni yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'n dal yn ansicr a fydd Heathrow yn parhau i fodoli gan nad yw ynys Boris wedi cael ei diystyru hyd yma; mae'n dal i fod yno. Nid yw'r Llywodraeth wedi dweud nad yw hynny'n mynd i ddiwydd. Rwy'n siŵr bod llawer o bobl wedi clywed ddoe am Gatwick yn gwneud cais am ail redfa a Heathrow yn gwneud cais am redfa ddwbl yn eu cyflwyniadau i gomisiwn Howard Davies ar gapasiti meysydd awyr y de-ddwyrain. Rwy'n meddwl ei bod yn drasiedi nad oedd prif reilffordd de Cymru wedi'i chysylltu â Heathrow o'r dechrau un, gan mai dim ond pellter bach iawn ydyw, nifer fach iawn o filltiroedd, ac rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod pa mor rhwystredig yw methu â mynd yn syth i Heathrow o reilffordd Paddington Llundain. Rwy'n meddwl y byddai hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ddyfodol economaidd de Cymru pe bai wedi bodoli.

Felly mae llawer iawn o ddryswch ynghylch dyfodol Heathrow ac ni fydd adolygiad Howard Davies wedi'i gwblhau tan ar ôl yr etholiad nesaf. Felly mae gennym y cynlluniau hyn ar gyfer dau gyswllt rheilffordd mawr â Heathrow gyda'r ansicrwydd ynglŷn â Heathrow yn dal heb ei ddatrys. Credaf felly fod HS2 yn gyfle a gollwyd ar gyfer gallu manteisio'n uniongyrchol ar Heathrow ac rwy'n meddwl mai'r ffordd orau o sicrhau'r buddiannau gorau i Gymru yw drwy wneud yn siŵr fod Heathrow yn dod yn ganolbwynt o bwys i'r rheilffyrdd, yn debyg i Faes Awyr Charles de Gaulle, gyda'r gwaith i ymestyn capasiti'r maes awyr yn Heathrow. Rwy'n meddwl mai dyna fyddai'r datblygiad gorau o lawer i ni yng Nghymru.

The other issue related to HS2 is that there is obviously a huge danger of even more overspend on it. The money needed has already gone up drastically. Maybe that lies behind this quibbling about who is going to pay for the electrification of the Valleys lines: the fact that so much money is being spent on HS2 and the fact that it is likely to go up a lot more. It seems to me very strange how the coalition Government can fund all of HS2 but is quibbling over paying for the electrification of the Valleys lines. I think that it is also, at the same time, rewriting the devolution settlement, because, as I understand it, railway infrastructure is not a devolved matter, and, if it was, it would have already brought a devolved budget with it. So, I cannot see what the argument here is. It seems to me quite clear that it is the responsibility of the coalition Government to pay for the electrification of the Valleys lines.

In conclusion, I think that what happens in England with HS2 is of great importance to us in Wales, and I think that the greatest benefits that Wales can get for it are what we should be fighting for.

16:58

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Plaid Cymru motion notes the critical importance of transport infrastructure investment for the future prospects of the Welsh economy and calls for the Welsh Government to secure full Barnett consequentials. I think that it is very difficult to disagree with that. Of course, there is a wide range of demands for capital investment across Wales, but it makes sense that HS2 consequentials could be prioritised for our own transport infrastructure, at least in part. As has been mentioned, a fair share, in our view, would amount to £120 million per year for a decade. A similar share would accrue to Wales from phase 2 of the project, and a fair share of Barnett funding would therefore give us an important source of financial muscle for capital investment. Potentially, then, the Barnett consequential of HS2 cannot be taken lightly, and, over the course of two Assembly terms, could pay for a number of rail projects, especially as we envisage rail being a devolved responsibility.

We also know that more use needs to be made of European funding on transport, not just through structural funds, but through the European Investment Bank, and the current Welsh Government, I know, has committed to making greater use of EIB funds. If we look to the Basque Country, we will see that the autonomous Government there has accessed those funds to contribute towards its own high-speed rail network.

Y mater arall sy'n ymwneud â HS2 yw ei bod hi'n amlwg fod perygl enfawr y gwelir mwy fyth o orwario arno. Mae'r arian sydd ei angen wedi codi'n eithafol eisoes. Efallai mai dyna sydd wrth wraidd yr hollti blew ynghylch pwy sy'n mynd i dalu am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd: y ffaith fod cymaint o arian yn cael ei wario ar HS2 a'r ffaith ei fod yn debygol o godi llawer eto. Mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn i mi fod y Llywodraeth glymblaid yn gallu ariannu HS2 yn ei gyfanrwydd a hollti blew dros dalu am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Ar yr un pryd, rwy'n meddwl ei bod hefyd yn ailysgrifennu'r setliad datganoli gan nad yw seilwaith rheilffyrdd yn fater sydd wedi'i ddatganoli yn ôl fel rwy'n ei ddeall, a phe bai, byddai cyllideb ddatganoledig eisoes ar gael ar ei gyfer. Felly, ni allaf weld beth yw'r ddatl yn y fan hon. Mae'n ymddangos yn eithaf clir i mi mai cyfrifoldeb y Llywodraeth glymblaid yw talu am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

I gloi, rwy'n meddwl bod yr hyn sy'n digwydd yn Lloegyda HS2 yn bwysig iawn i ni yng Nghymru ac rwy'n meddwl mai'r manteision mwyaf y gall Cymru eu cael ohono yw'r hyn y dylem fod yn ymladd amdano.

Noda cynnig Plaid Cymru bwysigrwydd hanfodol buddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau symiau canlyniadol Barnett llawn. Rwy'n meddwl ei bod yn anodd iawn anghytuno â hynny. Wrth gwrs, ceir ystod eang o alwadau am fuddsoddi cyfalaf ar draws Cymru ond mae'n gwneud synnwyr y gellid blaenoriaethu symiau canlyniadol HS2 ar gyfer ein seilwaith trafnidiaeth ein hunain, yn rhannol fan lleiaf. Fel y crybwyllwyd, yn ein barn ni, byddai cyfran deg yn gyfystyr â £120 miliwn y fwyddyn am ddegawd. Byddai cyfran debyg yn cronni i Gymru o gam 2 y prosiect, a byddai cyfran deg o arian Barnett felly'n rhoi ffynhonnell ariannol bwysig o fuddsoddiad cyfalaf i ni. O ran potensial, felly, ni ddylid tanbriso arian canlyniadol Barnett o HS2 a thros gyfnod o ddau dymor Cynulliad, gallai dalu am nifer o brosiectau rheilffyrdd, yn enwedig wrth ystyried rheilffyrdd fel cyfrifoldeb datganoledig.

Rydym hefyd yn gwybod bod angen gwneud mwy o ddefnydd o gyllid Ewropeaidd ar dfrnidiaeth, nid yn unig drwy gronfeydd strwythurol, ond drwy Fanc Buddsoddi Ewrop, ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, rwy'n gwybod, wedi ymrwmo i wneud mwy o ddefnydd o gronfeydd Banc Buddsoddi Ewrop. Os edrychwn ar Wlad y Basg, gwelwn fod y Llywodraeth ymreolaethol yno wedi manteisio ar y cronfeydd hynny i gyfrannu tuag at ei rhwydwaith rheilffyrdd cyflym ei hun.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Turning to the transport needs of Wales and the finance available, there has been a broad agreement on the principles of developing a south-east Wales metro—a system of integrated public transport to make the wider region, particularly the Valleys, more economically competitive. It is clear in the report prepared by Mark Barry that prolonged public investment amounting to more than £1 billion would be required to deliver a fully integrated system. I would very much welcome seeing that materialise. Yet the early access to borrowing powers proposed by the UK Government, and seemingly accepted now by the Welsh Government, only relates to the UK Government's preferred new M4 scheme. The Welsh Government's own consultation states that this option of a new M4 would cost almost £1 billion. I certainly feel that substantial borrowing on this scale should be approved by this legislature. Should we not decide whether borrowed money should go to other projects—[Interruption.] I will take the intervention.

Gan droi at anghenion trafnidiaeth Cymru a'r cyllid sydd ar gael, cafwyd cytundeb cyffredinol ar egwyddorion datblygu metro de-ddwyrain Cymru—system drafnidiaeth gyhoeddus integredig i wneud y rhanbarth ehangach, yn enwedig y Cymoedd, yn fwy cystadleuol yn economaidd. Mae adroddiad Mark Barry yn dweud yn eglur y byddai angen buddsoddiad cyhoeddus estynedig o fwy na £1 biliwn ar gyfer darparu system gwbl integredig. Hoffwn yn fawr iawn weld hynny'n cael ei wireddu. Eto i gyd, ymwneud â'r cynllun newydd a ffeirir gan Lywodraeth y DU ar gyfer yr M4 yn unig y mae mynediad cynnar at bwerau benthyca a gynigir gan Lywodraeth y DU ac sy'n cael eu derbyn bellach gan Lywodraeth Cymru yn ôl pob golwg. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun yn nodi y byddai'r opsiwn o gael M4 newydd yn costio bron i £1 biliwn. Rwy'n sicr yn teimlo y dylai benthyca sylweddol ar raddfa o'r fath gael ei gymeradwyo gan y corff deddfwriaethol hwn. Oni ddylem benderfynu pa un a ddylai arian benthyg fynd tuag at brosiectau eraill—[Torri ar draws.] Ildiaf i'r ymyriad.

17:01 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just to be fair to the UK Government, I think that you would accept as well, Jocelyn, that, down the line, there will be wider borrowing powers, but that this was done at this initial stage to allow the redevelopment of the M4 to go ahead.

I fod yn deg â Llywodraeth y DU, rwy'n meddwl y byddech yn derbyn hefyd, Jocelyn, y bydd pwerau benthyca ehangach ymhén y rhawg ond fod hyn wedi'i wneud ar y cam cychwynnol hwn er mwyn caniatáu i'r gwaith o ailddatblygu'r M4 fynd yn ei flaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, I think that it is for us to decide what money borrowed should be spent on. It should be our priorities—maybe other priorities like the metro—that should have priority over a new M4. At least we here should have a voice in it. These decisions will have a financial effect, let us not forget, for many Assemblies in the future, so it should be decided by us, and not in secret by this Welsh Government and that UK Government.

Fel y dywedais, rwy'n meddwl mai mater i ni yw penderfynu ar beth y dylid gwario arian a fenthycir. Dylai ein blaenoriaethau ni—blaenoriaethau eraill fel y metro, efallai—gael blaenoriaeth dros M4 newydd. Dylem ni yma gael llais yn y mater o leiaf. Gadewch i ni beidio ag anghofio y bydd effaith ariannol y penderfyniadau hyn yn parhau i sawl Cynulliad yn y dyfodol, felly ein lle ni yw penderfynu arnynt, ac nid yn gyfrinachol gan y Llywodraeth hon yng Nghymru a'r Llywodraeth acw yn San Steffan.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is not being made clear how much of this £1 billion overall cost would be taken from other budgets. It has also not been made clear whether we can agree on a more affordable upgrade to the existing road infrastructure around Newport, and whether we can then invest in other projects across the rest of the country.

Nid yw'n eglur faint o gyfanswm y gost o £1 biliwn fyddai'n cael ei chymryd o gyllidebau eraill. Ni wnaed yn eglur ychwaith a allwn gytuno ar waith uwchraddio mwy fforddiadwy i'r seilwaith ffyrdd presennol o amgylch Casnewydd, ac a allwn wedyn fuddsoddi mewn prosiectau eraill ar gyfer gweddill y wlad.

Regardless of whether a new M4 scheme would make Wales more economically competitive or not, the question is how we scrutinise that scheme and its financing. What has happened is that the Welsh Government, of course, is going along with a key Conservative UK Government policy in order, as Nick Ramsay just told us, to access early borrowing.

Heb ystyried a fyddai cynllun M4 newydd yn gwneud Cymru yn fwy cystadleuol yn economaidd ai peidio, y cwestiwn yw sut rydym yn craffu ar y cynllun a'r modd o'i gyllido. Yr hyn sydd wedi digwydd yw bod Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn cydymffurfio ag un o bolisiau allweddol Llywodraeth Geidwadol y DU, fel y mae Nick Ramsay newydd ei ddweud wrthym, er mwyn cael pwerau benthyca cynnar.

When we scrutinise the Welsh Government's commitment on sustainability as a central organising principle, as we are told on a regular basis in the Chamber, the fact that it is prioritising a motorway upgrade over public transport really does diminish that commitment. The Welsh Government should be setting out to the UK Government what schemes it wants to take forward, and it should not be doing the UK Government's bidding. The whole issue of consequentialism should be more transparent so that disputes should not arise in the first place. Although I fully accept that the UK Government will want to have a say in the overall level of borrowing by the Welsh Government for capital investment, it must not come with caveats or conditions, because it is this Assembly's job to hold this Government to account.

Wrth graffu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd fel egwyddor drefniadol ganolog, fel y dywedir wrthym yn rheolaidd yn y Siambr, mae'r ffaith ei bod yn rhoi blaenoriaeth i uwchraddio traffordd dros drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau'r ymrwymiad hwnnw mewn gwirionedd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ar gyfer Llywodraeth y DU pa gynlluniau y mae'n dymuno eu mabwysiadu a pheidio â bod yn was bach i Lywodraeth y DU. Dylai'r holl fater ynghylch symiau canlyniadol fod yn fwy tryloyw er mwyn osgoi dadlau o'r cychwyn. Er fy mod yn derbyn yn llwyr y bydd Llywodraeth y DU yn awyddus i fynegi barn ynghylch lefel gyffredinol y benthycia gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi cyfalaf, rhaid iddi beidio â chyflwyno cafeatau neu amodau, gan mai gwaith y Cynulliad hwn yw dwyn y Llywodraeth hon i gyfrif.

17:03

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find myself, perhaps worryingly, agreeing with a lot of what Rhun ap Iorwerth said in opening. I am not sure whether that is more worrying for Rhun or for me. I particularly agreed with the comment that he made that there is no harm in competition; in fact, competition is a good thing between Wales and other regions of the UK, and that is a way for us to help develop our economy. I do, however, as I made the point earlier, think that you said two different things at one point in your opening remarks: that, on the one hand, HS2 should be treated differently from other projects in terms of the way that funding comes here, but, on the other, it should not be treated differently. Perhaps he can clarify that afterwards.

He was actually a lot more positive, as he usually is, than the motion that we find before us, which draws attention in part to the overall negative impact of HS2 on the Welsh economy. I tried to tease out some information from Alun Ffred Jones on that point. I think that you have to accept that, while, of course, we would all like more money to come to Wales, more and more money, we have to accept the economic issues that mean that that cannot happen, certainly in the short term. However, there will, nonetheless, be some sort of positive impact on HS2. You might argue that that is not enough, Alun Ffred, and I might say that as well, but there is going to be a positive impact there. We all have to appreciate that.

On Eluned's comments, you were a little harsh on our amendment 3, I think it was. I can see what you are saying, but the thrust of that amendment is for partnership between the Welsh Government and the UK Government. You might argue over the tone of the amendment, but I think that that partnership definitely needs to happen.

On HS2, I think that Eluned hit exactly the right note at the start of her speech: HS2 is a great opportunity to regenerate the economy of the UK, to regenerate the economy of the north of England, and, indeed, when it is fully developed, Scotland, when the full extent of the line is realised. This is, as Byron Davies said, the first major new railway line to be built in the UK for more than 100 years—120 years in terms of a north-south link. It is good news for England and Scotland and I think that it is good news for Wales as well. I find this attitude that infrastructure development in England is somehow completely irrelevant and will have no positive impact on infrastructure development in Wales slightly bizarre.

Testun pryder o bosibl yw sylweddoli fy mod yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Rhun ap Iorwerth wrth agor. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n fwy o bryder i Rhun neu i mi. Roeddwn yn cytuno'n benodol â'r sylw a wnaeth nad oes unrhyw niwed mewn cystadleuaeth; mewn gwirionedd, mae cystadleuaeth yn beth da rhwng Cymru a rhanbarthau eraill y DU ac mae honno'n ffordd i ni helpu i ddatblygu ein heconomi. Rwy'n credu, fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, i chi ddweud dau beth gwahanol ar un adeg yn eich sylwadau agoriadol: ar y naill law, y dylid trin HS2 yn wahanol i brosiectau eraill o ran y ffordd y daw'r cyllid yma, ond ar y llaw arall, na ddylid ei drin yn wahanol. Efallai y gall egluro hynny wedyn.

Mewn gwirionedd, roedd yn llawer mwy cadarnhaol, yn ôl ei arfer, na'r cynnig ger ein bron, sy'n tynnu sylw'n rhannol at effaith negyddol gyffredinol HS2 ar economi Cymru. Ceisiais ddenu rhywfaint o wybodaeth gan Alun Ffred Jones ar y pwynt hwnnw. Er y byddai pawb ohonom yn hoffi gweld mwy o arian yn dod i Gymru wrth gwrs, mwy o arian, credaf fod yn rhaid i ni dderbyn y materion economaidd sy'n golygu na all hynny ddigwydd, yn sicr yn y tymor byr. Serch hynny, bydd rhyw fath o effaith gadarnhaol ar HS2. Efallai y byddwch yn dadlau nad yw hynny'n ddigon, Alun Ffred, ac efallai y byddwn innau'n dweud hynny hefyd, ond bydd effaith gadarnhaol yno. Mae'n rhaid i ni i gyd dderbyn hynny.

Ar sylwadau Eluned, roeddech ychydig yn llym ar ein gwelliant 3, rwy'n meddwl. Gallaf weld yr hyn rydych yn ei ddweud, ond byrdwn y gwelliant hwnnw yw sicrhau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Efallai y gallech ddadlau ynghylch tôn y gwelliant, ond rwy'n bendant yn meddwl bod angen i'r bartneriaeth honno ddigwydd.

Ar HS2, rwy'n credu bod Eluned wedi taro'r nodyn cywir ar ddechrau ei haraith: mae HS2 yn gyfle gwyb i adfywio economi'r DU, i adfywio economi gogledd Lloegr, ac yn wir, pan fydd wedi datblygu'n llawn, economi'r Alban, pan fydd y rheilffordd gyfan wedi'i gosod. Fel y dywedodd Byron Davies, dyma'r rheilffordd fawr newydd gyntaf i gael ei hadeiladu yn y DU ers dros 100 mlynedd—120 mlynedd o ran cyswllt gogledd-de. Mae'n newydd da i Loegr a'r Alban ac rwy'n meddwl ei fod yn newydd da i Gymru hefyd. Teimlaf fod yr agwedd fod datblygu seilwaith yn Lloegr yn hollol amherthnasol rywsut ac na chaiff unrhyw effaith gadarnhaol ar ddatblygu seilwaith yng Nghymru braidd yn rhyfedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:06	<b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Will the Member give way?	A wnaiff yr Aelod ildio?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
17:06	<b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	In one moment. We need England to have a strong economy for Wales to have a strong economy as well.	Mewn un eiliad. Mae angen Lloegr arnom i sicrhau bod gan Gymru economi gref yn ogystal.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
17:06	<b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I am grateful to Nick Ramsay. I agree with him on that point. The whole point that we are trying to make here is that that means that this should be treated as a UK-wide infrastructure project, and that the Barnett consequentials, which would be about £80 million a year, should come directly to Wales, and that it is not treated as an Olympic-style separate project.	Diolch i Nick Ramsay. Rwy'n cytuno ag ef ar y pwynt hwnnw. Yr union bwynt rydym yn ceisio'i wneud yma yw bod hynny'n golygu y dylid trin hwn fel prosiect seilwaith ledled y DU ac y dylai symiau canlyniadol Barnett, a fyddai oddeutu £80 miliwn y flwyddyn, ddod yn uniongyrchol i Gymru, a pheidio â'i drin fel prosiect ar ei ben ei hun, tebyg i'r Gemau Olympaidd.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
17:06	<b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	There is a discussion to be had around that. Your other speakers have made those comments as well, but, as I said at the start, Rhun ap Iorweth said at the start that on the one hand it should be treated differently, and on the other it should not be treated differently.	Mae trafodaeth i'w chael ynghylch hynny. Mae eich siaradwyr eraill wedi gwneud sylwadau o'r fath yn ogystal ond fel y dywedais ar y dechrau, dywedodd Rhun ap Iorwerth ar y dechrau y dylai gael ei drin yn wahanol ar y naill law, ac ar y llaw arall, na ddylid ei drin yn wahanol.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
		What you have to appreciate, and what you do not want to acknowledge, and the Labour Government probably less so, is that there are very many infrastructure modernisation commitments that have been made in Wales over the course of this UK coalition Government. It has not done everything that it would have liked to have done—no Government can—but you have to recognise that the electrification of the Great Western line—which we waited for for 13 years under the last Labour Government in the UK and it did not happen—is happening now. It has happened pretty quickly, actually, after the election of the UK coalition Government.	Yr hyn sy'n rhaid i chi ei sylweddoli a'r hyn nad ydych am ei gydnabod, a'r Llywodraeth Lafur yn llai fyth yn ôl pob tebyg, yw bod llawer iawn o ymrwymadau ar gyfer moderneiddio'r seilwaith wedi'u gwneud yng Nghymru ers i Lywodraeth glymblaid y DU ddod i rym. Nid yw wedi gwneud popeth y byddai wedi hoffi'i wneud—ni all unrhyw Lywodraeth wneud hynny—ond rhaid i chi gydnabod bod trydaneiddio rheilffordd y Great Western—y buom yn aros dros 13 mlynedd amdani dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn y DU ac ni ddigwyddodd—yn digwydd yn awr. Digwyddodd yn weddol gyflym, a dweud y gwir, ar ôl ethol Llywodraeth glymblaid y DU.	
		It is not just about the Great Western line, is it? It is about the metro line and the electrification of the Valleys lines, for which we need to see partnerships between the Welsh Government and the UK Government. The UK Government cannot do all of this; it needs a strong commitment from the Welsh Government here to make sure that the enormous potential, which I know the Minister thinks is there, of the Valleys line electrification and the metro happens. We all need to speak with one voice on that. I agree completely with what Plaid Cymru said at the start, and the team Wales analogy that Byron Davies used. We need to speak with one voice on making sure that there is that partnership between the Welsh Government and the UK Government.	Mae'n ymwneud â mwy na rheilffordd y Great Western, onid yw? Mae'n ymwneud â'r rheilffordd metro a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, sy'n galw am bartneriaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ni all Llywodraeth y DU wneud y cyfan; mae angen ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod y potensial enfawr, y gwn fod y Gweinidog yn credu ei fod yno, yn sgîl trydaneiddio rheilffordd y Cymoedd a'r metro yn cael ei wireddu. Mae angen i ni i gyd siarad ag un llais ar hynny. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Plaid Cymru ar y dechrau a defnydd Byron Davies o'r gymhariaeth â thîm Cymru. Mae angen i ni siarad ag un llais er mwyn sicrhau'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.	
		It would be irresponsible of the UK Government not to develop high-speed rail. As Eluned Parrott said, the UK will not have sufficient capacity to meet the needs of rail users as the projected increase in passenger numbers happens over the years to come. This Government—and, let us be fair, I am sure the opposition Labour Party in Westminster also—recognises that this sort of infrastructure is desperately needed now and in the future.	Byddai'n anghyfrifol i Lywodraeth y DU beidio â datblygu rheilffyrdd cyflym. Fel y dywedodd Eluned Parrott, ni fydd gan y DU ddigon o gapasiti i ateb anghenion defnyddwyr rheilffyrdd wrth i'r cynnydd a ragwelir yn nifer y teithwyr ddigwydd dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r Llywodraeth hon—a gadewch inni fod yn deg, yr wrthblaid Lafur yn San Steffan hefyd—yn cydnabod bod angen dybryd am y math hwn o seilwaith yn awr ac yn y dyfodol.	

To close, we need more infrastructure projects in Wales. I completely accept that, but I think that we have gone some way down the line. This is not the be all and end all; we need the electrification of the north Wales line, we need the much-needed improvements to the M4, and, yes, ultimately, we need Barnett reform, but, we have to recognise that the UK Government is doing the very best it can at the moment with its limited resources, thanks to the legacy left by the last Government.

17:09

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to contribute to this debate. I hope to help Nick Ramsay understand a little more about how this might work in practice.

The context of the debate is that we have had significant historical under-investment in Wales—in the Wales and borders franchise, because let us not forget that what we are debating here today would be an investment that would go to Wales and the borders. So, it is about parts of England as well—parts of England that I know all too well from my weekly commute back and forth to this place. The under-investment would benefit the whole of the franchise area. We see that under-investment at the moment in some of the poor-quality carriages that are still used on our railways in Wales. My own journey from Aberystwyth to Cardiff means that I can have one carriage and one part of the journey where I can plug in my phone, and another part where I cannot. There is also one part of the journey where I can sit and one where I cannot, although that is another issue altogether. We see that under-investment in the slow progress that we get in instigating new stations, such as those for Carno and Bow Street in my area, and in how difficult it is to get the investment to get those moving. We see it in the gaping holes in our current infrastructure, mainly as a result of Beeching, which we cannot address now because we do not have the funding available to us, whether it is a replacement line from Carmarthen to Aberystwyth or plugging the gap from Bangor to Afon Wen.

It needs to be said that, without getting too involved in the exchange of letters that Byron Davies referred to, the Welsh Government has already, and has for some time, funded capital railway investment in Wales, even though it is not devolved and even though it does not have to do it. It happened under the previous Government, when Ieuan Wyn Jones did it, and it happens under the present Minister.

However, that does not address the principle of devolution and who pays. That is why it is important that we are crystal clear about HS2—its implications and its economic benefits or otherwise, and how it is going to be treated by the Treasury. This is Welsh taxpayers' money, albeit that we might not be the richest part of the United Kingdom. It is still Welsh taxpayers' money being used for an UK infrastructure project, and while we remain 'better together'—so called—we must see how being better together comes back to Wales in terms of the consequentials.

I gloi, rydym angen mwy o brosiectau seilwaith yng Nghymru. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr, ond rwy'n meddwl ein bod wedi mynd rywfaint o'r ffordd tuag at hynny. Nid dyma swm a sylwedd popeth; mae angen trydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru, rydym angen y gwelliannau mawr eu hangen i'r M4, a bydd, yn y pen draw, bydd angen diwygio Barnett. Ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod Llywodraeth y DU yn gwneud ei gorau ar hyn o bryd gyda'i hadnoddau cyfyngedig, diolch i'r hyn a etifeddodd gan y Llywodraeth ddiwethaf.

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon. Rwy'n gobeithio helpu Nick Ramsay ddeall ychydig mwy ynglŷn â sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.

Cyd-destun y ddadl hon yw'r hanes o danfuddsoddi sylweddol a welsom yng Nghymru—ym masnachfaint Cymru a'r gororau, oherwydd gadewch inni beidio ag anghofio y byddai'r hyn rydym yn ei drafod yma heddiw yn fuddsoddiad ar gyfer Cymru a'r gororau. Felly mae'n ymwneud â rhannau o Loegr yn ogystal—rhannau o Loegr rwy'n gyfarwydd iawn â hwy wrth gymudo'n wythnosol yn ôl ac ymlaen i'r lle hwn. Byddai'r tanfuddsoddiad o fudd i holl ardal y fasnachfaint. Rydym yn gweld tanfuddsoddi o'r fath ar hyn o bryd yn rhai o'r cerbydau o ansawdd gwael sy'n dal i gael eu defnyddio ar ein rheilffyrdd yng Nghymru. Mae fy nhaith o Aberystwyth i Gaerdydd yn golygu y gallaf gysylltu fy ffôn mewn un cerbyd ar un rhan o'r daith, ac ni allaf wneud hynny ar ran arall o'r daith. Gallaf eistedd am ran o'r daith hefyd, a rhan arall pan na chaf eistedd, er mai mater arall yn llwyr yw hynny. Gwelwn y tanfuddsoddiad yn yr arafwch i agor gorsafoedd newydd, megis y rhai ar gyfer Carno a Bow Street yn fy ardal i, ac yn yr anhawster i sicrhau buddsoddiad i symud y rhain yn eu blaenau. Mae i'w weld yn y bylchau enfawr yn ein seilwaith presennol, yn bennaf o ganlyniad i Beeching, na allwn eu llenwi yn awr am nad oes cyllid ar gael i ni, boed yn llinell newydd o Gaerfyrddin i Aberystwyth neu gau'r bwllch rhwng Bangor ag Afon Wen.

Heb fynd i ymwneud gormod â'r cyfnewid llythyrau y cyfeiriodd Byron Davies ato, mae angen dweud bod Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi cyfalaf yn y rheilffyrdd yng Nghymru, ac mae wedi gwneud hynny ers peth amser, er nad yw'n fater wedi'i ddatganoli ac er nad oes yn rhaid iddi wneud hynny. Digwyddodd o dan y Llywodraeth flaenorol, drwy Ieuan Wyn Jones, ac mae'n digwydd o dan y Gweinidog presennol.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n mynd i'r afael ag egwyddor datganoli a phwy sy'n talu. Dyna pam y mae'n bwysig i ni fod yn gwbl eglur ynghylch HS2—ei oblygiadau a'i fanteision economaidd neu fel arall, a sut y mae'n mynd i gael ei drin gan y Trysorlys. Arian trethdalwyr Cymru yw hwn er efallai nad dyma'r rhan gyfoethocaf o'r Deyrnas Unedig. Ond arian trethdalwyr Cymru ydyw er hynny, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiect seilwaith y DU a thra byddwn yn parhau 'yn well gyda'n gilydd'—fel y'i gelwir—rhaid i ni weld sut y mae bod yn well gyda'n gilydd yn dod yn ôl i Gymru o ran y symiau canlyniadol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



I appreciate that things have improved. Network Rail now works as a Wales and borders unit. It is easier to see now where the investment is going and I acknowledge that some important statements have been made by the Westminster Government on railway electrification. It is not there in reality yet, but those promises have been made—we hold it to those promises. However, if you analyse what Network Rail currently spends in Wales, you will see that it is only about 3% of its expenditure. A quick Barnett calculation would say that we are way off the target there and, indeed, a comparison with Scotland would also show that we are off the target, because the devolution of Network Rail in Scotland means that it gets a far higher comparable Barnett consequential from expenditure on an England, Wales and Scotland basis. The stronger devolution settlement and more money that Scotland has means that it has opened not quite the first new railway, as Nick Ramsay said—the first new railway is also being planned and built on the borders of Scotland; it is a rural railway, such as we could have in Wales—but it has the resources to do that.

As a result, Salmond has said that he will start building high speed 3 from Scotland down to Northumberland, into the north of England, trying to attract the competitive advantage up to an independent Scotland. These things are conceivable because of the devolution that has happened there. The Silk commission, of course, has recommended that Wales should also have these exact same tools for investment here.

What we need to be clear about, however, is that HS2 is being treated differently by the UK Government; this is the point that, I think, the Conservatives have not understood today. It is not an argument about Barnett consequentials. It is a fact that, at the moment, HS2 spending is seen as a unique infrastructure project outside of the Department for Transport and outside of Network Rail—it is not going to be delivered by Network Rail, even. We, therefore, have to make the argument consistently, coherently and across all parties that a devolution dividend has to come to Wales from that UK spending. It is not English taxpayers who are spending that money—it is UK taxpayers spending it.

I read in the 'Financial Times' last year that the Government had made an argument for at least £2 billion over the two phases to be coming in terms of a Barnett consequential. I would like to hear from the Minister today, if possible, how that is being delivered in reality in arguments to the Treasury. I also want us to agree today—if we can, across all parties—that there should be a Barnett consequential. It will vary as to whether it is treated by the Treasury as a UK spend or an England spend, but it has to be treated, in my opinion, as something that is Barnettised and not as an Olympics-style separate piece of expenditure.

Not only do we then get the capital expenditure in Wales but it also, with borrowing powers, opens out new avenues of innovative new ideas for railway infrastructure in Wales. I hope that we can, without all of the arguments, unify at least at that central fiscal point.

Rwy'n derbyn bod pethau wedi gwella. Mae Network Rail bellach yn gweithio fel uned Cymru a'r gororau. Mae'n haws gweld i ble mae'r buddsoddiad yn mynd yn awr ac rwy'n cydnabod bod Llywodraeth San Steffan wedi gwneud rhai datganiadau pwysig ar drydaneiddio'r rheilffyrdd. Nid yw wedi'i wireddu eto, ond gwnaed yr addewidion—mynnwn ei bod yn cadw'r addewidion hynny. Fodd bynnag, byddai dadansoddiad yn dangos mai 3% yn unig o wariant Network Rail sy'n cael ei wario yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai cyfrif Barnett cyflym yn dweud ein bod ymhell o'r targed yn hynny o beth ac yn wir, byddai cymhariaeth â'r Alban hefyd yn dangos ein bod yn methu'r targed am fod datganoli Network Rail yn yr Alban yn golygu ei bod yn cael llawer mwy o arian canlyniadol Barnett o wariant ar sail Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r setliad datganoli cryfach a'r arian ychwanegol sydd gan yr Alban yn golygu nad hon yw'r rheilffordd newydd gyntaf yn hollol i'r Alban, fel y dywedodd Nick Ramsay—mae'r rheilffordd newydd gyntaf yn cael ei chynllunio a'i hadeiladu ar ororau'r Alban; rheilffordd wledig yw hi, yn debyg i'r hyn y gallem ei gael yng Nghymru—ond mae gan yr Alban adnoddau i wneud hynny.

O ganlyniad, mae Salmond wedi dweud y bydd yn dechrau adeiladu rheilffordd 'cyflym 3' o'r Alban i lawr i Northumberland, i ogledd Lloegr, i geisio denu'r fantais gystadleuol i'r Alban annibynnol. Mae'r pethau hyn yn bosibl oherwydd y datganoli sydd wedi digwydd yno. Mae comisiwn Silk, wrth gwrs, wedi argymhell y dylai Cymru hefyd gael yr un adnoddau'n union ar gyfer buddsoddi yma.

Yr hyn sydd angen i ni fod yn glir yn ei gylch, fodd bynnag, yw bod HS2 yn cael ei drin yn wahanol gan Lywodraeth y DU; rwy'n meddwl mai dyma'r pwynt nad yw'r Ceidwadwyr wedi'i ddeall heddiw. Nid dadl ynghylch symiau canlyniadol Barnett yw hi. Mae'n ffaith ar hyn o bryd fod gwariant HS2 yn cael ei weld fel prosiect seilwaith unigryw y tu allan i'r Adran Drafnidiaeth a'r tu allan i Network Rail—nid yw'n mynd i gael ei gyflawni gan Network Rail hyd yn oed. Felly, mae'n rhaid i ni ddadlau'n gyson, yn gydlynol ac ar draws pob plaid fod yn rhaid i ddifidend datganoli ddod i Gymru o'r cyfryw wariant ar gyfer y DU. Nid trethdalwyr Lloegr sy'n gwario'r arian hwnnw—trethdalwyr y DU sy'n ei wario.

Darlennis yn y 'Financial Times' y llynedd fod y Llywodraeth wedi dadlau dros gyflwyno £2 biliwn fan lleiaf dros y ddau gam ar ffurf swm canlyniadol Barnett. Hoffwn glywed gan y Gweinidog heddiw, os yn bosibl, sut y mae hynny'n cael ei gyflwyno mewn gwirionedd mewn dadleuon i'r Trysorlys. Rwyf hefyd am i ni gytuno heddiw—ar draws pob plaid os gallwn—y dylai fod cyllid canlyniadol Barnett. Bydd yn amrywio o ran a yw'n cael ei drin gan y Trysorlys fel gwariant y DU neu wariant Lloegr, ond yn fy marn i, mae'n rhaid iddo gael ei drin fel rhywbeth sy'n rhan o fformiwla Barnett ac nid fel gwariant ar ei ben ei hun tebyg i'r Gemau Olympaidd.

Wedyn, byddwn yn gweld gwariant cyfalaf yng Nghymru a hefyd, gyda phwerau benthyca, bydd yn agor llwybrau newydd o syniadau newydd arloesol gogyfer â'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y gallwn gytuno ar y pwynt cyllidol canolog hwnnw o leiaf heb yr holl ddadleuon.

17:14

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:14

## **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. Rail obviously is an important means of connectivity to serve the needs of businesses, people and communities. The current system with regard to rail, whether it is Network Rail or the various companies, is not a system for an ideal modern world in terms of delivering what we require regarding rail infrastructure. However, we live with what we have, and we work with what we have and the consequences of what has occurred. It would be very nice to roll back on Beeching, especially when you have a discussion on links between Carmarthen and Aberystwyth, but we cannot do so because we are where we are.

Simon Thomas made an exceptionally useful contribution to this discussion. He made the point that rail is not actually devolved to us. We have, as successive Governments, paid for something that has not been devolved to us. These matters will have to be resolved in terms of what we need to do. We have the recommendations that arise from the Silk report, and it is very important to me that, if it is not devolved to me, I ask why I should pay for it. These are some of the fundamental issues that we have to look at. Of course, when all of these issues are ours, as they may well be, there will be an opportunity to pick up on some of Jocelyn Davies's points about the scrutiny of the expenditure and where it is spent. She is quite right to say that Jane Hutt was successful in getting early access to borrowing, but it was for a specific purpose. In the long term, in a democracy, there must be discussion within the democratic chamber about the proposals that a Government puts forward and what the democratic chamber is then prepared to accept as part of any budget that we might put forward. It is important that we all understand these issues as we have this debate today.

I want to make something absolutely clear. When Rhun ap Iorwerth introduced the debate, I looked at Jane Hutt—who I have now given the double-barrelled name of Jane Scrooge-Hutt in my budget discussions—about the money. I know that, at the last quadrilateral meeting in Cardiff, the Chief Secretary to the Treasury confirmed that the budget consequential on HS2 beyond 2015-16 will be determined by future spending reviews. Therefore, I know that that is a matter that Jane has hammered home in terms of the discussion on what is emerging from HS2. You have my assurance that I know that that is the case, and I know that it is the case on behalf of the Minister for Finance.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Ddirprwy Lywydd. Yn amlwg, mae'r rheilffyrdd yn cynnig cysylltedd pwysig i wasanaethu anghenion busnesau, pobl a chymunedau. Nid yw'r system reilffyrdd bresennol, boed yn Network Rail neu'r cwmnïau amrywiol, yn system ar gyfer byd modern delfrydol o ran cyflawni'r hyn rydym ei angen mewn perthynas â'r seilwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn byw gyda'r hyn sydd gennym ac rydym yn gweithio gyda'r hyn sydd gennym a chanlyniadau'r hyn sydd wedi digwydd. Byddai'n braf iawn mynd yn ôl at Beeching, yn enwedig wrth drafod cysylltiadau rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, ond ni allwn wneud hynny am ein bod yn y sefyllfa rydym ynddi.

Roedd cyfraniad Simon Thomas yn eithriadol o ddefnyddiol i'r drafodaeth hon. Gwnaeth y pwynt nad yw'r rheilffyrdd yn fater sydd wedi'i ddatganoli i ni mewn gwirionedd. Fel llywodraethau olynol, rydym wedi bod yn talu am rywbeth nad yw wedi ei ddatganoli i ni. Bydd yn rhaid datrys y materion o ran yr hyn y mae angen i ni ei wneud. Mae gennym yr argymhellion sy'n codi o adroddiad Silk ac mae'n bwysig iawn i mi, os nad yw wedi'i ddatganoli i mi, rwy'n gofyn pam y dylwn i dalu amdano. Dyma rai o'r materion sylfaenol sy'n rhaid i ni edrych arnynt. Wrth gwrs, pan fydd yr holl faterion hyn yn eiddo i ni, fel y gallant fod, bydd cyfle i ymhelaethu ar rai o bwytiau Jocelyn Davies am yr angen i graffu ar y gwariant a lle y caiff yr arian ei wario. Mae hi'n hollol iawn i ddweud bod Jane Hutt wedi llwyddo i gael mynediad cynnar at fenthycy, ond roedd hynny at ddiben penodol. Yn y tymor hir, mewn democratiaeth, rhaid cael trafodaeth o fewn y siambr ddemocrataidd ynghylch y cynigion y bydd llywodraeth yn eu cyflwyno a'r hyn y mae siambr ddemocrataidd yn barod i dderbyn wedyn fel rhan o gyllideb y gallem ei chyflwyno. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn deall y materion hyn wrth i ni gael y ddadl hon heddiw.

Rwyf am wneud un peth yn hollol glir. Pan gyflwynodd Rhun ap Iorwerth y ddadl, edrychais ar Jane Hutt—sydd wedi cael enw dwbl-baril gen i yn fy nhrafodaethau ar y gyllideb, sef Jane Scrooge-Hutt—ynghylch â'r arian. Yn y cyfarfod pedairochrog diwethaf yng Nghaerdydd, gwn fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cadarnhau y bydd symiau canlyniadol cyllideb HS2 ar ôl 2015-16 yn cael eu penderfynu gan adolygiadau o wariant yn y dyfodol. Felly, gwn fod hynny'n fater y mae Jane wedi'i bwysleisio o ran y drafodaeth ar yr hyn sy'n dod i'r amlwg o HS2. Gallaf eich sicrhau fy mod yn gwybod bod hynny'n wir ac rwy'n gwybod ei fod yn wir ar ran y Gweinidog Cyllid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Our investment in capital projects and franchise services enables rail to play its part in promoting economic growth, providing greater access to jobs and services and reducing poverty among the people of Wales. That is key. We have continually highlighted the importance of HS2 and the scope to maximise the regional benefits arising from the programme, including the modernisation of the north Wales main line, which I know everybody is really keen on both within the Chamber and outside. In March, Sir David Higgins, the chair of HS2 Ltd, published his report on HS2, outlining the way in which the benefits of HS2 could be maximised, its delivery accelerated and its costs minimised. Two pieces of work from Network Rail and HS2 Ltd have been commissioned by the Department for Transport to consider in more detail how we can accelerate sections to the north and integrate decision making between HS2 and Network Rail to make improvements in control period 6. This would expedite the beneficial effects of reduced journey times and increased capacity on HS2, and improve the economies of the north, including north Wales. Julie Morgan, in her contribution, indicated the benefits that can flow in other directions, following the completion of what will hopefully be a very successful national infrastructure project.

Following the publication of the report, I wrote to the Secretary of State for Transport, confirming our commitment to work with the UK Government to ensure that the benefits of HS2 are maximised and to express our support for key parts of the report, including the acceleration of the development of the line to Crewe. I have also asked him to ensure that any additional electrification projects in the north of England consider the north Wales main line and connections into England as a whole, rather than picking off smaller individual projects. That is key in this development. In response, he has invited us to present the work on rail modernisation in north Wales to the north of England task force, and our ministerial task force on north Wales transport, led by the Minister for Local Government and Government Business, has made the link to the opportunities arising from HS2 following a presentation by Peter Waterman from the UK Government's HS2 growth taskforce. This presentation highlighted the importance of developing the business case on the opportunity to unlock the benefits of HS2, and the opportunities for connectivity in north Wales were reflected in the HS2 growth taskforce's recent report. I would like to take this opportunity to put on record my thanks to the Minister and the members of the taskforce, who are drawn from local authorities and business, for their continuing work in this area.

Separately, the north Wales economic ambition board has commissioned work to investigate the economic and social justifications for rail modernisation. HS2 offers potential benefits for Wales, but it is clear that improving connectivity with the north Wales main line is the key to unlocking these benefits. The KPMG report—and I am talking about the KPMG report of 2013—looked at this particular report and talked about the benefits to north Wales. It made a different assessment regarding the benefits to south Wales, but, at the end of the day, the effects of other rail infrastructure were not taken into account—for example, the electrification of the north Wales western main line.

Mae ein buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf a gwasanaethau masnachfaint yn galluogi'r rheilffyrdd i chwarae eu rhan yn hyrwyddo twf economaidd, gan ddarparu mwy o swyddi a gwasanaethau a lleihau tlodi ymysg pobl Cymru. Dyna sy'n allweddol. Rydym wedi mynd ati'n gyson i amlygu pwysigrwydd HS2 a'r cyfle i elwa i'r eithaf ar y manteision rhanbarthol sy'n deillio o'r rhaglen, gan gynnwys moderneiddio prif reilffordd gogledd Cymru, proses y gwn fod pawb yn y Siambr a'r tu allan yn frwd iawn yn ei chylch. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Syr David Higgins, cadeirydd HS2 Ltd, ei adroddiad ar HS2 yn amlinellu'r modd y gellid manteisio i'r eithaf ar HS2, cyflymu'r gwaith o'i gyflwyno a lleihau'r costau. Comisiynodd yr Adran Drafndiaeth ddwy astudiaeth gan Network Rail a HS2 Ltd i ystyried yn fanylach sut y gallwn gyflymu rhannau i'r gogledd ac integreiddio'r broses o wneud penderfyniadau rhwng HS2 a Network Rail er mwyn gwneud gwelliannau yng nghyfnod rheoli 6. Byddai hyn yn hwyluso effeithiau manteisiol yn deillio o leihau amserau teithio a chynyddu capasiti ar HS2, ac yn gwella economïau'r gogledd, gan gynnwys gogledd Cymru. Yn ei chyfraniad, soniodd Julie Morgan am y manteision a all llo i gyfeiriadau eraill yn sgîl cwblhau'r hyn a fydd, gobeithio, yn brosiect seilwaith cenedlaethol llwyddiannus iawn.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cymaint o fanteision â phosibl yn deillio o HS2 ac i fynegi ein cefnogaeth i rannau allweddol o'r adroddiad, gan gynnwys cyflymu datblygiad y rheilffordd i Crewe. Rwyf hefyd wedi gofyn iddo sicrhau bod unrhyw brosiectau trydaneiddio ychwanegol yng ngogledd Lloegr yn ystyried prif reilffordd gogledd Cymru a chysylltiadau i mewn i Loegr yn gyffredinol yn hytrach na symud o un prosiect llai o faint i'r llall. Mae hynny'n allweddol yn y datblygiad hwn. Mewn ymateb, mae wedi ein gwahodd i gyflwyno'r gwaith ar foderneiddio rheilffyrdd gogledd Cymru i dasglu gogledd Lloegr ac mae ein tasglu gweinidogol ar drafndiaeth gogledd Cymru, dan arweiniad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, wedi gwneud y cysylltiad â'r cyfleoedd sy'n deillio o HS2 yn dilyn cyflwyniad gan Peter Waterman o dasglu twf HS2 Llywodraeth y DU. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu achos busnes ar y cyfle i ddatgloi manteision HS2 ac mae'r cyfleoedd ar gyfer cysylltedd yng ngogledd Cymru wedi'u hadlewyrchu yn adroddiad diweddar y tasglu twf HS2. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch i'r Gweinidog ac aelodau'r tasglu a gasglwyd o awdurdodau lleol a busnesau lleol, am eu gwaith parhaus yn y maes hwn.

Ar wahân i hynny, mae bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru wedi comisiynu gwaith i ymchwilio i'r cyfiawnhad economaidd a chymdeithasol dros foderneiddio rheilffyrdd. Mae HS2 yn cynnig manteision posibl i Gymru, ond mae'n amlwg mai gwella cysylltedd â phrif reilffordd gogledd Cymru yw'r allwedd i ddatgloi'r manteision hyn. Edrychodd adroddiad KPMG—rwy'n sôn am adroddiad KPMG ar gyfer 2013—ar yr adroddiad penodol hwn a thrafod y manteision i ogledd Cymru. Mae'n gwneud asesiad gwahanol o ran y manteision i dde Cymru ond yn y pen draw, ni roddwyd sylw i effeithiau seilwaith rheilffyrdd eraill—er enghraifft, trydaneiddio prif reilffordd orllewinol gogledd Cymru.

In terms of the financial implications, the UK Government's budget allocations were made in the June 2013 spending round, and the Government indicated that HS2 is considered to be a national programme with regard to the way in which the Barnett formula operates. However, I go back to the assertion that I made earlier about the discussions that Jane Hutt has been having with the UK Government, and which we will continue, in order to have to look at the consequential arising from the spending review from 2015-16 onwards.

This is a very difficult area when we talk about rail, and it is quite clear from the contributions across the Chamber that there are many diverse opinions. We must have a modern and efficient railway network and integrated transport system if we are going to have economic prosperity; that is key. That is why we are continually highlighting the importance of HS2 and the scope to maximise the regional benefits that will arise from this.

Turning to the amendments that have been tabled, we will be supporting amendment 1 in the name of Paul Davies, because it is likely that HS2 will result in increased demand for rail travel along the north Wales main line. Consequently, the business case for electrification, I believe, will be strengthened by the work going on in that particular area.

We will also be supporting amendment 2, because electrification brings significant potential to introduce transformational change to the transport system in south-east Wales. I was particularly pleased that Jocelyn Davies raised the whole issue of the metro in this context, and the discussion that we want in terms of public transport, the Bill from that and the ongoing work in that area. We will continue to press the UK Government to ensure the maximum benefits to Wales of the electrification of the Great Western main line. Electrification also provides potential for opportunities for employment and for growing supply chains through local sourcing of skills and material, for improving our skills base such as in electrical engineering, and for securing community benefits. I have asked Network Rail to work closely with us to maximise these benefits directly to Wales in terms of employment opportunities and the supply chain.

Turning to amendment 4, we will be supporting that because HS2 will result in an increase in the UK's rail capacity and improve the potential for more freight movement. Freight is really important. One of the recommendations of the freight task and finish group is to explore partners and the opportunities of looking at rail freight connectivity. So, it is very important so support that amendment.

However, we will be opposing amendment 3. We are unable to accept this amendment as it deletes an important part of the motion about the importance of transport infrastructure investment for the future prospects of the Welsh economy. We are committed to working with the UK Government to deliver electrification of the south Wales line. We are identifying with the UK Government ways of ensuring that we get electrification into Wales, and that we get the issues around rail infrastructure sorted.

O ran y goblygiadau ariannol, gwnaed dyraniadau cyllideb Llywodraeth y DU yng nghylch gwariant Mehefin 2013 a nododd y Llywodraeth fod HS2 yn cael ei ystyried yn rhaglen genedlaethol o ran y ffordd y mae fformiwlâ Barnett yn gweithredu. Fodd bynnag, rwy'n dychwelyd at yr honiad a wneuthum yn gynharach ynglŷn â'r trafodaethau rhwng Jane Hutt a Llywodraeth y DU, ac y byddwn yn eu parhau, er mwyn edrych ar y symiau canlyniadol sy'n codi o'r adolygiad o wariant o 2015-16 ymlaen.

Mae hwn yn faes anodd iawn pan fyddwn yn trafod y rheilffyrdd ac mae'n eithaf amlwg o'r cyfraniadau ar draws y Siambr fod yna lawer o safbwyntiau amrywiol. Mae'n rhaid i ni gael rhwydwaith rheilffyrdd modern ac effeithlon a system drafndiaeth integredig os ydym yn mynd i gael ffyniant economaidd; mae hynny'n allweddol. Dyna pam rydym yn tynnu sylw'n barhaus at bwysigrwydd HS2 a'r cyfle i elwa i'r eithaf ar y manteision rhanbarthol a fydd yn deillio ohono.

Gan droi at y gwelliannau a gyflwynwyd, byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Paul Davies am ei bod yn debygol y bydd HS2 yn arwain at gynnydd yn y galw am deithio ar y rheilffyrdd ar hyd prif reilffordd gogledd Cymru. O ganlyniad, rwy'n credu y caiff yr achos busnes dros drydaneiddio ei gryfhau gan y gwaith sy'n digwydd yn yr ardal honno.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2 am fod trydaneiddio yn creu potensial sylweddol i drawsnewid y system drafndiaeth yn ne-ddwyrain Cymru. Roeddwn yn arbennig o falch fod Jocelyn Davies wedi cyfeirio at fater y metro yn y cyd-destun hwn a'r drafodaeth rydym yn awyddus i'w chael ar drafndiaeth gyhoeddus, y Bil a fydd yn deillio o hynny a'r gwaith parhaus yn y maes. Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod trydaneiddio prif reilffordd y Great Western yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru. Mae trydaneiddio hefyd yn creu potensial ar gyfer cyfleoedd gwaith a datblygu cadwyni cyflenwi drwy ddod o hyd i sgiliau a deunyddiau lleol, gwella ein sylfaen sgiliau megis mewn peirianeg drydanol a sicrhau manteision cymunedol. Rwyf wedi gofyn i Network Rail weithio'n agos gyda ni i sicrhau y daw'r manteision gorau'n uniongyrchol i Gymru o ran cyfleoedd gwaith a'r gadwyn gyflenwi.

Gan droi at welliant 4, byddwn yn ei gefnogi oherwydd bydd HS2 yn arwain at gynyddu capasiti rheilffyrdd y DU ac yn gwella'r potensial ar gyfer cludo mwy o nwyddau. Mae cludo nwyddau yn wirioneddol bwysig. Un o argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar gludo nwyddau yw archwilio partneriaid a'r cyfleoedd sy'n codi o edrych ar gysylltedd cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Felly mae'n bwysig iawn cefnogi'r gwelliant hwn.

Fodd bynnag, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 3. Nid ydym yn gallu derbyn y gwelliant hwn am ei fod yn dileu rhan bwysig o'r cynnig am bwysigrwydd buddsoddi yn y seilwaith trafndiaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth y DU i drydaneiddio rheilffordd de Cymru. Gyda Llywodraeth y DU, rydym yn nodi ffyrdd o sicrhau bod trydaneiddio'n digwydd yng Nghymru a'n bod yn datrys y materion sy'n ymwneud â seilwaith rheilffyrdd.

On that basis, I thank you for the opportunity of contributing to this debate.

Ar y sail honno, diolch i chi am y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon.

17:22

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddatl.

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:22

## **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd, a diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau heddiw, er mae'n rhaid dweud bod siom o glywed cymaint o Aelodau yn y Siambur hon yn siarad yn erbyn rhoi y 'pitch' cryfaf posibl dros sicrhau bod Cymru yn gallu manteisio o ddatblygiad HS2. Dyna, yn y pen draw, yr ydym yn sôn amdano.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I would like to thank everyone for their contributions this afternoon, although I have to say that I was a little disappointed to hear so many members in this Chamber speaking against making the strongest possible pitch in order to ensure that Wales can benefit from the development of HS2. That, essentially, is what we are talking about.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Eluned Parrott spent her few minutes arguing against our opposition to HS2. Unfortunately, I am afraid you wasted your time because we have not at any stage said that we are opposed to HS2. What we are saying is that there are apparent threats to Wales coming out of the second KPMG report that we need to counter through investment in our infrastructure in Wales. What better way to invest in our infrastructure in Wales than to use consequentials that should be due to Wales from HS2 spending to bring our infrastructure up to scratch—up to HS2 scratch, if you like—in order to keep our competitive edge. You say, for example, that, in north Wales, HS2 would strengthen the business case for the electrification of the north Wales line. We agree, but you need the funding then for that electrification of the north Wales line.

Treuliodd Eluned Parrott ei hychydig funudau'n dadlau yn erbyn ein gwrthwynebiad i HS2. Yn anffodus, mae arnaf ofn eich bod gwastraffu eich amser am nad ydym ar unrhyw adeg wedi dweud ein bod yn gwrthwynebu HS2. Yr hyn rydym yn ei ddweud yw bod bygythiadau amlwg i Gymru yn deillio o'r ail adroddiad KPMG sydd angen i ni eu gwrthsefyll drwy fuddsoddi yn ein seilwaith yng Nghymru. Pa ffordd well o fuddsoddi yn ein seilwaith yng Nghymru na defnyddio symiau canlyniadol a ddylai fod yn ddyledus i Gymru o wariant HS2 er mwyn codi safon ein seilwaith—neu ei godi i safon HS2, os mynnwch—er mwyn cadw ein mantais gystadleuol. Rydych yn dweud, er enghraifft, y byddai HS2 yn cryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru. Rydym yn cytuno, ond mae angen cyllid ar gyfer gwaith i drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.

Byron Davies said that north Wales can benefit from HS2 if we start planning for it now. Is that not exactly what we are doing—planning for it now in putting the case to the UK Government as strongly as possible that there should be a Welsh consequential in order to make sure that north Wales can fully benefit from HS2 and the connection in Crewe?

Dywedodd Byron Davies y gall gogledd Cymru elwa o HS2 os dechreuwn gynllunio ar ei gyfer yn awr. Onid dyna'n union rydym yn ei wneud—cynllunio ar ei gyfer yn awr drwy gyflwyno achos mor gryf â phosibl y dylai fod swm canlyniadol i Gymru er mwyn gwneud yn siŵr y gall gogledd Cymru elwa'n llawn o HS2 a'r cysylltiad yn Crewe?

We talk about the opportunity and the reason why we are doing this now. The statement of funding policy is up for revision, which we will see the results of in the summer of next year. I appreciate the information from the Minister about the meeting between the Minister for Finance and the Chief Secretary to the Treasury, but we need to see you knocking on the door of the Treasury between now and the publication of the review of the statement of funding policy to make sure that, when we see that new policy, it is there in black and white that there will be HS2 consequentials for Wales.

Rydym yn siarad am y cyfle a'r rheswm pam y gwnawn hyn yn awr. Mae'n bryd adolygu'r datganiad polisi cyllid a byddwn yn gweld y canlyniadau yn ystod haf y flwyddyn nesaf. Rwy'n derbyn y wybodaeth gan y Gweinidog ynglŷn â'r cyfarfod rhwng y Gweinidog Cyllid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ond mae angen i ni eich gweld yn curu ar ddrws y Trysorlys rhwng nawr a chyhoeddi'r adolygiad o'r datganiad polisi cyllid i wneud yn siŵr, pan fyddwn yn gweld y polisi newydd hwnnw, ei fod yno mewn du a gwyn y bydd symiau canlyniadol HS2 ar gael i Gymru.

Byron Davies talks about team Wales. Frankly, Byron Davies, I do not want a member on team Wales with me who spends most of the game kicking the ball into the net at the other end of the pitch. We need to be working together on this, which is why we have made the appeal for a collective signal to be sent from the Assembly today, in order for the UK Government to hear that there is a desire to look in detail at what is due to Wales.

Mae Byron Davies yn sôn am dîm Cymru. A dweud y gwir, Byron Davies, nid wyf eisiau aelod o dîm Cymru gyda mi sy'n treulio'r rhan fwyaf o'r gêm ynicio'r bêl i'r rhywd ar ben arall y cae. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd ar hyn a dyna pam rydym wedi apelio am gael anfon neges ar y cyd o'r Cynulliad heddiw er mwyn i Lywodraeth y DU glywed bod awydd i edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n ddyledus i Gymru.

Nick Ramsay spent his time talking about 'what we have done for this' and 'what we have done for that' in infrastructure spending in Wales. The 'we', I assume, is the UK Government. Nick Ramsay, I have got news for you; you are not a member of the UK Government. You are sitting in opposition in the National Assembly for Wales as a Member for Monmouth. It is your job, at every opportunity, to stand up for the people of Monmouth and make sure that we have every opportunity to invest in our infrastructure in Wales. Now is the time to be sending out the signal.

For the record, I agree with Julie Morgan—

*Nick Ramsay a gododd—*

Treuliodd Nick Ramsay ei amser yn siarad am 'yr hyn rydym wedi ei wneud ar gyfer y peth hwn a'r hyn rydym wedi'i wneud am y peth arall' o ran gwariant ar seilwaith yng Nghymru. Y 'ni', rwy'n tybio, yw Llywodraeth y DU. Nick Ramsay, mae gen i newyddion i chi; nid aelod o Lywodraeth y DU ydych chi. Rydych yn eistedd gyda'r wrthblaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr Aelod dros Fynwy. Eich gwaith chi, ar bob cyfle, yw sefyll dros bobl Mynwy a gwneud yn siŵr ein bod yn cael pob cyfle i fuddsoddi yn ein seilwaith yng Nghymru. Nawr yw'r amser i anfon y neges honno.

Ar gyfer y cofnod, rwy'n cytuno â Julie Morgan-

*Nick Ramsay rose—*

17:26

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no time, sorry.

I agree with Julie Morgan on Heathrow. As a matter of fact, it was a point that was forcefully put on many occasions by the former First Minister, I remember, about the importance of keeping the main London hub this side of London. Whether HS2 could play into that, we shall wait and see. However, you did say that we should be fighting for the greatest possible benefits for Wales from HS2, and that means sending a signal to London and speaking with one voice that we are due a consequential from this spending on HS2, so please back the Plaid Cymru motion today.

Nid oes gennyf amser, mae'n ddrwg gennyf.

Rwy'n cytuno â Julie Morgan ynglŷn â Heathrow. Fel mater o ffaith, roedd yn bwynt a fynegwyd yn rymus ar sawl achlysur gan y cyn Brif Weinidog, rwy'n cofio, ynghylch pwysigrwydd cadw prif ganolbwynt Llundain yr ochr hon i Lundain. Byddwn yn aros i weld a allai HS2 fod yn rhan o hynny. Fodd bynnag, roeddech yn dweud y dylem fod yn ymladd am y manteision mwyaf posibl i Gymru o HS2 ac mae hynny'n golygu anfon neges i Lundain a siarad ag un llais fod arian canlyniadol yn ddyledus i ni yn sgîl y gwariant ar HS2, felly cefnogwch gynnis Plaid Cymru heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnis heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting time now follows.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

The question is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there is objection, so I will defer the vote on this item until voting time.

Amser pleidleisio bellach yn dilyn.

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:27

## Cyfnod Pleidleisio

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NNDM5502.](#)

*Derbyniwyd y cynnis: O blaid 24, Yn erbyn 3, Ymatal 22.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5504.](#)

*Derbyniwyd y cynnis: O blaid 45, Yn erbyn 5, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5505.](#)

*Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 9, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

## Voting Time

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Result of the vote on motion NNDM5502.](#)

*Motion agreed: For 24, Against 3, Abstain 22.*

[Result of the vote on motion NDM5504.](#)

*Motion agreed: For 45, Against 5, Abstain 0.*

[Result of the vote on motion NDM5505.](#)

*Motion not agreed: For 9, Against 41, Abstain 0.*

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5505.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5505.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5505.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5505.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

Cynnig NDM5505 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu rhwydwaith rheilffordd cyflymder uchel HS2 yn Lloegr.
2. Yn cydnabod y cyfleoedd y mae HS2 yn eu cynnig i gryfhau'r achos busnes dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.
3. Yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western.
4. Yn nodi pwysigrwydd hanfodol buddsoddi yn y seilwaith trafndiaeth ar gyfer rhagolygon economi Cymru yn y dyfodol.
5. Yn croesawu'r cynnydd yng nghapasiti rheilffyrdd y DU yn sgil datblygu HS2, a fydd yn galluogi rhagor o gerbydau cludo i deithio ar y rheilffyrdd ar hyd a lled y DU.
6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid canlyniadol Barnett llawn neu unrhyw setliad ariannol teg arall, yn sgil datblygu HS2.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5505 fel y'i diwygiwyd.](#)

*Derbyniwyd cynnis NDM5505 fel y'i diwygiwyd: O blaid 31, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5505.](#)

*Amendment agreed: For 41, Against 9, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5505.](#)

*Amendment agreed: For 41, Against 9, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5505.](#)

*Amendment not agreed: For 16, Against 34, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5505.](#)

*Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 9.*

Motion NDM5505 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the UK Government's intention to develop the HS2 high-speed rail network in England.
2. Recognises the opportunities that HS2 represents in strengthening the business case for electrification of the north Wales line.
3. Welcomes the significant investment in the electrification of the Great Western Main Line.
4. Notes the critical importance of transport infrastructure investment for the future prospects of the Welsh economy.
5. Welcomes the increase in the UK's rail capacity from the development of HS2 which will enable more freight movement to be achieved by rail across the UK.
6. Calls on the Welsh Government to secure full Barnett consequentials, or any other fair financial settlement, from the development of HS2.

[Result of the vote on motion NDM5505 as amended.](#)

*Motion NDM5505 as amended agreed: For 31, Against 19, Abstain 0.*

17:30

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:30.*

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

*Sandy Mewies took the Chair at 17:30.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Dadl Fer: Parciau Cenedlaethol Cymru: Dychwelyd i'w Gwreiddiau i Gynllunio ar gyfer Dyfodol Cryfach

We now move to the short debate and I call William Powell to speak on the topic he has chosen. Will Members please leave quietly?

### William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It gives me great pleasure to hold this debate today and indeed to extend a minute of my time to Lord Dafydd Elis-Thomas, a man who, like myself, is a friend of the Welsh national parks, albeit at times a critical friend.

When the National Parks and Access to the Countryside Act passed through Parliament with cross-party support in 1949, it signified a new age in terms of how Britain chose to view its rural landscapes and protect them for future generations. Within 10 years, England and Wales had established 10 parks, with the last of the original group being the Brecon Beacons National Park, which was established back on 17 April 1957. That is a place that I call 'home'. Since that time, several changes have affected how our national parks are managed, and they remain wedded to the two statutory purposes that drive their operations: first to conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the area; and, secondly, to promote opportunities for the understanding and enjoyment of the parks' special qualities by the wider public. While I am sure that few would disagree with these laudable purposes, it is incumbent upon us to reflect upon and indeed to revisit them in order to determine what the future holds for national parks, particularly here in Wales, in the very different governance landscape in which we now find ourselves. To that end, I have tabled today's debate to expand on the ongoing discussions that are being had around the future of the national parks and to seek to ensure that their founding principles of environmental and cultural protection and promotion are not jeopardised as we continue down the road of inevitable and necessary reform.

In doing so, I do not intend to be distracted by the elephant in the room, which is the vexed issue of planning and development control functions. I appreciate that planning sits within the portfolio of the Minister for Housing and Regeneration and that it is currently very much up for discussion as part of the wider issues around the planning Bill. However, I think that it would be right to observe that, for too long, it has been the case that planning and the associated difficulties and the conflict that sometimes arises around regeneration have sometimes served as a positive distraction from the delivery of those core functions of national parks. Indeed, those planning powers should never be viewed in isolation from the wider policies, such as regeneration and economic development, upon which the local people who reside within the park rightly depend. Where the control of these policies will fall must be a central part of any governance review, be it in the context of the Minister's ongoing work or indeed in terms of the recommendations of the Williams commission.

## Short Debate: Wales's National Parks: Returning to their Roots to Plan for a Stronger Future

### Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn yn awr at y ddadl fer a galwaf ar William Powell i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis. A wnaiff yr Aelodau adael yn dawel os gwelwch yn dda?

Mae'n rhoi pleser mawr i mi i gyflwyno'r ddadl hon heddiw ac yn wir i roi munud o fy amser i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, dyn sydd, fel finnau, yn gyfaill i barciau cenedlaethol Cymru, er yn gyfaill beirniadol ar adegau.

Pan basiwyd y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad drwy'r Senedd gyda chefnogaeth ar draws y pleidiau yn 1949, roedd yn arwydd fod oes newydd ar gychwyn o ran y modd y dewisai Prydain weld ei thirweddau gwledig a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O fewn 10 mlynedd, roedd Cymru a Lloegr wedi sefydlu 10 parc, a'r olaf o'r grŵp gwreiddiol oedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a sefydlwyd ar 17 Ebrill 1957. Dyna'r fan rwy'n ei galw'n 'gartref'. Ers hynny, mae nifer o newidiadau wedi effeithio ar sut y caiff ein parciau cenedlaethol eu rheoli ac maent yn parhau i fod wedi'u cysylltu'n dynn at y ddau ddioben statudol sy'n llywio eu gweithrediadau: yn gyntaf, i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; ac yn ail, i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd yn gyffredinol ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y parciau. Er fy mod yn siŵr na fyddai fawr o neb yn anghytuno â'r dibenion canmoladwy hyn, mae'n ddyletswydd arnom i fyfyrto ac yn wir i ailedrych arnynt er mwyn penderfynu beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig i barciau cenedlaethol, yn enwedig yma yng Nghymru, yn y dirwedd lywodraethol wahanol iawn sydd gennym bellach. I'r perwyl hwnnw, rwy wedi cyflwyno dadl heddiw er mwyn ymhelaethu ar y trafodaethau parhaus sydd ar y gweill ynghylch dyfodol y parciau cenedlaethol a cheisio sicrhau nad yw eu hegwyddorion sylfaenol ynghylch diogelu a hyrwyddo'r amgylchedd a diwylliant yn cael eu peryglu wrth i ni wynebu'r broses anochel ac angenrheidiol o ddiwygio.

Wrth wneud hynny, ni fwriadaf i fy sylw gael ei dynnu gan yr elfiant yn yr ystafell, sef mater dadleuol swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu. Rwy'n sylweddoli mai rhan o bortffolio'r Gweinidog Tai ac Adfywio yw cynllunio a'i fod ar hyn o bryd yn fater y bydd llawer o drafod arno fel rhan o'r materion ehangach sy'n ymwneud â'r Bil cynllunio. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y byddai'n iawn i mi nodi fod cynllunio a'r anawsterau a'r gwrthdaro cysylltiedig sy'n codi ambell waith ynghylch adfywio wedi bod tynnu sylw ers yn rhy hir oddi wrth y modd y cyflawnir swyddogaethau craidd y parciau cenedlaethol ar brydiau. Yn wir, ni ddylid edrych ar y pwerau cynllunio hynny ar wahân i'r polisiâu ehangach, megis adfywio a datblygu economaidd y bydd y bobl leol sy'n byw o fewn y parc, yn ddigon teg, yn dibynnu arnynt. Rhaid i bwy sy'n gyfrifol am reoli'r polisiâu fod yn rhan ganolog o unrhyw adolygiad llywodraethu, boed yng nghyd-destun gwaith parhaus y Gweinidog neu'n wir o ran argymhellion comisiwn Williams.



In having these reviews, we must never forget that our national parks are indeed living places. As highlighted by ARUP's 'Valuing Wales' National Parks' report, unlike those in many other countries, our national parks are places of human habitation and hold within them many hundreds of established communities and mature industries that must be sustained and allowed to prosper. It is well known that these interests contribute more than £0.5 billion to Wales's annual GVA and that they represent 1.2% of the overall Welsh economy. More than 80,000 people have their homes in our national parks and almost 30,000 are employed within their boundaries. Our national parks are visited by more than 12 million people every year and cost the Welsh taxpayer less than £5 a year in terms of funding. With such figures in mind, it is easy to understand why the national parks are considered so important, and also why it is vital that we get their governance arrangements right.

There have been calls in some quarters for the abolition of national park designations. I reject these calls. Our national parks have been a major success story in so many ways over the last 60 years. They have brought huge environmental and economic benefits to the areas concerned. Nevertheless, we need to be aware that reform is needed, but that does not, in my view, add up to abolition. This is especially the case as the Government considers the options for local government re-organisation that are presented by the Williams commission. The potential for fewer local authorities in the future makes the case for dedicated, specialist national park arrangements even stronger, in my view—whether that will be in a single entity or under a federal model is very much up for discussion. We must see the national parks both within the strategic context of the future structure of wider governance arrangements in our country.

We must consider carefully what reforms are needed in the national parks. In my view, one key reform is to address the democratic deficit in the current national park governance arrangements and I, along with many other colleagues within this party and beyond, have called for the introduction of direct elections to ensure that outcome. That is why I am pleased to see that the Williams commission has addressed, albeit briefly, the case for improved democratisation. As a former member of the Brecon Beacons National Park Authority, I am all too aware of the need for public accountability, and have consistently advocated a move towards direct elections. What form that would take is a matter for further debate.

Drwy gael yr adolygiadau hyn, ni ddylem fyth anghofio bod ein parciau cenedlaethol yn llefydd byw mewn gwirionedd. Fel yr amlygwyd yn adroddiad 'Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru' gan ARUP, yn wahanol i barciau mewn llawer o wledydd eraill, mae ein parciau cenedlaethol yn lleoedd y mae pobl yn byw ynddynt ac yn cynnwys cannoedd o gymunedau sefydledig a diwydiannau aeddfed y mae'n rhaid eu cynnal a chaniatáu iddynt ffynnu. Mae'n hysbys bod y buddiannau hyn yn cyfrannu dros £0.5 biliwn i GYC blynyddol Cymru a'u bod yn 1.2% o gyfanswm economi Cymru. Mae mwy na 80,000 o bobl yn byw yn ein parciau cenedlaethol a bron 30,000 yn cael eu cyflogi o fewn eu ffiniau. Mae mwy na 12 miliwn o bobl yn ymweld â'n parciau cenedlaethol bob blwyddyn ac maent yn costio llai na £5 y flwyddyn i drethdalwyr Cymru o ran cyllido. Gan ystyried ffigurau o'r fath, mae'n hawdd deall pam yr ystyrir bod y parciau cenedlaethol mor bwysig, a hefyd pam y mae'n hanfodol i ni sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu'n gywir.

Cafwyd galwadau mewn rhai manau am ddiwydymu dynodiadau parciau cenedlaethol. Rwy'n gwrthod y galwadau hyn. Mae ein parciau cenedlaethol wedi bod yn llwyddiant mawr mewn cymaint o ffyrdd dros y 60 mlynedd diwethaf. Maent wedi dod â manteision amgylcheddol ac economaidd enfawr i'r ardaloedd dan sylw. Serch hynny, mae angen i ni fod yn ymwybodol bod angen diwygio, ond nid yw hynny, yn fy marn i, yn gyfystyr â diddymu. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod y Llywodraeth yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol a gyflwynwyd gan gomisiwn Williams. Mae'r potensial i gael llai o awdurdodau lleol yn y dyfodol yn cefnogi'r achos dros drefniadau penodol, arbenigol a chryfach fyth i'r parciau cenedlaethol yn fy marn i—mae pa un a fydd hynny ar ffurf un endid neu fodel ffederal yn fater y bydd llawer o drafod arno. Rhaid i ni weld y parciau cenedlaethol yng nghyd-destun strategol strwythur y trefniadau llywodraethu ehangach yn ein gwlad yn y dyfodol.

Rhaid inni ystyried yn ofalus pa ddiwygiadau sydd eu hangen yn y parciau cenedlaethol. Yn fy marn i, un diwygiad allweddol yw mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd yn nhrefniadau llywodraethu cyfredol y parciau cenedlaethol ac rwyf innau, ynghyd â llawer o gydweithwyr eraill yn y blaid hon a thu hwnt, wedi galw am gyflwyno etholiadau uniongyrchol i sicrhau hynny. Dyna pam rwy'n falch o weld bod comisiwn Williams wedi mynd i'r afael, er yn fyr, â'r achos dros wella democrateiddio. Fel cyn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rwy'n ymwybodol iawn o'r angen am atebolrwydd cyhoeddus, ac rwyf wedi argymhell yn gyson y dylid symud tuag at etholiadau uniongyrchol. Mae pa ffurf a fyddai iddynt yn fater i'w drafod ymhellach.

I do not refute, for one moment, the valuable contribution made by National Assembly appointees and I feel that that contribution should continue. However, in terms of local authority representation, surely it makes no sense whatsoever for representatives to be chosen purely on a basis of political balance regardless of whether they live within or without the park boundaries. This would threaten to silence the voice of those who actually live inside the national park designated area. This issue is most acutely felt in the Brecon Beacons National Park Authority, with its very diverse makeup, but nevertheless, there are impacts too in Pembrokeshire coast and Snowdonia. Another issue that I think needs addressing is the desirability of having full fixed terms of national park membership that are coterminous with the entire time of a local council, because you can have councils with maybe disputatious independents or other in-fighting that can lead to constant change in national park membership and this very much undermines the principles of good governance. I must say that I have had some experience of witnessing and picking up the pieces in that regard.

As someone who is both a town councillor and a county councillor, I am all too aware of the key role that different levels of governance have to play in ensuring that our parks are effectively managed. However, to me, whether we go down the route of relatively minor change, a full Scottish-style overhaul, or indeed some other hybrid model, it is vital that change is made and that the residents of the national parks gain a stronger say in how they are run and how they operate in the long term.

A key issue for all our communities is their economic and social wellbeing. Indeed that has been the subject matter on the agenda in Plenary today. However, this is especially the case in the national parks. The nature of life in a national park requires a balance between preserving the natural beauty and other special qualities of the area against the needs of the wider population. Residents must not end up feeling that they are living in a type of heritage theme park.

Local communities within national parks must be allowed to prosper with all the opportunities associated with modern life. I pay tribute today to the fact that we have Nick Ramsay on the benches opposite, because he has done a great deal to contribute to the initiative of the Dark Skies project within the Brecon Beacons National Park area and that is just a case in point. Indeed, the Environment Act 1995 revised the original legislation so that, in carrying out their purposes, national parks also have a duty to seek to foster the economic and social wellbeing of local communities within their boundaries. The economic and community development is, therefore, vital to the future of local communities within our national parks. As I have said, it is time for a fundamental rebalancing. This rebalancing will allow our national parks to safeguard their unique natural environment without sacrificing the economic wellbeing of local people. I hope that, in some small part, today's session will contribute to this historic and necessary national debate.

Nid wyf yn gwrthod am eiliad y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac rwy'n teimlo y dylai'r cyfraniad barhau. Fodd bynnag, o ran cynrychiolaeth awdurdodau lleol, yn sicr nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl fod cynrychiolwyr yn cael eu dewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unig pa un a ydynt yn byw o fewn neu'r tu allan i ffiniau'r parc. Byddai hyn yn bygwth tawelu llais y rhai sydd mewn gwirionedd yn byw y tu mewn i ardal ddynodedig y parc cenedlaethol. Mae'r mater hwn i'w deimlo gryfaf yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gyda'i gyfansoddiad amrywiol iawn. Serch hynny, mae effeithiau hefyd i'w teimlo ar arfordir Penfro ac yn Eryri. Mater arall y credaf fod angen mynd i'r afael ag ef yw'r awydd i ymestyn aelodaeth o'r parc cenedlaethol am gyfnodau penodol llawn sy'n cydreddeg â chyfnod llawn cyngor lleol, oherwydd gallwch gael cyngorau ag aelodau annibynnol dadleugar efallai, neu gecru mewnol arall a all arwain at newid cyson yn aelodaeth y parc cenedlaethol ac mae hyn yn tansellio egwyddorion llywodraethu da yn fawr. Rhaid i mi ddweud fy mod wedi cael rhywfaint o brofiad o hynny ac o ymdopi â'r canlyniadau.

Fel rhywun sy'n gynghorydd tref a chynghorydd sir, rwy'n ymwybodol iawn o'r rhan allweddol sydd gan wahanol lefelau o lywodraeth i'w chwarae o ran sicrhau bod ein parciau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Ond i mi, pa un a fyddwn yn dilyn llwybr o newid cymharol fach, trawsnewid llwyr tebyg i'r hyn y mae'r Alban yn ei wynebu neu fodel hybrid arall yn wir, mae'n hanfodol fod newid yn digwydd a bod trigolion y parciau cenedlaethol yn cael llais cryfach yn y modd y cânt eu rhedeg a sut y maent yn gweithredu yn y tymor hir.

Un mater allweddol ar gyfer ein holl gymunedau yw eu lles economaidd a chymdeithasol. Yn wir, dyna'r pwnc sydd wedi bod ar agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw. Fodd bynnag, mae hyn yn arbennig o wir yn y parciau cenedlaethol. Mae natur bywyd mewn parc cenedlaethol yn gofyn am gydbwysio rhwng gwarchod harddwch naturiol a rhinweddau arbennig eraill yr ardal ag anghenion y boblogaeth ehangach. Ni ddylai preswylwyr deimlo'u eu bod yn byw mewn math o barc thema treftadaeth.

Rhaid galluogi cymunedau lleol yn y parciau cenedlaethol i ffynnu gyda'r holl gyfleoedd sy'n gysylltiedig â bywyd modern. Rwy'n rhoi teyrnged heddiw i'r ffaith fod gennym Nick Ramsay ar y meinciau gyferbyn, am ei fod wedi cyfrannu llawer iawn at fenter y prosiect Awyr Dywyll yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a dim ond un enghraifft yw hyn. Yn wir, diwygiodd Deddf yr Amgylchedd 1995 y ddeddfwriaeth wreiddiol er mwyn ei gwneud yn ddyletswydd ar barciau cenedlaethol, wrth gyflawni eu dibenion, i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn eu ffiniau. Felly mae datblygiad economaidd a chymunedol yn hanfodol i ddyfodol cymunedau lleol yn ein parciau cenedlaethol. Fel y dywedais, mae'n bryd newid y cydbwysedd sylfaenol. Bydd ail-gydbwysio o'r fath yn galluogi ein parciau cenedlaethol i ddiogelu eu hamgylchedd naturiol unigryw heb aberthu lles economaidd pobl leol. Rwy'n gobeithio y bydd sesiwn heddiw yn cyfrannu rhywfaint bach at y ddatl genedlaethol hanesyddol ac angenrheidiol hon.

17:40

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr i William Powell am agor a chynnig y ddadl hon a hefyd am roi cyfle i mi siarad, gan ein bod ni wedi cyfarfod am y tro cyntaf, os ydw i'n cofio'n iawn, mewn cynhadledd yn ymwneud â'r parciau cenedlaethol. Rwy'n cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y newid y cyfeiriodd ato yn Neddf 1995, oherwydd ar hyd fy amser, rwyf wedi ceisio cael cydbwysedd gwell rhwng natur a phobl o fewn y parc, ac felly rwy'n edrych ar fywyd y parc. Rwyf wedi byw ar hyd f'oes yn Eryri neu ar bwys Eryri, ac wedi cael y fraint o gynrychioli'r rhan fwyaf o ardal y parc. Fodd bynnag, y pwynt rwyf am ei wneud y prynhawn yma ydy fy mod i wedi cael profi rhyfeddod arall yn ddiweddar iawn, ers yr etholiad cyn diwethaf, sef o gael cynrychioli ardal o harddwch naturiol eithriadol Llŷn. Yr hyn rwyf am ei ofyn i'r Gweinidog y prynhawn yma ydy un cwestiwn: onid yw'r amser wedi dod i ni roi i'r ardaloedd o harddwch naturiol yng Nghymru yr un statws, yr un gefnogaeth gyllido a'r un math o batrwm rheolaeth arbenigol ac sydd gan y parciau cenedlaethol?

Thank you very much to William Powell for opening and tabling this debate and also for giving me an opportunity to speak, because we met for the first time, if memory serves me, in a conference on the national parks. I take some responsibility for the change that he referred to in the 1995 Act, because, over the many years that I have been involved, I have tried to achieve a better balance between nature and people within the national parks, and that is how I look at the life of the park. I have lived throughout my life in Snowdonia or in that area, and have had the privilege of being a representative of the majority of the area of the park. However, the point that I want to make this afternoon is that I have recently experienced another wonder, since the election before last, that of representing the area of outstanding natural beauty of the Llŷn peninsula. What I want to ask the Minister this afternoon is one question: has the time not come for us to give the areas of natural beauty in Wales the same status, the same financial support and the same pattern of expert governance as that which the national parks have?

17:41

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Culture and Sport to reply to the debate—John Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ymateb i'r ddadl—John Griffiths.

17:41

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro—rwy'n meddwl.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer—I think.

I think that it is clear that this is a very timely short debate, and I would like to begin by congratulating William Powell on bringing these matters to Plenary today. Clearly, it is a time of important consideration of national parks, national park authorities and how we move forward. There are some important pieces of work taking place, so I think that it is absolutely right that, in that context, we should, here in the National Assembly for Wales, debate and discuss these matters and give them the airing that a short debate allows.

Rwy'n meddwl ei bod yn amlwg fod hon yn ddadl fer amserol iawn a hoffwn ddechrau drwy longyfarch William Powell ar gyflwyno'r materion hyn gerbron y Cyfarfod Llawn heddiw. Yn amlwg, mae'n gyfnod o ddwys ystyried ar barciau cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol, a sut rydym am symud ymlaen. Mae peth gwaith yn digwydd, felly rwy'n meddwl ei bod yn gwbl gywir, yn y cyd-destun, ein bod ni yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn dadlau a thrafod y materion hyn a'u gwyntyllu yn yr amser y mae dadl fer yn ei ganiatáu ar eu cyfer.

I would like to begin by very much agreeing with Bill Powell in terms of the importance of our national parks and the value that they have for Wales. Indeed, together with other areas designated for their natural beauty and importance, they really do bring an awful lot to Wales as a whole, as well as the particular areas that they cover. We must realise that, because that is the very crucial starting point for any debate about functions, governance or structure.

Hoffwn ddechrau drwy gytuno'n bendant iawn â Bill Powell o ran pwysigrwydd ein parciau cenedlaethol a'u gwerth i Gymru. Yn wir, yn ogystal ag ardaloedd eraill sydd wedi'u dynodi ar sail eu harddwch naturiol a'u pwysigrwydd, maent yn cyfrannu llawer iawn i Gymru gyfan yn ogystal â'u hardaloedd penodol. Rhaid i ni sylweddoli hynny, oherwydd dyna'r pwynt cychwynnol hollbwysig i unrhyw drafodaeth ynglŷn â swyddogaethau, llywodraethu a strwythur.

When we talk about those assets, they really do underpin Wales and Wales's national wealth. They are rightly described as national treasures and, of course, they help to project Wales on the world stage. Each of our three national parks, for example, has a unique sense of place, natural beauty, biodiversity and cultural heritage. They provide many opportunities for enjoyment and personal development for the people living within the areas, for Wales as a whole and for visitors to our country. Of course, they provide a wide range of services and public benefits for the local communities. Therefore, they really are about exceptional opportunities to experience the natural environment, with national trails, the Wales coast path and open-access areas, for example. The recreational activities are very significant, whether it is mountain biking, mountaineering, canoeing or coasteering. All of those allow people to take advantage of the stunning landscapes. I give way to Nick Ramsay.

Pan fyddwn yn sôn am yr asedau hynny, maent yn sail wirioneddol i Gymru a chyfoeth cenedlaethol Cymru. Mae'n briodol eu disgrifio fel trysorau cenedlaethol ac wrth gwrs, maent yn helpu i gyflwyno Cymru ar lwyfan y byd. Mae i bob un o'n tri pharc cenedlaethol, er enghraifft, ymdeimlad unigryw o le, harddwch naturiol, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Maent yn cynnig llawer o gyfleoedd i fwynhau a datblygu'n bersonol i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd, i Gymru gyfan ac i ymwelwyr â'n gwlad. Wrth gwrs, maent yn darparu ystod eang o wasanaethau a manteision cyhoeddus ar gyfer y cymunedau lleol. Felly maent yn ymwneud mewn gwirionedd â chyfleoedd eithriadol i brofi'r amgylchedd naturiol, gyda llwybrau cenedlaethol, llwybr arfordir Cymru ac ardaloedd mynediad agored, er enghraifft. Mae'r gweithgareddau hamdden yn sylweddol iawn, boed yn feicio mynydd, mynydda, canwïo neu arforgampau. Mae'r rhain oll yn galluogi pobl i fanteisio ar y tirweddau syfrdanol. Ildiaf i Nick Ramsay.

17:44 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with all those things that you just mentioned about the assets that are our national parks. The Brecon Beacons National Park also has international Geopark status, so national parks in Wales are ahead of the game in being very innovative in the way that they market themselves to the wider world, not just appealing to tourists, but appealing to geologists and scientists as well.

Rwy'n cytuno â'r holl bethau rydych newydd eu crybwyll am asedau ein parciau cenedlaethol. Mae statws Geoparc rhyngwladol gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd, felly mae parciau cenedlaethol Cymru ar flaen y gad o ran bod yn arloesol iawn yn y ffordd y maent yn marchnata eu hunain i'r byd ehangach, gan apelio at ddaeargwyr a gwyddonwyr yn ogystal â thwristiaid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:44 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree, and I think that that is a clear example that our national parks and our national park authorities have not ossified, as some might suggest. They are very conscious of the challenges of modern times and the need to develop further, and to introduce new ideas and fresh energy. I think that that is a very good example; dark skies, of course, is another.

Cytunaf yn llwyr, ac rwy'n credu bod hynny'n dangos yn eglur nad yw ein parciau cenedlaethol a'n hawdurdodau parciau cenedlaethol yn ffosileiddio fel y byddai rhai yn ei awgrymu. Maent yn ymwybodol iawn o heriau'r cyfnod modern a'r angen i ddatblygu ymhellach, ac i gyflwyno syniadau newydd ac egni ffres. Rwy'n meddwl fod hynny'n enghraifft dda iawn; mae awyr dywyll, wrth gwrs, yn un arall.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

So, there are tangible benefits from these areas of great natural beauty, and there are important advantages for health and wellbeing, and the delivery of cultural services. So, they are very much appreciated, I believe, by the people of Wales and the people far beyond our borders. It is very important to recognise that in the context of having this debate, and the debate to come.

Felly mae manteision gwirioneddol i'w cael o'r ardaloedd hyn o harddwch naturiol gwych ac mae manteision pwysig i'w cael o ran iechyd a lles, a darparu gwasanaethau diwylliannol. Credaf eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan bobl Cymru a phobl ymhell y tu hwnt i'n ffiniau. Mae'n bwysig iawn cydnabod hyn yng nghyd-destun y ddadl hon, a'r ddadl i ddod.

The Commission on Public Service Governance and Delivery put forward three recommendations, and I am currently considering those. They are very important in terms of these matters. Of course, the governance review is absolutely crucial and will be our way of taking the commission's recommendations forward. So, we will have that governance review. It will be carried out by an independent review body, appointed by me and supported by my officials. Following that, we will move forward to consider the different governance arrangements for designated landscapes that will best enable them to deliver their statutory purposes and would best promote collaboration, joint working, and avoiding duplication and waste. It will also deal with those vital relationships with local authorities, Visit Wales, Natural Resources Wales, and the third sector to together deliver best for the people of Wales. Of course, 25% of Wales is designated for its natural beauty. The majority of that land is not in public ownership, so, among those partnerships and relationships, landowners and managers of that land are absolutely crucial as well.

It is important that we have a vision for our designated landscapes that will enable them to become key delivery vehicles, ever more so, for achieving a more sustainable way of living in rural Wales, which William Powell touched upon: the need to have sustainability and sustainable development in rounded terms at the heart of what our designated landscapes are about. So, the organisations responsible for their governance must be the mechanism that enables that collaboration, that networking, and those partnerships to build and thrive, with that delivery of sustainable development to feature increasingly as we all move forward together.

So, there is much to discuss, among which is Dafydd Elis-Thomas's question about one designation, which will be an important part of the work that I described. I know that there are various views involved in whether that would be beneficial for Wales or not. I very much look forward to that debate. I think that it is an important one, and an important aspect of these general matters and the consideration necessary.

Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyflwyno tri argymhelliad ac rwy'n ystyried y rheini ar hyn o bryd. Maent yn bwysig iawn o ran y materion hyn. Wrth gwrs, mae'r adolygiad llywodraethu yn hollol hanfodol a dyna fydd ein ffordd o symud argymhellion y comisiwn yn eu blaenau. Felly bydd gennym yr adolygiad llywodraethu. Bydd yn cael ei gynnal gan gorff adolygu annibynnol wedi'i benodi gennyf i a fy swyddogion. Yn dilyn hynny, byddwn yn symud ymlaen i ystyried y trefniadau llywodraethu gwahanol ar gyfer y tirweddau dynodedig gorau i'w galluogi i gyflawni eu dibenion statudol ac a fyddai'n cynnig y ffordd orau i hyrwyddo cydweithio, gweithio ar y cyd ac osgoi dyblygu a gwastraff. Bydd hefyd yn ymdrin â chysylltiadau hanfodol ag awdurdodau lleol, Croeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r trydydd sector i sicrhau'r gorau i bobl Cymru gyda'i gilydd. Wrth gwrs, mae 25% o Gymru wedi'i ddynodi am ei harddwch naturiol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r tir hwnnw mewn perchnogaeth gyhoeddus, felly ymlith y partneriaethau a'r cysylltiadau hynny, mae tirlfeddianwyr a rheolwyr tir yn gwbl hanfodol hefyd.

Mae'n bwysig i ni gael gweledigaeth ar gyfer ein tirweddau dynodedig a fydd yn eu galluogi i ddod yn gyfryngau allweddol ar gyfer cyflawni, ac yn fwy felly ar gyfer sicrhau ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru, mater y cyfeiriodd William Powell ato: yr angen i sicrhau bod cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy go iawn wrth wraidd ein tirweddau dynodedig. Felly, rhaid i'r sefydliadau sy'n gyfrifol am eu llywodraethu fod yn system sy'n hwyluso cydweithio a rhwydweithio, ac sy'n galluogi partneriaethau o'r fath i ddatblygu a ffynnu. Bydd cyflawni datblygu cynaliadwy yn y fath fodd yn dod yn fwyfwy amlwg wrth i ni i gyd symud ymlaen gyda'n gilydd.

Felly, mae llawer i'w drafod, ac un mater yw cwestiwn Dafydd Elis-Thomas ynglŷn ag un dynodiad a fydd yn rhan bwysig o'r gwaith a ddisgrifiais. Gwn fod gwahanol safbwyntiau ynglŷn â pha un a fyddai hynny'n fuddiol i Gymru ai peidio. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y ddatl honno. Credaf ei bod yn un bwysig, ac yn agwedd bwysig ar y materion cyffredinol hyn a'r ystyriaeth sydd ei hangen.

- 17:48 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Will the Minister give way? A wnaiff y Gweinidog ildio?
- 17:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Yes, certainly. Gwnaf, yn sicr.
- 17:48 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I am grateful to you for responding to that point. Will your governance review include further public consultation and further evidence on these matters? Diolch i chi am ymateb i'r pwynt hwnnw. A fydd eich adolygiad llywodraethu'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus pellach a thystiolaeth bellach ar y materion hyn?
- 17:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I think that it is important that that is part of the governance review and also, of course, that those most keenly affected in terms of organisations are very much part of that. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i hynny fod yn rhan o'r adolygiad llywodraethu a hefyd, wrth gwrs, fod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf o ran sefydliadau yn rhan bwysig iawn o hynny.

I close by stressing that we all understand that our national parks and our national park authorities must understand our national priorities, Government priorities, and sustainable development in rounded terms, and they must be adaptable and flexible. It is about linking together those national priorities, statutory purposes, and, of course, the local community interest. It is a vital balance that needs to be struck, and it is about how the networks and partnerships can allow that and support it. So, as I said in beginning my response to this short debate, I very much welcome the airing that this has had today. It may be fairly brief, considering the importance of the issues that we face, but it is absolutely vital, I think, that we do flesh out and outline the issues that we are all concerned with, and have this as an important staging post in taking that debate forward. I am sure that it will develop more fully in this Chamber and elsewhere as we move ahead. Diolch yn fawr.

Rwyf am gloi drwy bwysleisio ein bod i gyd yn deall bod yn rhaid i'n parciau cenedlaethol a'n hawdurdodau parciau cenedlaethol ddeall ein blaenoriaethau cenedlaethol, blaenoriaethau Llywodraeth a datblygu cynaliadwy yn ei gyflawnder, ac mae'n rhaid iddynt allu addasu a bod yn hyblyg. Mae'n ymwneud â chysylltu'r blaenoriaethau cenedlaethol, y dibenion statudol, ac wrth gwrs, buddiannau'r gymuned leol. Mae'n gydbwysedd hanfodol sy'n rhaid ei sicrhau ac mae'n ymwneud â sut y gall y rhwydweithiau a'r partneriaethau ganiatáu hynny a'i gefnogi. Felly, fel y dywedais ar ddechrau fy ymateb i'r ddadl fer hon, rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i roi sylw i hyn heddiw. Efallai ei fod yn eithaf byr, o ystyried pwysigrwydd y materion sy'n ein hwynebu, ond mae'n gwbl hanfodol, rwy'n meddwl, ein bod yn rhoi cnawd ar yr esgyrn ac yn amlinellu'r materion rydym oll yn ymwneud â hwy a bod y ddadl hon yn bwynt pwysig ar gyfer symud y ddadl yn ei blaen. Rwy'n siŵr y bydd yn datblygu'n llawnach yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill wrth i ni fwrw ymlaen. Diolch yn fawr.

17:49

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:49.*

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*The meeting ended at 17:49.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)